


Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru:



Dysgu ar gyfer Cyflogaeth





Cynnwys

5. Cydnabyddiaethau
6. Cyflwyniad
7. **Adran 1: Dysgu Dilys**
8. Dyfarniad BSc Seicoleg Gymhwysol (astudiaeth achos G8)
9. Rhaglen Mynediad Meddygaeth i Raddedigion: Cyfleoedd Dysgu yn y Lleoliad Clinigol (LOCS) (astudiaeth achos S1)
11. GBS Chwaraeon (astudiaeth achos G6)
12. Gwella Cyflogadwyedd: astudiaeth achos o ddysgu seiliedig ar waith fel offeryn dysgu cyflenwol (astudiaeth achos CMI 1)
15. Datblygu cymunedau hyfforddi trwy rygbi a phêl-droed (astudiaeth achos G7)
17. Hyrwyddo cyflogadwyedd a rhyngwladoliaeth ar gyfer myfyrwyr leithoedd Tramor Modern: prosiect cydweithredol rhwng Prifysgol Caerdydd ac Ysgol Gyfun Cil-y-Coed (astudiaeth achos C7)
20. Cefnogi Clybiau Cyfrifiadur i Ferched (astudiaeth achos SM9)
21. Gwasanaethau Cwnsela Cymunedol (astudiaeth achos SM1 1)
23. Modiwl Gwirfoddoli Myfyrwyr Ysgol Chwaraeon (astudiaeth achos CM6)
26. Gweithio gyda rhieni: athrawon dan hyfforddiant a'r gymuned (astudiaeth achos N4)
27. Menter Datrys Problemau: Llys Ynadon Aberystwyth (astudiaeth achos A4)
29. Dylunio byw (astudiaeth achos CMI2)
31. Pleserau Anhysbys (astudiaeth achos SM2)
33. Prosiect Seiliedig ar Gynhyrchu (astudiaeth achos SM10)
35. **Adran 2: Ymwbyddiaeth Gyrfaedd a sgiliau ymgeisio**
36. BA (Anrh) Cyflogadwyedd Addysg Casnewydd (astudiaeth achos N5)
37. Cynllun Datblygu Personol mewn Ymarfer Busnes (astudiaeth achos N7)
40. Cynllunio datblygu personol (PDP) myfyrwyr israddedig (astudiaeth achos A6)
41. Rhoi cyflogadwyedd ar y map: defnyddio dysgu ac asesu ar-lein i hyrwyddo datblygu proffesiynol (astudiaeth achos CM5)
43. Gweithgaredd asesu ar gyfer myfyrwyr y flwyddyn olaf yn yr Adran Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff (astudiaeth achos A1)
44. Marchnata, Hyrwyddo ac Arddangos (Cyfadran Celf a Dylunio, Prifysgol Fetropolitan Abertawe) (astudiaeth achos SM5)
46. Cefnogaeth i ymgeisio ar gyfer amser i ffwrdd o astudio academaidd a Rhaglen Bartneriaeth y Brifysgol (mewn partneriaeth â'r ICAEW) (astudiaeth achos C8)
49. Cynllun Blwyddyn Mewn Cyflogaeth (YES) (astudiaeth achos A5)
51. Dyfarniad Caerdydd (astudiaeth achos C1)
53. Dyfarniad Cyflogadwyedd Bangor (BEA) (astudiaeth achos B1)
55. Glam Edge:cyflogadwyedd ym Mhrifysgol Morgannwg (astudiaeth achos G10)

57. **Adran 3: Datblygu priodoleddau graddedigion**
58. CIRIC: Canolfan Ymchwil ac Arloesedd Diwydiannau Creadigol (Cyfadran Celf a Dylunio, Prifysgol Fetropolitan Abertawe) (astudiaeth achos SM7)
60. Adlewyrchu ar Waith Cyngor Cyfreithiol (astudiaeth achos G5)
61. Dyfamiad Datblygu Proffesiynol Lleoliad Gwaith GO Wales (astudiaeth achos A8)
64. Asesiad gwahanol ar gyfer cyflogadwyedd y Clasuron (astudiaeth achos TSD1)
66. Cynllun Datblygu Cymwyseddau (astudiaeth achos C6)
69. Gwerthusiad o'r 'Archwiliad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol' (OSCE) ar gyfer asesu sgiliau clinigol myfyrwr-ddeietegydd (astudiaeth achos CM3)
71. Cefnogi rheolwyr yfory (astudiaeth achos N3)
73. Deallusrwydd seiliedig ar y galon (astudiaeth achos SM12)
75. Technocamps (astudiaeth achos S2)
77. Datblygu sgiliau myfyrion beimiadol mewn addysg Busnes i raddedigion (astudiaeth achos CM1)
79. Tystysgrif Cyflogadwyedd yn yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd (astudiaeth achos C4)
81. Clybiau cyfrifadur i ysgolion (astudiaeth achos N6)
83. **Adran 4: Datblygu arweinyddiaeth a menter**
84. Asesiad cyflwyno neges sylw prosiect (astudiaeth achos A2)
86. Cyflwyno neges sylw ar gyfer cyllid: asesiadau grŵp mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (astudiaeth achos A3)
87. Cysyniadau trothwy a dull astudiaeth achos mewn Busnes a Rheoli (astudiaeth achos CM2)
89. Astudiaethau Proffesiynol (Cyfadran Celf a Dylunio, SMU) (astudiaeth achos SM3)
91. Rhaglen Datblygu Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (astudiaeth achos C9)
93. Rhaglen arweinwyr y dyfodol (astudiaeth achos G9)
95. Byddwch yn fentrus (astudiaeth achos GUI)
97. Menter SMUDGE sialens BBC Plant Mewn Angen (astudiaeth achos SM1)
99. Gwneud effaith (astudiaeth achos G4)
101. Syniadau Disglair (astudiaeth achos N1)
103. Sbardun Menter Gymdeithasol (astudiaeth achos B2)
105. **Adran 5: Ehangu rhwydweithiau proffesiynol**
106. Gŵyl Ddylunio Caerdydd (astudiaeth achos CM13)
109. Arddangosiad ymarfer ac arloesedd ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd (UWIC) (astudiaeth achos CM4)
111. Ymgynghoriaeth Sefydliadol (astudiaeth achos SM8)
112. Prosiect Allanol (Cyfadran Celf a Dylunio, SMU) (astudiaeth achos SM6)
114. Briff Byw: Identica (astudiaeth achos N2)
116. Grŵp prosiect Recriwtio, Cadw a Chyflogi (astudiaeth achos C2)
118. BA/BSc Diwydiannau Creadigol (astudiaeth achos G3)
119. Academi Proffesiynol Network75: galluogi cyflogadwyedd (astudiaeth achos G2)

121. **Adran 6: Adnoddau i gefnogi cyflogadwyedd**
122. Modiwlau addysg gyrfaedd rhyngweithiol e-ddysgu (astudiaeth achos A7)
124. Eich e-fodiwl Gyrfa – cyflwyno ymwybyddiaeth cyflogadwyedd a dysgu sgiliau datblygiad gyrfa ar-lein ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd (astudiaeth achos CM10)
126. Adnodd cyflogadwyedd ar-lein (astudiaeth achos C3)
128. GradSpace: cefnogi pontio a dysgu gydol oes graddedigion Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (astudiaeth achos CM7)
131. SOHCS Gwefan Cyflogaeth Ffisiotherapi (astudiaeth achos C5)
133. Rhwydwaith Brwd am Fwyd Ar-lein Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (astudiaeth achos CM8)
136. Fideogynadledda ar y we i hyrwyddo cyfleoedd dysgu hyblyg mewn Technoleg Ddeintyddol (astudiaeth achos CM9)
138. Triplau maes Olympaidd (astudiaeth achos SM4)
140. Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol i Dde Orllewin Cymru (astudiaeth achos RLP1)

143. Llyfryddiaeth

Cydnabyddiaethau

Hoffai Colleen Connor ddiolch i'r Academi Addysg Uwch am eu cymorth, yn enwedig Helena Lim, Rachel Thomas a Howard Colley. Mae aelodau'r maes gwaith wedi gwneud cyfraniad amhriiadwy i'r trafodaethau ar Ddysgu ar gyfer Cyflogaeth a hyrwyddo'r thema o fewn eu sefydliadau eu hunain. Rydym hefyd yn diolch iddynt am eu hymdrechion o ran casglu amrywiaeth wych o astudiaethau achos. Yn olaf, rhaid diolch i bawb a gyfranodd ar yr astudiaethau achos sydd wedi rhoi eu hamser yn hael ac wedi rhannu eu profiadau.



Cyflwyniad

Mae'r maes gwaith Cyfeiriadau'r Dyfodol 'Dysgu ar gyfer Cyflogaeth' wedu rhannu gwybodaeth ar y nifer o ffyrdd y mae sefydliadau yng Nghymru yn galluogi i raddedigion gaffael priodoleddau cyflogadwyedd ac mae'r astudiaethau achos yn y cyhoeddiad hwn yn enghreifftio'r amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cyfrannu at yr amcan hwn.

Mae'r syniad o gyflogadwydd wedi cael ei drafod gan aelodau'r maes gwaith ac mae'n glir ei fod yn agored i ddehongliad, ond mae'r astudiaethau achos a gasglwyd yn gyffredinol yn cydymffurfio i ddiffiniad a dderbynnir yn eang (Yorke, 2006, p. 8), sy'n dweud mai cyflawniad y "sgiliau, dealltwriaeth a phriodoleddau sy'n gwneud unigolyn yn fwy tebygol o ddiogelu cyflogaeth a bod yn llwyddiannus yn eu galwedigaethau sy'n fanteisiol iddynt hwy eu hunain, i'r gweithlu, y gymuned a'r economi" yw cyflogadwyedd graddedigion.

Mae'r maes gwaith yn derbyn rhyw 70 astudiaeth achos o'r sector addysg uwch. Mae rhai yn fwy manwl nag eraill, ond mae gan bob un bwynt cyswllt ag enw ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth am fenter benodol. Mae'r achosion yn darparu tystiolaeth sylweddol o arfer da sy'n digwydd o fewn sefydliadau yng Nghymru a'r ffyrdd amrywiol y mae staff prifysgol yn brwydro â 'Dysgu ar gyfer Cyflogaeth'.

Fodd bynnag mae'r astudiaethau hyn yn cynrychioli dechrau'r posibiladau yn unig, ac o drafodaethau'r maes gwaith mae'n glir mai sampl yn unig ydynt o'r amrywiaeth o ymarferion Dysgu ar gyfer Cyflogaeth sy'n bodoli o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru.

Mae nifer o'r achosion yn dangos tebygrwyddau o ran dull gweithio ac mae rhai yn enghreifftio mentrau sector-eang. Maent yn dangos bod y dull gwaith o Ddysgu ar gyfer Cyflogaeth yn digwydd mewn amrywiaeth eang o feysydd disgyblaeth, ac nid yn unig mewn rhaglenni galwedigaethol. Gyda'i gilydd maent yn rhoi mewnwelediad i ddulliau gwaith presennol o ran datblygu cyflogadwyedd ac, yn ychwanegol, i rannu arfer da'r achosion sydd mor werthfawr; ac hefyd maent yn cynnig man cychwyn i ystyried datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Er bod pob astudiaeth achos yn cwmpasu nifer o faterion maent wedi cael eu rhannu'n chwe adran yn y cyhoeddiad hwn. Mae pob adran yn mynd i'r afael â thema arbennig o berthnasol sydd wedi cael ei thrafod o fewn y maes gwaith, a defnyddir yr astudiaethau i enghreifftio agweddau o'r thema honno.

Themâu'r adrannau yw:

- dysgu dilys;
- ymwybyddiaeth gyrfaoedd a sgiliau ymgeisio mewn cwrwclwla;
- datblygu priodoleddau graddedigion;
- datblygu arweinyddiaeth a menter;
- ehangu rhwydweithiau proffesiyno;
- adnoddau i gefnogi cyflogadwyedd.

Rwyf yn sicr bod yr enghreifftiau a ddarperir gan yr achosion y rhoi digon o ddeunyddiau i chi eu hystyried o ran cyfeiriad Dysgu ar gyfer Cyflogaeth yn y dyfodol.

Dr Colleen Connor
Arweinydd maes gwaith Dysgu ar gyfer Cyflogaeth
Deon Dysgu ac Addysgu, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd



Adran 1: Dysgu Dilys

Tra bod nodweddion dysgu dilys wedi cael eu trafod yn y llenyddiaeth (Reeves, Herrington ac Oliver, 2002), mae Rule (2006) yn gweld dysgu dilys fel mewngapsiweiddio problemau'r byd gwirioneddol; sgiliau ymholi a meddwl penagored; sgwrsio rhwng cymuned o ddysgwyr; a dysgu hunangyfeiriedig. Mae gweithgareddau dilys yn berthnasol yn y byd gwirioneddol ac yn cydynd yn agos â thasgau pobl broffesiynol yn ymarferol – yn hytrach na bod yn amherthnasol yn eu cyd-destun. Darparu myfyrwyr â chyfleoedd dysgu sy'n 'ddilys' ac sydd felly yn gwella eu capasiti i weithredu ym myd gwaith yw nod llawer o'r ymarferion yn yr astudiaethau achos a dderbyniwyd. Felly, er enghraifft, ceir ymgymryd â 'gweithgareddau sy'n nodweddiadol o'r swydd' a datrys 'problemau'r byd gwirioneddol' eu hamlygu fel ffocws y modiwlau hynny a ddarperir ar gyfer myfyrwyr Seicoleg yn astudiaeth G8.

Mae'r astudiaethau achos yn yr adran hon yn arddangos yn glir yr amrywiaeth o ffyrdd y gellir cyflawni dilysrwydd, a manteision dull gwaith fel hyn o ran paratoi myfyrwyr ar gyfer cyflogaeth. Mae rhai o'r profiadau dysgu dilys hyn yn digwydd mewn cyd-destun gwaith fel rhan o gyfle lleoliad. Mae dysgu ar leoliad fel hyn mewn cyd-destun clinigol yn hanfodol i fenter LOCS (astudiaeth S1). Mae'r "...sesiynau dysgu trwy brofiad byr; hunangyfeiriedig hyn..." yn caniatáu i fyfyrwyr meddygol i ymgysylltu'n uniongyrchol â'u cwrs a dysgu'n uniongyrchol gan feddygon wrth iddynt weithio.

Mae nifer o'r mentrau lleoliad hyn fanteisiol i'r gymuned hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys y rheiny lle bo angen i fyfyrwyr gyflenwi sesiynau chwaraeon mewn ysgolion a chlybiau lleol (astudiaeth G6), Academi Pêl-fasged Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a graddau sylfaen Rygbi a Phêl-droed Morgannwg sy'n darparu hyfforddiant i blant lleol (astudiaeth CM11 a G7), menter ar gyfer myfyrwyr leithoedd Tramor Modern i weithio gyda disgyblion ysgolion uwchradd (astudiaeth C7) a'r enghraifft o fyfyrwyr Cyfrifiadureg yn cefnogi'r rhaglen 'Clybiau Cyfrifiadura i Ferched' (astudiaeth SM9).

Mae'r darpariaeth o Wasanaeth Cwnsela yn y Gymuned (astudiaeth SM11) yn cynnig cwnsela rhad ac am ddim i aelodau o'r gymuned a phrofiad gwerthfawr i fyfyrwyr. Mae modiwlau gwirfoddoli generig, fel yr un a ddefnyddir yng nghyd-destun Chwaraeon (astudiaeth CM6), hefyd yn gwneud cyfraniad arbennig o ran datblygu sgiliau myfyrwyr a chyfrannu at y gymuned ble mae'r brifysgol wedi'i lleoli.

Wrth gwrs, bydd gan y mwyafrif o raglenni proffesiynol elfen leoliad, ond mae'r astudiaethau achos hyn yn arddangos bod llawer o raglenni nad ydynt wedi'u hachredu'n broffesiynol hefyd yn ceisio darparu myfyrwyr â phrofiadau amhrisiadwy fel hyn. Yn ychwanegol, gall rhaglenni proffesiynol ddefnyddio lleoliadau gwahanol er mwyn datblygu dealltwriaeth a sgiliau ehangach, fel y mae'r astudiaeth achos 'Gweithio gyda rhieni' (astudiaeth N4) ar hyfforddiant cychwynnol athrawon yn dangos. Caiff rhaglen Blas ar Waith GO Wales (<http://www.gowales.co.uk/>) ei henghreffio hefyd, yn y 'Fenter Datrys Problemau' (astudiaeth A4) ble mae myfyrwyr yn ymwneud â gwaith y llys ynadon lleol.

Mae dysgu dilys yn aml yn caniatáu dysgu cydweithredol. Mae astudiaeth CM12 yn enghraifft o hyn, ble mae grwpiau o fyfyrwyr yn cael eu rhoi mewn cyswllt uniongyrchol â darpar-gyflogwyr trwy fyfyrwyr yn gweithio gyda cwmnïau mentora

ac ail-greu "...y profiad o is-gynllunydd mewn stiwdio...". Mae'r fenter 'Pleserau Anhysbys' (astudiaeth SM2) yn ymgysylltu myfyrwyr mewn rolau theatr proffesiynol ac yn darparu'r cyfle i weithio gydag ymarferwyr sefydledig ac mae'r 'Prosiect Seliedig ar Gynhyrchu' (astudiaeth SM10) yn gofyn i fyfyrwyr gysylltu â phartneriaid allanol er mwyn datblygu a chynhyrchu datrysiad arloesol i her gynhyrchu penodol.

Mae chwarae-rôl a dynwared mewn amgylchedd heb risg â chefnogaeth yn ffordd arall o ddarparu profiadau dysgu dilys, a cheir enghreifftiau o hyn mewn llawer o'r astudiaethau achos sy'n anelu at ddatblygu arweinyddiaeth a menter yn Adran 4.

Dyfarniad BSc Seicoleg Gymhwysol

(astudiaeth achos G8)

Enw Cyswllt: Dave Tee
Ebost: dtee@glam.ac.uk
Ffôn: (01443) 483317
Sefydliad: Prifysgol Morgannwg
Cyfeiriad: Pontypridd, CF37 1DL

Geiriau allweddol: seicoleg, cymhwysedd, ymyrraeth.

Nod:

Cafodd y dyfarniad hwn ei dargedu i gynyddu cyflogadwyedd myfyrwyr sy'n ystyried gyrfa mewn seicoleg. Mae'n cydfynd â'r wybodaeth sydd angen ar lefel gradd gyda modiwlau penodol wedi'u dylunio er mwyn cyflwyno setiau o sgiliau a rhoi profiad ymarferol i'r myfyrwyr o ddefnyddio'r cylch ymgynghoriaeth mewn cyd-destun ymyrraethau gwirioneddol.

Disgrifiad/dull:

Mae gan fodiwl blwyddyn-gyntaf weithdai hanner-diwrnod wythnosol, sy'n archwilio pob un o'r llwybrau gyrfa mewn seicoleg gymhwysol a rhoi cyfle i'r myfyrwyr ymgymryd â gweithgareddau sy'n nodweddiadol i'r swydd. Yn yr ail flwyddyn, mae modiwl gorfodol yn edrych ar broffil cymhwysedd Cymdeithas Seicolegol Prydain ar gyfer seicolegwyr cymhwysol, gan roi profiad iddynt mewn tasgau ymgynghoriaeth allweddol, fel nodi anghenion y cleient, cynllunio prosiectau, dylunio a gweithredu datrysiadau y gellir eu hamddiffyn a gwerthuso effaith. Mae myfyrwyr hefyd yn cael y cyfle i wneud modiwl lleoliad gwaith, ble maent yn ymgysylltu ag ymarfer myfyriol ar sut y gellir gweithredu seicoleg mewn ffordd sy'n fanteisiol i'w hamgylchedd gwaith eu hunain. Yn y drydedd flwyddyn, rhaid i fyfyrwyr wneud ymyrraeth yn y byd gwirioneddol am flwyddyn, gan rhoi eu dysgu ar waith a chael profiad gwirioneddol o ymgymryd ag angen dilys.

Deilliannau a Ragwelir:

Dylai'r wybodaeth, sgiliau a phrofiad y mae'r myfyrwyr yn caffael o ran rhoi seicoleg ar waith wrth ddatrys problemau gwirioneddol roi mantais iddynt o ran eu rhagolygon cyflogaeth ar draws amrywiaeth eang o yrfaedd, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â delio gyda phobl.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Gallwn bwyntio at dystiolaeth o'r manteision a gyflawnwyd yn ystod prosiectau ymyrraeth y drydedd flwyddyn.

Myfyrddod/effaith:

Mae'r adborth o raddedigion yn cadarnhau eu bod yn ei chael yn waith caled, ond yn gwerthfawrogi'r profiad, dysgu a sgiliau a gynhyrchwyd iddynt. Hyd yn oed mewn perthynas â mantais academaidd, mae eu 'ymyrraeth fach' peilot ym Mlwyddyn 2 yn rhoi profiad cynnar iddynt o orfod cynhyrchu cynigion pwyllgor moeseg, sydd yn rhoi mantais iddynt dros fyfyrwyr eraill o ran eu traethawd hir yn y drydedd flwyddyn. O ran sgiliau cyflogadwyedd, yr ymadrodd safonol y mae pob carfan yn sicr o'i ddweud yw 'Mae hyn yn ddefnyddiol iawn. Dylai hyn gael ei addysgu i bawb.'

Rhaglen Mynediad Meddygaeth i Raddedigion: Cyfleoedd

Dysgu yn y Lleoliad Clinigol (LOCS)

(astudiaeth achos S1)

Enwau Cyswllt: Dr Phil Newton, Professor Judy McKimm
Ebost: p.newton@swansea.ac.uk, j.mckimm@swansea.ac.uk
Ffôn: 01792 602173
Sefydliad: Coleg Meddygaeth, Prifysgol Abertawe
Cyfeiriad: Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP

Geiriau Allweddol, meddygon, meddygaeth, dysgu trwy brofiad, dysgu ar leoliad, Cyfleoedd Dysgu yn y Lleoliad Clinigol(LOCS).

Sut y cyflwynwyd y fenter:

O fewn y Coleg Meddygaeth mae Meddygaeth yn gymhwyster galwedigaethol, ond roedd cwricwla meddygol traddodiadol yn cyfyngu ar agwedd alwedigaethol blynyddoedd diweddarach y cwrs. Mae gan raglen Mynediad Meddygaeth i Raddedigion (GEM) Abertawe gwricwlwm arloesol sy'n seiliedig ar arfer da presennol mewn addysg, yn cynnwys dysgu ar leoliad (Lave and Wenger, 1991); y ffordd orau o ddysgu fod yn feddyg yw drwy wneud beth y mae meddyg yn ei wneud, ble y mae meddyg yn ei wneud. Mae 'Cyfleoedd Dysgu yn y Lleoliad Clinigol' (LOCS) yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr wneud hyn o ddechrau'r cwricwlwm.

Lave, J. a Wenger, E. (1991) Situated learning: legitimate peripheral participation. Cambridge: Cambridge University Press.

Nod:

I hwyluso dysgu trwy brofiad, hunangyfeiriedig o ddechrau cwricwlwm meddygol.

Disgrifiad/Dull:

Mae Meddygaeth yn raglen gradd galwedigaethol, a bydd y mwyafrif o raddedigion yn y DU yn gweithio yn y GIG ar ôl graddio, ac yn sicr o gael swydd. Dylai 'Dysgu ar gyfer Cyflogaeth' felly fod yn sylfaenol. Hyd at y 1990au hwyr, roedd cwricwla ysgolion meddygol traddodiadol yn y Deyrnas Unedig (ac yn rhyngwladol) yn ymwneud â myfyrwyr; a oedd wedi gadael yr ysgol fel arfer; yn ymgysylltu â rhyw ddwy flynedd o ddarlithoedd a gweithgareddau ymarferol yn y gwyddorau sylfaenol cyn ymgysylltu'n llawn â thua tair blynedd o leoliadau clinigol. Ers hynny, mae ton o ddiwygiocwricwlwm, wedi'i harwain yn y DU gan yr Adran Iechyd a'r corff rheoleiddio (Cyngor Meddygol Cyffredinol) wedi gofyn i ysgolion meddygol roi cwricwla mwy integredig ar waith, wedi'u dylunio'n nodweddiadol fel cwricwlwm sbiral (Davis a

Harden, 2003), gyda phrofiad clinigol cynnar, cyfleoedd ar gyfer dysgu hunangyfeiriedig (trwy gydrannau a ddevisir gan fyfyrwyr) a gyda dysgu wedi'i leoli'n fwy penodol yn y cyd-destun clinigol. Mae'r cwricwlwm yn Abertawe wedi ymgorffori'r nodweddion uchod. Mae'n rhaglen bedair-blynedd, mynediad i raddedigion sy'n agored i fyfyrwyr o unrhyw gefndir academaidd (Rapport et al., 2009). Nodwedd hanfodol yw profiad clinigol cynnar, aml ac integredig, a gyflawnir drwy nifer o lwybrau, yn cynnwys LOCS, sesiynau byr (tair i bedair-awr) o ddysgu trwy brofiad hunangyfeiriedig, ble mae disgwyl i fyfyrwyr ymgysylltu o ddechrau'r flwyddyn gyntaf er mwyn cyfateb â phreintiaethau clinigol mwy o hyd a dysgu seiliedig yn y Brifysgol.

Mae dros 900 o LOCS ar gael, sy'n cwmpasu'r profiad gofal iechyd cyfan ac yn cynnwys gweithgareddau a lleoliadau mor amrywiol â meddygfeydd, sesiynau damwain ac argyfwng, practis Meddyg Teulu, gofal iechyd yn y gymuned, carchardai a chanolfannau camddefnyddio cyffuriau. Mae myfyrwyr yn dysgu'n uniongyrchol o'r clinigwyr sy'n goruchwyllo 'wrth eu gwaith'. Mae amddiffyniadau diogelu priodol yn eu lle i sicrhau diogelwch claf a myfyriwr: Mae disgwyl i fyfyrwyr allu cymryd cyfrifoldeb ar gyfer cwblhau o leiaf 20 LOCS yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen. Mae cymryd cyfrifoldeb dros ddysgu yn ffurfio rhan o dysgu gydol oes mewn meddygaeth, sgil allweddol a phriodoledd ar gyfer cyflogadwyedd. Gall myfyrwyr archebu lle ar LOCS o wythnos gyntaf y rhaglen (yn amodol ar ganiatâd rheoleiddiol). Rhaid cwblhau nifer fach o LOCS mewn meysydd penodol o feddygaeth, ond ar wahân i'r rhain mae myfyrwyr yn rhydd i ddewis y meysydd blaie mae eu LOCS yn cael eu cwblhau, gan ganiatáu iddynt archwilio meysydd o ymarfer sydd o ddiddordeb iddynt a/neu i deilwra eu dysgu trwy brofiad i'w haddysgu seiliedig yn y Brifysgol.

Davis, M.H. a Harden, R.M. (2003) Planning and implementing an undergraduate medical curriculum: the lessons learned. *Medical Teacher*. 25, 596-608.

Rapport, F. et al. (2009) What influences student experience of Graduate Entry Medicine? Qualitative findings from Swansea School of Medicine. *Medical Teacher*; 31 (12), e580-e585.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae LOCS yn caniatáu i fyfyrwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â'r amgylchedd clinigol o ddechrau eu gyrfa ysgol meddygol. Mae hyn yn eu caniatáu i roi eu dysgu mewn cyd-destun o'r dechrau, cyfranogi mewn ymarfer clinigol mewn ffordd ddiogel a phriodol ac yn eu hannog i ddatblygu fel meddygon cymwys a hyderus.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae adborth gan fyfyrwyr, athrawon a chleifion wedi bod yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol (Noor et al., 2011). Mae'r effeithiau cadarnhaol yn cynnwys y gallu i integreiddio deunyddiau gwyddonol sylfaenol y cwrs i ymarfer clinigol pob-dydd a datblygiad sgiliau clinigol ymarferol o gamau cynnar iawn y rhaglen.

Noor, S., Batra, S. and Byrne, A. (2011) Learning opportunities in the clinical setting (LOCS) for medical students: A novel approach. *Medical Teacher*. 33(4), e193-e198.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r cwricwlwm GEM yn Abertawe yn fenter gymharol ddiweddar ac felly mae'n anodd iawn ar hyn o bryd i wybod beth yn union yw effaith LOCS ar 'Ddysgu ar gyfer Cyflogaeth'. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr adborth hyd yn hyn yn awgrymu eu bod yn ffordd werthfawr o gael myfyrwyr i ryngweithio gyda gweithle eu dyfodol a dechrau teimlo'n rhan o'r gweithlu meddygol a'r 'gymuned ymarfer' o ddechrau eu cwricwlwm Prifysgol.

GBS Chwaraeon

(astudiaeth achos G6)

Enw Cyswllt: Rob Griffiths

Ebost: rgriff12@glam.ac.uk

Ffôn: 01443 482502

Sefydliad: Prifysgol Morgannwg

Cyfeiriad: Pontypridd CF37 1DL

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, dysgu seiliedig ar waith, sgiliau galwedigaethol, dysgu trwy brofiad.

Nod:

Datblygwyd y modiwl fel rhan o ddull gweithio blaengar i fewnblannu cyflogadwyedd yn y dyfarniadau BA Datblygu Chwaraeon a BA Rheoli Chwaraeon. Roedd integreiddio lleoliadau yn y gymuned o fewn y rhaglenni yn caniatáu i raddedigion ddatblygu sgiliau galwedigaethol ac yn helpu iddynt fynd i'r afael â'r heriau lleol a chenedlaethol a amlinellir gan Lywodraeth Cymru.

Disgrifiad/Dull:

Mae myfyrwyr yn treulio eu blwyddyn gyntaf yn datblygu'r sgiliau sydd angen i weithio yn y gymuned. Er mwyn gwella sicrhau ansawdd, mae myfyrwyr hefyd yn cwblhau nifer o ddyfarniadau hyfforddi a gydnabyddir yn genedlaethol mewn amrywiaeth o chwaraeon. Mae nifer o fodiwlau seiliedig yn y gymuned wedi'u mewnbllannu yn yr ail a'r drydedd flwyddyn sy'n gofyn i fyfyrwyr gyflenwi sesiynau chwaraeon a threfnu clybiau chwaraeon. Mae myfyrwyr yn treulio 15 wythnos yn ystod yr ail flwyddyn yn rhedeg Clybiau Chwaraeon y Ddraig mewn ysgolion cynradd lleol ac 20 wythnos yn eu blwyddyn olaf yn trefnu clybiau ar-ôl-ysgol mewn ysgolion uwchradd fel rhan o'r rhaglen genedlaethol 5x60. Mae'r ffocws ar greu profiad llawn mwynhad, sy'n ddiogel a chadarnhaol ar gyfer y plant, yn y gobaith o arwain at blant yn parhau â chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn eu hoedolaeth.

Yn dilyn cyflwyniad modiwl cyflogadwyedd a datblygu proffesiynol newydd ym mis Medi 2010, mae gan fyfyrwyr yn awr gyfle i wneud lleoliad un diwrnod yr wythnos am flwyddyn yn eu blwyddyn olaf mewn chwaraeon a rolau cysylltiedig â digwyddiadau. Gan adeiladu ar y modiwlau cynharach a ddisgrifiwyd eisoes, mae angen i fyfyrwyr gadw dyddiadur myfyriol o'u profiad wrth fynd i'r afael â phrosiect arwahanol neu rôl ddiffiniedig ar gyfer sefydliad eu lleoliad. Rhaid iddynt wedyn gyflwyno adroddiad rheoli i'r cyflogwr ar ddiwedd y lleoliad, a ddiffinir gan y cyflogwr er mwyn ateb eu hamcanion penodol.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae myfyrwyr yn perfformio rolau pwrpasol sydd wedi'u dylunio'n dda i gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol i sefydliad y cyflogwr. Ar yr un pryd maent yn tansellio agweddau damcaniaethol o'u cwrs, gan ennill profiad amhrisiadwy a manteisio o gyfleoedd rhwydweithio gwych.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr a sefydliadau partner gydag un myfyriwr yn cael cynnig cyflogaeth barhaol.

Myfyrdod/effaith:

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r modiwl a gwella partneriaethau gyda sefydliadau cyflogwyr.

Gwella Cyflogadwyedd: astudiaeth achos o ddysgu seiliedig ar waith fel offeryn dysgu cyflenwol

(astudiaeth achos CMI 1)

Enw Cyswllt: Lucy Power
E-bost: LPower@cardiffmetropolitan.ac.uk
Ffôn: 02920 416588
Sefydliad: Cardiff Metropolitan University
Cyfeiriad: Cyncoed Campus, Cyncoed Road, Cardiff, CF23 6XD

Geiriau allweddol: dysgu seiliedig ar waith, gwella cyflogadwyedd, dysgu cyflenwol, hyfforddi.

Nod:

I gynnal peilot o gyfle ar gyfer dysgu seiliedig ar waith yn Academi Pêl Fasged Prifysgol Fetropolitan Caerdydd fel profiad dysgu cyflenwol i'r modiwl hyfforddi Lefel 2 (Technegau a Dadansoddi Chwaraeon) a datblygu sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr.

Disgrifiad/Dull:

Yn yr hinsawdd economaidd presennol mae'r farchnad swyddi i raddedigion yn dod yn fwy a mwy cystadleuol. Mae myfyrwyr, prifysgolion a chyflogwyr yn cydnabod nad yw gradd yn unig yn ddigon. Mae angen i raddedigion heddiw ddarparu tystiolaeth o brofiad gwaith gwirioneddol, ymarferol a rhagweithiol er mwyn cystadlu yn y gweithle. Roedd arweinydd y modiwl yn Reolwr Hyfforddi Pêl Fasged Cymru (Corff Llywodraethu Chwaraeon), yn aseswr ar gyfer cymhwyster hyfforddi'r cyrff llywodraethu, ac hefyd yn Gyfarwyddwr Academi Pêl Fasged Iau Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, ac roedd hyn i gyd yn ei alluogi i ddarparu cyle unigryw i'r myfyrwyr gyflawni cymhwysterau hyfforddi. Roedd mynediad i'r deunyddiau adnodd mwyaf diweddar ac arloesol a oedd yn perthyn i'r modiwlau hefyd ar gael (h.y. cynnwys technegol sy'n benodol i chwaraeon a phedagogeg hyfforddi) a'r cyfle i ymgysylltu myfyrwyr mewn statws presennol a gwirioneddol.

Mae Academi Pêl Fasged Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn cynnwys plant o'r gymuned leol sy'n mynychu sesiynau wythnosol, dan hyfforddiant myfyrwyr ar y rhaglenni gradd israddedig chwaraeon yn bennaf. Mae rhai myfyrwyr lefel-Feistr a graddedigion hefyd yn ymddwyn fel uwch-hyfforddwyr ac yn mentora hyfforddwyr newydd. Rhoddwyd cyfle i'r myfyrwyr a oedd yn ymgymryd â'r modiwl hyfforddi Lefel 2, Technegau a Dadansoddi Chwaraeon - Pêl Fasged, i wneud eu cymhwyster hyfforddi drwy'r Academi.

Adlewyrchwyd cymwysterau'r diwydiant a disgygliadau cyflogwyr yn y sector chwaraeon o ran cymhwysedd gan ddeilliannau'r modiwl, sydd â dau faes ar ei lefel sylfaen – 'Beth' i hyfforddi a 'Sut' i hyfforddi, gan rhoi damcaniaeth ar waith yn ymarferol. Cyflewyd diddordeb gan saith o fyfyrwyr mewn ymgymryd â hyfforddi gyda thimau'r Academi a rhoi'r modiwl seiliedig ar ddamcaniaeth ar waith yn ymarferol. Er mwyn i'r myfyrwyr ddeall y dull dysgu seiliedig ar waith a ddefnyddiwyd, cyflwynwyd rhestr chwe-phwynt o egwyddorion dysgu seiliedig ar waith o ansawdd iddynt gydag eglurhad o sut y bydd rhain yn cael eu hymgorffori yn eu profiad.

Crewyd fframwaith hyblyg i'r myfyrwyr ddatblygu elfennau o gyflogadwyedd trwy gymysgedd cyflenwol o gyflenwad modiwl a phrofiad seiliedig ar waith. Dangosir gweithrediad ymarferol o'r fframwaith o ran dysgu'r myfyrwyr a'r cylch dysgu trwy brofiad isod.

Darlith– 'Sut' a 'Beth'

Sesiwn hyfforddiant Academi – cynllunio(gan ystyried gwybodaeth a sgiliau a ddatblygwyd yn ddiweddar o'r ddarlith); cyflenwi a gweithredu (gydag anogaeth i arbrofi gyda dealltwriaeth a sgiliau newydd); gwerthuso a myfyrio (sgiliau hunan-werthuso a ddysgwyd yn y ddarlith hyfforddi, sgiliau myfyrio a ddysgwyd yn PDP a Dulliau Ymchwil). Gadawyd fformat y myfyrio a'r gwerthuso i ddewis personol.

Darlith – rhoi'r sgiliau a ddatblygwyd ar waith mewn bywyd gwirioneddol (Academi); tasgau senario i asesiad ffurfiannol o fewn y ddarlith; adborth cyfoedion; rhannu profiadau gyda chyfoedion; mwy o 'Sut' a 'Beth'.

Sesiwn hyfforddiant Academi – proses 'cynllunio-gwneud-adolygu' a gefnogir yn barhaus gan ddarlithiau a'r profiad hyfforddi, cynnwys a myfyrio.

Cylch yn parhau tan asesied crynodol diwedd y modiwl, a oedd yn cynnwys cyflenwad hyfforddi ymarferol cyfoedion a hunan-asesedig gyda llyfr gwaith cefnogol.

Deilliannau a Ragwelir:

- datblygiad cynyddol o sgiliau y tu hwnt i ddarlithoedd yn unig;
- parodrwydd a mwy o hyder ar gyfer ymarfer;
- cyflogadwyedd yn cael ei mewnbllannu o fewn y cwricwlwm;
- cynnydd cyflogadwyedd.
- Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Arddangoswyd cynnydd mewn potensial cyflogadwyedd y myfyrwyr a oedd yn ymwneud â'r astudiaeth hon gan y model USEM a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r canlyniadau a thrafod canlyniadau, ac a gefnogwyd gan yr ymatebion data cadarnhaol.

Dealltwriaeth: Roedd y myfyrwyr i gyd yn cydnabod bod eu gwybodaeth o'r pwnc wedi gwella, ond roedd hyn yn y maes 'Sut' yn fwy na'r maes 'Beth'. Ar y cyfan, roeddent yn teimlo eu bod wedi dysgu mwy drwy allu rhoi'r dysgu darlith ar waith yng Nghyd-destun yr Academi (gyda rhai yn gwneud mwy o ymdrech i wneud hyn nag eraill), ac felly deall cynnwys y ddarlith ar lefel ddyfnach oherwydd eu profiad Academi.

Sgiliau: Nodwyd gan arsylwadau cychwynnol y tiwtor yn y ddarlith bod hyder y myfyrwyr wedi cynyddu wrth iddynt arddangos sgiliau hyfforddi symlach, a bod newid mawr yn eu bodlondeb i weithredu sgiliau mwy cymhleth gyda'u cyfoedion (rhai yn fwy nag eraill) ac yn ystod sesiynau'r Academi. Roedd adborth a gwerthuso ôl-sesiwn gan gyfoedion yn cadarnhau'r arsylwadau hyn.

Effeithiolrwydd: Roedd sesiadau ymarfer rheolaidd yn ffurfio rhan fawr o'r cwricwlwm darlithio. Roedd myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r profiadau hyn ac amrywiaeth yr adborth a'r gwerthuso a oedd yn mynd gyda nhw. Roeddent yn teimlo ei fod yn rhoi cyfle iddynt berffeithio eu sgiliau mewn amgylchedd ymarferol ac yn eu paratoi yn well ar gyfer eu hyfforddi Academi a'u hasesiad terfynol wedi'i farcio.

Metawybyddiaeth: Mae amser ar gyfer ac ymwybyddiaeth o feddwl, myfyrio a chynllunio strategol wedi eu cydnabod yn barod dan 'Effeithiolrwydd' ac wedi'u hymgorffori mewn sefyllfaoedd adborth a thrafod anffurfiol ac ymarfer da'r Academi. Cefnogwyd ymgysylltiad y myfyrwyr yn y prosesau hyn hefyd gan fyfyrion eu llyfrau gwaith.

Yn ychwanegol, dilynwyd cymwysterau cysylltiedig â hyfforddiant y diwydiant gan bob myfyriwr yn yr astudiaeth hon. Daeth pump o fyfyrwyr yn hyfforddwr achrededig gyda'r awdurdod lleol. Daeth tri o fyfyrwyr yn hyfforddwr gweithredol mewn ysgolion lleol. Cyflogwyd pedwar o fyfyrwyr gan ddarparu'r gweithgareddau hyfforddi ar gynlluniau Pasg. Cyflogwyd pob un o'r saith hyfforddwr gan Gyfarwyddwr yr Academi yn ystod y tymor wedyn.

Myfyrdod/effaith:

Roedd y myfyrwyr eu hunain yn credu bod eu dealltwriaeth o'r maes pwnc wedi gwella y tu hwnt i'r disgwyliadau arferol o ymgysylltu â modiwl fel hyn, a bod hyn oherwydd eu cyfle i rhoi eu gwybodeth ar waith yng nghyd-destun yr Academi. Canlyniad ychwanegol oedd y mantais i fyfyrwyr eraill (nad oedd yn ymwneud â'r astudiaeth) a oedd yn cael eu cefnogi a'u dysgu yn ddigymell gan y myfyrwyr hyn yn ystod y darlithoedd, gan arddangos effeithiolrwydd cynyddol a pherchnogaeth o'r broses. Roedd y ffaith eu bod yn mynd ati i chwilio am ragor wybodaeth yn annibynnol hefyd yn dystiolaeth o hyn.

Roedd myfyrwyr hefyd yn nodi hyder a chymhwysedd cynyddol, oherwydd y profiad bywyd gwirioneddol ychwanegol. Roeddent yn cyfeirio at allu 'datblygu'n fwy' oherwydd hyfforddiant yr Academi, a'r teimlad bod y cyfle ychwanegol a rheolaidd i hyfforddi yn golygu eu bod yn cofio'r wybodaeth a'r theori am fwy o amser ac yn eu deall yn well. Pan fesurwyd y profiadau cyflenwol, y darlithio seiliedig ar ymarfer a dysgu seiliedig ar waith yn erbyn y model USEM, daeth staff a myfyrwyr i'r casgliad eu bod yn llwyddiannus o ran gwella cyflogadwyedd myfyrwyr. Fel ymarferwyr a darparwyr addysg cyfrifol, ni allwn anwybyddu'r negeseuon gan ein partneriaid ym maes addysg, diwydiant a'r llywodraeth i adolygu ein cyrsiau a gwella cyflogadwyedd myfyrwyr. Ystyrir yr egwyddorion a'r strwythurau sylfaenol a amlinellir yn yr astudiaeth hon yn deilwng o archwilio pellach gyda'r bwriad o ehangu'r cyfle i fwy o fyfyrwyr.

Datblygu cymunedau hyfforddi trwy rygbi a pêl-droed

(astudiaeth achos G7)

Enw Cyswllt: Paul Rainer
Ebost: prainer@glam.ac.uk
Ffôn: 01443 483632
Sefydiad: Prifysgol Morgannwg
Cyfeiriad: Prifysgol Morgannwg, Campws Glyntaf

Geiriau allweddol: gradd sylfaen, hyfforddi pêl-droed a rygbi, Dringo'n Uwch, Cynllun Hyfforddiant i Gymru.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Mae nifer o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith sy'n bodoli o fewn graddau israddedig yr Adran Chwaraeon, Iechyd a Gwyddoniaeth Ymarfer Corff. Y brif un sy'n bodoli yw'r modiwl triphlyg seiliedig ar waith o fewn y Gradd Sylfaen Hyfforddiant Rygbi a'r Gradd Sylfaen Hyfforddiant a Pherfformiad Pêl-droed. Mae'r ddau modiwl 60-credyd hwn yn benodol i'r rhaglenni gradd sylfaen.

Nod:

Nod y modiwlau dysgu seiliedig ar waith hyn yw cefnogi canllawiau clir a amlygir o fewn Dringo'n Uwch a'r Cynllun Hyfforddiant i Gymru, er mwyn cynyddu'r nifer o blant ifanc sy'n gorfforol weithredol yng Nghymru, a darparu hyfforddiant chwaraeon i gefnogi hyn.

Disgrifiad/Dull:

Caiff myfyrwyr eu hadleoli o fewn Blwyddyn 1 a 2 o'u rhaglenni gradd sylfaen a chânt eu lleoli gyda nifer o sefydliadau sy'n cynnwys Gleision Caerdydd, Dreigiau Gwent, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd a Chlwb Pêl-droed Dinas Abertawe ac awdurdodau lleol o fewn Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Merthyr. Yn dibynnu ar gallu'r myfyriwr, mae cyfle i'r myfyriwr gefnogi darpariaeth hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd sy'n cynnwys: merched, anabledau, perfformiad a datblygu talent.

Deilliannau a Ragwelir:

Y deilliannau a ragwelir yw i gefnogi'r darpariaeth ar gyfer datblygu hyfforddwyr o ansawdd uchel yng Nghymru a hwyluso'r cyfle ar gyfer mwy o blant ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon a bod yn gorfforol weithredol. Yn ychwanegol, mae'r rhaglenni gradd sylfaen yn cefnogi deilliannau datblygiadol Sports Coach UK, i gynyddu cyfleoedd cyflogadwyedd hyfforddwyr o fewn rhaglenni israddedig addysg uwch gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu darparu â'r sgiliau allweddol i'w caniatáu i fod yn goflogadwy yn y dyfodol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol: Mae'r cyfle cyflogadwyedd i fyfyrwyr wedi'i gydnabod gan gyrsiau gradd sylfaen yn cael eu cymeradwyo gan Sports Coach UK (SCUK); Morgannwg yw un o dim ond pump o sefydliadau yn y DU sydd wedi cael cefnogaeth. Mae hyn wedi arddangos bod y cyrsiau a gynigir a'r cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith o fewn y rhain yn ateb y meini prawf a sefydlwyd gan SCUK ar gyfer datblygu ac adleoli hyfforddwyr. Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Undeb Rygbi Cymru wedi cydnabod y cynnydd mewn cyfleoedd i blant ifanc fod yn gorfforol weithredol trwy bêl-droed a rygbi yn enwedig yn awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Chaerffili.

Mae hyn wedi bod yn arwydd o adleoli myfyrwyr o'r Brifysgol a'u mewnbwn a chyfranogiad i'r rhaglenni hyn. Mae nifer o fyfyrwyr o'r rhaglenni gradd sylfaen Pêl-droed a Rygbi wedi llwyddo i gael cyflogaeth yn yr ardal leol a Chymru, yn hyfforddi a chefnogi targedau Dringo'n Uwch.

Myfyrddod/effaith:

Mae llwyddiant y graddau sylfaen o ran darparu cyfle i fyfyrwyr gael profiad hyfforddi 'bywyd gwirioneddol' wedi cael ei adlewyrchu yn y gefnogaeth gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith a llwyddiant myfyrwyr o ran cael swyddi. Yn ychwanegol i fyfyrwyr yn cefnogi rhaglenni hyfforddi o fewn awdurdodau lleol, caiff myfyrwyr eu cefnogi wrth iddynt weithio tuag at eu trwyddedi hyfforddi a chyrraedd y safonau isaf a gydnabyddir gan Sports Coach UK fel y rhai hanfodol er mwyn i hyfforddwyr gael ei gyflogi. Felly, wrth iddynt raddio, mae myfyrwyr wedi cael gradd, wedi datblygu portffolio o oriau hyfforddi a'r lefel isaf o gymeradwyaeth hyfforddi sydd angen er mwyn cael cyflogaeth. Mae hyn yn darparu myfyrwyr â'r hyder a'r ymreolaeth sydd angen arnynt er mwyn chwilio am gyflogaeth yn llwyddiannus gan wybod bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i wneud hyn.

Hyrwyddo cyflogadwyedd a rhyngwladoliaeth ar gyfer myfyrwyr leithoedd Tramor Modern: prosiect cydweithredol rhwng Prifysgol Caerdydd ac Ysgol Gyfun Cil-y-Coed

(astudiaeth achos C7)

Enw Cyswllt: Dr Vanna Motta

Ebost: motta@cardiff.ac.uk

Ffôn: 02920 87457604

Sefydliad: School of European Studies Cardiff University

Caerdydd Cyfeiriad: 65-68 Park Place Cardiff CF10 3AS

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, rhyngwladoliaeth ar gyfer myfyrwyr leithoedd Tramor Modern.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Mae'r fenter, yn sesiwn academaidd 2011-12, yn gynllun peilot sy'n ymwneud â myfyrwyr ar dri o gynlluniau gradd BA Anrhydedd mewn leithoedd Tramor Modern (Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg). Mae Ysgol leithoedd Ewropeaidd Caerdydd (Euros) yn anelu at gyflwyno modiwl 20-credyd ar gyfer myfyrwyr y flwyddyn olaf yn 2012-13 yn seiliedig ar ganlyniadau'r cynllun peilot. Rydym hefyd yn anelu at ehangu'r prosiect i ysgolion uwchradd yn ardal Caerdydd.

Nod:

Nod y prosiect yw:

- galluogi myfyrwyr i berffeithio eu sgiliau iaith ac addysgu er mwyn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr ieithoedd;
- helpu myfyrwyr SEI i berffeithio eu sgiliau iaith a throsglwyddadwy i ddod yn genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr ieithoedd;
- gwella a datblygu sgiliau cyfathrebu, dysgu annibynnol, creadigedd, galluoedd meddwl beirniadol, cof, sgiliau gwrando ac ysgrifennu, hyblygrwydd meddyliol, rhesymu, datrys problemau, dadansoddi, gwybodaeth ddiwylliannol, cysylltiadau â meysydd pwnc eraill, ymwybyddiaeth ddiwylliannol cyffredinol a chyfranogaeth mewn cymunedau amlieithog gartref ac o gwmpas y byd, ar gyfer myfyrwyr ar bob lefel sy'n cyfranogi;
- darparu cwrs pontio hyfforddi a datblygu ar gyfer israddedigion rhwng y gradd leithoedd Tramor Modern (MFLs) a TAR a gyrfa addysgu dilynol;
- amlygu'r manteision personol, gyrfaol ac ariannol o ddysgu iaith Dramor Modern;
- cynyddu astudiaeth leithoedd Tramor Modern (MFLs) yn Ne-Ddwyrain Cymru ac ymhellach o bosib mewn proses o ymgeisio i ardaloedd eraill o Gymru a'r Deyrnas Unedig;
- helpu i atal y duedd ar i lawr hir dymor yn narpariaeth a chaffael MFLs;

- ehangu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer MFLs mewn ysgolion uwchradd, a sefydliadau lefel gynradd a thertaidd o bosib;
- darparu astudiaeth achos gwerthfawr i asesu manteision y cynllun a'i botensial i ehangu i gynnwys myfyrwyr o Sefydliadau AU ac AB eraill: mae mecanweithiau gwerthuso effaith ac ymgynghori parhaus wedi eu hadeiladu i'r prosiect a bydd y rhain yn ffurfio rhan hanfodol o'i ddatblygiad dilynol;
- cyfrannu at gonsortiw m ehangach a synergedd ymysg sefydliadau amrywiol yng Nghymru yn cynnwys Llwybrau i leithoedd, Prifysgol Caerdydd, ysgolion uwchradd a CILT Cymru;
- cyfrannu'n uniongyrchol iawn at flaenoriaethau strategol y Brifysgol: 'Paratoi Myfyrwyr ar gyfer Cyflogaeth' a 'Dysgu mewn Cyflogaeth', sydd yn cydfynd yn uniongyrchol â'r themâu blaenoriaeth a nodir gan HEFCW a'r Academi Addysg Uwch yng Nghymru.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r prosiect yn ymgysylltu myfyrwyr yn y ffordd mwyaf uniongyrchol drwy greu cyfleoedd cyffrous iddynt gael profiad addysgu ieithoedd wedi'i fentora. Mae'r cynllun cyfeillio strwythuredig yn rhoi cyfle unigryw i fyfyrwyr ddatblygu eu gwybodaeth a sgiliau yn y lleoliad byw o ysgolion uwchradd rhanbarthol. Mae'r cynllun cyfeillio yn ymgysylltu tair set o fyfyrwyr arwahanol ond cysylltiedig: myfyrwyr MFLs ysgol gyfun, myfyrwyr MFLs yn eu blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Caerdydd a myfyrwyr Erasmus sy'n dyfod i mewn. Ar yr un pryd, bydd y prosiect yn ymgysylltu a gyda gobaith yn ysbrydoli disgyblion MFLs ysgolion uwchradd. Drwy rannu profiadau diwylliannol a ieithyddol myfyrwyr prifysgol, sydd naill ai'n dychwelyd o flwyddyn dramor, neu'n cyrraedd fel myfyrwyr cyfnewid sydd ar fin dechrau gyrfa mewn ieithoedd modern, mae'r cynllun yn ceisio gwrthdroi'r cwmp drammatig yn astudiaeth MFLs ar hyd y wlad, ac yn enwedig yng Nghymru. O 2012-13, bydd yr Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd yn cyflwyno modiwl i fyfyrwyr y flwyddyn olaf sy'n adeiladu ar y bartneriaeth cynllun peilot rhwng Prifysgol Caerdydd ac Ysgol Gyfun Cil-y-Coed gyda'r bwriad o ehangu ymgysylltiad myfyrwyr drwy gynyddu'r nifer o ysgolion sy'n cyfranogi a mewnbllannu'r cynllun o fewn cydran sy'n ennill credyd o raglen fodiwlwr, er mwyn adeiladu cyfrifoldeb ac ymrwymiad i'r cynllun.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae'r prosiect yn ateb yr egwyddor o ymgysylltiad myfyrwyr, a ddisgrifir uchod, a'r egwyddor o allbynnau manteisiol y tu hwnt i Brifysgol Caerdydd. Mae'r cynllun cyfeillio yn un sydd â moddion ac amcanion sy'n hollol a chynhyrchiol rwymedig mewn partneriaeth agos â sefydliad addysgol lleol. Tra bod y 'cyfeillion' yn israddedigion o Brifysgol Caerdydd neu'n fyfyrwyr Erasmus sy'n dyfod i mewn, disgyblion ysgolion uwchradd sy'n dysgu MFLs a fydd yn manteisio o'u sgiliau. Mae'r cynllun yn cynnig myfyrwyr y flwyddyn olaf ac Erasmus gefndir damcaniaethol, a ddarperir yn Euros, a hyfforddiant empirig a ddarperir gan waith dosbarth wedi'i oruchwylio yn Ysgol Cil-y-Coed. Bydd y cynllun cyfeillio strwythuredig yn rhoi cyfle unigryw i fyfyrwyr Euros ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn lleoliad byw ysgolion uwchradd rhanbarthol. Mae disgyblion ysgolion uwchradd ar y llaw arall, yn cael cyswilt uniongyrchol â'u cyd-fyfyrwyr o lefel uwch o gaffaeliad ac ymarfer iaith, ac yn cael hwb i'w hyder sy'n eu hannog i ddilyn llwybr dysgu ieithoedd ymhob agwedd o'u datblygu personol a phroffesiynol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r prosiect yn ganlyniad i ymgynghoriad hir a dwys rhwng uwch-ffigurau yn Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd Caerdydd ac Ysgol Cil-y-Coed. Mae cyfres o gyfarfodydd wedi galluogi i ni nodi'r synergeddau helaeth rhwng ein hanghenion a'n moddau er mwyn greu myfyrwyr cyflogedig, rhyngwladoliaethol. Mae Euros ar hyn o bryd yn ariannu mentor ieithoedd rhan-amser yng Nghil-y-Coed. Mae'r person yn y swydd yn gweithio fel cwndid hanfodol rhwng y ddau sefydliad, gan sicrhau bod ymgynghoriad gwirioneddol yn parhau i hysbysu bob cam o ddatblygiad y prosiect. Mae'r prosiect yn cynnig profiad cyflogadwy, ymarferol i'r ddwy set o fyfyrwyr mewn cwestiwn. Mae'n galluogi i fyfyrwyr ysgolion uwchradd i wella'u sgiliau ieithyddol ymarferol a'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol sydd mor allweddol i'r ddisgyblaeth. Mae'n caniatáu iddynt, mewn cyd-destun cyfoedion, i berffeithio eu sgiliau hunan-gywirol ac yn eu darparu, ar ffurf profiadau blwyddyn dramor a chynlluniau gyrfaol y cyfaill, â synnwyr go iawn o'r cyfleoedd y mae astudio ieithoedd Tramor Modern yn agor i fyny. Mae'r profiad ymarferol y mae'r cynllun cyfeillio yn cynnig i'r Brifysgol yr un mor werthfawr. Maent yn manteisio o brofiad gwaith wedi'i fentora'n agos mewn cyd-destun dosbarth. Mae'r cynllun yn caniatáu iddynt ddefnyddio a pherffeithio eu sgiliau ieithyddol a diwylliannol eu hunain wrth iddynt weithio er mwyn gwella rhai pobl eraill. Mae'n caniatáu iddynt roi ar waith yn ymarferol yr hyn maent wedi dysgu ym Mhrifysgol Caerdydd a thramor mewn lleoliad sy'n ychwanegu at ac yn hysbysu eu dewisiadau gyrfaol. Bydd myfyrwyr sy'n dechrau ar y cynllun hefyd yn ennill y rhaganghenraid lleoliad ysgol sydd angen ar gyfer mynediad i TAR.

Bydd y cynllun hefyd yn manteisio'n uniongyrchol o'r sefydliad sy'n ei gynnal, sydd â'r dasg o gyd-drefnu sut y mae'r cyfaill yn rhyngweithio â disgyblion, ac yn cyfrannu at ddarpariaeth ieithoedd tramor modern yn Ysgol Cil-y-Coed.

Myfyrdod/effaith:

Fel y disgrifir uchod, mae'r prosiect yn ganlyniad o ymgynghoriad dwys a manwl rhwng Ysgol Cil-y-Coed a Phrifysgol Caerdydd ac yn cael ei lywio gan anghenion y ddau sefydliad o ran cynyddu cyflogadwyedd eu myfyrwyr yn y cyd-destun rhyngwladol orau posib. Mae'r cydweithredu hwn rhwng yr Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd ac ysgol gyfun yn ddatblygiad gwreiddiol ac arloesol gan fod y cynllun cyfeillio yn ymgysylltu myfyrwyr yn y ffordd mwyaf uniongyrchol drwy greu cyfleoedd cyffrous iddynt gael profiad o addysgu ieithoedd wrth gael eu mentora. Mae'r prosiect wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf i ysgrifennu addysgol. Bydd y myfyrwyr Prifysgol sy'n ymwneud â'r prosiect nid yn unig yn derbyn hyfforddiant a chanllawiau gan Gaerdydd a Chil-y-Coed, ond bydd angen iddynt hefyd fyfyrrio, yn nhermau damcaniaethol, ar y lleoliad/gwersi y maent yn ymgymryd â nhw. Mae gwerthusiad wedi'i adeiladu i bob lefel o'r prosiect. Bydd arweinwyr y prosiect yng Nghil-y-Coed ac Euros yn ymgynghori'n fisol i sicrhau'r llwyddiant mwyaf i'r prosiect. Bydd mentor ieithoedd Cil-y-Coed yn gwerthuso datblygiad a blaenoriaethau'r ddau set o fyfyrwr sy'n rhan o'r prosiect. Bydd myfyrwyr Euros yn gwerthuso eu profiad eu hunain yn eu dyddiaduron dysgu a'u hadroddiadau terfynol, a myfyrwyr Cil-y-Coed yn eu harolygon dosbarth.

Cefnogi Clybiau Cyfrifiadur i Ferched

(astudiaeth achos SM9)

Enw Cyswllt: Dr.Nik Whitehead
Ebost: nicola.whitehead@smu.ac.uk
Ffôn: 01792 481133
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyfeiriad: Mount Pleasant, Abertawe SA1 6ED

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, prosiect byw, cydweithredu ag ysgolion, gwirfoddoli, ymgysylltu yn y gymuned.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Ar un rhaglen (y portffolio Cyfrifiadureg).

Nod:

I ddarparu myfyrwyr â diddordeb mewn addysgu a chefnogaeth i ddefnyddwyr; i roi cyfle i fyfyrwyr wirfoddoli mewn rôl gynorthwyol gydag ysgolion cynradd a chyfun i gefnogi'r rhaglen Clwb Cyfrifiadur i Ferched.

Disgrifiad/Dull:

Mae Clwb Cyfrifiadur i Ferched (<http://www.CC4G.net>)

yn rhaglen e-skills sy'n anelu at ddarparu'r adnoddau electronig sydd angen er mwyn i dair ysgol gynradd a chyfun lleol gynnal clybiau cyfrifiadur ar-ôl-ysgol i ferched gyda'r nod o feithrin eu diddordeb mewn cyfrifiadura. Mae myfyrwyr Cyfrifiadureg yn y flwyddyn olaf, sydd yn aml â diddordeb mewn addysgu neu hyfforddi ar ôl iddynt gwblhau eu graddau, yn gwirfoddoli i weithio gyda'r ysgolion yn y clybiau, gan ymddwyn fel cynorthwywyr dosbarth gyda safon uchel o wybodaeth dechnegol er mwyn rhoi cymorth i'r myfyrwyr.

Deilliannau a Ragwelir:

Bydd myfyrwyr sy'n ymwneud â'r prosiect yn cael profiad addysu gwerthfawr a fydd yn gymorth wrth iddynt ymgeisio ar gyfer cyrsiau hyfforddi athrawon a swyddi cymorth defnyddwyr. Bydd gan ysgolion adnoddau ychwanegol ar gyfer addysgu cyfrifiadura.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r cynllun ar hyn o bryd yn eu camau cynnar ond mae nifer o fyfyrwyr y drydedd flwyddyn wedi eu dewis i weithio gydag ysgolion lleol i gynorthwyo'r rhaglen CC4G. Mae'r rhain yn fyfyrwyr sy'n ystyried addysgu neu hyfforddi fel proffesiwn ac sy'n frwd i gael profiad ymarferol yn y sector cyn ymgeisio ar gyfer cyrsiau hyfforddiant. Mae disgwyl y bydd y myfyrwyr hyn yn cael cyfweiliad am eu profiadau er mwyn annog mwy o fyfyrwyr i gymryd rhan yn y rhaglen yn y dyfodol.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r cyfle i ymgysylltu â chyd-destun allanol/proffesiynol sydd y tu allan i'r Brifysgol ond a gynorthwyr o fewn y fframwaith addysgol yn darparu profiad dysgu gwerthfawr i'r myfyrwyr; gan roi mewnwelediad defnyddiol iddynt i weithgareddau bob-dydd eu gyrfa yn y dyfodol cyn iddynt raddio. Y gobaith hefyd yw y bydd hyn yn arwain at gysylltiadau agosach gydag ysgolion lleol, ac yn y pendraw, yn helpu i gynyddu'r nifer o ferched sy'n astudio TG ar lefel uwch.

Gwasanaethau Cwnsela Cymunedol

(astudiaeth achos SM11)

Enw Cyswllt: Carol Hughes
Ebost: carol.hughess@smu.ac.uk
Ffôn: 01792 481000
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Cyfeiriad: Canolfan Seicoleg a Chwnsela

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, cydweithredu staff/myfyrwyr, ymarfer cwnsela.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Yn y Ganolfan Seicoleg a Chwnsela.

Nod:

I wella dysgu ar gyfer cyflogaeth i gwnsleriaid dan hyfforddiant a gwella cyflogadwyedd trwy gau'r bwlch rhwng cwnsler dan hyfforddiant a chwnsler proffesiynol.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r Ganolfan Seicoleg a Chwnsela yn barod i ymgymryd â menter gydweithredol gyda'r gymuned leol ac elusen genedlaethol i gynnig cwnsela gan fyfyrwyr y Diploma mewn Cwnsela i Raddedigion sydd wedi cyrraedd safon briodol i ymarfer. I gyflawni hyn, bydd Gwasanaeth Cwnsela Cymuned (CCS) yn cael ei sefydlu ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe. Bydd y fenter hon yn sicrhau bod myfyrwyr yn ymwneud yn llawn ar bob cam o'r sefydlu, trefnu a chynnal y CCS (gyda chymorth a goruchwyliaeth broffesiynol): partneriaeth 'dysgu ar gyfer cyflogaeth' rhwng staff a myfyrwyr. Rhaid i hyfforddai cwnsela ddangos tystiolaeth o nifer o oriau o waith â chleient cyn ennill cymhwyster a gwneir y gwaith hwn fel arfer, ochr yn ochr â hyfforddiant, fel gwirfoddolwr trwy leoliadau cwnsela mewn asiantaethau cwnsela allanol. O ganlyniad i hyn, mae'r lleoliad cwnsela yn rhan hollbwysig o hyfforddiant cwnsela; yn gonglfaen o ymdrech y myfyriwr i chwilio am gyflogaeth, a bydd y CCS yn cysylltu 'lleoliad' i 'sefydliad hyfforddi'. Byd myfyrwyr yn profi pob agwedd o ddarparu gwasanaeth cwnsela. Bydd myfyrwyr cwnsela i gyd yn cael goruchwyliaeth glinigol yn fisol yn ôl canllawiau Sefydliad Cwnsleriaid a Seicolegwyr Prydain (BACP). Bydd y CCS yn cael ei fonitro a'i gefnogi gan staff adrannol a fydd yn modelu arfer da, ac yn ymwneud yn agos â gweithgareddau i gyd y CCS ac yn mentora myfyrwyr yn y materion sydd y tu fas i orychwyliaeth glinigol. Bydd cyswllt ag asiantaethau allanol yn cynnig cysylltiadau potensial ar gyfer mentrau cydweithredol yn y dyfodol. Y brif her a ragwelir yw diogelu lefelau priodol o ariannu i dalu ar gyfer costau cynnal.

Deilliannau a Ragwelir:

Bydd y CCS yn cynnig cwnsela rhad ac am ddim; bydd hyn yn cryfhau cysylltiadau rhwng y Brifysgol a'r gymuned. Bydd pobl na fydd fel arfer yn gallu fforddio na chael mynediad i gwnsela (galw) yn cael eu rhoi at ei gilydd â gwirfoddolwyr fyfyrwyr (cyflenwad) sydd wedi cyrraedd 'parodrwydd i ymarfer', ond sydd angen gweithio

gyda chleientiaid go iawn, gyda phroblemau gwirioneddol, cyn cael eu cymhwyster neu swydd. Bydd myfyrwyr yn cael profiad o ddyletswyddau a chyfrifoldebau, ochr yn ochr â hyfforddiant, mewn amgylchedd proffesiynol. Bydd hyn yn eu galluogi i gyflawni eu horiau o ymarfer sydd angen ar gyfer ennill eu cymhwyster ac yn hwyluso sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy. Bydd y CCS yn darparu profiad therapiwtig, sefydliadol/gweinyddol ac entrepreneuraidd, i wella ymarfer myfyrwyr a'u sgiliau cyd-destunol. Bydd myfyrwyr hefyd yn rhwydweithio â gwirfoddolwyr mewn lleoliadau cwnsela amrywiol ac yn cyfathrebu â phobl broffesiynol eraill a rhanddeiliaid. Bydd y CCS yn adnodd a ddatblygir i fyfyrwyr gan fyfyrwyr. Bydd y prosiect hwn hefyd yn helpu i Brifysgol Fetropolitan Abertawe a phrifysgolion eraill o bosib, ddod yn fwy ymwybodol o'r wybodaeth, paratoad, sgiliau craidd a chymhwysedd sydd angen ar fyfyrwyr cyn dechrau lleoliad, a deall yn well y cymorth sydd angen ar fyfyrwyr ar leoliad; gan wella ac ehangu hyfforddiant cwnsela a chyflogadwyedd drwy'r proffesiwn.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Bydd y data a gesglir yn ystod y broses hon yn y pendraw yn cefnogi a helpu ymchwil i'r broses a'r canlyniadau. Bydd y CCS felly yn creu diwylliant ymchwil ymysg myfyrwyr, gan eu hannog i ddatblygu syniadau a chysyniadau newydd, gan godi proffil cwnsela at fantais y proffesiwn ac er mwyn ehangu cyfleoedd cyflogaeth.

Myfyrddod/effaith:

Bydd y prosiect hwn yn ddatblygiad arloesol mewn dysgu ar gyfer cyflogaeth a fydd yn gwella profiadau dysgu myfyrwyr; ac mae ganddo botensial i gael effaith ar hyd a lled y sector; gydag allbwn a ragwelir yn fantais i'r proffesiwn, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, a phrifysgolion eraill a chymunedau. Bydd y prosiect hwn yn enghraifft ardderchog o 'ddysgu ar gyfer cyflogaeth' ar waith wrth i fyfyrwyr brofi sgiliau a ddatblygwyd gan eu dysgu ffurfiol yn dod yn fyw mewn sefyllfa gweithio gwirioneddol.

Modiwl Gwirfoddoli Myfyrwyr Ysgol Chwaraeon

(astudiaeth achos CM6)

Enw Cyswllt: Melissa Anderson

Ebost: manderson@cardiffmet.ac.uk

Ffôn: 02920 417264

Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Cyfeiriad: Campws Cyncoed

Geiriau allweddol: sgiliau allweddol, myfyrwyr, gwirfoddoli, cyflogadwyedd.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

O fewn Ysgol Chwaraeon Caerdydd mae'r modiwl yn orfodol i'r myfyrwyr hynny sy'n astudio BSc (Anrh) Hyfforddi Chwaraeon a cyn ddewisol i'r rheiny sydd ar y cwrs BSc (Anrh) Rheoli Chwaraeon, BSc (Anrh) Cyflyru Chwaraeon, Adferiad a Thylino, BSc (Anrh) Datblygu Chwaraeon a BSc (Anrh) Chwaraeon ac Addysg Gorfforol. Mae'n denu tua 200 o fyfyrwyr y flwyddyn yn rheolaidd.

Nodau:

Nod Ysgol Chwaraeon Caerdydd yw darparu cyrsiau o ansawdd uchel, sy'n alwedigaethol berthnasol a chysylltiedig â chwaraeon ac felly'n cynhyrchu graddedigion graddedigion sgiliau trosglwyddadwy a werthfawrogir yn y gweithle modern (UWIC, 2010). Yn unol â hyn mae'r Ysgol wedi addasu a datblygu modiwl Gwirfoddoli Myfyrwyr generig Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Mae hyn yn gofyn i fyfyrwyr wneud 40 awr o waith gwirfoddol mewn amgylchedd sy'n gysylltiedig â'u rhaglen astudio. Amcanion allweddol y modiwl hwn yw ehangu profiad myfyrwyr; datblygu sgiliau personol a phroffesiynol, gwella cyflogadwyedd myfyrwyr; a gwella gallu myfyrwyr i fyfyrwyr a gwerthuso'u sgiliau a gwybodaeth gan nodi meysydd o gryfder a'r rheiny sydd angen datblygiad pellach.

Disgrifiad/Dull:

Er mwyn lleoli'r myfyrwyr yn llwyddiannus, mae partneriaethau wedi'u sefydlu gyda thua 30 o sefydliadau yn Ne Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: ysgolion, unedau datblygu chwaraeon awdurdodau lleol, clybiau chwaraeon, arbenigwyr PPA a chyrrff llywodraethu cenedlaethol. Mae staff Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a sefydliadau partneriaid yn cyfathrebu i ddatblygu lleoliadau sy'n briodol i gyflawni amcanion y modiwl. Mae gan fyfyrwyr y cyfle i ddewis un o'r lleoliadau gyda sefydliad partner neu ddod o hyd i a threfnu eu lleoliad eu hunain gyda sefydliad arall (er bod lleoliadau gwahanol yn gorfod cwrdd â meini prawf penodol i sicrhau y cedwir at ddeilliannau dysgu'r modiwl).

O ystyried yr amrywiaeth o raglenni gradd y mae'r myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y modiwl yn eu hastudio, mae'n hanfodol bod amrywiaeth eang o leoliadau yn cael eu diogelu, gan ganiatáu i fyfyrwyr gael y cyfle i brofi eu sgiliau mewn sefyllfeydd gwirioneddol, datblygu dealltwriaeth realistig o'r gweithle ac ennill profiad i'w helpu i bederfynu ar lwybrau gyrfa posibl. Mae'r ffactorau allweddol sydd wedi cyfrannu at lwyddiant y modiwl hyd yn hyn yn cynnwys: yr angen i fyfyrwyr adlewyrchu ar sgiliau trosglwyddadwy allweddol (sydd wedi annog ymgysylltiad a ddatblygiad personol); y defnydd o ddarlithwyr gwadd o sefydliadau chwaraeon allweddol fel cynghorau chwaraeon a Chyrrff Llywodraethu Cenedlaethol chwaraeon (sy'n helpu i ddarparu

dilysrwydd a rhoi cyd-destun i'r modiwl); ac adeiladu a chynnal perthnasoedd gyda sefydliadau sy'n bartneriaid. Mae'r modiwl hwn yn ffurfio rhan o'r ail flwyddyn o astudio israddedig (Lefel 5) ac mae cyfle ffurfiol gan fyfyrwyr i gymryd eu profiad ymhellach trwy ddewis wneud y modiwl CSS Profiad Gwaith ym mlwyddyn 3 (Lefel 6).

Mae angen myfyrion ar ddatblygiad sgiliau allweddol trwy gydol y modiwl; mae angen i fyfyrwyr gwblhau log myfyriol a chyfathrebu gyda'u tiwtor i nodi meysydd allweddol ar gyfer datblygiad pellach, i sicrhau bod ffocws parhaus ar sgiliau rhyngpersonol a datblygiad personol. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn cael eu darparu nid yn unig â chyfle profiad gwaith, ond hefyd eu bod yn gallu arddangos eu bod wedi dysgu o'r profiad a datblygu sgiliau trosglwyddadwy, er enghraifft cyfathrebu ac arweinyddiaeth, o ganlyniad i'r profiad. Felly, mae ymarfer myfyriol yn chwarae rhan hollbwysig yn y modiwl.

Deilliannau a Ragwelir:

- adlewyrchu myfyrwyr ar sgiliau trosglwyddadwy allweddol;
- rhwydweithio a chyfleoedd yn y gweithle i fyfyrwyr;
- dilysrwydd a chyd-destun a ddarperir gan siaradwyr gwadd;
- adeiladu a chynnal perthnasoedd gyda sefydliadau sy'n bartneriaid.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Cyfle i gyfuno damcaniaeth academiaidd a phrofiad ymarferol: Mae myfyrwyr a chyflogwyr yn canfod y modiwl Gwirfoddoli Myfyrwyr i fod yn llwyddiannus mewn perthynas â darparu 'gwerth ychwanegol' hanfodol i'r rhaglenni a gynigir ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, gan ei fod yn darparu cyfle ffurfiol i fyfyrwyr gymryd cyfleoedd i wirfoddoli ac annog y rheiny nad ydynt wedi ystyried cyfle fel hyn yn flaenorol. Pwysleisiwyd hyn gan Swyddog Datblygu Hyfforddiant a Gweithlu wedi'i seilio mewn awdurdod lleol, wrth iddi drafod sut oedd nifer o fyfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd:

Wedi cael y cyfle i ennill profiad mewn amrywiaeth o amgylcheddau yn cynnwys hyfforddiant, gwirfoddoli, gwaith prosiect a chymorth digwyddiadau... ac wedi ddatblygu sgiliau ymarferol i ddelfio â materion pob-dydd... gan roi'r sgiliau ymarferol iddynt i gydfynd â'u hastudiaethau damcaniaethol yn y brifysgol a chaniatáu iddynt arddangos eu galluoedd yn y gweithle.

Datblygu Sgiliau Allweddol:

Cymeradwywyd y modiwl Gwirfoddoli Myfyrwyr gan y cyflogwyr i gyd fel cyfle gwych i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau trosglwyddadwy allweddol. Nodwyd sgiliau cyfathrebu datblygiedig, sgiliau trafod, sgiliau rheoli gwrthdaro a'r gallu i weithio'n annibynnol fel y sgiliau allweddol i gael cyflogaeth yn y dyfodol ym maes chwaraeon a hamdden.

Roedd cyn-fyfyrwyr i gyd yn cydnabod gwerth y profiad ymarferol hwn o ran datblygu sgiliau allweddol a throsglwyddadwy. Eglurwyd y pwynt hwn gan un fyfyrwr gan ddweud bod y sgiliau meddal a ddatblygwyd drwy'r profiad hyfforddi, megis sgiliau cyfathrebu, rheoli pobl a sgiliau cynllunio yn ei helpu'n fawr i ddiogelu lleoliad gwirfoddol ôl-raddedig. Fodd bynnag, roedd gwerthfawrogiad hefyd nad oedd datblygiad y sgiliau hyn yn berthnasol i yrfa ym maes chwaraeon yn unig. Yn wir, dywedodd un fyfyrwr bod y lleoliad wedi'i alluogi i fod yn 'unigolyn â sgiliau mwy hyblyg' gan ei fod yn gallu dilyn unrhyw lwybr cyflogaeth, a bydd gwaith tîm, y gallu i weithio ar ei ben ei hun a sgiliau cyfathrebu cadarn yn dal i fod yn angenrheidiol.

Rhwydweithio a rhagor o gyfleoedd:

Mae'r profiadau a geir fel rhan o'r modiwl hwn hefyd yn rhoi cyfleoedd rhwydweithio i fyfyrwyr a chysylltiadau allweddol sy'n darparu plattform ar gyfer gwaith gwirfoddol ychwanegol, gwaith cyflogedig neu gyfleoedd hyfforddi. Er bod cyfleoedd cyflogedig ym maes datblygu chwaraeon a hyfforddi yn dibynnu ar ariannu prosiect penodol, ac yn gyfyngedig os nad yw myfyrwyr wedi cwblhau cymhwyster hyfforddi NGB Lefel 2, mewn rhai sefyllfaoedd mae'r lleoliad a ddiogelwyd fel rhan o'r modiwl wedi arwain yn uniongyrchol at swydd broffesiynol cyntaf i raddedigion. Cydnabyddwyd y fantais hon yn glir gan bawb a gyfwelwyd, fel un Swyddog Datblygu Chwaraeon:

Mae hwn yn gyfle go iawn i [fyfyrwyr] gael troed drwy'r drws. Yn draddodiadol, mae awdurdodau lleol wedi mynd at bobl y maent yn adnabod gyda swyddi lefel mynediad... bydd adnabod pobl wyneb-yn-wyneb yn mynd â [myfyrwyr] yn bellach o lawer.

Myfyrdod/effaith:

O ystyried amrywiaeth y myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar y modiwl a'r amcanion dysgu ac addysgu heriol, cafwyd nifer o anawsterau, a restrir isod, eu hwynebu:

- Y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â datblygu dysgwyr ymreolaethol ac annibynnol a sicrhau bod myfyrwyr yn cwrdd â deilliannau dysgu'r modiwl. Nodwyd yr anhawster posib o weithio gyda myfyrwyr "sydd heb ddyddu sut i ddefnyddio eu menter... gan ei fod yn cymryd llawer o amser i'r swyddog fynd ar eu holau" gan un cyflogwr. Fodd bynnag, nodwyd pob cyflogwr fod y lleoliad yn gyfle clir i fyfyrwyr ddatblygu menter a sgiliau rheoli amser.
- Yr anawsterau a brofwyd gan fyfyrwyr o ran cydbwysu eu hastudiaethau academiaidd, gweithgareddau chwaraeon, gwaith cyflogedig a lleoliadau gwirfoddol. Roedd y cyflogwyr a gyfwelwyd fel rhan o'r astudiaeth achos hon yn deall y gofynion sy'n wynebu myfyrwyr: Roeddent hefyd yn cydnabod bod angen ar gyfer sefydliadau lleoliad i gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd, er mwyn iddynt gyfathrebu â myfyrwyr a nodi eu hamcanion personol, ond pwysleisiwyd hefyd yr angen i fyfyrwyr arddangos menter a chwilio'n weithredol am gyfleoedd i ddenu sylw atynt mewn torf.
- Sicrhau bod sefydliadau lleoliad yn gallu rhoi profiad cyfoethog a realistig i fyfyrwyr a bod y bartneriaeth yn fanteisiol i'r myfyrwyr a'r sefydliad. Fodd bynnag, gellir datrys y broblem hon drwy sicrhau bod y sefydliad lleoliad yn deall beth y mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn disgwyl o ran ymgysylltiad a datblygiad myfyrwyr. Yn ogystal â hyn, fel y datgelwyd gan un o'r cyflogwyr yn yr astudiaeth achos, mae cyfathrebu clir rhwng y rheolwr llinell a'r gwirfoddolwr fyfyrwr yn hanfodol er mwyn nodi beth y mae'r myfyrwyr eisiau o'u profiad gwaith ac hefyd beth y mae'r sefydliad eisiau ei gyflawni. Gall y materion hyn gael eu hegluro drwy gyfundeb lleoliad triphlyg rhwng y sefydliad, y myfyriwr a sefydliad y lleoliad.

Gweithio gyda rhieni: athrawon dan hyfforddiant a'r gymuned

(astudiaeth achos N4)

Enwau Cyswllt: Karen Morris, Barbara Kurzik a Liz Barry
Ebost: karen.morris@newport.ac.uk
Ffôn: 01633 432124
Sefydliad: Prifysgol Cymru, Casnewydd
Cyfeiriad: Campws Caerleon, Casnewydd NP18 3QT

Geiriau allweddol: athrawon dan hyfforddiant, cydweithredu â phlant, y gymuned, ysgolion, a rhieni.

Nod:

I wella ymwybyddiaeth athrawon dan hyfforddiant o gysylltiadau â'r gymuned a gyda rhieni a sut y mae'r rhain yn effeithio ar ddysgu plant.

Disgrifiad/Dull:

Mae profiad proffesiynol yn un o ofnion statudol hyfforddiant cychwynnol proffesiynol, ac mae hyn fel arfer yn digwydd mewn cyd-destun ysgol. Mae anghenion proffesiynol yn caniatâu lleoliadau eraill mewn darpariaeth gysylltiedig ar gyfer cyfran fach o brofiadau ymarferol. Yn y rhaglen BA (Anrh) Astudiaethau Cynradd ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd mae rhai athrawon dan hyfforddiant yn eu blwyddyn olaf yn treulio rhan o amser o lleoliad mewn canolfan integredig i blant seiliedig yn y gymuned. Mae hyn yn eu darparu â gwelliant i'w hyfforddiant proffesiynol ar ffurf: deall anghenion y gymuned; cydweithredu â rhieni o ran dysgu a dabtlygiad plant; a gweithio gydag amrywiaeth o bobl broffesiynol eraill sy'n ymwneud â dysgwyr. Gan fod digon o dystiolaeth o berthynas achosol rhwng cyfranogaeth rieni yn yr ysgol ac effaith ar ddatblygiad plant, ystyrir y weithgaredd hon yn werthfawr iawn.

Deilliannau a Ragwelir:

- bydd athrawon dan hyfforddiant yn deall arwyddocâd o effaith y rhieni a'r gymuned ar ddysgu a datblygiad plant;
- bydd athrawon dan hyfforddiant yn datblygu eu galluoedd i gydweithredu â rhieni ac amrywiaeth o bobl broffesiynol yn ymwneud â dysgu a datblygiad plant;
- bydd athrawon dan hyfforddiant yn mireinio sgiliau cyfathrebu, perthnasoedd trafod a rhyngpersonol ymhellach, a fydd yn gwella rhagolygon cyflogadwyedd.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae gwerthusiadau o'r lleoliad hwn wedi dangos fod athrawon dan hyfforddiant yn manteisio'n fawr o'r profiadau sy'n gwella eu rhagolygon gyrfu a'u gallu i weithredu'n effeithiol fel ymarferwyr.

Myfyrdod/effaith:

Mae athrawon dan hyfforddiant yn datblygu sgiliau myfyrio yn arferol yn ystod rhaglenni hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae cyfleoedd i ehangu'r myfyrdodau hyn i gynnwys cydnabyddiaeth o effaith pobl eraill (rhieni a'r gymuned) ar blant yn cael eu gwella trwy'r lleoliad gwahanol yn y ganolfan inegredig i blant. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ymyraethau sy'n lleihau'r bwch cyrhaeddiad i blant mewn ardaloedd o angen economaidd gymdeithasol ac ymgysylltiad y canolfannau seiliedig yn y gymuned yn ymrraeth o'r fath. Mae athrawon dan hyfforddiant yn manteisio o'r gwelliant hwn i'w hyfforddiant proffesiynol.

Menter Datrys Problemau: Llys Ynadon Aberystwyth

(astudiaeth achos A4)

Enw Cyswllt: Beverley Herring
Ebost: bch@aber.ac.uk
Ffôn: 01970 628498
Sefydliad: Prifysgol Aberystwyth
Cyfeiriad: Gwasanaeth Gyrfaoedd, Yr Urdd, Penglais, Aberystwyth SY23

Geiriau allweddol: adeiladu hyder, mewnwelediad/ymwybyddiaeth gyrfuol, cynnydd cyflogadwyedd, datblygu sgiliau, cyfle i ehangu rhwydwaith proffesiynol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Mae'r fenter hon yn unigryw i Adran Gyfraith a Throsedddeg Prifysgol Aberystwyth, ond cafodd ei gyflwyno fel rhan o gynllun ehangach – y rhaglen GO Wales. Mae Blas ar Waith Go Wales yn gyfnodau byr o gysgodi gwaith heb gyflog wedi'u hanelu at gynyddu'r lefel o ymwybyddiaeth fasnachol mewn myfyrwyr a graddedigion, gan gefnogi cyfeiriad gyrfu ac adeiladu ar ddatblygu sgiliau.

Nod:

Mae'r Fenter Datrys Problemau yn cael ei chynnal yn gystadleuol drwy Adran Gyfraith a Throsedddeg Prifysgol Aberystwyth ac ar y cyd â'r Llys Ynadon lleol a phrosiect llys ehangach ac mae'n targedu myfyrwyr y flwyddyn olaf ond un a'r flwyddyn derfynol. Mae'r fenter hon yn awr yn ei hail flwyddyn wedi pasio'r flwyddyn o beilot yn llwyddiannus.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r fenter yn ceisio cael dealltwriaeth weithredol o'r amrywiaeth eang o rolau sy'n ymwneud â chynnal a rhedeg Llys Ynadon a'i ddull o adeiladu perthnasoedd allweddol gyda chefnogaeth y gymuned yn y llys. Mae myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth sy'n ymgysylltu â'r cynllun wedi bod yn wych fel arloeswyr mewn cefnogi menter sydd wedi anelu at ddatrys y broblem gynyddol o droseddau annifrifol drosodd a throsodd. Mae'r myfyrwyr yn mynychu'r llys ar fore Dydd Mercher ar sail amserlen ac yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o ddefnyddwyr y llys – staff a gweithwyr swyddogol y llys (yn cynnwys cyfreithwyr lleol), sefydliadau cymorth gwirfoddol, troseddwyr, dioddefwyr ac aelodau teulu ar y ddau ochr.

Deilliannau a Ragwelir:

Bydd myfyrwyr yn manteisio o'r cyfle ehangach o ymgysylltu o fewn rhwydwaith proffesiynol y llys. Darperir mewnwelediad i amrywiaeth o rolau gyrfu a chyfleoedd a fydd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar benderfyniadau gyrfuol yn y dyfodol. Mae cyfleoedd i gyflwyno am wybodaeth, gwella eu cyflogadwyedd eu hunain drwy ennill profiad gwerthfawr a datblygu a gwella amrywiaeth o sgiliau yn cynnwys hyder wrth gyfathrebu gyda phob math o unigolion, sgiliau trafod, gwaith tîm a gwneud penderfyniadau annibynnol. Mae cyfleoedd hefyd wedi codi i unigolion ennill profiadau amrywiol ymhellach yn y maes hwn. Mae myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn y gorffennol wedi cael trafferth wrth ddod o hyd i brofiad gwaith perthnasol yn yr ardal leol oherwydd natur gyfrinachol y gwaith.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mewn Cyfarfod diweddar o Ddefnyddwyr y Llys – canmolwyd myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a'r Gyfraith a Throsedddeg sy'n rhan o'r Fenter Datrys Problemau am eu cyfraniad tuag at leihau'r lefel gyffredinol o ail-droseddu parhaus. Teimlodd pawb yn y llys bod y fenter wedi cael effaith sylweddol a rhoddwyd blaenoriaeth uchel i'r cynllun ar gyfer cymorth llys gyda pharhâd diddiwedd. Roedd y myfyrwyr hynny a gymerodd rhan yn manteisio'n fawr; gyda nifer ohonynt yn symud ymlaen i gynlluniau eraill sy'n perthyn i'r llys, fel y cynllun oedolyn priodol gyda'r gwasanaeth troseddwyr ifainc a gwirfoddoli gyda'r gwasanaeth profiannaeth. Dewisodd un aelod i barhau i ddatrys problemau am ail flwyddyn gan gefnogi hyfforddiant saith o gyfranogwyr newydd ac eistedd ar Gyfarfodydd Defnyddwyr y Llys fel cynrychiolydd datrys problemau gydag aelod o staff y Gwasanaeth Gyrfaoedd.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r fenter datrys problemau wedi adeiladu perthynas dda rhwng y Brifysgol, myfyrwyr, y Llys Ynadon, cyfreithwyr lleol, yr heddlu, y tîm troseddwyr ifainc, y gwasanaeth profiannaeth, grwpiau cymorth yn y gymuned (sy'n ymwneud â darparu cymorth i'r rheiny â phroblemau ariannol, alcohol, cyffuriau, llety, iechyd meddwl a materion eraill) a'r gymuned leol. Yn eu tro, mae'r rhain wedi cael effaith gaarnhaol ar agor i fyny mwy o gyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr ar gyfer ein myfyrwyr a graddedigion. Mewn ardal fel Aberystwyth, tref lan-y-môr yng Ngorllewin Cymru gyda phroffil cyflogwyr Busnes Bach a Chanolig (SME) mwyafrifol a phoblogaeth o fyfyrwyr sy'n cyfiri am hanner y boblogaeth leol – mae adeiladu'r cysylltiadau hyn wedi bod yn hanfodol i greu cyfleoedd ar gyfer ein myfyrwyr y Gyfraith a Throsoeddeg i ddysgu ar gyfer cyflogaeth.

Dylunio byw

(astudiaeth achos CMI2)

Enw Cyswllt: Olwen Moseley
Ebost: omooseley@cardiffmet.ac.uk
Ffôn: 02920417204
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyfeiriad: Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB

Geiriau allweddol: dylunio byw, dysgu trwy brofiad

Nod:

I ddarparu myfyrwyr Cyfathrebu Graffeg â'r cyfle i weithio ar brosiect dylunio byw mewn senario realistig gyda chleient allanol wedi'i fentora gan y gymuned a ddylunwyr lleol. Mae hyn yn werthfawr i feithrin perthynas gydweithredol da gyda diwydiant ac yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr adeiladu rhwydweithiau cymorth a diwydiant a chyfleoedd cyflogaeth.

Disgrifiad/Dull:

Dros y deng mlynedd diwethaf mae'r prosiect hwn wedi mynd trwy newidiadau ac iteriadau, gan arwain at rai mateiron a nodwyd o adborth gan fyfyrwyr, staff ac arholwyr allanol. Yn flaenorol, cafwyd nifer o briffiau gan nifer o sefydliadau – drwy ymholiadau, cysylltiadau personol, y cyfryngau, adrannau mewnol neu ofnion y Brifysgol – neu gosodwyd amrywiaeth o friffiau gan gwmnïau dylunio. Yn ei iteriad diweddaraf mae briff wedi'i osod gan gleient mewn cydweithrediad ag arweinydd y modiwl. Roedd yr ymholiadau yn bennaf o elusenau neu grwpiau cymunedol. Safbwynt y cwrs yw bod unrhyw un sydd â'r modd i dalu am ddatrysiad dylunio proffesiynol yn cael eu cyfeirio at ddylunwyr proffesiynol lleol. Os ydy'r cwrs yn ymgymryd â gwaith a ddylai gael ei wneud gan y diwydiant, rydym yn debygol o danseilio'r strwythuro ffioedd ac felly proffesiynoli'r diwydiant dylunio. Rydym hefyd yn dibynnu ar gefnogaeth gan y gymuned dylunio honno fel partneriaid a chyflogwyr.

Yn ddiweddarach, mae briff sengl wedi'i ffynonelli gan gleient gyda mater cyfathrebu arloesol parhaus y gellid troi'n ddeiliant gweithredol sydd angen mewnbwn gan y diwydiant. Mae grwpiau o bedwar neu bump o fyfyrwyr yn gweithio arno gydag wyth o gwmnïau mentora. Mae'r cwmnïau dylunio sy'n mentora yn hapus i ymwneud â hyn gan eu bod wedyn yn adeiladu perthynas gyda'r cleient hefyd ac maent mewn safle da i barhau'r berthynas weithio honno. Maent hefyd yn cael cwrdd â darpar weithwyr trwy eu cyswllt agos â'r myfyrwyr. Y briffiau gorau yw'r rheiny ble mae cleient yn dod gyda phroblem yn hytrach na datrysiad, ac ar Lefel 4 rhaid i'r briffiau fod o gymhlethdod sylweddol i fod yn her. Ar y cam cynnar hwn o drafodaeathau rhwng arweinydd y modiwl, y cleient a'r mentoriaid, rhoddir cytundeb at ei gilydd sy'n amlinellu'r broses, y disgwyliadau a'r cyfyngiadau. Mae myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau ar gyfer cyfnod y prosiect. Gwneir ymarferion adeiladu tîm a gofynnir i fyfyrwyr werthuso eu cryfderau a'u sgiliau, a gwerthuso'r rhain eto ar ddiwedd y modiwl. Ceir briff y prosiect gan y cleient i'r grŵp o fyfyrwyr a'r mentoriaid. Mae gofyn i'r myfyrwyr gael briffiad ar lafar. Maent yn llenwi papur briffio, yn paratoi briff ysgrifenedig, yn myfyrio/eglurho anghenion, a chynllunio amserlen. Maent yn ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol ac yn trafod dulliau gwaith fel tîm ac yn cynhyrchu syniadau. Mae cyflwyniad ymchwil/mewnwelediad i'r cleient yn dilyn, sy'n cynnwys awgrymiad o ddull gweithio creadigol; yna cynhyrchir datrysiadau creadigol cyn eu gwerthuso. Mae pob grŵp yn penderfynu ar un syniad i'w symud ymlaen a'i ddatblygu. Caiff tiwtorialau grŵp a chyfarfodydd mentor eu

trafod a'u trefnu gan y grŵp. Caiff y datrysiadau terfynol eu cyflwyno i gyfoedion, y cleient a'r mentoriaid. Mae pob myfyriwr yn cadw ffurflen amser personol yn ystod y prosiect. Mae'r grŵp yn gyfrifol am gyfathrebu â'r cleient, gan drefnu cyfarfodydd, a rheoli'r gwaith yn gyffredinol. Mae gofyn i bob myfyriwr gwblhau 'asesiad cyfoedion' cyfrinachol o aelodau eraill y grŵp a nhw eu hunain, sy'n caniatáu asesiad seiliedig ar mewnwleediad dyfnach i ddeinameg y grŵp a sgiliau trosglwyddadwy. Mae briffiau nodweddiadol yn cynnwys: Mynd i'r afael â phrofiad teithwyr sy'n cyrraedd Maes Awyr Caerdydd: sut ydych yn gwybod eich bod chi yng Nghymru? Sut ydych yn brandio gwlad? a Gweithio gyda thîm trafniadaeth Cyngor Dinas Caerdydd i annog newid ymddygiad yn y cyhoedd sy'n teithio, gan symud ein defnyddwyr ceir i ffyrdd eraill o deithio.

Deilliannau a Ragwelir:

- cynhalieth perthnasoedd da gydag ymarferion dylunio dewisol gan ennill mewnwleediad i'r hinsawdd cyflogaeth ac anghenion i hysbysu datblygiad cwrs;
- cynnydd mewn lleoliadau i raddedigion, interniaethau a chyflogaeth, a gwella enw da'r brifysgol a'r cwrs ymysg grwpiau o gleientiaid.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae adborth gan gleientiaid a mentoriaid yn gadarnhaol iawn. Fel arfer, caiff disgwyliadau cleientiaid eu rhagori. Mae mentoriaid wedi adrodd am fwynhau'r rhyngweithio ,ac yn cytuno i ymgysylltu eto a chynnal a chadw perthynas dda â myfyrwyr unigol. Ceir adborth tebyg gan fyfyrwyr, mewn pob math o senarios. Mae eu hadborth bob amser wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan.

Myfyrdod/effaith:

Dros y cwprwl o flynyddoedd diwethaf rydym wedi dewis gweithio gydag un cleient a nifer o stiwdios dylunio yn hytrach nag yn uniongyrchol gyda nifer o gleientiaid ar amrywiaeth o friffiau, neu gyda stiwdio dylunio yn gosod y briff a chwarae rôl y 'cleient'. Mae agweddau cadarnhaol a negyddol i bob amrywiaeth.

Mae'r profiad i fod i efelychu profiad dylunydd iau mewn stiwdio cymaint â phosib, gyda naill ai'r tiwtor neu'r mentor fel rheolwr y stiwdio yn cyfarwyddo mewn achos briffiau cleient allanol, neu gyda chynrychiolydd y cwmni dylunio yn chwarae'r rôl honno a rôl y cleient yn y senario cwmni dylunio.

Briffiau priodol: mae sicrhau bod briff priodol gan bob grŵp yn heriol a realistig. Mae un briff cyffredin yn haws i'w drafod a'i ddatblygu rhwng y cleient ac arweinydd y modiwl cyn dechrau'r cyfnod.

Cydraddoldeb rhwng briffiau: Mae problemau wedi codi gyda nifer o'r briffiau gan fod myfyrwyr yn ystyried un briff yn fwy diddorol neu chreadigol nag un arall. Mae hyn fel arfer yn cael ei ddatrys gan nad oes ganddynt unrhyw ymreolaeth o ddewis yn y byd gwirioneddol a bod gan bob problem ei her benodol ei hun.

Cleientiaid yn dewis dylunio 'gwael': Pan fod nifer o fyfyrwyr yn cyflwyno syniadau i gleient, yn dibynnu ar sgiliau'r cyflwynydd, ni elir dibynnu ar gleientiaid bob amser (fel mewn sefyllfaoedd proffesiynol) i weld potensial rhai syniadau dros eraill. Gall hyn roi cyfle i fyfyrwyr ar sgiliau cyflwyno a'r broblem o ddangos nifer o ddatrysiadau yn hytrach nag amrywiaeth gyfyng o'r gwaith gorau. Mewn senario stiwdio dylunio, caiff pob myfyriwr ei gwrsela ar ba gyfeiriad i ddilyn. Mae cael eu llywio gan 'ddylunydd proffesiynol' weithiau o fwy o bwys na chynghor tiwtorial hyd yn oed os yw'r un peth.

Pleserau Anhysbys

(astudiaeth achos SM2)

Enw Cyswllt: Jason Benson

Ebost: jason.benson@smu.ac.uk

Ffôn: 01792 482077

Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Cyfeiriad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Geiriau allweddol: drama a theatr; theatr technegol, rheoli celfyddydau, cyfarwyddo, proffesiynol a dysgu trwy brofiad, cyfleoedd i raddedigion.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Cyflwynwyd partneriaeth rhwng Prifysgol Fetropolitan Abertawe a phobl broffesiynol diwydiant y theatr yng Nghymru yn 2008 i annog ymarfer theatr arbrofol. Mae hi ar gael i fyfyrwyr y flwyddyn olaf sy'n astudio Theatr a graddedigion diweddar.

Nod:

I gynnig profiad o'r diwydiant i fyfyrwyr israddedig y flwyddyn olaf a chynnig cyfleoedd cyflogaeth i raddedigion diweddar i weithio ar ymarfer perfformio arbrofol. Mae'r fenter yn pontio'r bwlch rhwng ymarfer addysgol a diwydiannol. Byddai'n darparu myfyrwyr a graddedigion diweddar gyda phlatformau proffesiynol addas i ddatblygu eu gyrfaedd.

Disgrifiad/Dull:

Sefydlwyd Pleserau Anhysbys yn 2008 fel menter newydd mewn theatr fodern. Y partneriaid gwreiddiol oedd Cwmni Theatr Volcano, Canolfan Celfyddydau Taliesin a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe. Nid yw Theatr Volcano yn artistiaid preswyl ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe rhagor, ond mae Taliesin a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe yn parhau i gynnal y bartneriaeth arloesol hon, sy'n ceisio dod ag artistiaid gorau Cymru a'i thalentau newydd gorau at ei gilydd i greu gwaith anturus newydd. Nod "Pleserau Anhysbys" yw meithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o berfformwyr theatr ac ehangu tentaclau risg a chreadigedd ar hyd Cymru a thu hwnt!"

Mae'r prosiect wedi dod yn fwy llwyddiannus bob blwyddyn ac mae'n gymysgedd o archwilio proffesiynol ac ymgysylltiad myfyrwyr. Bob blwyddyn, mae artist proffesiynol gwahanol yn cael ei ofyn i greu theatr arbrofol arloesol. Felly maent yn barod yn cael eu hannog i gymryd risgiau creadigol sydd yn dylanwadu ar y myfyrwyr sy'n ymwneud â'r prosiect. Mae'r ymarferwyr yn rhedeg wythnos o weithdai gyda myfyrwyr sy'n dymuno bod yn rhan o'r prosiect. Mae hyn yn cynnig cyfle i bob myfyriwr o'r flwyddyn gyntaf i ennill profiad gwerthfawr o leiaf, gyda'r ymarferydd proffesiynol. Gwnaed argraff barhaol ar fyfyrwyr gan hyn, pa un a oeddent yn llwyddo i fod yn rhan o'r cynhyrchiad ai peidio. Ar ddiwedd yr wythnos hon mae'r ymarferydd yn rhydd i ddewis y myfyrwyr y maent yn dymuno gweithio gyda nhw ar y prosiect. Nid oes unrhyw bwysau ar yr ymarferydd i ddewis unrhyw un y maent yn teimlo sy'n anghywir ar gyfer y prosiect, sy'n sicrhau gonestrwydd creadigol y gwaith. Nid yw hyn yn gynhyrchiad myfyrwyr gyda chyfarwyddwr gwadd proffesiynol; mae'n brosiect proffesiynol sy'n ceisio defnyddio ymarferwyr newydd.

Mae'r nifer o fyfyrwyr sydd wedi bod yn rhan o Bleserau Anhysbys wedi amrywio yn dibynnau ar natur y gwaith creadigol, yr ymarferydd sy'n rhan o'r prosiect a lefel a gallu yr amrywiaeth o garfanau myfyrwyr. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd amrywiaethol y mae myfyrwyr y flwyddyn olaf yn profi yn cynnwys: perfformiwr; cynorthwydd y cyfarwyddwr; dylunydd cynorthwyol, cynorthwydd y dylunydd, rheolwr y llwyfan, rheolwr cynhyrchu cyorthwyol, a chydlynedd marchnata.

Yn ogystal â'r rolau a gyflawnwyd gan fyfyrwyr israddedig, mae cyfleoedd i raddedigion diweddar hefyd. Hyd yn hyn, mae'r cyfleoedd hyn wedi bod mewn rolau dylunio a thechnegol ble mae gofyn iddynt wella'u sgiliau ymhellach drwy reoli myfyrwyr presennol.

Deilliannau a Ragwelir:

- lefelau uwch o hyder;
- CV /portffolio o waith cryfach;
- cyfleoedd dysgu trwy brofiad o weithio gydag ymarferydd proffesiynol uchel ei barch;
- profiad o ymarfer proffesiynol mewn amgylchedd cystadleuol iawn;
- cysylltiad rhwng israddedigion, graddedigion a phobl broffesiynol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae myfyrwyr sy'n ymwneud â Phleserau Anhysbys wedi mynd ymlaen i sefydlu eu cwmnïoedd perfformio eu hunain, gan weithio eto gydag ymarferwyr proffesiynol mewn prosiectau diweddarach, ac wedi cael dechreuad da i fod yn ymarferwyr eu hunain.

Myfyrdod/effaith:

I raddedigion diweddar ac israddedigion mae llawer o fanteision o fod yn rhan o fenter fel hyn. Mae'n caniatáu profiad gwirioneddol o broses arbrofiadol nad yw ar gael yn eang yn aml; y cyfle i weithio gydag enw mawr o fyd theatr Cymru yn wych i feithrin hunan-hyder; ysbrydolaeth, proffi proffesiynol, disgyblaeth broffesiynol a chysylltiadau i gyfleoedd rhwydweithio. Mae gweithio wrth ochr pobl broffesiynol y diwydiant fel dylunwyr; rheolwyr cynhyrchu, actorion ac ysgrifenyddwyr yn ddyddiol dros nifer o wythnosau dwys yn rhoi profiad hanfodol iddynt o asesu realiti eu safle yn y diwydiant. Yn ogystal â hyn rhaid ystyried rôl arwyddocaol Taliesin fel arweinydd yn y rhanbarth ar gyfer meithrin ac annog ymarferion creadigol celfydd. Nid yn unig ydynt yn darparu plattform ar gyfer y gwaith mewn amgylchedd proffesiynol, ond mae lled a maint eu cynulleidfa ac enw da'r lleoliad yn cryfhau'r prosiect a'r gwerth i bawb sy'n rhan ohono.

Ar y cyfan y fantais i fyfyrwyr a graddedigion diweddar o fod yn rhan o'r broses hon ar unrhyw adeg yw cynnydd cyflogadwyedd. Ni chaiff hyn ei hegluro'n unig gan y ffaith fod cyfranogion blaenorol wedi mynd ymlaen i llwyddo i gael cyflogaeth gan bobl broffesiynol ar ôl y digwyddiad, ond hefyd o ran cynnig ysbrydolaeth ac annog graddedigion i fyn ymlaen i wneud gwaith eu hunain.

Mae Theatr Shellshock yn gwmni perfformio wedi'i seilio yn Aberatawe. Roedd yr aelodau sefydlu yn rhan o'r garfan a oedd yn rhan o brosiect cyntaf Pleserau Anhysbys yn 2008. Nid oedd Siân Stuttard yn llwyddiannus mewn cael ei dewis ar gyfer y prosiect, ond cafodd gymaint o ysbrydolaeth gan yr wythnos o weithdai nes iddi sefydlu ei phrosiect perfformio eu hun a oedd yn rhedeg ar yr un pryd â chynhyrchiad Pleserau Anhysbys. Arweiniodd hyn at lansiad y cwmni theatr sydd wedi tyfu a datblygu enw da yn cynnwys cynabyddiaeth gan Theatr Genedlaethol Cymru. Mae myfyrwyr mewn blynyddoedd eraill wedi cael eu hail-gyflogi gan yr ymarferydd proffesiynol yr oeddent yn gweithio gydag ef ar brosiectau diweddarach.

Er bod tiwtoriaid mewn amgylchedd addysgol yn ceisio meithrin dealltwriaeth o werthoedd proffesiynol ac ymarferol y diwydiant, mae bwlch yn dal i fodoli rhwng hyn a'r byd go iawn. Mae Pleserau Anhysbys yn bendant yn llenwi'r bwlch hwn, gan gynnig ymarfer proffesiynol gyda phobl broffesiynol dyfeisgar ac arloesol gan gynnig hefyd cefnogaeth yr amgylchedd addysgol. Am y tro cyntaf ar y rhaglen maent yn cael eu trîn fel pobl broffesiynol ar ddechrau eu gyrfa yn hytrach na myfyrwyr; a gyda hyn mae disgwyl iddynt gael safonau ac agwedd broffesiynol, nid oherwydd eu bod yn cael eu gorfodi gan diwtoriaid, ond gan y bobl broffesiynol eu hunain.

Prosiect Seiliedig ar Gynhyrchu

(astudiaeth achos SM10)

Enw Cyswllt: Rob Jones

Ebost: Robert.jones1@smu.ac.uk

Ffôn: 01792 481000

Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Cyfeiriad: Ysgol Cyfryngau Digidol, FADE, Mount Pleasant, Abertawe SA1 6ED

Geiriau allweddol: diwydiant VFX, cynhyrchu, piblinell ac offer wedi'u teilwra, R&D, sgriptio.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Ar y dyfarniad BSc Animeiddio Cyfrifiadurol 3D yn Ysgol y Cyfryngau Digidol.

Nod:

I ddarparu myfyrwyr â'r cyfle i seilio eu Prif Brosiectau blwyddyn-olaf o fewn y cyd-destun o gynhyrchu a datblygu offer neu dechnegau arloesol i ddatrys heriau esthetig neu dechnegol penodol.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r 'Prosiect Seiliedig ar Gynhyrchu' (BSc Prif Brosiect) yn darparu profiad dysgu ble mae gofyn i'r myfyrwyr roi hwb i'w gyrfaedd yn y dyfodol (o fewn fframwaith cefnogol eu rhaglen gradd) drwy gysylltu â darpar gleientiaid ac awgrymu cyfleoedd cyflogaeth. Yn y gorffennol mae myfyrwyr wedi cysylltu â VFX a chwmnïau ôl-gynhyrchu i dargedu heriau cynhyrchu penodol, sydd wedi arwain at nodi darpar-feysydd o ymchwil ac archwilio. Pwyslais y prosiect hwn yn gofyn wrth y myfyrwyr am ymchwilio, ystyried ac yna trafod gyda chyflogwyr gyfleoedd sy'n perthyn i'w harbenigedd penodol yng nghyd-destun animeiddio cyfrifiadurol VFX/3D.

Mae'r angen ar gyfer cynigion myfyrwyr a gytunwyd a monitro datblygiad y prosiect trwy gymorth tiwtorialau yn sicrhau perthnasedd dysgu ar gyfer cyflogaeth. Mae heriau'n cynnwys y myfyrwyr yn sefydlu cysylltiadau cadarnhaol gyda phartneriaid allanol; fodd bynnag, yr her hon sy'n gwneud y prosiect yn brofiad dysgu defnyddiol iawn. Mae cyswllt gyda graddedigion llwyddiannus o bob rhaglen yn cynnig cysylltiadau potensial ar gyfer cydweithredu ar brosiectau allanol yn y dyfodol. Mae cynyddu ymwybyddiaeth o'r trawsnewidiad o waith creadigol personol i gyfleoedd cyflogaeth y dyfodol yn cyflwyno profiad gwerthfawr o ddysgu ar gyfer cyflogaeth.

Deilliannau a Ragwelir:

nodi darpar feysydd ar gyfer ymchwil a datblygiad creadigol o fewn cyd-destun arbenigedd eu dewis; datblygu a chynhyrchu datrysiad arloesol i her gynhyrchu penodol; dabtlygu sgiliau cyfathrebu ac egluro dulliau gweithio, syniadau a datrysiad y prosiect, gan arddangos myfyrion ar ddylanwadau personol ac allanol; profi a dewis defnyddiau, prosesau ac amgylcheddau priodol i anghenion personol ac allanol; cynhyrchu papur technegol i'w gyflwyno i gynadleddau fel FMX sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer 'ymchwilwyr iau' i gyflwyno'u gwaith.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r prosiect wedi arwain at fyfyrwyr yn ennill profiad cynhyrchu perthnasol yn ogystal ag arwain yn uniongyrchol at gyflogaeth llawn-amser ar ôl graddio.

Myfyrddod/effaith:

Mae'r cyfle i ymgysylltu â chyd-destun allanol/proffesiynol ble mae'r telerau wedi'u trafod gan y myfyrwr ond gyda chefnogaeth o fewn y fframwaith addysgol yn darparu profiad dysgu gwerthfawr ar gyfer y myfyrwyr, wrth roi dechreuad da i'w gyrfa dyfodol cyn graddio.



Adran 2: Ymwybyddiaeth Gyrfaoedd a sgiliau ymgeisio

Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am ddatblygu gyrfaoedd a gwerth graddedigion yn ennill sgiliau a hyder i reoli eu gyrfaoedd (Watts, 2006; Evans, 2008). Mae pwysigrwydd y broses o adeiladu gyrfaoedd a'r datblygiad o sgiliau cysylltiedig wedi cael ei dderbyn yn gyffredinol; fodd bynnag, nid oedd y gefnogaeth i ddatblygu sgiliau fel y rhain, tan yn ddiweddar, yn cael ei ystyried yn ganolog i brif bwrpas addysg brifysgol. Nid yw hyn yn wir rhagor; ac mae datblygu gyrfaoedd yn agwedd allweddol o'r cwricwlwm dysgu ac addysgu. Gall cyflenwi dysgu dabtlygu gyrfaoedd fod ar nifer o ffurfiau gwahanol gyda goblygiadau gwahanol ar gyfer rolau'r gwasanaeth gyrfaoedd ac adrannau addysgu. Pa un a yw dysgu fel hyn yn cael ei fewnblannu mewn cwricwlwm, yn ffurfio modiwl ar wahân neu'n weithgaredd allgwrwicwlaidd, mae'r astudiaethau achos yn yr adran hon yn arddangos bod sgiliau datblygu gyrfaoedd yn cael eu hyrwyddo'n eang mewn sefydliadau yng Nghymru.

Mae tyfiant cynllunio datblygiad personol (PDP) fel "proses strwythuredig wedi'i chefnogi y mae dysgwyr yn ymgymryd â hi er mwyn myfyrion ar eu dysgu, perfformio a/neu cyflawniad eu hunain a chynllunio ar gyfer eu datblygiad personol, addysgol a gyrfaoedd" (QAA, 2009) wedi bod yn arwyddocaol i gynyddu proffil sgiliau datblygu gyrfaoedd ac mae astudiaeth N5 yn dangos sut y mae mapio cryfderau ar PDP yn cefnogi myfyrwyr wrth iddynt ennill sgiliau. Mae astudiaeth N7 hefyd yn disgrifio modiwl PDP sy'n rhan o gradd sylfaen ac mae astudiaeth A6 yn rhoi nghraifft o sut y mae un fenter PDP wedi cynnwys cydweithrediad agos rhwng staff gyrfaoedd ac academaidd. Roedd defnyddio modiwl e-gyrfaoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol mewn Ysgol Addysg hefyd yn gofyn am weithio ar y cyd a dull gwaith cydweithredol rhwng staff academaidd a'r adran gyrfaoedd (astudiaeth CM5).

Mae tystiolaeth o weithio cydweithredol hefyd mewn datblygiad asesiad sy'n canolbwyntio ar ymchwilio i gyfleoedd gyrfaoedd (astudiaeth A1), tra bod modiwl arall yn y Gyfadran Gelf a Dylunio yn darparu cyfle i fyfyrwyr wneud pecyn artist sy'n eu "hyrwyddo i'r byd allanol" (astudiaeth SM5). Datblygir dealltwriaeth o'r byd 'allanol' hwn a'r broses recriwtio yn y fenter a ddisgrifir yn astudiaeth C8 ac yn y 'Cynllun Blwyddyn Mewn Cyflogaeth' a ddisgrifir yn astudiaeth A5.

Yn olaf, gall cydnabod sgiliau a dealltwriaeth fel hyn arwain yn ddefnyddiol at ddyfarniad prifysgol fel yr un a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd â chefnogaeth recriwtwyr graddedigion (astudiaeth C1). Mae dyfarniad Bangor a ddisgrifir yn astudiaeth B1 a menter 'Glam Edge' (astudiaeth G10) hefyd yn anelu at helpu graddedigion i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau drwy weithgareddau allgwrwicwlar a chydgwrwicwlar.

BA (Anrh) Cyflogadwyedd Addysg Casnewydd

(astudiaeth achos N5)

Enw Cyswllt: Jane Newby
Ebost: jane.newby@newport.ac.uk
Ffôn: 01633 435240
Sefydliad: Prifysgol Cymru, Casnewydd
Cyfeiriad: Lodge Road, Caerleon NP18 3QT

Geiriau allweddol: sgiliau cyflogadwyedd, gwaith grŵp, rolau tîm, myfyrrio.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Mae'r fenter hon wedi cael ei chyflwyno i un modiwl ar y BA (Anrh) Addysg, Astudiaethau Addysg, Blynyddoedd Cynnar a llwybrau Addysg Gynhwysol fel rhan o'r modiwl Ymarfer Proffesiynol ym mlwyddyn 2 a 3.

Nod:

Nod y prosiect yw gweithredu a gwerthuso meini prawf asesu newydd eu hadolygu i gefnogi sgiliau cyflogadwyedd i fyfyrwyr Blwyddyn 2 a 3 ar y rhaglen BA (Anrh) Addysg ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd.

Disgrifiad/Dull:

Awgrymwyd gan ymchwil cynharach bod y profiad myfyrwyr ar y rhaglen BA (Anrh) Addysg wedi'i gysylltu'n agos at ansawdd y profiad o yng nghyd-destun y lleoliad. Darperir cyfleoedd lleoliad ar sail gwirfoddol ac mae amrywiaeth o ran y profiad myfyrwyr: Amcanion y prosiect yw i ddyfeisio ffurfiau newydd o ddarpariaeth a meini prawf asesu i ganiatáu'r myfyrwr i ymgysylltu mewn cyfle dysgu arloesol sy'n efelychu'r profiad yn y gweithle. Caiff y myfyrwyr eu dosbarthu mewn i grwpiau a rhaid iddynt ddyfeisio senario cysylltiedig â gwaith (cynllunio noswaith wybodaeth i rieni, trefnu digwyddiad codi arian, ac ati). Wrth ymgymryd â'r prosiect, cyflwynir y grwpiau gyda gwybodaeth i gefnogi eu hymwybyddiaeth o gryfderau personol, rolau grŵp, deinameg grŵp a datblygiad grŵp. Mae angen i'r myfyrwr gyflwyno cyfres o ymatebion asesu a myfyriol i'w coladu a'u mapio mewn cynllun datblygu personol.

Deilliannau a Ragwelir:

Y manteisio i fyfyrwyr fydd:

- dull gweithio mwy unffurf o ran datblygu sgiliau cysylltiedig â chyflogaeth (heb ystyried lleoliad);
- datblygiad cynyddol o sgiliau, gwybodaeth a phriodoleddau (Blwyddyn 2-3);
- cymhathiad clir o ddamcaniaeth ac ymarfer;
- nodi cryfderau a gwendidau unigol, wedi'u mapio mewn cynllun datblygu personol/proffesiynol;
- hyder i gael mynediad i wasanaethau o fewn yr Adran Gyrfaoedd;

- nodi trosglwyddedd sgiliau i'r gweithle;
- cefnogaeth i ddatblygu unigolyn hyderus sydd yn gallu egluro eu cyraeddiadau a sgiliau ar lafar a thrwy ymateb ysgrifenedig/ceisiadau swydd.

Y manteisio i staff fydd:

- dysgwyr â chymhelliant a ffocws;
- meini prawf asesu sy'n arloesol ac yn gwneud i bobl feddwi;
- dysgwyr hyderus sydd wedi datblygu amrywiaeth o sgiliau a phriodoleddau ac sy'n gallu ymgysylltu'n llawn â chyfleoedd dysgu;
- gweithio rhyng-adrannol – h.y. CDEL, Adran Gyrfaoedd – gan gefnogi cydweithredu cynyddol a defnydd adnoddau.

Cynllun Datblygu Personol mewn Ymarfer Busnes

(astudiaeth achos N7)

Enw Cyswllt: Lloyd Williams
Ebost: lloyd.williams1@newport.ac.uk
Ffôn: 01633 435290
Sefydliad: Prifysgol Cymru, Casnewydd
Cyfeiriad: Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Campws Caerleon, Lodge Road, Caerleon, Casnewydd NP18 3QT

Geiriau allweddol: cynllunio datblygu personol, modiwl achrededig, dysgu/cyflenwi yn y gymuned, e-bortffolio, cyflenwi gyrfaoedd.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Uned PDP deg-credyd (Lefel 4) fel rhan o Gradd Sylfaen mewn Ymarfer Busnes.

Nod:

Nod y modiwl yw grymuso myfyrwyr; drwy hunan-fyfyrrio a hunan-asesu, i nodi a gwerthfawrogi priodoleddau a sgiliau personol ac i ddefnyddio'u hunan-wybodaeth i wneud y gorau o'u potensial drwy gynllunio effeithiol o ddysgu personol a datblygu gyrfaoel. Mae'r modiwl hwn wedi'i ddatblygu mewn cydnabyddiaeth o'r nifer sylweddol o fyfyrwyr sy'n cael mynediad i'r rhaglen sy'n edrych ar wneud camau sylweddol ymlaen yn eu gyrfa naill ai yn ystod neu ar gwblhau'r dyfarniad gradd sylfaen. Mae'n cyfrannu hefyd at agenda cyflogadwyedd y Brifysgol ac yn ganolog i ymrwymiad y Brifysgol i gyflwyno cynllunio datblygu personol i'r cwricwlwm.

Disgrifiad/Dull:

Drwy gyfres seminar bydd y modiwl yn:

- galluogi myfyrwyr i egluro amcanion drwy wneud penderfyniadau personol, academiaidd a gyrfaol effeithiol;
- archwilio a gwerthuso dadleuon damcaniaethol a syniadau o waith, cyflogadwyedd, trawsnewidiad, steiliau dysgu, sgiliau trosglwyddadwy, cymhelliant a dewis gyrfa;
- cynyddu lefelau o 'hunan-ymwybyddiaeth', hyder, cymhelliant a hunan-barch;
- galluogi i fyfyrwyr werthfawrogi perthnasedd eu hastudiaethau i'w bywydau ac opsiynau/dyheadau;
- helpu myfyrwyr i archwilio a gwerthuso eu hagweddau, egwyddorion a sgiliau mewn perthynas â chyflogadwyedd a dysgu gydol oes parhaus.

Deilliannau a Ragwelir:

Ar gwblhau'r modiwl dylai'r myfyriwr gyflawni deilliannau dysgu a gallu arddangos y canlynol:

Rhif.	Parth	Disgrifiad
1	Gwybodaeth	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gynllunio datblygu personol, damcaniaethau dewis gyrfa a diffygion sgiliau.
2	Ymchwil	Dod o hyd i a defnyddio gwybodaeth berthnasol o ffynonellau priodol, e.e. llyfrau testun, papurau newyddion, gwefannau, cylchgronnau rheoli a rhai cyfnodolion.
3	Dadl a gweithredu	Dadansoddi a dehongli sgiliau, agweddau, gwerthoedd a chyflogadwyedd yng nghyd-destun anghenion cyflogwyr.
4	Cyfathrebu	Cyfathrebu gwybodaeth yn glir gan ddefnyddio steil ysgrifennu a strwythur sy'n briodol i'r offeryn asesu a normau'r gweithle. Dewis a defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu priodol.
5	Cyfrannu a myfyrdod	Dechrau gweithio'n ymreolaethol a myfyrio drwy hunan-werthuso. Datblygu hunan-ymwybyddiaeth o ran rheoli eu hunain a'u hanghenion datblygu sgiliau.
6	Ymarferol	Arddangos sgiliau ymarferol, academiaidd a busnes perthnasol e.e. cynllun gyrfa personol a CV.

Mae asesiadau ffurfiannol yn hanfodol i gyflenwad y modiwl ac yn ffurfio sail y cyfarfodydd tiwtorial. Bydd hyn yn cynnwys adborth i fyfyrwyr ar eu cyfraniadau i drafodaethau, eu cynlluniau datblygu personol a datblygiad CV. Bydd dau asesiad adolygol: asesiad ysgrifenedig o 1,750 o eiriau, gyda theitl trafodadwy i'w gytuno cyn dechrau'r dasg (70% o bwysiad marciau tuag at y gradd y modiwl cyfan); sylwebaeth myfyriol o 750 gair ar y cynllun datblygu personol unigol (30% o bwysiad marciau tuag gradd gyffredinol y modiwl).

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Gwneir gwerthuso'r myfyrwyr yn unol â chyfundrefnau monitro a gwerthuso blynyddol Prifysgol Cymru, Casnewydd, a'r ffurflenni gwerthuso modiwl perthnasol, sydd wedi'u dylunio er mwyn cael adborth meintiol ac ansoddol er mwyn bwydo ymlaen ar gyfer datblygu modiwlau a rhaglenni yn y dyfodol.

Mae gan fyfyrwyr hefyd y cyfle i gynnig adborth mewn cyfarfodydd rhanbarthol o fyfyrwyr a thrwy rith-amgylchedd dysgu'r Brifysgol i gynrychiolwyr myfyrwyr ar draws y rhaglen sy'n mynychu cyfarfodydd rhaglen a Chanolfan perthnasol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i fentrau sicrhau ansawdd a ddabtygir fel rhan o'r fenter UHOVI.

Myfyrdod/effaith:

Adlewyrchwyd gan aelod staff fel a ganlyn:

Mae'r ffaith fy mod yn ymarferydd gyrfaedd sy'n cyflenwi modiwl academiaidd yn sicrhau cymysgedd iach o'r ddamcaniaethol a'r ymarferol. Rwy'n gallu rhoi mewnwelediad unigol a chynghor ochr yn ochr ag archwilio'r gymdeithaseg, gwleidyddiaeth, economeg, a damcaniaeth dewis gyrfaol ehangach. Yn ogystal ag addysgu rwy'n gallu helpu i arwain y myfyrwyr hefyd sy'n darparu deilliant 'meddal' ychwanegol gan y modiwl datblygu personol hwn. Mae'r modiwl hwn yn ddarn o waith ar ei ganol, a byddwn wedi cwblhau'r cyfnod cyntaf erbyn y Nadolig, sef pryd rwy'n gobeithio gael rhywfaint o werthuso gan fyfyrwyr. Byddaf wedyn yn addasu'r modiwl ar sail yr adborth a chasgliadau fy hun o ran beth sydd wedi gweithio a heb weithio. Rwy'n addasu i rediad y sesiynau hyn ac weithiau wedi gorlwytho cynnwys, a byddwn yn sicrhau i wasgaru hyn yn fwy cyfartal y tro nesaf. Mae'r ffaith fy mod yn cofnodi popeth ar ein MLE yn golygu fy mod i'n cael ychwanegu adnoddau yn gyson, wrth i mi ddod o hyd iddynt yn fy swydd bob dydd, fel sail i ddarparu gwybodaeth barhaus ar bwnc sy'n esblygu ac yn newid yn ddyddiol!

Cynllunio datblygu personol (PDP) myfyrwyr israddedig

(astudiaeth achos A6)

Enw Cyswllt: Julie Keenan
Ebost: pdpportfolio@aber.ac.uk
Ffôn: 01970 628689
Sefydliad: Prifysgol Aberystwyth
Cyfeiriad: Gwasanaeth Gyrfaoedd, Prifysgol Aberystwyth

Geiriau allweddol: PDP, cyflogadwyedd, cynllunio datblygiad gyrfa, ymarfer myfyriol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol y sefydliad.

Nod:

Y gynulleidfa darged oedd pob myfyriwr israddedig ar draws y Brifysgol gyfn, ymhob grŵp blwyddyn a phob maes pwnc.

Disgrifiad/Dull:

Roedd y Brifysgol yn frwd i arbrofi gyda dull gwahanol a mwy cyfannol o gynllunio datblygu personol (PDP), er mwyn galluogi myfyrwyr i gysylltu'n uniongyrchol i adnoddau ar-lein arbennig i gefnogi eu myfyrdodau ar y trawsnewidiad o gartref i'r brifysgol, sgiliau astudio, gwaith academaidd a chynllunio gyrfaol. Gwnaed hyn drwy ddabtygu templedau mewn wiki wedi'i leoi ar rith-amgylchedd Bwrdd-du DysguAber; sydd yn awr yn Bortffolio PDP. Datblygwyd themâu rheoli gyrfa allweddol gan y Swyddog Dysgu Adfyfyrion a oedd yn berthnasol i bob blwyddyn astudio gyda gweithgareddau tiwtorial a gweithdy wedi'u teilwra'n arbennig i'w haddasu gan staff i'w helpu i mewnlannu PDP yn y profiad myfyrwyr. Cyfranwyd syniadau gan fyfyrwyr; staff academaidd a gwasanaethau canolog i ddatblygiad y PortffolioPDP ac o ganlyniad i hyn, cafwyd cymorth â mwy o ffocws i waith academaidd myfyrwyr ac arwyddbost i ddangos y ffordd i'r gwasanaethau canolog perthnasol eu hadeiladu i mewn.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae myfyrwyr yn ymgysylltu'n fwy cyflawn â PDP ac mae staff yn sicrhau bod cyfleoedd i ymgysylltu gyda'r Portffolio PDP yn cael eu mewnlannu yn y profiad myfyrwyr; gan alluogi i fyfyrwyr adlewyrchu'n adeiladol ar y gweithgareddau i gyd y maent yn ymgymryd â nhw i ddeall sut y maent yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae pob adran o'r Brifysgol wedi mewnlannu PDP yn y profiad myfyrwyr. Mae dulliau gweithio yn cynnwys cysylltu i dempledau amrywiol o fewn y Portffolio PDP i gefnogi dysgu yn ystod lleoliadau profiad gwaith a defnyddio'r Portffolio PDP i ddarparu strwythur ar gyfer tiwtorialau personol. Mae myfyrwyr sy'n ymgysylltu'n weithredol â'r broses yn cael eu paratoi'n well i gynhyrchu CVs a ffurflenni cais ac yn gallu egluro'u profiadau'n well mewn ffordd briodol mewn cyfweiliadau.

Myfyrdod/effaith:

Roedd staff, myfyrwyr a gwasanaethau canolog yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu Portffolio PDP ac agorwyd cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio cydweithredol i fyny gan hyn, gan ddylanwadu ar y prosiect a'i symud ymlaen wrth ei hyrwyddo i staff a myfyrwyr. Mae'r dull gweithio ar-lein yn galluogi adnoddau i gael eu diweddarau'n rheolaidd ac i fyfyrwyr gyfranogi mewn PDP pryd, ble a pha mor aml y maent yn dymuno ac angen.

Rhoi cyflogadwyedd ar y map: defnyddio dysgu ac asesu ar-lein i hyrwyddo datblygu proffesiynol

(astudiaeth achos CM5)

Enw Cyswllt: Tim Palazon
Ebost: tpalazon@uwic.ac.uk
Ffôn: ext. 5891
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyfeiriad: Ysgol Addysg Caerdydd, Campws Cyncoed, Heol Cyncoed, Caerdydd.

Geiriau allweddol: myfyrdod, asesiad, sgiliau cyflogadwyedd, datblygiad proffesiynol parhaus.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

O fewn y rhaglen Astudiaethau Addysgol, a gyflenwir mewn perthynas â chwech llwybr pwnc gwahanol, yn cwmpasu tair ysgol (Chwaraeon, Addysg a Gwyddorau lechyd).

Nod:

I annog myfyrwyr trwy weithgareddau myfyriol ac adborth cyfoedion i archwilio cyfleoedd gyrfa, nodi sgiliau allweddol angenrheidiol, a chynllunio datblygiad y dyfodol i wella eu sgiliau presennol a hyrwyddo cyflogadwyedd.

Disgrifiad/Dull:

Ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, mae modiwl generig ar-lein 'e-gyrfaedd' wedi'i ddatblygu gan yr Uned Gyrfaoedd i alluogi myfyrwyr i nodi a datblygu sgiliau cyflogadwyedd allweddol. I fewnlannu'r modiwl hwn i'r rhaglen mae'r Ysgol Addysg wedi dabtygu modiwl deg-credyd ble mae digwyl i fyfyrwyr ddefnyddio'r e-fodiwl i archwilio llwybr gyrfaedd dewisol, mynd i'r afael â gweithgareddau myfyriol i nodi'r sgiliau sydd angen i ddilyn maes eu dewis a hunan-asesu er mwyn cynllunio gweithgareddau datblygiadol i'w rhoi ar flaen y gad wrth ymgeiso ar gyfer

swyddi. I sicrhau cyfranogiad a hyrwyddo eu sgiliau cyflwyno mae gofyn i fyfyrwyr yr ail flwyddyn i gynhyrchu poster i'w gyflwyno a'i gyfiawnhau mewn arddangosfa myfyrwyr; ble mae disgwyl iddynt gyflwyno eu canlyniadau a chael adolygiad ac asesiad gan eu cyfoedion. O fewn y poster mae angen i'r myfyrwyr:

- nodi maes eu dewis a dewisiadau creadigol gwahanol potensial;
- myfyrrio ar gynllunio eu gyrfa;
- nodi sgiliau trosglwyddadwy sy'n bodoli eisoes gydag anghenion datblygu;
- nodi sgiliau gyrfa-benodol a chyfleoedd o fewn y cwrs a thu allan i'r cwrs i ddatblygu'r rhain ymhellach;
- ysgrifennu datganiad personol allweddol, sy'n nodi eu pwynt gwerthu allweddol i'w gynnwys mewn CV;
- nodi sgiliau cyfweiliad sy'n gwybodaeth benodol i faes eu dewis.

O fewn y cyflwyniad mae angen i fyfyrwyr gyflwyno eu cynllun ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a nodi cyfleoedd o fewn y cwrs a thu hwnt i'w helpu i gyrraedd eu nod. Bydd y posteri'n cael eu hadolygu gan gyfoedion ac aelodau staff a'u hasesu gan staff academiaidd.

Deilliannau a Ragwelir:

- codi proffil cyflogadwyedd a chael myfyrwyr i feddwl am ac archwilio cyfleoedd gyrfaol y dyfodol;
- mewnbllannu cyflogadwyedd yn y cwricwlwm;
- dechrau myfyrwyr i feddwl am gyfleoedd gyrfa mewn ffordd greadigol yn gynnar yn y cwrs drwy nodi eu sgiliau allweddol, gobeithion a dyheadau;
- hyrwyddo tiwtora ac adborth cyfoedion;
- gwella sgiliau cyflwyno (gweledol ac ar lafar);
- datblygu ymarfer myfyriol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Bydd hyn ar gael erbyn Ebrill 2012.

Myfyrdod/effaith:

Bydd hyn ar gael erbyn Ebrill 2012.

Gweithgaredd asesu ar gyfer myfyrwyr y flwyddyn olaf yn yr Adran Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff

(astudiaeth achos A1)

Enw Cyswllt: Chris Morris-Thomton
Ebost: chl@aber.ac.uk
Ffôn: 01970 628670
Sefydliad: Prifysgol Aberystwyth
Cyfeiriad: Penglais Aberystwyth SY23 3DB

Geiriau allweddol: cyflwyniad poster, sgiliau, hunan-farchnata, CV, hunan-hyder, dewis gyrfa.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Ar fodiwl o fewn yr Adran Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff.

Nod:

I wella cyflogadwyedd y flwyddyn olaf mewn Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff.

Disgrifiad/Dull:

O fewn y modiwl o Astudiaethau Cymhwysol ac Integredig, mae'n rhaid i fyfyrwyr ymchwilio cyfleoedd gyrfaol a dod o hyd i swydd gwirioneddol a phresennol neu leoliad ar lefel graddedig sy'n briodol i'w huchelgais gyrfaol. Gall myfyrwyr geisio ar gyfer y rôl neu wneud cais ffug. Ar gyfer asesiad, rhaid iddynt ysgrifennu CV proffesiynol a llythyr eglurhaol a gwneud cyflwyniad poster i arddangos beth y maent yn gwybod am y swydd, sut maent yn addas o ran y sgiliau a'r meini prawf a restrir a'u haddasrwydd a brwdfrydedd cyffredinol ar gyfer y rôl. Roedd yr adran yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth gyrfa o ran dylunio'r gweithgareddau asesu ac roedd mewnbwn sylweddol ar y cyflenwad gan y cynghorydd gyrfa oedd linc.

Deilliannau a Ragwelir:

Bydd myfyrwyr yn gwybod ac yn deall sut i ymchwilio opsiynau a chyfleoedd gyrfaol gwahanol. Byddai'n helpu iddynt ddatblygu'r sgiliau o ysgrifennu CVs, llythron, a cheisiadau effeithiola byddent yn dysgu sut i farchnata'u hunain wyneb yn wyneb. Byddent hefyd yn cynyddu eu dealltwriaeth o fframweithiau achredu proffesiynol a sut i ddadansoddi eu sgiliau a'u cydweddu i rôl dewisol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Canlyniadau DLHE dayn gyson gan yr adran hon a marciau modiwl a ffurflenni adborth da.

Myfyrdod/effaith:

Ymatebodd yr adran yn benodol i lansiad strategaeth cyflogadwyedd y sefydliad drwy adolygu'r modiwl 'Astudiaethau Cymhwysol a Thematig' a'i ailosod gydag 'Astudiaethau Cymhwysol ac Integredig' er mwyn cynnwys mwy o lawer o waith addysg gyrfaol a mwy o lawer o fewnbwn gan y cynghorydd gyrfa oedd linc.

Marchnata, Hyrwyddo ac Arddangos (Cyfadran Celf a Dylunio, Prifysgol Fetropolitan Abertawe)

(astudiaeth achos SM5)

Enw Cyswllt: Holly Davey
Ebost: Holly.Davey@smu.ac.uk
Ffôn: 01792 481021
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Cyfeiriad: Canolfan Dynefor ar gyfer Celf, Dylunio a Chyfyngau,
Abertawe SA1 3EU

Geiriau allweddol: cydweithredu diwydiannol, ymarfer creadigol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol pob rhaglen yn y Gyfadran Celf a Dylunio.

Nod:

I roi profiad i fyfyrwyr o ymgysylltu eu hymarfer creadigol personol gyda chleientiaid allanol.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r modiwl Marchnata, Hyrwyddo ac Arddangos yn rhoi profiad dysgu ble y gofynir i'r myfyrwyr am gynhyrchu pecyn artist, sy'n cynnwys cerdyn busnes, presenoldeb gwe ar-lein, CD yn cynnwys defnydd hyrwyddo am eu hymarfer yn ogystal â CD o brofiad. Mae'n fodiwl sy'n eu annog i archwilio a rhoi pecyn artist at ei gilydd sy'n eu hyrwyddo i'r byd allanol i guradwyr potensial, rheolwyr oriel a chyflogwyr masnachol. Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyngor ymarferol iddynt ac yn eu cefnogi i'w helpu yn ei gyrfaedd dyfodol (o fewn fframwaith cefnogol eu rhaglen gradd) drwy ymchwilio pecynau artistiaid eraill, edrych ar ffyrdd o farchnata a hyrwyddo, y cyfle i gwrrd a chael cyfweiliad â pherson proffesiynol o'r byd masnachol ac ymchwilio cyfleoedd ariannu potensial i'r dyfodol. Er enghraifft, yn y gorffennol mae myfyrwyr wedi cwrdd â chynrychiolwyr proffesiynol o'r Photographers Gallery a Millenium Images Ltd i gael y profiad o gyfweiliad portffolio. Pwyslaid y prosiect hwn yw gofyn i'r myfyrwyr am ymchwilio, ystyried ac yn datblygu eu steil unigol eu hunain a gallu marchnata a hyrwyddo eu hunain ar ôl y brifysgol mewn cyd-destun masnachol a sector cyhoeddus.

Mae monitro datblygiad y prosiect trwy gymorth tiwtorial yn sicrhau perthnasedd dysgu ar gyfer cyflogaeth. Y brif her yw dod o hyd i bartneriaid proffesiynol addas sydd â digon o amser i gyfranogi yn y prosiect. Roedd agor y myfyrwyr i fyny i sefyllfaoedd dysgu gyda chleientiaid proffesiynol yn darparu profiadau gwerthfawr iawn o gyflwyno'u hunain a'u gwaith creadigol. Mae dod â phobl broffesiynol i mewn i weithio gyda'r myfyrwyr hanner ffordd trwy'r flwyddyn academiaidd yn darparu adborth defnyddiol iawn i baratoi ar gyfer yr asesiad ar ddiwedd y flwyddyn.

Deilliannau a Ragwelir:

- nodi meysydd potensial ar gyfer ymchwil a datblygu creadigol o fewn cyd-destun eu harbenigedd pwnc;
- datblygu a chynhyrchu pecyn artist sy'n adlewyrchu eu hymarfer ac yn hyrwyddo eu steil unigryw i'r byd proffesiynol;
- datblygu sgiliau cyfathrebu ac egluro dulliau gwaith, syniadau a chanlyniad y prosiect gan arddangos myfyrdod ar ddylanwadau personol ac allanol;
- profi a dewis deunyddiau, prosesau ac amgylcheddau sy'n briodol i ofynion personol ac allanol;
- datblygu gwybodaeth o ddeunyddiau busnes ac ymarferion sy'n berthnasol i farchnata a hyrwyddo eu gwaith.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r prosiect wedi arwain at raddedigion yn cael cyfleoedd proffesiynol fel cael eu cynrychioli gan asiantaethau lluniau rhyngwladol a chael eu gwaith wedi'i ddewis ar gyfer arddangosfeydd mawr.

Myfyrdod/effaith:

Fel y disgrifir uchod, mae'r broses asesu dau gam wedi gweithio'n dda iawn. Mae dod â'r cleientiaid proffesiynol i mewn yng nghanol y flwyddyn i roi perbectif ffurfiannol ffres ar waith ymarferol y myfyrwyr yn rhoi'r cyfle iddynt fyfyrion ar a pharatoi ar gyfer yr asesiadau crynodol wedyn ar ddiwedd eu rhaglen.

Cefnogaeth i ymgeisio ar gyfer amser i ffwrdd o astudio academaidd a Rhaglen Bartneriaeth y Brifysgol (mewn partneriaeth â'r ICAEW)

(astudiaeth achos C8)

Enw Cyswllt: Mandy Jones
Ebost: JonesM38@cardiff.ac.uk
Ffôn: 02920 874828
Sefydliad: Prifysgol Caerdydd
Cyfeiriad: 5 Heol Corbett, Caerdydd

Geiriau allweddol: sgiliau cyflogadwyedd, hunan-werthuso, myfyrdod, ymgynghoriadau grŵp.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Mae Ysgol Fusnes Caerdydd wedi cyflwyno'r opsiwn ar gyfer myfyrwyr yr ail flwyddyn ar y cynllun gradd BSc Rheoli Busnes i ymgymryd â bwllch un-flwyddyn mewn astudio academaidd i gael profiad gwaith perthnasol i gydweddu â'u hastudiaethau academaidd, yn ogystal â datblygu a gwella sgiliau cyflogadwyedd. Yn ogystal â hyn, 'gwahoddwyd' myfyrwyr ail-flwyddyn ar y ddau gynllun gradd BSc Cyfrifeg a Chyfrifeg a Chyllid hefyd i ymgymryd â Rhaglen Bartneriaeth y Brifysgol (UPP) mewn cydweithrediad â'r ICAEW (Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr).

Nodau:

Amcanion allweddol y prosiect yw i fyfyrwyr:

- ddeall y broses recriwtio ar gyfer cyfleoedd blwyddyn i ffwrdd yn ogystal â sut a ble i ymchwilio;
- dod yn gyfarwydd â'r sgiliau allweddol a chymwyseddau y mae cyflogwyr recriwtio yn chwilio amdanynt;
- hunan-werthuso a myfyrwyr ar eu profiadau eu hunain mewn a thu allan i astudio academaidd sy'n gallu ychwanegu gwerth ac yn gymorth i geisiadau potensial;
- nodi meysydd o gryfder ar gyfer y broses recriwtio yn ogystal â'r rheiny sydd angen eu datblygu ymhellach;
- rhannu eu profiad a'u gwybodaeth yn eu blwyddyn i ffwrdd/geisiadau UPP/cyfweiliadau/canolfannau asesu.

Disgrifiad/Dull:

Nid yw bwllch mewn astudio academaidd a'r UPP yn elfen orfodol o'r rhaglenni gradd, felly ni fydd y lleoliad ei hun yn cyfrannu at ddsbarthiad cyffredinol eu gradd. Fodd bynnag, mae'r cyfle i fyfyrwyr adeiladu a gwella sgiliau seiliedig ar waith a chymwyseddau i fanteisio rhagolygon cyflogaeth dyfodol graddedig yn cael ei hyrwyddo.

Cafodd myfyrwyr yr ail flwyddyn Rheoli Busnes, Cyfrifeg, a Chyfrifeg a Chyllid gyflwyniad deng-munud a gyflenwyd gan Ymgynghorydd Gyrfaoedd yr Ysgol Fusnes yn ystod amser darlithoedd i'w hysbysu am yr opsiwn o gymryd amser i ffwrdd o'u hastudio academaidd neu'r rhaglen UPP. Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar bwysigrwydd sgiliau cyflogadwyedd a'u gwerth i gyflogwyr sy'n recriwtio. Cyflwynwyd y manteision a'r anfanteision o gymryd blwyddyn i ffwrdd o astudio academaidd/UPP hefyd. Rhoddwyd cyngor i fyfyrwyr am werth profiad gwaith i gyd, gyda neu heb gyflog, heb ystyried teitl swydd na rôl swydd, a sut y gallent nodi sgiliau trosglwyddadwy allweddol o'r profiadau hyn. Roedd disgwyl i bob myfyriwr a oedd yn ystyried o ddifrif cael cyfnod i ffwrdd o'u hastudio academaidd/UPP hysbysu eu tiwtoriaid fel y gallent drefnu cymorth, cyngor ac arweiniad priodol. O ganlyniad i'r cyflwyniadau hyn, daeth i'r amlwg bod tua 100 o fyfyrwyr yn ystyried o ddifrif cymryd amser i ffwrdd o'u hastudio academaidd/UPP. Yn dilyn cyfarfodydd gyda staff academaidd priodol, cytunwyd y bydd cyfweiliadau grŵp yn cael eu cynnal i gymhwyso'r galw am gyngor ac arweiniad ar y broses ymgeisio a pharatoi am gymryd amser i ffwrdd o astudio academaidd.

Trefnwyd dyddiadau ac amserau i gymhwyso myfyrwyr Rheoli Busnes, yn ogystal â dyddiadau ac amserau ar wahân i gymhwyso myfyrwyr Cyfrifeg, a Chyfrifeg a Chyllid. Ble'r oedd amserau apwyntiadau yn yr Ysgol Fusnes yn darparu ar gyfer cyfweiliadau unigol, cytunwyd y bydd pump myfyriwr o bob amser apwyntiad yn cael eu gweld fel rhan o grŵp bach. Yn hytrach nag archebu'r sesiynau hyn drwy system archebu ar-lein y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, cynghorwyd myfyrwyr i gofrestru'n ysgrifenedig ar ffurflenni apwyntiad ar ddrws yr Ymgynghorydd Gyrfaoedd yn yr Ysgol Fusnes. Roedd 'thema' gan bob sesiwn cyfweiliad i bob cynllun gradd gyda'r nod o osod targedau a helpu i fyfyrwyr symud ymlaen i'w cam nesaf. Nid oedd yn 'orfodol' i fyfyrwyr fynychu pob un o'r tair sesiwn grŵp; roedd apwyntiadau'n hyblyg yn dibynnu ar anghenion y myfyrwyr. Dyluniwyd tair sesiwn i fod yn hollol rhyngweithiol, drwy ofyn cwestiynau penodol ar gyfer ymatebion wedi'u rhannu, gan gwmpasu'r meysydd canlynol:

- sesiwn un: 'Sut i ymgeisio ar gyfer amser i ffwrdd o astudio academaidd/UPP';
- sesiwn dau: 'Ffurflenni Cais, CVs a chwestiynau seiliedig ar gymhwyster';
- sesiwn tri: 'Cyfweiliadau a chanolfannau asesu'.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Dros gyfnod y rhaglen o gyfweiliadau grŵp datblygodd myfyrwyr:

- mewnwelediad a dealltwriaeth o sgiliau cyflogadwyedd a'u gwerth i'r broses recriwtio;
- y gallu i rannu syniadau mewn cyd-destun grŵp;
- y gallu i fyfyrwyr ar eu profiadau eu hunain y tu allan i astudio academaidd a sut maent yn werthfawr i gyflogaeth;
- dealltwriaeth o sgiliau 'trosglwyddadwy' seiliedig ar waith a chymwyseddau;
- gwerthfawrogiad o dystiolaeth busnes ac ymwybyddiaeth fasnachol o fewn eu ceisiadau a'u CVs';
- dealltwriaeth o'r broses recriwtio graddedig;
- sgiliau paratoi ar gyfer cynhyrchu ceisiadau wedi'u targedu;
- sgiliau paratoi ar gyfer y broses cyfweiliad a chanolfan asesu.

Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, yn ystod yr ymarfer hwn, llwyddodd un myfyriwr i gael lleoliad 12-mis gyda'r 'Tîm Prynu', a llwyddodd eraill i gyrraedd y cam o brofi seicometrig ar-lein y broses recriwtio gyda chyflogwyr eu dewis, cafodd un myfyriwr ddau gyfweiliad teleffôn, un gydag Ernst & Young a'r llall gyda Deloitte. Roedd y rheiny a oedd yn ymgeisio i John Lewis wedi llwyddo i 'basio' y broses Sgrinio Talent ac roeddent yn awr yn cwblhau ail gam y broses ymgeisio. Roedd y rheiny a oedd yn ymgeisio i Jaguar Land Rover hefyd wedi 'pasio' y cam ymgeisio.

Myfyrdod/effaith:

Ar ddiwedd y cyfweiliad grŵp olaf roedd gofynwyd yn anffurfiol i fyfyrwyr roi adborth ar eu profiad, ac o'r adborth hwn trafodwyd argymhellion ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf gyda'r tiwtoriaid/staff academaidd priodol yn yr Ysgol Fusnes. Y teimlad oedd bod yr areithiau cyflwyno i fyfyrwyr yr ail flwyddyn am yr opsiwn o gymryd amser i ffwrdd o'u hastudio academaidd neu gymryd rhan yn y rhaglen UPP yn cael eu cyflenwi'n rhy hwyr ac y dylai'r cyflwyniadau hyn gael eu cyflenwi ar ddiwedd eu blwyddyn gyntaf o astudio gyda'r nod o osod 'tasgiau' dros y gwyliau Haf i baratoi ar gyfer ymgeisio ar gyfer yr ail flwyddyn.

Mae deilliannau potensial eraill o'r adborth yn cynnwys ailgyflwyno'r opsiwn o amser i ffwrdd o astudio academaidd fel rhan o broses cynefino'r ail flwyddyn, a chyfweiliadau grŵp i ddechrau yn gynharach yn y flwyddyn academaidd newydd i gydfynd â'r rhaglen CMS ble mae cyflogwyr gwadd a'r Ymgynghorydd Gyrfaoedd o'r Ysgol Fuses yn cyflenwi gweithdai ar 'Fusnes ac Ymwybyddiaeth Fasnachol', 'Sion sicr CV' a 'Gwella Eich Sgiliau Cyfweiliad' a.a.

Cynllun Blwyddyn Mewn Cyflogaeth (YES)

(astudiaeth achos A5)

Enw Cyswllt: Myfanwy Ford

Ebost: amf@aber.ac.uk

Ffôn: 01970 622381

Sefydliad: Prifysgol Aberystwyth

Cyfeiriad: Careers Service, Penglais, Aberystwyth SY23 3DB

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, brofiad gwaith, datblygu sgiliau.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol y sefydliad.

Nod:

Caniatáu i fyfyrwyr nad ydynt ar gwrs rhyngosod ffurfiol y cyfle i gymryd blwyddyn i ffwrdd rhwng ail flwyddyn a blwyddyn olaf eu cynllun gradd i wneud gwaith lefel-graddedig mewn sefydliad yn y DU neu dramor.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r cynllun yn cael ei hysbysebu'n eang (ar ddiwrnodau agored, mewn adrannau, yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd, ar y wefan, mewn trafodaethau a.a.) a chaiff myfyrwyr â diddordeb eu hannog i drafod eu hopsiynau gyda chynghorydd. Ceir caniatâd gan adrannau ar gyfer pob myfyriwr sy'n cofrestru ar y cynllun. Rhoddir help a chymorth gan staff y Gwasanaeth Gyrfaoedd ar sut i ddod o hyd i swyddi gwag a gwybodaeth ar sut i ymgeisio ar gyfer lleoliadau. Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn hysbysebu llawer o gyfleoedd lleoliad trwy gydol y flwyddyn, ond mae'n cael ei wneud yn glir i fyfyrwyr nad yw'r unig cyfleoedd sydd ar gael yw'r rhain ac y dylent chwilio'n eang am lleoliadau.

Mae'r broses o benderfynu ar feysydd gyrfa o ddiddordeb, nodi cyflogwyr perthnasol a lleoliadau gwag, ymgeisio ar gyfer a chael cyfweiliadau yn helpu i fyfyrwyr ganolbwyntio ar eu cynlluniau hir dymor ac yn helpu i bob myfyriwr baratoi ar gyfer gwneud yr un peth wrth chwilio am gyflogaeth ôl-raddedig; mae hyd yn oed y rheiny nad ydynt yn cymryd blwyddyn i ffwrdd yn manteisio o'r profiad, oherwydd byddent yn gyfarwydd â'r broses pan eu bod yn dechrau eu blwyddyn derfynol.

Mae myfyrwyr sy'n cael lleoliadau yn hysbysu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd am eu llwyddiant a gwneir trefniadau iddynt gymryd blwyddyn i ffwrdd. Mae staff y Gwasanaeth Gyrfaoedd a staff arall y Brifysgol yn dal i fod ar gael fel cymorth i fyfyrwyr YES tra eu bod allan ar leoliad os oes ganddynt unrhyw ymholiadau trwy gydol y flwyddyn.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae'r cynllun yn caniatâu i fyfyrwyr: wneud neu brofi penderfyniadau am lwybr gyrfa dewisol; cynyddu eu hyder; gwella eu cyflogadwyedd; gwella eu marciau arholiad terfynol gyda gwybodaeth a sgiliau ychwanegol a enillwyd ar leoliad; a datblygu sgiliau rhwydweithio. Yn ychwanegol, bydd gan rai ohonynt y cyfle i: weithio tramor; ennill cymwysterau; diogelu'r cynnig o swydd ar ôl graddio; a chyflawni gwaith ymchwil ar gyfer eu traethawd hir yn eu blwyddyn derfynol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae myfyrwyr Blwyddyn mewn Cyflogaeth yn dychwelyd am eu blwyddyn derfynol yn amlwg yn fwy aeddfed a hyderus, ac yn gallu cyfrannu'n effeithiol i sesiynau grŵp, yn ogystal â pherfformio yn dda yn eu gwaith unigol. Maent yn aml yn cael graddau da ac yn dod o hyd i waith lefel-graddedig ar ôl cwblhau eu hastudiaethau, sy'n glir o dystiolaeth ystadegol y DLHE.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r Cynllun Blwyddyn mewn Cyflogaeth wedi cael effaith anferth ar gyfranogaeth myfyrwyr. Maent yn datblygu gwybodaeth a sgiliau ychwanegol, yn datblygu hyder ac yn profi eu hunain yn y gweithle, sydd yn cyfrannu at wella eu cyflogadwyedd a chynyddu eu cyfleoedd o gael swydd dda ar lefel graddedig ar ôl iddynt gwblhau eu gradd. Mae'n cynyddu eu dealltwriaeth o'r byd gwaith hefyd a gofynion y gweithle modern. Maent yn gallu myfyrio ar eu profiad yn ystod y flywddyn ac egluro'r sgiliau a'r galluoedd y maent yn awr yn gallu eu cynnig i gyflogwr.

Dyfarniad Caerdydd

(astudiaeth achos C1)

Enw Cyswllt: Kathryn Foot
Ebost: FootKM@cardiff.ac.uk
Ffôn: 02920 876945
Sefydliad: Prifysgol Caerdydd
Cyfeiriad: 5 Corbett Road, Prifysgol Caerdydd

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, datblygu sgiliau, ymgysylltu myfyrwyr, datblygu presennol, profiad gwaith, gweithgareddau all-gyrsiol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Cyflwynwyd y fenter ar hyd a lled y sefydliad (prosiect a reolwyd gan Gyrfaedd a Chyflogadwyedd), ac mae Dyfarniad Caerdydd ar hyn o bryd ar y cam peilot gyda phump ysgol: Cyfrifiadureg, Cyfathrebu ac Athroniaeth Saesneg, Busnes, Gwyddorau Cymdeithasol a Ffiseg. Mae'r dyfarniad ar gael i bob myfyriwr o 2012-13 ac mae 57 o fyfyrwyr wedi'u dewis ar gyfer y peilot. Mae'r dyfarniad wedi'i ddatblygu ac wedi derbyn cefnogaeth sylweddol gan recriwtwyr graddedigion allweddol, gydag Ernst & Young fel y prif noddwr.

Nod:

Mae Dyfarniad Caerdydd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd gael cydnabyddiaeth swyddogol ar gyfer dysgu drwy gweithgareddau all-gyrsiol. Mae'n anelu at wella proffesiynoldeb a chyflogadwyedd cyfranogwyr, cynyddu hunan-ymwybyddiaeth o'u sgiliau a'u galluogi i egluro'r rhain yn effeithiol i recriwtwyr y dyfodol. Bydd y Dyfarniad yn cydfynd â ac yn gwella profiad prifysgol y dysgwyr ac yn eu paratoi'n well ar gyfer cyflogaeth graddedig. Mae'r Datblygwyd a chyflenwyd y Dyfarniad gyda chefnogaeth gan recriwtwyr graddedigion, ac mae'n mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau a gyfeirir ato mewn adroddiadau dylanwadol diweddar gan Gonffederasiwn Diwydiant Prydain, Universities UK a'r Undeb Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

Disgrifiad/Dull:

I gyflawni'r Dyfarniad rhaid i fyfyrwyr ymgymryd â 70 awr o waith all-gyrsiol, sy'n gallu cynnwys:

- gweithgareddau chwaraeon;
- cyfranogaeth weithredol mewn cymdeithasau (trwy safleoedd o gyfrifoldeb);
- gwirfoddoli myfyrwyr (ar neu i ffwrdd o'r campws);
- cynrychiolaeth academaidd;
- Blas ar Swydd GO Wales;
- gwaith achlysurol drwy'r Siop Swyddi;
- cenhadon campws/rheolwyr brand;

- cyfranogaeth mewn gwasanaethau a arweinir gan fyfyrwyr (fel RAG neu SHAG);
- gwaith rhan-amser yn ystod y tymor.

Yn ogystal rhaid i fyfyrwyr fynychu nifer o weithdai gorfodol a dewisol i'w helpu i arddangos fod y Dyfarniad wedi datblygu'r sgiliau canlynol:

hunan-reolaeth, gwaith tîm, datrys problemau, ymwybyddiaeth busnes a masnachol, a rhifedd. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau gan gwblhad archwiliad sgiliau, prawf rhifedd ar-lein a chyflwyniad CV a ffurflen gais mewn steil cyflogwyr sy'n myfyrion ar eu dysgu allweddol a dabtlygiad eu sgiliau. Bydd cyfranogwyr hefyd yn gorfod gwneud cyflwyniad i banel a chael cyfweiliad i ddilyn. Bydd rhaid edrych ar y mater o ariannu ychwanegol hefyd er mwyn i'r Dyfarniad dyfu; rydym yn bwriadu cynnig 150 o lefydd yn 2013-14. Rhaid nodi adnoddau sydd angen eu diweddarau drwy noddi cynyddol ac ariannu craidd.

Deilliannau a Ragwelir:

- Ar gwblhau'r Dyfarniad, bydd cyfranogwyr:
- yn arddangos dealltwriaeth glir o'r term 'cyflogadwyedd';
- yn gallu nodi gwerth gweithgareddau all-gyrsiol o ran datblygu sgiliau cyflogadwyedd gwell;
- yn cael mwy o hunan-hyder a galluoedd ac yn gallu egluro sut y cyflawnwyd hyn;
- yn gallu myfyrion feirniadol ar eu perfformiadau a nodi eu hannibyniaeth a'u hunan-ymwybyddiaeth;
- yn penodi sut y maent wedi datblygu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt;
- yn gallu cyflwyno ag egluro'r sgiliau hyn i recriwtwyr yn y dyfodol mewn ffordd gryno, clir a chywir;
- yn gallu nodi sut yr oedd y sgiliau a ddatblygwyd o gwblhau'r Dyfarniad yn cyfrannu at gysyniadau dysgu gydol oes a datblygu proffesiynol parhaus.

Bydd y Dyfarniad yn cael ei wobrwyo wedi arddangos deilliannau dysgu yn foddhaol a thystiolaeth glir o'r ymrwymiad i gyfleoedd dysgu

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Rydym yn y flwyddyn beilot ac felly nid oes gennym ddeilliannau dysgu gwirioneddol ar hyn o bryd; fodd bynnag, rydym yn mynd i'r afael ag astudiaeth effaith hir-dymor, sy'n dilyn cyfranogwyr y peilot mewn i gyflogaeth. Mae'r astudiaeth yn cynnwys ymchwil feintiol ac ansoddol gan staff academiaidd o Wyddorau Cymdeithasol. Hyd yn hyn rydym wedi gwneud arolwg o bob un o'r 57 o gyfranogwyr ar eu canfyddiad o gyflogadwyedd; mae carfan o gyfranogwyr di-ddyfarniad hefyd wedi gwneud yr un arolwg fel bod gennym feincnod ar gyfer cymhariaeth. Bydd y Dyfarniad hefyd yn cae ei werthuso yn flynyddol a bydd y casgliadau blaenorol yn cael eu defnyddio yn yr astudiaeth. Bydd angen i fyfyrwyr eu hunain asesu eu sgiliau cyn ac ar ôl y Dyfarniad.

Myfyrdod/effaith:

Nid yw hyn yn berthnasol ar gam hwn y prosiect ond gweler uchod ar gyfer gwerthusiad o'r peilot.

Dyfarniad Cyflogadwyedd Bangor (BEA)

(astudiaeth achos B1)

Enw Cyswllt: John Jackson
Ebost: jjackson@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 383583
Sefydliad: Prifysgol Bangor
Cyfeiriad: Rathbone, College Rd, Bangor LL57 2DF

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, rheoli gyrfaol, cynllunio datblygiad personol, sgiliau ac ansawdd, dyfarniad, profiad gwaith, interniaethau, gweithgareddau, gwirfoddoli, hyfforddiant, cynrychiolaeth, menter, all-gyrsiol, cyd-gwricwlar.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Cafwyd peilot gwreiddiol o'r cynllun (yn 2010-11) gyda'r carfannau blwyddyn gyntaf israddedig mewn tair ysgol academiaidd: yr ysgol fwyaf a dwy o'r lleiaf. Fodd bynnag, cafodd grŵp bach o israddedigion yr ail flwyddyn eu cynnwys hefyd ar ôl cyfleu diddordeb brwd. Roedd ail flwyddyn y peilot (2011-12) yn cynyddu'r nifer o ysgolion a oedd yn cyfranogi i wyth, gan weithio gyda myfyrwyr y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn, ac yn y drydedd flwyddyn sef y flwyddyn derfynol, bydd gweddill o ysgolion y sefydliad yn dod yn rhan o'r cynllun.

Nod:

Nod Dyfarniad Cyflogadwyedd Bangor; sydd ar hyn o bryd ar gyfer myfyrwyr israddedig, yw:

- darparu rhaglen dysgu cyfunol craidd o gynllunio datblygu personol a gweithgareddau rheoli gyrfa;
- achredu amrywiaeth eang o weithgareddau datblygu sgiliau all-gyrsiol a chyd-gwricwlar myfyrwyr Prifysgol Bangor; yn cynnwys profiad gwaith, gwaith cyflogedig, gwirfoddoli a chyfleoedd hyfforddi;
- gwella gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiadau ymarferol myfyrwyr Prifysgol Bangor o'r sgiliau, agweddau, ymddygiad a gwerthoedd sy'n hanfodol i broffesiynoldeb yn y gweithle graddedig;
- arwain myfyrwyr Prifysgol Bangor wrth iddynt nodi ac egluroeu sgiliau a rhinweddau eu hunain, a rhoi'r cyfle i fyfyrion ar eu priodoleddau lefel graddedig.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r cynllun BEA yn gweithredu ar y cyd ag ysgolion academiaidd y Brifysgol, adrannau gwasanaeth ac Undeb Myfyrwyr Bangor, gyda sefydliadau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Roedd blwyddyn gyntaf y peilot yn gweithio gyda myfyrwyr mewn tair ysgol academiaidd ac yn parhau i ehangu trwy gydol y sefydliad erbyn 2012-13. Mae'r rhaglen graidd yn cynnwys gweithdai a sesiynau ar-lein i wella sgiliau rheoli gyrfa myfyrwyr (yn cynnwys ysgrifennu CV, sgiliau cyfweiliad a phroffion rhesymu) a'u cynllunio datblygu personol a phroffesiynol (trwy fyfyrdod, dadansoddi sgiliau a nodi rôl) a ddarperir gan y gwasanaeth gyrfaoedd, cyflogwyr ac alumni Prifysgol Bangor.

Yn y rhaglen weithgareddau, gellir dewis gweithgareddau (a'u teilwra) o restr eang, neu gellir ystyried awgrymiadau i'w cynnwys.

Pendefynir ar werth pob gweithgaredd yn ôl amrywiaeth o feini prawf, yn cynnwys y rôl a gyflawnir, hyd a lefel yr ymrwymiad, yr amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy a ddefnyddir, ac wrth gwrs y gwerth i gyflogwyr potensial. Achredir gweithgareddau all-gyrsiol, nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ffurfiol yn y rhaglen gradd academiaidd, ond sydd yn werthfawr yn y farchnad swyddi graddedigion. Mae'r rhain yn cynnwys: gwaith rhan-amser; lleoliadau ac interniaethau; gwirfoddoli a mentora; arwain a chynrychiolaeth cyfoedion; cymdeithasau a chlybiau chwaraeon; menter ac arloesedd; ac ail ieithoedd a datblygu sgiliau.

Caiff gweithgareddau cyd-gwricwlar myfyrwyr eu cydnabod hefyd (e.e. cymdeithasau disgyblaeth-benodol, profiad gwaith galwedigaethol, darlithoedd gwadd, seminarau, gweithdai a chynadleddau), ac yn gyfle i adlewyrchu ar eu cwricwlwm yng nghyd-destun profiadau a senarios pendant.

Deilliannau a Ragwelir:

- Dylai myfyrwyr sy'n cwblhau Dyfarniad Cyflogadwyedd Bangor allu:
- cysylltu gyda'i gilydd a myfyrion ar agweddau cwricwlar, cyd-gwricwlar ac all-gyrsiol eu profiad myfyrwyr;
- nodi eu sgiliau trosglwyddadwy a'u nodweddion personol, a'u hegluro i gyflogwyr posibl;
- deall pwysigrwydd cyflogadwyedd, a defnyddio sgiliau rheoli gyrfa i lywio llwybr(au) gyrfa eu dewis.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol: Gyda'r cynllun yn rhedeg am raglenni gradd tair a phedair blynedd cyfan, a'r ffaith ei fod yn dal i fod yn ail flwyddyn ei beilot, nid oes unrhyw dystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol ar gael eto. Fodd bynnag, mae'r grŵp bach gwreiddiol o israddedigion ail flwyddyn, o'r ysgol beilot mwyaf, yn mynd i raddio yn ystod y flwyddyn academiaidd eleni; mae'r myfyrwyr hyn wedi cyflawni'r mwyafrif o agweddau o'r rhaglen graidd ac yn debygol o gwblhau'r lefel ganolog neu uwch o'r dyfarniad cyflogadwyedd yn ddiweddarach y semestr hon.

Drwy gydweithredu â'r Swyddfa Alumni, mae bwriad i wahodd y myfyrwyr â dyfarniad yn ôl i Fangor, yn y flwyddyn (neu flynyddoedd) sy'n dilyn graddio, i fwydo yn ôl mewn i raglen graidd y cynllun dyfarnu fel graddedigion diweddar (cyflogedig, gyda gobaith), ac yn y broses yn darparu arwydd o ble a sut mae'r cynllun wedi eu helpu.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r myfyrwyr o ddwy flynedd gyntaf y peilot wedi ymgymryd â'r cynllun gyda lefelau amrywiol o frwdfrydedd a phryder. Nid yw'n gynllun gorfodol ond mae llawer o fyfyrwyr yn sylweddoli y dylent gymryd rhan mewn, a chofnodi cymaint o brofiadau datblygu sgiliau all-gyrsiol â phosib er mwyn cael mantais yn y gweithle graddedigion. Hefyd, mae'n ymddangos fod cydnabyddiaeth o gyfranogiad uwch-fyfyrwyr mewn rhaglen arwain cyfoedion wedi ehangu diddordeb i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf mewn ysgolion academiaidd eraill, a'r gobaith yw y bydd hyn yn cynyddu cyfranogiad ar gyfer y dyfodol.

Glam Edge:cyflogadwyedd ym Mhrifysgol Morgannwg

(astudiaeth achos G10)

Enw Cyswllt: Euros Evans
Ebost: ejevans1@glam.ac.uk
Ffôn: 01443 482387
Sefydliad: Prifysgol Morgannwg
Cyfeiriad: Prifysgol Morgannwg, Pontypridd

Geiriau allweddol: GlamEdge, pasport, cyflogadwyedd, datblygu sgiliau.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol y sefydliad.

Nod:

I sicrhau bod myfyrwyr Morgannwg i gyd yn cael y cyfle i ymgysylltu â chyflogwyr ac adeiladu gweithgaredd seiliedig ar waith i'w cwricwlwm.

Disgrifiad/Dull:

Mae Glam Edge yn rhaglen arloesol a ddatblygwyd gan Brifysgol Morgannwg mewn partneriaeth â chyflogwyr a'i nod yw rhoi cyfleoedd a phrofiadau i fyfyrwyr a fydd yn rhoi mantais iddynt wrth gystadlu am gyflogaeth. Bydd 'Pasport i Gyflogadwyedd' Glam Edge yn rhoi ffordd o gofnodi eu cyflawniadau i fyfyrwyr, a fydd yn cael ei ardystio gan gyflogwyr a sefydliadau eraill.

Mae cam un y pasport yn annog myfyrwyr i gymryd rhan mewn rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau dan arweinyddiaeth cyflogwyr fel ffeiriau gyrfaedd, cyflwyniadau gan gyflogwyr a gweithdai cynllunio gyrfa. Nod cam nesaf y pasport y rhoi cyfle i fyfyrwyr ddabtlygu eu sgiliau cyflogadwyedd trwy brofiad cysylltiedig â gwaith.

Unwaith i fyfyrwyr gwblhau'r ddau gam byddent yn gymwys i dderbyn tystiolaeth Glam Edge.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae sicrhau y caiff agweddau allweddol cyflogadwyedd eu hintegreiddio i raglenni'r Brifysgol mewn ffordd resymegol sydd nid yn unig yn cael effaith ar ddyluniad y cwricwlwm ond hefyd yn dylanwadu ar strategaeth gyffredinol y Brifysgol.

Roedd yr agweddau allweddol o gyflogadwyedd a ystyriwyd mewn ffordd benodol o fewn dyluniad y cwricwlwm yn cynnwys:

- cyd-destun strategol ar gyfer cyflogadwyedd;
- diffiniad a model a gytunwyd ar gyfer cyflogadwyedd;

- agweddau allweddol o'r broses Glam Edge;
- dysgu ar gyfer cyflogaeth yn cael ei egluro mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar brofiad seiliedig ar waith i bob cwrs;
- fframwaith sgiliau cyflogadwyedd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol;
- mewtblannu sgiliau cyflogadwyedd i'r cwricwlwm;
- cynllunio datblygu personol yn cael ei integreiddio i'r dull gwaith cyflogadwyedd;
- cydnabyddiaeth allanol o 'fantais' y myfyrwyr trwy basport a thystysgrif.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Er bod eleni'n cael ei fwriadu fel blwyddyn o beilot i 40-50 o fyfyrwyr, rydym wedi gweld ymgysylltiad gan dros 2,000 o fyfyrwyr sy'n cydnabod gwerth y fenter.

Myfyrdod/effaith:

Mae datblygiad ar draws y sefydliad sy'n gysylltiedig â'r cynllun ffioedd a'r strategaeth gorfforaethol, wedi codi proffil cyflogadwyedd a'i sgiliau cysylltiedig ar lefel sefydliadol. Mae ymgysylltiad myfyrwyr â darpariaeth Glam Edge yn dangos mai rhanddeiliaid myfyrwyr yn ogystal â chyflogwyr a'r gymuned leol ble mae myfyrwyr yn gwirfoddoli sy'n cael eu heffeithio. Mae peilot bach wedi troi'n gynllun mawr ac rydym yn bwriadu adeiladu arno yn y dyfodol.



Adran 3: Datblygu priodoleddau graddedigion

Mae'r syniad o 'briodoleddau graddedigion' yn un o agweddau mwyaf dadleuol yr agenda cyflogadwyedd ac mae rhai astudiaethau (e.e. Dunne et al., 2000; Harvey, 2000) yn awgrymu bod ychydig iawn o ddealltwriaeth gyffredin rhwng cyflogwyr ac academyddion o ran sgiliau graddedigion perthnasol.

Roedd astudiaeth ymchwil diweddar yn dadlau bod sgiliau trosglwyddadwy penodol yn cael eu gweld fel arbennig o berthnasol gan gyflogwyr. Y rhain yw:

- gwaith tîm;
- datrys problemau;
- hunan-reolaeth;
- gwybodaeth o'r busnes;
- llythrennedd a rhifedd sy'n berthnasol i'r swydd;
- gwybodaeth TGCh;
- sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu da;
- y gallu i ddefnyddio menter eu hunain ond hefyd i ddilyn cyfarwyddiadau;
- sgiliau arweinyddiaeth lle bo'n angenrheidiol.

Gwelwyd bod perthnasedd arbennig y grŵp hwn o briodoleddau yn yn cadarnhau casgliadau cynharach o ran safbwyntiau cyflogwyr (UKCES, 2009). Yn wir, pe bai cyflogwyr yn ystyried y priodoleddau hyn yn werthfawr; yna nid yw'r astudiaeth achos yn yr adran hon yn cefnogi'r ddatl bod ychydig iawn o ddealltwriaeth gyffredin rhwng cyflogwyr ac academyddion o ran sgiliau perthnasol graddedigion gan fod llawer o'r astudiaethau yn ymwneud â datblygu'r sgiliau a nodir uchod.

Gall wneud profiad gwaith seiliedig ar ddiwydiant a chael gwerthfawrogiad mwy o safon diwydiannol, dyddiadau cau a 'gwybodaeth am y busnes' helpu i fyfyrwyr ennill nifer o'r priodoleddau hyn, fel y mae astudiaethau SM7 a G5 yn amlygu. Mae astudiaeth A8 hefyd yn arddangos cynllun lleoliad gwaith a dyfarniad sy'n helpu i raddedigion ddatblygu a phrofi sgiliau ychwanegol, tra bod astudiaeth TSD1 yn dangos sut mae patrwm asesu arbennig yn gallu helpu mewtblannu sgiliau trosglwyddadwy fel cyfathrebu a TG.

Dangosir datblygiad priodoleddau graddedig trwy gydol cwrs, yn unol â fframwaithar gyfer hunan-fonitro cynnydd yn y 'Cynllun Datblygu Cymhwysedd' a ddisgrifir yn astudiaeth C6. Yn astudiaeth CM3 mae datblygiad fel hyn yn canolbwyntio ar y sgiliau penodol hynny sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer cyd-destun ymarfer clinigol, yn cynnwys sgiliau cyfathrebu. Mae paratoi ar gyfer ymarfer hefyd

yn un o amcanion y modiwlau all-gyrsiol a ddisgrifir yn N3. Mae astudiaeth SM12 yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu'r priodoleddau penodol o ddeallusrwydd emosiynol a chreadigrwydd, ac mae'r prosiect Technocamps (astudiaeth S2) yn hyrwyddo sgiliau cyfrifiadura a meddwl cyfrifiadurol. Mae menter mewn Addysg Busnes (astudiaeth CM1) yn defnyddio dull seiliedig ar e-bortffolio ac mae dysgu gweithredol yn ceisio hyrwyddo cyfathrebu, datrys problemau a hunan-reolaeth.

Mae'r prosiect 'Rhannu gydag Ysgolion' (SwS) (astudiaeth C4) a'r rhaglen clybiau cyfrifiadurol i ysgolion (N6) yn arddangos manteision cymunedol tebyg i'r rheiny a ddylunir gan nifer o'r mentrau yn Adran 1. Yn ogystal mae'r prosiectau SwS a 'Clybiau Cyfrifiadurol i Ysgolion' yn rhoi nifer o briodoleddau i fyfyrwyr sydd â pherthnasedd arbennig i'r sector addysg.

CIRIC: Canolfan Ymchwil ac Arloesedd Diwydiannau Creadigol (Cyfadran Celf a Dylunio, Prifysgol Fetropolitan Abertawe)

(astudiaeth achos SM7)

Enw Cyswllt: Chris Holton
Ebost: chris.holton@smu.ac.uk
Ffôn: 01792 481285
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Cyfeiriad: Canolfan Dynefor ar gyfer Celf, Dylunio a Chyfryngau, Abertawe SA1 3EU

Geiriau allweddol: Diwydiannau creadigol, R&D (ymchwil a datblygiad), Profiad gwaith allanol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy ariannu UE yn 2005 fel sŷl-gynnyrch o weithgaredd R&D CIRIC.

Nod:

I adeiladu ar drydedd strategaeth genhadaeth Prifysgol Fetropolitan Abertawe a defnyddio R&D cydweithredol fel ffordd o wella cyfleoedd dysgu myfyrwyr.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r Ganolfan Ymchwil ac Arloesedd Diwydiannau Creadigol (CIRIC) yn bodoli i helpu busnesau yng Nghymru i ddatblygu cynhyrchion a phrosesau newydd a denu buddsoddiad o farchnadoedd rhyngwladol. I gyflawni hyn, bydd tîm o staff profiadol ac adnoddau arbennig yn cael eu defnyddio i wneud R&D cydweithredol gyda chwmnïau mewn disgyblaethau mor amrywiol â theledu, ffilm, celfyddyd gymhwysol, pensaernïaeth, ffotograffiaeth a graffeg. Fel sŷl-gynnyrch i'r gweithgaredd

hwn, mae CIRIC yn helpu i greu cyfleoedd dysgu gwerthfawr ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Abertawe i weithio ar amrywiaeth o brosiectau byw, gyda dyddiadau cau, ochr yn ochr â phobl broffesiynol profiadol y diwydiant. Er enghraifft, mae myfyrwyr wedi gweithio ar ffilmiau, rhaglenni teledu peilot, gyda dylunwyr cynnyrch a chwmnïau ffasiwn, gyda llawer ohonynt yn cael eu profiad cyntaf o waith seiliedig ar ddiwydiant. Gall y cyfleoedd hyn amrywio mewn hyd o hanner diwrnod i leoliadau tri neu bedwar mis.

Caiff prosiectau y mae CIRIC yn gweithio arnynt gyda busnesau, eu harchwilio trwy broses ymgeisio i asesu eu haddasrwydd ar gyfer cefnogaeth. Trafodir ymgysylltiad myfyrwyr gyda chyfarwyddwr perthnasol y rhaglen cyn i waith ddechrau. Mae myfyrwyr yn wynebu'r her o weithio i safon y diwydiant a chyflenwi gwaith o fewn dyddiadau cau byw, go iawn, sy'n sicrhau bod y lleoliad yn brofiad dysgu gwerthfawr.

Mae'r cyfle i weithio gyda phobl broffesiynol y diwydiant yn caniatáu i fyfyrwyr gael mewnwelediad clir i safon y gwaith sydd angen y tu fas i amgylchedd y brifysgol.

Deilliannau a Ragwelir:

- i fyfyrwyr gael profiad i weithio ochr yn ochr â phobl broffesiynol y diwydiant;
- i fyfyrwyr i ddysgu sgiliau newydd ac integreiddio'r rhain i'w hymarfer eu hunain;
- i fyfyrwyr ddatblygu a meithrin galluoedd rhwydwethio, sy'n hanfodol ar gyfer diogelu cyflogaeth yn y sector diwydiannau creadigol;
- i gynyddu cyflogadwyedd y myfyrwr ar ôl iddynt adael Prifysgol Fetropolitan Abertawe.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r prosiectau R&D amrywiol a gwblhawyd gan CIRIC wedi arwain at fyfyrwyr yn ennill amrywiaeth o brofiadau proffesiynol a defnyddio'r cyfle rhwydweithio i ddiogelu cyflogaeth unwaith iddynt adael Prifysgol Fetropolitan Abertawe. Fel enghraifft, mae Absolute Zero Degrees, a weithiodd gyda CIRIC yn 2008 wedi cymryd ymlaen un o raddedigion BA (Anrh) Dylunio Patrwm Arwyneb ar internïaeth.

Myfyrddod/effaith:

Mae'r cyfle i weithio gyda'r diwydiant ar brosiectau gwirioneddol, byw yn caniatáu i fyfyrwyr fwydo'r profiad hwn yn ôl i'w hymarfer eu hunain wrth astudio yn y brifysgol. Mae hyn yn helpu i godi safon gwaith y myfyrwyr: Fel y nodwyd uchod, mae'n caniatáu hefyd i fyfyrwyr werthfawrogi safon y gwaith sydd angen i ddiogelu cyflogaeth y tu allan i fframwaith y brifysgol.

Adlewyrchu ar Waith Cyngor Cyfreithiol

(astudiaeth achos G5)

Enw Cyswllt: Richard Owen
Ebost: rowen@glam.ac.uk
Ffôn: 01443 484639
Sefydliad: Prifysgol Morgannwg
Cyfeiriad: Pontypridd CF37 1DL

Geiriau allweddol: dysgu seiliedig ar waith a dysgu trwy brofiad, Canolfannau Cyngor ar Bopeth.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy fodiwl.

Nod:

Mae gofyn i fyfyrwyr ymgymryd â hyfforddiant yn y modiwl hwn, fel Cynghorydd Porth Cyngor ar Bopeth yn gychwynnol, ac os yn llwyddiannus, bydd y myfyriwr yn cael Tystiolaeth Gyffredinol mewn Gwaith Cyngor gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, i wella'u CV.

Disgrifiad/Dull:

Cynigir y modiwl hwn ar Lefel 5 yn ogystal â Lefel 6, ac mae'n lleoli myfyrwyr mewn Canolfannau Cyngor ar Bopeth lleol. Mae'r gwaith cwrs yn ddam o waith academiaidd sy'n seiliedig ar bortffolio y mae'r myfyriwr yn cwblhau yn ystod eu dyletswyddau cynghori. Yn ychwanegol i ofynion y Brifysgol os oes gan fyfyrwyr ddiddordeb yn y modiwl hwn, bydd angen iddynt gael cyfweiliad gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth a rhaid iddynt fod yn barod i ymrwymo i o leiaf chwech awr o waith cyngor yr wythnos am gyfnod o 12 mis o leiaf. Mae rhai canolfannau yn disgwyl deg awr yr wythnos. I'r rheiny sy'n symud ymlaen i hyfforddi fel Cynghorydd Cyffredinol, mae Cyngor ar Bopeth yn darparu hyfforddiant sy'n cynnwys pedair o sesiynau un-diwrnod yng Nghaerdydd ar sgiliau cyfweiliad a chwblhad pecynnau astudio hunan-gyfarwyddiedig. Mae disgwyl i fyfyrwyr hefyd gwblhau amserlenni. Yn ychwanegol i gefnogaeth gan diwtor prifysgol (sy'n cefnogi'r broses asesu yn bennaf), caiff myfyrwyr eu cefnogi hefyd yn ystod eu gwaith cynghori. Mae hyn yn cael ei wneud mewn nifer o ffyrdd. Tra eu bod yn bresennol mewn canolfan, mae gan fyfyrwyr fynediad i AdviserNet, sef cronfa ddata electronig sy'n darparu gwybodaeth ar y gyfraith ac asiantaethau cyfeirio yn ôl pwnc. Caiff sesiynau cyngor hefyd eu goruchwyllo gan Oruchwyliwr Sesiwn Gyngor a fydd yn brofiadol iawn ac y gallent droi ato/ati ar gyfer cymorth. Mae angen iddynt hefyd wneud nodyn o bob cyfweiliad cyn gadael sesiwn gyngor, a bydd y rhain yn cael eu gwirio gan Oruchwyliwr y Sesiwn.

Deilliannau a Ragwelir:

Bydd myfyrwyr yn cymhwyso fel Aseswr Porth Cymorth ar Bopeth. Bydd rhai yn symud ymlaen ymhellach ac yn cael Tystysgrif Gyffredinol mewn Gwaith Cyngor gan Gyngor ar Bopeth, a fydd yn gwella eu CV.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Bydd myfyrwyr wedi cymhwyso fel Aseswr Porth Cymorth ar Bopeth.

Myfyrdod/effaith:

Nid yw hyn yn berthnasol eto gan fod hyn yn raglen newydd.

Dyfarniad Datblygu Proffesiynol Lleoliad Gwaith GO Wales

(astudiaeth achos A8)

Enw Cyswllt: Cathy Piquemal /Vicky Thomas
Ebost: crp@aber.ac.uk/vvt@aber.ac.uk
Ffôn: 01970 628413/01970 621536
Sefydliad: Prifysgol Aberystwyth
Cyfeiriad: Gwasanaeth Gyrfaoedd, Penglais, Aberystwyth SY23 3DB

Geiriau allweddol: cyflogdawydd, profiad gwaith, datblygu sgiliau, Dyfarniad Datblygu Proffesiynol, deallusrwydd y farchnad lafur.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol y sefydliad (ac ar draws Sefydliadau AU eraill yng Nghymru).

Nod:

Tra eu bod ar leoliad gwaith cyflogedig sy'n para rhwng 6 a 12 wythnos, mae'r Dyfarniad Datblygu Proffesiynol yn galluogi i fyfyrwyr a graddedigion i ennill cymhwyster ychwanegol a ddyfernir gan City and Guilds ar Lefel 4, sydd yn eu helpu i arddangos sgiliau ychwanegol a dealltwriaeth a deallusrwydd o'r farchnad lafur sy'n datblygu yn ystod y lleoliad.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r dyfarniad yn ffurfio rhan hanfodol o leoliad gwaith GO Wales gan fod pob cyfranogydd yn awr yn cael eu gofyn i gymryd rhan a chwblhau'r dyfarniad. Ar ôl yr ymweliad cynefino, sy'n digwydd yn ystod yr wythnos gyntaf ar ddechrau'r lleoliad, bydd y Tîm Dyfarniad Datblygu Proffesiynol (PDA) yn trafod natur y lleoliad gyda'r myfyriwr neu berson graddedig ac yn penderfynu beth y dylai'r achrediad fod. Ar hyn o bryd, mae 43 categori i ddewis o'u mysg: er enghraifft, myfyriwr neu berson graddedig sy'n cael ei ddewis ar ôl rhoi rhestr fer at ei gilydd a chael cyfweiliad gan y cyflogwr i gyflawni rôl o gydlynnydd manwerthu ar gyfer lleoliad gwaith deg-wythnos. Ar ôl cwblhau'r dyfarniad yn llwyddiannus mae cyfle i gael Dyfarniad Datblygu Proffesiynol Lefel 4 City and Guilds mewn Manwerthu (neu Farchnata).

Ar gyfer y dyfarniad hwn rhaid i gyfranogwyr gyflwyno'r 4 aseiniad canlynol i'r tîm Dyfarniad Datblygu Personol:

1. Hunan-archwiliad, sy'n ymddwyn fel trosolwg o'r lleoliad/cwmni/rôl y swydd a ble mae'r myfyriwr/person graddedig yn cael ei annog i ystyried pob sgil sydd angen i berfformio'n dda yn y rôl, pa brofiad blaenorol sy'n perthyn i'r rôl a beth mae ef/hi eisiau allan o'r lleoliad.

2. Cynllun datblygu personol, ble mae'r myfyriwr/person graddedig yn nodi cymysgedd o amcanion personol a phroffesiynol i wella yn ystod cyfnod y lleoliad. Dylai amcanion roi gwerth ychwanegol i'w CV, gyrfa dyfodol a chwmi'r lleoliad. Mae ef/hi yn cael ei (h)annog i ystyried amcanion CAMPUS (SMART) (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol).

Mae'r dyddiad cyflwyno ar gyfer aseiniadau 1 a 2 tua 10 diwrnod ar ôl yr ymweliad cynefino.

3. Log myfyriol – rhan 1: Mae'r broses yn annog cadw dyddiaduron myfyriol, a dylai cwblhau'r rhain yn wythnosol i gadw cofnod o gynnydd. Dylai'r dyddiaduron gynnwys: sefyllfaoedd ble mae'r myfyriwr/person graddedig ar y lleoliad wedi wynebu problemau; sut mae ef/hi yn delio gyda nhw; a phryd mae ef/hi wedi cael eu cydnabod am gyflawni cyraeddiadau.

Log myfyriol – rhan 2: Yn dilyn rhan gyntaf y lleoliad, mae'r ail ran o'r dyddiadur myfyriol yn cofnodi'r cynnydd wrth i'r lleoliad ddod i ddiwedd. Dyma pryd y dylai'r myfyriwr/person graddedig allu gweld i ba raddau y mae ef/hi wedi ateb ei (h) amcanion personol neu fusnes.

4. Adroddiad terfynol: Gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r hunan-archwiliad, y cynllun datblygu personol a dyddiaduron myfyriol, mae gofyn i'r myfyriwr/person graddedig i werthuso a dadansoddi'r lefel o ddabtlygiad a gyflawnwyd ers dechrau'r lleoliad (hyd at 3,000 o eiriau).

Deilliannau a Ragwelir:

Yn ogystal â'r mantais amlwg o gael cymhwyster ychwanegol ar Lefel 4, a ariennir gan y cynllun GO Wales, mae'r cyfranogwyr hefyd yn cael profiad gwaith cyflogedig o ran cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau o natur graddedig. Trwy gymryd rhan (a chyflawni) y PDA bydd gan y cyfranogydd:

- amcanion personol a proffesiynol penderfynol a chllir a chynllun datblygu personol wedi'i sefydlu drwy osod amcanion CAMPUS realistig mewn amgylchedd gwaith;
- dealltwriaeth a gwybodaeth well o'r sgiliau y maent wedi'u datblygu'n barod;
- dealltwriaeth a gwybodaeth well o'r sgiliau a ddatblygwyd trwy'r profiad gwaith;
- y gallu i arddangos i gyflogwyr y dyfodol y datblygiadau a wnaed trwy gydol y lleoliad a'r manteision i'r cwmni cynnal;
- arddangos profiad ym myd gwaith gan gyflawni rolau a chyfrifoldeb o nature graddedig, yn aml mewn sector neu faes sy'n perthyn i banc eu gradd.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Astudiaeth achos a gynhaliwyd yn ddiweddar ar y Dyfarniad Datblygu Proffesiynol - Manwerthu

Roedd y cyfranogydd benywaidd yn gwneud lleoliad gyda manwerthwr chwaraeon.

Nodwyd yr amcanion canlynol yn ei chynllun datblygiad personol:

- amcan 1: i deimlo'n fwy hyderus a chyfforddus wrth ddefnyddio'r ffôn;
- amcan 2: i wella yn ei defnydd o beiriannau brodwaith y cwmni;
- amcan 3: i fod yn fwy cyfeillgar a hunan-hyderus wrth ddelio â chwsmeriaid ar lawr y siop.

Safbwyntiau cyfranogydd ar y profiad lleoliad (o'i hadroddiad terfynol):

Rwy'n teimlo bod y lleoliad yn bendant wedi mynd yn dda. Rwyf wedi dysgu llawer iawn am weithio mewn amgylchedd proffesiynol. Rwy'n teimlo bod strwythur y rhaglen yn gweithio'n effeithiol iawn o ran gwella ac yn fwy pwysig datblygu'r rheiny sy'n rhan o'r cynllun lleoliad mewn modd proffesiynol.

Y priodoledd personol a oedd yn gwella fwyaf i mi oedd fy hyder. Roeddwn yn swil iawn ar ddechrau'r lleoliad ac yn ansicr am sut i ymddwyn o fewn rôl fy swydd. Rwy'n teimlo hefyd bod fy sgiliau trefnu ac aeddfedrwydd wedi datblygu'n fawr iawn hefyd. Roedd fy mhrofiad blaenorol o waith manwerthu wedi rhoi sail da o sgiliau trosgwyddadwy i mi weithio gyda nhw ar y lleoliad hwn.

Rhannau gorau'r lleoliad swydd i mi oedd y cwpwl o wythnosau pan oedd y siop yn brysur iawn yn arwain i fyny at ddiwedd y gwyliau ysgol. Roedd y teimlad o foddhad ar ddiwedd diwrnod prysur iawn yn werth y blinder. Bob dydd roedd gen i darged gwerthu i'w gyrraedd ac roedd cyrraedd y y targedau'n gyson yn rhoi synnwyr uchel o gyflawniad yn fy ngwaith i mi. Roeddwn i'n mwynhau cael rhyddid a chreadigrwydd rôl hefyd, drwy newid y ffordd roedd y siop wedi ei gosod allan, a'r arddangosfa ffenestr i sicrhau bod y busnes yn cael ei gynrychioli yn y ffordd orau posibl.

Mae'r lleoliad wedi dylanwadu'n fawr ar fy newisiadau gyrfaol i'r dyfodol, gan eu bod wedi cynnig swydd llawn amser i mi yn gweithio i'r cwmni yn fy rôl swydd bresennol. Rydw i wedi dysgu mai manwerthu yw'r llwybr gyrfa sy'n apelio ataf ar hyn o bryd, ac mae'r lleoliad wedi rhoi'r cyfle i mi brofi mai dyma oedd y dewis iawn i'w wneud cyn ymgeisio ar gyfer swydd go iawn. Mae'n amlwg fy mod i wedi cyfrannu at lwyddiant y cwmni ac mae tystiolaeth o hyn yn y cofnod o werthiannau.

Asesiad gwahanol ar gyfer cyflogadwyedd y Clasuron

(astudiaeth achos TSDI)

Enw Cyswllt: Jeremy Smith

Ebost: jeremy.smith@tsd.ac.uk

Ffôn: 01570 424741

Sefydliad: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Cyfeiriad: Ysgol Archaeoleg, Hanes ac Anthropoleg,
Campws Llamed, SA48 7ED

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, dyniaethau, Clasuron.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol Ysgol y Clasuron.

Nod:

Mae'r sector AU yn mynd i'r afael a chyflogadwyedd presennol a dyfodol graddedigion. Mae cyflogwyr wedi cyfleu'r angen am fwy na gwybodaeth pwnc yn unig, yn enwedig o ran y sgiliau sy'n angenrheidiol i'r gweithle. Penderfynodd Adran y Clasuron yn Haf 2009 i fuddsoddi mewn peilot o fewnblannu sgiliau cyflogadwyedd yn y cwricwlwm drwy batrymau asesu gwahanol.

Disgrifiad/Dull:

Rhedodd y peilot mewn pedwar o gyrsiau, dau yn Lefel 4, a dau yn Lefel 5 a 6. Y mathau o asesiad oedd: portffolios, cyflwyniadau ar lafar; wikis a chyflwyniadau grŵp, adroddiadau myfyriol, tudalennau gwefan ac arholiadau i wneud gartref. Y patrymau asesu a ddewiswyd i ddarparu ac adeiladu i fyny y sgiliau trosglwyddadwy sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth oedd y canlynol:

Portffolios – defnyddio portffolio ffurfiannol i hysbysu'r portffolio crynodol. Mae nifer o dasgau bach yn creu portffolio; er enghraifft, 1 map + 1 amserlen + 1 bywgraffiad awdur + 1 adolygiad + 1 gobet. Roedd angen i fyfyrwyr gyflwyno portffolio ffurfiannol ac yn portffolio crynodol; roedd y darnau o waith yn y ddau portffolio yn gysylltiedig, gan roi'r cyfle i fyfyrwyr ddysgu, adlewyrchu a gwella.

Cyflwyniad ar lafar – unigol a grŵp. Mae cyfathrebu yn sgil allweddol, ac mae myfyrwyr yn cael ychydig iawn o gyfle mewn asesiad i adeiladu i fyny, gwella ac arddangos eu sgiliau cyflwyno ar lafar. Hefyd, mae cyflwyniadau grŵp yn gwella ac yn adeiladu sgiliau gwaith tîm i fyny, sydd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr.

Traethawd grŵp/wiki – Mae'r traethawd grŵp/wiki nid yn unig yn darparu myfyrwyr â'r cyfle i weithio mewn amgylchedd ar-lein ar gyfer eu hasesied, gan wella eu sgiliau TG, ond hefyd yn rhoi'r cyfle iddynt weithio fel tîm tuag at nod benodol y gellir ei hasesu yn glir o ran ymchwil unigol ac mewn perthynas ac ymdrech y grŵp.

Adroddiadau myfyriolo ar waith grŵp, cyflwyniad (hun a chyfoedion) – Mae myfyrwyr ar eich waith eich hun, yn ogystal â gwaith cyfoedion, a'r cyfle i nodi problemau a gwendidau yn ogystal â darparu syniadau a chynlluniau ar gyfer gwelliant yn sgil hanfodol sydd angen ar gyflogwyr. Tra bod asesiad arferol yn cymryd yn ganiataol y bydd rhywfaint o fyfyrddod, yn bennaf o ran ymgysylltiad myfyriwr ag adborth, mae adroddiad myfyriol nid yn unig yn llywio'r myfyriwr i gyflawni ffordd mwy strwythuredig o fyfyrwyr ar eu gwaith, ond hefyd yn rhoi'r cyfle i ystyried yn ôl-wethredol amrywiaeth o agweddau o berfformiad, yn enwedig fel rhan o dîm, y tu hwnt i'r materion cul y sonir amdanynt mewn adborth traethodau.

Creu tudalen wefan – Mae creu tudalen wefan yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr wella eu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu i gynnwys cynulleidfaoedd nad ydynt yn academaidd a rhai cymysg. Mae'n rhoi'r cyfle iddynt hefyd i archwilio'r agweddau gweledol o gyflwyno nad yw'n academaidd yn ogystal â gwella eu sgiliau TG.

Arholiad i wneud gartref – Mae'r arholiad i wneud gartref yn ymdrech i ail-greu'r hinsawdd a phwysau sy'n perthyn i gwblhau prosiect yn y gweithle. Rhoddir papur arholiad i'r myfyrwyr yn y bore ac mae angen iddynt ddychwelyd eu haseniad cyflawn sef traethawd o 3,000 o eiriau (wedi'u teipio, gyda chyfeiriadau a llyfryddiaeth) erbyn diwedd y diwrnod gwaith.

Gofynnwyd am farn y myfyrwyr am y peilot yn yr arolygon modiwl ac mewn arolygon 'peilot cyflogadwyedd' arbennigol. Roedd y mwyafrif o fyfyrwyr yn fodlon iawn gyda'r modiwl, ac yn ffeindio bod y dulliau asesu newydd yn eu darparu â sgiliau newydd neu'n gwella'u sgiliau presennol, gan eu gwneud yn fwy cyflogadwy. Ar y cyfan, nid oedd proffil marciau'r modiwlau peilot yn arwyddocaol o wahanol i'r modiwlau gyda phatrwm asesu traddodiadol (traethawd + arholiad), er bod rhai gwahaniaethau mewn rhai dulliau o asesu, yn enwedig portffolios.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae patrymau nad ydynt yn draddodiadol nid yn unig yn darparu graddedigion y dyfodol ag amrywiaeth fwy o sgiliau trosglwyddadwy, wrth gynnal a chyflawni'r nodau sy'n perthyn i wybodaeth pwnc-benodol, ond hefyd yn darparu enghreifftiau cadarn ar gyfer cyflogwyr potensial o lefel a galluoedd y person graddedig. Felly, yn annhebyg i waith nad yw'n cael ei asesu neu aseiniadau seminar, mae gwaith asesiedig yn arddangos sgiliau a galluoedd ein graddedigion mewn graddfa syml a mesuradwy. Yn ychwanegol at hyn, mae cyflwyniad y sgiliau a hyfforddir yn yr asesiadau gwahanol hyn fel sgiliau cyflogadwyedd yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr nid yn unig i nodi'r sgiliau tyrosglwyddadwy pwysig hyn, ond hefyd i allu eu hegluro'n glir yn y dyfodol i gyflogwyr potensial. Yn ogystal a'r pwyntiau uchod, mae mewnblannu sgiliau cyflogadwyedd mewn asesiad yn diogelu natur pwnc-benodol y cyrsiau mewn cwestiwn, gan osgoi ffynhonnell gyffredin o anffodlonrwydd ymysg myfyrwyr os ydynt yn cael eu gorfodi i wneud cyrsiau nad ydynt yn pwnc-benodol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Cafwyd ymateb y myfyrwyr ei fesur drwy ofyn i fyfyrwyr gwblhau arolygon 'peilot cyflogadwyedd' arbenigol ar ddiwedd y tymor. Roedd ymateb myfyrwyr i elfen gwaith grŵp yr asesiad ar gyfer rhai cyrsiau hefyd yn bresennol yn eu hadroddiadau myfyriol.

Cynllun Datblygu Cymwyseddau

(astudiaeth achos C6)

Enw Cyswllt: Dr Beatrix Fahnert

Ebost: FahnertB@cardiff.ac.uk

Ffôn: 02920 870250

Sefydliad: Ysgol Biowyddorau Caerdydd, Prifysgol Caerdydd

Cyfeiriad: Museum Avenue, PO Box 911, Caerdydd CF10 3AX

Geiriau allweddol: sgiliau a chymwyseddau, cyflogadwyedd, adborth, profion diagnostig, datblygiad personol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Cyflwynwyd y cynllun ym mlwyddyn academiaidd 2010-11 ar gyfer pob cwrs israddedig (BSc Biocemeg, BSc Bioleg, BSc Gwyddoniaeth Biofeddygol, BSc Gwyddorau Biofeddygol (Anatomeg), BSc Gwyddorau Biofeddygol (Niwrowyddoniaeth), BSc Gwyddorau Biofeddygol (Ffisiolog), BSc Biotechnoleg, BSc Ecoleg, BSc Geneteg, BSc Microbioleg, BSc Bioleg Foleciwlar, BSc Sŵoleg) a redir gan Ysgol Fiowyddorau Caerdydd. Gall myfyrwyr cyfnewid gyfranogi'n wirfoddol mewn gweithgareddau perthnasol.

Nod:

Nod Ysgol Fiowyddorau Caerdydd yw graddio myfyrwyr cyflogadwy gydag amrywiaeth lawn o sgiliau pwnc-benodol a throsglwyddadwy sydd wedi'u diffinio'n glir ar lefel dderbyniol o gymhwysedd. Cefnogir myfyrwyr wrth iddynt ddabtygu'r sgiliau hynny gyda chynnydd priodol yn ystod eu blynyddoedd israddedig, a byddent yn derbyn tystiolaeth o'u cyflawniadau. Ein nod yn y pendraw, yw cael cymhwysedd yn y sgiliau hyn wedi'i gofnodi ar dystysrif i'w ddangos i gyflogwyr.

Disgrifiad/Dull:

Mae rhai gweithgareddau wedi'u mewnlannu mewn modiwlau craidd (e.e. Blwyddyn 1 Datrys Problemau mewn Bioleg; Blwyddyn 2 Technegau Ymchwil; Prosiect Blwyddyn Derfynol). Mae'r mwyafrif o'r datblygiad o gymwyseddau yn cael ei wneud y tu allan i'r strwythur modwilar trwy gydol bob lefel, a gyda chefnogaeth y tiwtor personol ac yn Lefel 6 hefyd gan y goruchwyliwr prosiect ymchwil. Felly, mae'r cynllun yn gofyn am ac yn annog lefel uchel o ymgysylltiad myfyrwyr. Mae'r gweithgareddau i gyd yn rhan ganolog o diwtorialau academiaidd a chyfarfodydd cysylltiedig â'r prosiect. Mae allbwn o'r cynllun yn hysbysu gweithgareddau dysgu ac addysgu weaill yn yr Ysgol yn ogystal ag adborth i fyfyrwyr a gofal bugeiliol. Cefnogir croesgyfeirio gan gronfa ddata ganolog i staff. Mae myfyrwyr yn myfyrion ar eu datblygiad ac yn cadw cofnod o'r tystiolaeth berthnasol gan ddefnyddio e-bortffolios. Mae hunan-fonitro a myfyrion yn caniatáu i fyfyrwyr asesu eu cyraeddiadau ar gyfer y cymwyseddau craidd (a chyraeddiadau ychwanegol, e.e. iaith, sgiliau TG) dros y blynyddoedd. Gan fod hyn yn gymhwysedd/sgil bywyd hanfodol a fydd yn rhoi dechrau manteisiol i fyfyrwyr gyda datblygiad proffesiynol parhaus ar ôl graddio, mae'n cael ei ganolbwyntio arno'n arbennig ar y flwyddyn derfynol. Rhaid i fyfyrwyr for yn weithredol wrth chwilio am wybodaeth a chymorth, sy'n adlewyrchu dysgu Lefel 6. Mae'r broses yn cael cymorth gan gwestiynau

myfyrion yn gychwynnol i helpu i fyfyrwyr ddadansoddi eu cynnydd a'u hanghenion hyfforddiant potensial, sydd wedyn yn cael eu trafod gyda'u goruchwyliwr. Mae cymwyseddau'n cynnwys: rhifedd; llythrennedd; cyfeirio; ysgrifennu swm/haniaethol; integreiddio gwybodaeth; gwaith grŵp, asesu cyfoedion; sgiliau seiliedig ar waith a chyflogadwyedd; asesu beirniadol o ddata; adeiladu dadleuon rhesymegol; asesu risg iechyd a diogelwch; hunan-asesu; a hunan-reolaeth. Mae system o weithgareddau dysgu ac addysgu sydd mor strwythuredig a diriaethol ar gyfer datblygu cymwyseddau, asesu'r lefel o gyrhaeddiad, a'r cysylltiad i gyngor bugeiliol ac academiaidd sydd wedi'i deilwra, yn caniatáu i fyfyrwyr gael eu cefnogi gymaint â phosib yn eu datblygiad.

Mae'r cymwyseddau y mae'r cynllun yn mynd i'r afael â nhw yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Yn gychwynnol mae hyn yn golygu ychwanegu/diweddarau gweithgareddau (e.e. sgiliau labordy penc-benodol) dros amser nes y caiff pob sgil angenrheidiol ei gynnwys. Yn y dyfodol bydd yr amrwyaeth hon o gymwyseddau yn cael ei hadolygu i adlewyrchu'r newidiadau mewn anghenion israddedigion a chyflogwyr. Mae trawsgrifiad/tystysgrifau ffurfiol wedi'u trefnu pan fydd cynllun cadarn o ansawdd sicr yn cael ei weithredu'n llawn. Yn ystod cyfnod peilot cychwynnol y cynllun bydd tystiolaeth o gyrhaeddiad yn cael ei darparu'n anffurfiol, e.e. mewn cyfeiriadau manwl.

Deilliannau a Ragwelir:

Unwaith i fyfyrwyr gyflawni'r deilliannau dysgu i gyd a datblygu amrywiaeth lawn o sgiliau pwnc-benodol a throsglwyddadwy i lefel dderbyniol o gymhwysedd, byddent yn raddedigion cyflogadwy iawn. Fodd bynnag, nid y canlyniad terfynol hwn yw'r unig na'r prif fantais. Drwy gydol y broses o ddysgu ac ymgysylltu â'r cynllun, mae myfyrwyr yn aeddfedu'n fawr. Mae myfyrion a ffocysu'r meddwl yn cyfrannu at ddysgu pwnc a chyrrhaeddiad academiaidd. Rhagwelir canlyniadau gradd gwell, sydd yn ei dro yn gwneud myfyrwyr yn fwy cyflogadwy.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Ymgysylltiad â'r cynllun a chyrrhaeddiad – Mae dull dysgu sy'n cael ei hunan-gyfarwyddo'n fwy a natur ffurfiannol y gwaith ar y cyfan yn gofyn am newid diwylliannol. Er gwaethaf y ffaith fod yr Ysgol yn rheoli hyn, mae'n cymryd amser. Felly, pan gyflwynir y cynllun, mae myfyrwyr yn blaenoriaethu'r gweithgareddau cysylltiedig i gyd yn llai na'r gwaith cwrs cyfunol gyda dyddiadau cau llym. Roedd hyn yn arbennig o wir pan oedd y myfyrwyr ym Mlwyddyn 2 neu'r flwyddyn derfynol ar y pryd. Roedd myfyrwyr Blwyddyn 1 yn cymryd y cynllun yn ganiataol. Mae'r cynllun yn awr yn rhedeg am yr ail flwyddyn academiaidd. Gallwn weld canlyniadau gwell o ran faint o bobl sy'n cymryd rhan a chyrrhaeddiad. Dangoswyd diddordeb mewn cyfranogiad gwirfoddol gan fyfyrwyr cyfnewid.

Canfyddiad myfyrwyr – Gan fod mwyafrif y cynllun yn cael ei redeg y tu allan i'r strwythur modiwlar ni allwn gael adborth myfyrwyr drwy ein cyfundrefnau arfarnu modiwl arferol. Mae canfyddiad myfyrwyr felly yn cael ei fesur mewn cyfarfodydd panel staff-myfyrwyr; yn uniongyrchol o sylwadau myfyrwyr; drwy arolygon eraill sy'n perthyn i'r cwrs, ac o adborth staff (h.y. tiwtoriaid personol, goruchwyliwr prosiect).

Mae'n amlwg fod myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cynllun a sut mae'n cefnogi eu datblygiad unwaith iddynt ddeall ei nodau ac amcanion.

Mae'n bwysig fod myfyrwyr yn gweld bod eu dabtlygiad a'u cyflogadwyedd yn bwysig i ni. Roedd rhai myfyrwyr a oedd yn dychwelyd (e.e. o flwyddyn hyfforddiant proffesiynol) yn synnu i weld newid fel hyn i fformat eu gradd, ond roeddent yn gadarnhaol iawn amdano ac yn ei groesawu. Mae hyn yn enghreifftio perthnasedd y cynllun yn gadarnhaol.

Mae myfyrwyr felly yn canfod y manteision yn ddamcaniaethol, ond mae ymgysylltiad yn dal i fod ar ei hôl yn ymarferol, pan fod myfyrwyr yn blaenoriaethu agweddau cyfunol eu cwrs yn strategol. Mae newid y canfyddiad hwn yn her sylweddol.

Myfyrddod/effaith:

Mae ymgysylltiad, canfyddiad a chyrhaeddiad yn gysylltiedig ac yn llywio'i gilydd. Pan fod mwy o fyfyrwyr yn ymgysylltu â'r cynllun a datblygiad eu sgiliau, mae eu cyflawniad a'u cyraeddiadau'n uwch (e.e. myfyrddod, hunan-reolaeth, gweithredu a chynllunio amser, meta-ddysgu, annibynniaeth, bod yn weithredol), sydd yn ei dro yn arwain at allu cynyddol i ymgysylltu â'r cynllun, ac i ganfyddiad mwy cadarnhaol o lawer. Mae'r myfyrwyr sydd â'r angen mwyaf i ymgysylltu er mwyn datblygu'r sgiliau uchod yn llai tebygol o ymgysylltu. Gall hyn fod yn 'catch 22' a'r her i ni yw eu helpu iddynt ddod yn rhan o'r broses a chadw momentwm. Bydd hyn yn mynd i'r afael yn well ag ymgysylltiad myfyrwyr: Fodd bynnag, dylid tybio fod cyflogadwyedd yn rhan o unrhyw strategaeth i ddysgwyr, yn enwedig ar hyn o bryd. Un broblem yw fod myfyrwyr yn aml ddim yn gwybod pa fath o gyflogaeth i chwilio amdani ar ôl graddio, neu'n oedi ar ystyried materion o gyflogaeth tan yn hwyr yn eu cwrs. Dyma paham y maent yn canfod gwelliant generig o'u cyflogadwyedd yn amherthnasol ar hyn o bryd, er bod y gwrthwyneb yn wir.

Mae'n her hefyd i gael staff i ymgysylltu'n llawn â'r cynllun gan ei fod yn gofyn am newidiadau sylweddol o fewn cefnogaeth fugeiliol ac academaidd, a llwyth gwaith staff, sydd yn uchel iawn yn barod. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd mewnbllannu'r dulliau hyn yn ein hymarfer yn arwain at hwyluso rhyngweithio tiwtor-myfyrwr, ac felly'n gwneud goruchwyllo myfyrwyr gan diwtoriaid yn fwy effeithlon.

Gwerthusiad o'r 'Archwiliad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol' (OSCE) ar gyfer asesu sgiliau clinigol myfyrwr-ddeietegydd

(astudiaeth achos CM3)

Enw Cyswllt: Denise Parish and Katherine Gallimore
Ebost: dparish@uwic.ac.uk
Ffôn: 02920 416878
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyfeiriad: Campws Llandaf, Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB

Geiriau allweddol: asesu, OSCE, sgiliau ymgynghori, ymarfer seiliedig ar dystiolaeth.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Drwy fodiwl sengl.

Nod:

I bontio'r bwch rhwng y sefydliad addysg uwch ac ymarfer addysg trwy ddefnyddio OSCE i hyrwyddo ac asesu rhesymu clinigol, cyfathrebu a'r defnydd o wybodaeth ar gyfer ymarfer seiliedig ar dystiolaeth.

Disgrifiad/Dull:

Cyflwynwyd asesiad OSCE o sgiliau ymgynghori myfyrwr-ddeietegydd cyn y lleoliad yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC) ym mis Rhagfyr 2009. Roedd hyn mewn ymateb i fframwaith cwricwlwm newydd gan Gymdeithas Ddeieteg Prydain (BDA), a oedd yn ceisio paratoi graddedigion ar gyfer y gweithle drwy alluogi datblygiad ymarfer seiliedig ar dystiolaeth, datrys problemau a rhesymu clinigol o fewn gweithle aml-ddisgyblaethol. Bwriad yr OSCE oedd darparu cyfleoedd ystyrlon i arddangos ac asesu'r sgiliau a fydd yn cael eu hasesu ymhellach ar y lleoliad ac yn efelychu'r gweithle. Dyluniwyd pedair tasg i ddarparu profiad gwirioneddol a chysylltu i'r fframwaith cwricwlwm. Amlinellir y rhain isod:

Tasg	Sgil allweddol a asesir	Cysylltiad i'r fframwaith cwricwlwm
1. Asesiad o hanes deiet penodol.	Gwybodaeth o gyfansoddiad bwydydd, cynhwysion a maint dognau.	Bwydydd a fwytir yn aml, yn cynnwys bwydydd cyfleuster a'u cynnwys o ran maeth. Maint dognau o fwydydd cyffredin.
2. Dechrau ymgynghoriad: cwrdd a chyfarfod; sefydlu cydberthynas; cymeriant diwrnod arferol.	Sgiliau cyfathrebu: adeiladu cydberthynas; sgiliau gwrandio; aralleirio; crynhai; iaith y corff; y lefel o iaith a ddefnyddir.	Y gallu i ddefnyddio amrywiaeth o wahanol dulliau a steiliau o gyfathrebu wrth ryngweithio gydag unigolion a grwpiau amrywiol yn cynnwys gwrandio gweithredol, hwyluso, sefydlu cydberthynas a dehongli negeseuon di-eiriau. Y gallu i weithredu newid ymddygiad sylfaeonol a thechnegau addasu ymddygiad.

<p>3. Adrodd eich cynllun ar lafar i'ch goruchwylydd.</p>	<p>Sgiliau rhesymu clinigol.</p> <p>Gwneud dyfarniad yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir.</p> <p>Teilwra'r cynllun gofal yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn.</p>	<p>Y gallu i ddewis, defnyddio a dehongli'r wybodaeth i gyd sydd ar gael i roi cynlluniau gofal maeth a deietetig penodol, diogel ac effeithiol at ei gilydd.</p> <p>Asesiad o statws maeth unigolion a grwpiau drwy ddehongli mesuriadau anthropomedrig, a chanlyniadau profion biocemegol, haematolegol a chemeg clinigol.</p> <p>Y defnyddo wybodaeth i gynllunio, monitro a newid triniaeth ddeietetig yn ôl anghenion defnyddiwr y gwasanaeth.</p> <p>Y defnyddo o ymafer seiliedig ar dystiolaeth i adolygu, gwerthuso a dechrau newid.</p>
<p>4. Trafod nodau a chau'r ymgynghoriad.</p>	<p>Sgiliau cyfathrebu fel tasg 2 a 4.</p> <p>Sgiliau trafod a gosod nodau.</p>	<p>Cyfuniad o dasg 2 a 3.</p>

Deilliannau a Ragwelir:

- parodrwydd ar gyfer ymarfer;
- datblygiad sgiliau;
- dysgu a hysbysebwr gan addysgu.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Anfonwyd arolwg cyn- ac ôl-ymyraeth gyda chyfweliadau strwythuredig o'r staff sy'n ymwneud â'r broses asesu. Roedd tystiolaeth o gynnydd yn hyder y myfyrwyr, yn enwedig yn y meysydd o sgiliau cyfathrebu fel adeiladu cydberthynas, a sgiliau trafod. Adroddwyd ar hyn gan staff hefyd. Un o'r meysydd yr oedd myfyrwyr yn adrodd diffyg hyder oedd rhesymu clinigol. Mae'r adborth hwn gydag arsylwadau'r staff wedi arwain at newidiadau mewn dulliau dysgu a gwelliannau mewn addysgu'r sgil hwn. Adroddwyd gan fyfyrwyr eu bod yn teimlo'n fwy paratoedig ar gyfer lleoliadau ymarfer yn y gweithle yn y dyfodol, oherwydd yr OSCE a thrwy'r cyfleoedd a gynigwyd i baratoi ar gyfer yr asesiad.

Myfyrdod/effaith:

Ystyriwyd bod y dulliau wedi hysbysu dysgu myfyrwyr ac wedi pontio'r bwlch rhwng ymarfer y Sefydliad AU ac ymarfer clinigol. Roedd tystiolaeth gan fyfyrwyr a staff darlithio yn ystyried gwelliannau mewn hunan-effeithiolrwydd, hyder mewn sgiliau a pharodrwydd ar gyfer lleoliad yn y gweithle. Y fantais mwyaf arwyddocaol o ran cyflwyniad yr asesiad OSCE oedd gwelliant mewn newid a sgiliau ymddygiad, a fydd yn cael goblygiadau cadarnhaol ar gyfer dabltygiad myfyrwyr a'u cynnydd yn y dyfodol.

Cefnogi rheolwyr yfory

(astudiaeth achos N3)

Enw Cyswllt: Lyndon Murphy
Ebost: Lyndon.murphy@newport.ac.uk
Sefydliad: Prifysgol Cymru, Casewydd
Cyfeiriad: Campws y Ddinas, Lodge Road, Casnewydd NP18 3QT.

Geiriau allweddol: cysylltu theori i ymarfer; gwella ymarfer academaidd;

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy ddau fodiwl all-gyrsiol mewn rhaglen Feistr.

Nod:

I gefnogi myfyrwyr lefel-Feistr o ran gwneud i'w dysgu academaidd yn berthnasol i'w profiadau ymarfer proffesiynol er gwaethaf profiadau dysgu gwahanol yn ddiwylliannol, ieithyddol, a blaenorol.

Disgrifiad/Dull:

Roedd ymchwil o'r farchnad o anghenion myfyrwyr yn nodi cyfleoedd yn narparieth bresennol y cwricwlwm o ddysgu i raddedigion ar gyfer cyflogadwyedd – datblygiadau wedi'u ffocysu sy'n defnyddio dulliau dysgu hyblyg a thechnolegau traddodiadol a modern. Roedd y datblygiadau cwricwlwm dysgu hyn yn cynnwys dau fodiwl all-gyrsiol a grewyd o ystyried cefndir galwedigaethol.

Mae'r modiwl cyntaf (Rheoli Gwybodaeth) yn cefnogi perffeithio sgiliau academaidd a chyflogadwyedd ar lefel Feistr ar ddechrau dysgu academaidd ffurfiol. Mae'r ail fodiwl (Rheoli Ymarfer Proffesiynol) yn darparu myfyrwyr â sgiliau paratoi a mewnwelediad i fyd gwaith mewn sectorau gwahanol. Mae'r wybodaeth a enillwyd o'r ddau fodiwl all-gyrsiol ychwanegol yn paratoi'r myfyrwyr i ymgysylltu gydag interniaethau seiliedig mewn cwmni neu brosiectau a gynhelir gan y Brifysgol dan arweiniad cyflogwr. Mae'r profiad hwn o fyd gwaith wedi'i ddylunio i annog myfyrwyr i arddangos yn eu traethawd hir sut y defnyddir dysgu academaidd mewn prosiectau gwirioneddol.

Deilliannau a Ragwelir:

- Dealltwriaeth well o arferion academaidd gan fyfyrwyr rhan-amser a llawn-amser ar gyriau lefel-Feistr i gefnogi'r cwricwlwm dysgu ffurfiol achrededig;
- ymwybyddiaeth well o'r cyfleoedd i weithredu dysgu academaidd i ymarfer proffesiynol ar raglenni lefel-Feistr.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

- Myfyrwyr sy'n ymgysylltu yn cyfranogi ar fodiwl Rheoli Gwybodaeth sy'n sylweddoli'r manteision o gynyddu eu hyder mewn arferion academaidd i gefnogi eu rhaglen gwricwlwm dysgu ffurfiol;
- ymwybyddiaeth fwy o fyfyrwyr ar gyfleoedd cyflogadwyedd i wella'r profiad myfyrwyr yn gyffredinol.

Roedd y fenter hon yn rhan o Gyfres Seminarau 2011 yr Academi Addysg Uwch gyda seminar ym mis Mai 2011 a phapur briffio cysylltiedig ar gyfer y sector yn y DU.

Myfyrdod/effaith:

Mae ymgysylltiad ag amrywiaeth o rhanddeiliaid gydag amrywiaeth eang o brofiad, disgwyladau, ymwybyddiaeth ddiwylliannol, amser a rhai rhwystrau ieithyddol yn creu arena dysgu heriol. Mae'r fenter hon wedi dechrau gweithio gyda myfyrwyr mewn partneriaeth ac wedi eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu. Mae adborth gan fyfyrwyr (llawn-amser/rhan-amser) yn cadarnhau eu bod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth y mae'r fenter hon yn ei darparu i'w helpu i gyflawni llwyddiant.

Deallusrwydd seiliedig ar y galon

(astudiaeth achos SM12)

Enw Cyswllt: James Williams

Ebost: james.williams@smu.ac.uk

Ffôn: 01792 481192

Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Cyfeiriad: Ysgol Cyfrifiadura Cymwys, Mount Pleasant, Abertawe SA1 6ED

Geiriau allweddol: deallusrwydd seiliedig ar y galon, deallusrwydd emosiynol a sythweledol, cymhelliant cynhenid, datblygiad personol a phroffesiynol, creadigedd ac arloesedd.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Cyflwynwyd y fenter yn modiwl 'Rheoli Pobl a Newid' ym mlwyddyn 3 y BSc Technoleg Gwybodaeth Busnes i wella deallusrwydd emosiynol (EI).

Nod:

Mae nod y modiwl yn cynnwys ystyried y dimensiwn dynol mewn sefydliadau sy'n golygu bod gofyn i fyfyrwyr werthuso'r materion sy'n ymwneud â rheoli pobl, mentrau newid ac ystyried gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd sefydliadol ac unigol. Nod arall oedd helpu i fyfyrwyr i fod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd deallusrwydd emosiynol a seiliedig ar y galon.

Disgrifiad/Dull:

Deallusrwydd Emosiynol (EI) yw'r gallu i fod yn ymwybodol o, i ddeall a rheoleiddio ein hemosiynau i hyrwyddo tyfiant personol yn yr unigolyn ac eraill. Adroddodd yr ymchwilydd Daniel Goleman ar ddatblygiadau allweddol o faes niwrowyddoniaeth a busnes. Dangosodd ei ymchwil fod llwyddiant mewn bywyd yn seiliedig yn fwy ar ein gallu i fod yn ymwybodol o, a gallu rheoli ein hemosiynau, nag ar ein galluoedd deallusol. Crewyd chwyldro bach gan hyn o ran sut y mae sefydliadau yn meddwl am arweinyddiaeth a sut y mae pobl yn meddwl am llwyddiant. Diffiniad syml o ddeallusrwydd emosiynol yw'r casgliad o sgiliau emosiynol sydd angen arnom i reoli ein perthnasoedd a ni ein hunain. Mae Goleman ac ymchwilwyr eraill yn awr wedi dangos yn bendant bod arweinwyr busnes a gofal iechyd sy'n rhagori mewn sgiliau deallusrwydd emosiynol nid yn unig yn cyflawni canlyniadau busnes rhagorol, ond hefyd yn cyrraedd lefelau uwch o fodlonrwydd personol a lles cynyddol. Mae'r Institute of HeartMath (IHM) yn sefydliad ymchwil ac addysg sydd wedi datblygu technoleg ac offer i bobl eu defnyddio er mwyn gwella EI a lleihau straen. Maent yn archwilio'r galon mewn perfformiad dynol ac yn gweithio gyda sefydliadau y llywodraeth, prifysgol, gofal iechyd a busnes i gynnal astudiaethau i edrych ar effeithiau rheoli emosiynol. Trwy dechnoleg a hyfforddiant maent yn helpu i bobl a sefydliadau i wella perfformiad a lles a chreu amgylcheddau optimaidd i wella creadigrwydd a chynhyrchedd.

Defnyddir technoleg emWave IHM gan sefydliadau busnes, addysg a llywodraeth dros y byd i gyd, ac mae hyn wedi'i gyflwyno gan y darlithydd mewn sesiwn ddarlithio/tiworial i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r technegau a thechnolegau diweddar ac arloesol hyn fel un ffordd o wella EI. Mae'r dechnoleg yn ddull sydd wedi'i brofi i helpu i bobl ddabtlygu deallusrwydd emosiynol a helpu i bobl berfformio'n well yn y gwiath, gan leihau straen, profi bywyd mwy cytbwys, i fod yn fwy iachus, yn fwy gwydn ac i wella perthnasoedd gydag eraill i gyfoethogi'r

amgylchedd gweithio, diwylliant a chaniatáu mwy o gydweithio a gwaith tîm, gan gynorthwyo datblygu personol, proffesiynol a sefydliadol.

Mae'r dechnoleg emWave yn caniatáu i bobl weld sut y mae meddyliau ac emosiynau yn effeithio ar y galon a'r system nerfol drwy'r graffeg a arddangosir ar sgrîn y cyfrifiadur. Pan ei bod dan straen, mae rhythmau'r galon yn afreolaidd ac yn dangos patrwm digyswllt. Pan ein bod yn symud i fod mewn cyflwr emosiynol mwy cadarnhaol, mae patrwm rhythm y galon yn newid i batrwm llyfnach fel ton. Mae gweld y newid gweledol hwn ar y sgrîn a'i gysylltu â chyflwr mwy heddychlon, tawel yn fewnol, gall pobl ddysgu i reoli nhw eu hunain ac eraill. Maent yn dysgu i gynnal cyflwr cytbwys, h.y. 'cydlynad ffisiolegol a chydbwysedd' wrth yr IHM. Mae gemau rhyngweithiol lliwgar hefyd sydd wedi'u dylunio i helpu i gynyddu deallusrwydd emosiynol a thrawsnewid straen i ynni creadigol, fel y gêm balwnau, sy'n newid cyflymder ac uchder wrth i lefel eich cydlynad newid. Bydd y balwn yn cyflymu ac yn hedfan yn uwch wrth i chi symud i lefel cymhedrol ac uwch o gydlynad. Mae'r Darliniwr Emosiwn, sy'n darparu delweddau lliwgar sy'n newis yn ôl cyflwr emosiynol person a lefel o gydlynad. Mae'r dechnoleg yn helpu i bobl wella eu ffocws, creadigrwydd, sythwelediad a'u ffordd o wneud penderfyniadau lefel uwch, ac i fod yn fwy hyderus, cadarnhaol, canolbwyntiedig a thawel. Mae'r rhain yn sgiliau delfrydol i fyfyrwr eu dysgu i'w helpu gyda blwyddyn derfynol eu rhaglen gradd.

Gall y flwyddyn derfynol yn arbennig achosi llawer o straen gyda nifer o fyfyrwr yn profi lefelau uwch o straen nag arfer, yn unol â'r ffaith eu bod yn paratoi i adael y brifysgol a dechrau'r gwaith. Gall hyn fod yn gyfnod heriol iddynt, ond hefyd yn gyfle ar gyfer tyfiant a hunan-ddatblygiad, i'w paratoi i brofi a rheoli newid y byddent yn debygol o wynebu yn y gweithle a sefyllfaoedd mewn bywyd. Mae'r modiwl Rheoli Pobl a Newid yn gwneud myfyrwr yn ymwybodol o dechnegau datblygu EI a ddefnyddir ar gyfer datblygiad personol, proffesiynol a sefydliadol, sydd yn eu helpu yn ystod eu blwyddyn derfynol, ond yn bwysicach fyth yn eu harfogi i reoli nhw eu hunain wrth wynebu'r amgylchedd busnes sy'n newid yn gyson y byddent yn ei brofi yn y dyfodol.

Deilliannau a Ragwelir:

Fel rhan o'r modiwl, mae myfyrwr yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth fwy o EI; mae'r rhain yn dechnegau y gellir eu helpu nhw ac eraill yn eu gweithleoedd yn y dyfodol i ddabtygu deallusrwydd emosiynol a chreadigrwydd gwell a chyfrannu at ddatblygiad personol, proffesiynol a sefydliadol. Mae'r modiwl yn canolbwyntio'n bennaf ar theori a dulliau datblygu sefydliadol traddodiadol a rheoli newid, gan fod EI a rheoli newid yn brofiad personol a reolir ac a gefnogir yn ddelfrydol mewn amgylcheddau proffesiynol. Mae'r dechnoleg arloesol emWave yn dechneg ddefnyddiol y mae'r myfyrwr yn ymwybodol ohoni y gellir ei defnyddio gan sefydliadau i wella EI, cynyddu perfformiad a lles a rheoli newid.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae myfyrwr sy'n astudio'r modiwl yn mwynhau gweld defnydd technoleg arloesol a'r berthynas ymarferol when datblygiad personol, proffesiynol a sefydliadol.

Myfyrdod/effaith:

Mae helpu i raddedigion ddatblygu deallusrwydd seiliedig ar y galon yn creu graddedigion sydd nid yn unig yn gymwys yn eu maes astudio penodol, ond hefyd yn fwy tebygol o fod yn broffesiynol, yn foesebol ac yn gallu gwneud gwahaniaeth a chyfraniad cadarnhaol i'r gymdeithas, a'r amgylchedd ehangach, sy'n fanteisiol i bawb ar unrhyw lwybr gyrfa y maent yn dewis. Mae'r cyflwyniad o'r dechnoleg hon a ffocws mwy ar EI a lles yn cydfynd â Chanolfan Iechyd a Lles newydd Prifysgol Fetropolitan Abertawe.

Technocamps

(astudiaeth achos S2)

Enw Cyswllt: Stuart Toomey

Ebost: stuart.toomey@technocamps.com

Ffôn: 01792 606889

Sefydliad: Prifysgol Abertawe

Cyfeiriad: Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP

Geiriau allweddol: pobl ifanc, allgymorth, trydedd genhadaeth – cydgyfeirio ESF, meddwl cyfrifiadurol, datrys problemau a rhesymeg, cynyddu uchelgais, agenda STEM (Gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg).

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Cafwyd peilot o'r fenter yn wreiddiol yn 2003-04 gydag ysgolion lleol yn Abertawe. Ers hynny, cymeradwywyd cais yn 2010 dan arweinyddiaeth Prifysgol Abertawe yn gweithio ar y cyd â phrifysgolion Aberystwyth, Bangor a Morgannwg. Cyfanswm y prosiect yw £6 million, ac mae'n rhedeg tan fis Mai 2014.

Nod:

Y prif nod yw cyflwyno 2,600 o bobl ifanc 11-19 oed sy'n byw yn yr ardal a ariennir gan gyllid cydgyfeirio o Gymru i gyfrifiadura a meddwl cyfrifiadurol fel pwnc eang o fewn agenda STEM. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltiad gyda'r rheiny sydd mewn perygl o fod yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a'u hail-gyfeirio i wneud dewisiadau dysgu pellach, ac hefyd i gynyddu cyfranogiad benywaidd mewn pynciau cysylltiedig â STEM. Mae targedau eilaidd yn cynnwys athrawon TGCh, addysgwyr STEM, rhieni a busnes.

Disgrifiad/Dull:

Prif elfen y prosiect yw cyflwyno pobl ifanc i'r byd cyffrous o feddwl cyfrifiadurol drwy amrywiaeth o weithdai a gynhelir yma ar y campws. Mae gan y prosiect nifer o weithdai modiwl ar gael i ddosbarth o ddisgyblion rhwng 11 a 19 oed. Ers 2000, mae'r nifer o ddisgyblion lefel-A ac AU yng Nghymru sy'n ymgymryd â Chyfrifiadura fel pwnc wedi gostwng yn gyson (mae hyn yn wir am weddill y DU hefyd). Mae hyn er gwaethaf yr angen cynyddol ym myd diwydiant ar gyfer mwy o bobl broffesiynol â sgiliau uwch (caiff hyn ei gadarnhau gan y Cyngor Sgiliau Sector, e-skills UK). Mae pobl ifanc heddiw yn dysgu sut i ddefnyddio trwy rwydweithiau cymdeithasol, y rhyngwyd a chwarae gemau, ond nid ydynt yn deall blociau adeiladu sylfaenol beth maent yn ei ddefnyddio, h.y. 'sut mae'n gweithio'. Mae hyn yn erbyn cefndir o addysgu cynyddol o TGCh, sydd wedi niweidio Cyfrifiadura; yn 2011 dim ond un ysgol gyfun yng Nghymru oedd yn cynnig yr opsiwn o weud TGAU Cyfrifiadura. Mae'r rheiny sy'n gwneud TGCh yn ymddieithrio â'r pwnc, a chaiff hyn ei gadarnhau gan y ffaith fod 73% o athrawon cyfun TGCh yng Nghymru heb gymhwyster TGCh ffurfiol.

Mae'r rheiny sy'n astudio TGCh yn ymddieithrio'n fawr oddi wrth y pwnc, a chaiff hyn ei gadarnhau gan y ffaith nad yw 73% o athrawon TGCh uwchradd yng Nghymru yn meddu ar unrhyw gymhwyster TGCh ffurfiol. Pan gânt y dewis o ymgysylltu am y tro cyntaf â Chyfrifiadura fel pwnc Safon Uwch, maent yn gweld ei fod yn ddisgyblaeth hollol wahanol i TGCh, maent yn ymddieithrio ac yn gollwng y pwnc.

Mae Technocamps yn gobeithio mynd i'r afael â hyn drwy ennyn eu diddordeb yn y pwnc cyffrous. Yn ystod y gweithdai gall pobl ifanc archwilio nifer o fodiwlau, gan gynnwys: Rhaglennu, Roboteg, Cryptograffeg, Deallusrwydd Artiffisial, i enwi rhai yn unig. Yn ystod eu hymweliad â'r Brifysgol, bydd siaradwr sy'n gweithio mewn maes STEM perthnasol yn dod i mewn i ddarparu tystiolaeth bendant o ba mor bwysig yw'r testun hwn yn y byd gwaith, gan dynnu sylw at gyfleoedd gyrfaoedd pendant yn y dyfodol a fydd ar gael i unrhyw un sy'n penderfynu astudio Cyfrifiadura. Ar ôl mynychu'r gweithdy, gwahoddir ysgolion i sefydlu Technoclub yn yr ysgol lle gall y bobl ifanc barhau i archwilio'r pwnc hwn; darperir adnoddau cynhwysfawr ar-lein drwy'r wefan: <<http://www.technocamps.com/>>. Mae Technocamps hefyd yn cynnal sesiynau uwchsgilio rheolaidd i athrawon er mwyn cyffroi athrawon i integreiddio rhywfaint o'r gweithgarwch hwn mewn gwersi, a hefyd rhoi iddynt y sgiliau a'r hyder i gynnal Technoclub.

Er bod Technocamps yn darparu'r pwnc Cyfrifiadura ac yn tynnu sylw ato, drwy fynychu'r gweithdai gall pobl ifanc gael rhyw syniad hefyd o elfennau fel meddwl cyfrifiadurol, datrys problemau, a defnyddio a chymhwyso rhesymeg i sefyllfaoedd gyda'r nod o'u datrys. Mae'r rhain yn sgiliau bywyd trawsbynciol y gellir eu cymhwyso i lu o ddisgyblaethau ar hyd eich bywyd o ddydd i ddydd.

Deilliannau a Ragwelir:

- 2,600 o gyfranogwyr (cyfanswm);
- 2,340 o gyfranogwyr yn sicrhau canlyniadau dysgu cadarnhaol (fel y'u pennwyd gan WEFO);
- 45% o ferched yn cyfranogi;
- 1,560 o bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn mynd i mewn i ddysgu pellach.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Caiff y dystiolaeth ei chasglu drwy olrhain unigolion ar sail hydredol a monitro'n fanwl y niferoedd sy'n astudio Cyfrifiadura fel pwnc Safon Uwch ac ar lefel israddedig.

Myfyrdod/effaith:

Bydd effaith y prosiect Technocamps ddim ond yn cael ei weld yn yr hir dymor oni bai bod polisi addysg yng Nghymru yn gweld gwerth Cyfrifiadura ar lefel Gymru-gyfan. Mae'r prosiect ei hun yn edrych ar amlygu meddwl cyfrifiadurol, rhesymeg a datrys problemau i'r rheiny sy'n cymryd rhan, ehangu opsiynau, posibiliadau a chyfleoedd, ac yn y pendraw yn darparu sgil eang y gellir ei gweithredu mewn amrywiaeth fawr o brofiadau bywyd.

Datblygu sgiliau myfyrio beimiadol mewn addysg Busnes i raddedigion

(astudiaeth achos CMI)

Enw Cyswllt: Mark Sutcliffe
Ebost: msutcliffe@uwic.ac.uk
Ffôn: 02920 417173
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyfeiriad: Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB

Geiriau allweddol: myfyrdod beimiadol, personal development planning, e-bortffolio, dysgu gweithredol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Drwy ddyfarniad penodol.

Nod:

I greu fframwaith i ganiatáu i fyfyrwyr groesawu datblygiad personol a gwella a hyrwyddo'r sgiliau hynny sy'n angenrheidiol i fod yn rheolwr effeithiol a llwyddiannus.

Disgrifiad/Dull:

Mae 'Menter Datblygu'r Unigolyn' (IDI) a lanswyd yn ei ffurf fwyaf diweddar ym mis Medi 2011, wedi mynd trwy iteriadau datblygol dros y tair blynedd diwethaf. Dechreuwyd hyrwyddo IDI oherwydd sylweddoliad bod datblygiad sgiliau myfyryr, yn enwedig sgiliau myfyrio beimiadol sydd mor angenrheidiol ar gyfer dysgu lefel uwch a pherfformiad busnes, yn aml yn wan neu ddim y bodoli o gwbl. Mae IDI yn ceisio cywiro'r sefyllfa hon. Mae gan IDI bedwar brif piler:

- Cynllunio Datblygu Personol (PDP): Mae'r PDP yn caniatáu i fyfyrwyr adlewyrchu a myfyrio ar eu perfformiad dysgu a chyraeddiadau eu hunain, wrth gynnig trosolwg o sgiliau a chymwyseddau i gyflogwyr, a'r gydnabyddiaeth bod unigolyn yn gallu myfyrio ar; adolygu a chynllunio ei ddysgu a'i hanghenion datblygu ei hun. Gwneir hyn o fewn fframwaith e-bortffolio.
- Setiau Dysgu Gweithredol (ALS): Mae'r ALS yn cefnogi dysgu seiliedig ar broblemau, gwranddo gweithredol, cwestiynu agored ac effeithiol, a myfyrdod a gwerthuso gweithredoedd. Mae'r ALS yn rhan hollbwysig o ddatblygu PDP.
- Log myfyrdod: Elfen hanfodol yw hon mewn hyrwyddo profiad dysgu dwfn, ac addasu PDP a'r ALS. Mae'r log yn cynnig y cyfle i'r myfyriwr werthuso profiad y PDP a'r ALS.
- Gweithdy sgiliau a siaradwyr gwadd: Mae'r maes yma o IDI yn galluogi myfyryr i weithredu'n fwy effeithiol fel myfyryr, a datblygu elfennau o fewn eu PDP. Mae'r rhaglen yn gwhaniaethu rhwng sgiliau astudio a sgiliau cyflogadwyedd, ac yn defnyddio rhaglen siaradwyr gwadd i gadw diddordeb a dechrau trafodaethau am ymarferion busnes gwirioneddol.

Deilliannau a Ragwelir:

- datblygu sgiliau allweddol mewn myfyrrio beirniadol;
- dysgwyr yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain a chyfleoedd i'w wella;
- ymgysylltiad mwy gyda'r rhaglen a'i nodau;
- cyflogadwyedd gwell.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae angen i fyfyrwyr werthuso eu profiad o IDI a'i heffaith arnynt drwy elfen o waith asesedig ar gyfer y modiwl 'Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn Sefydliadau.' O'r gwaith hwn mae myfyrwyr wedi cyfleu amrywiaeth o safbwyntiau o rai chwyldroadol i ddifaterwch. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn arbennig wedi cyfleu anesmwythder, ac weithiau brawychiad, gyda'r broses o hunan-adlewyrchu a beirniadaeth. Mae'r myfyrwyr i gyd yn gosod targedau PDP, ac i raddau mwy neu lai, roedd y mwyafriaf yn llwyddiannus o ran eu cyflawni. Roedd patrwm cyflenwi seiliedig ar broblemau'r rhaglen yn annog myfyrwyr i ymgysylltu a datrys problemau naill ai ar sail unigol neu fel tîm. Mae myfyrwyr wedi cyfleu, drwy arolwg diwedd-y-flwyddyn, bod hyn yn heriol, ond eu bod yn teimlo wrth adlewyrchu ar y profiad, ei fod yn ystyrion ac yn dysgu gwersi gwerthfawr.

Myfyrdod/effaith:

Mae datblygu sgiliau busnes 'meddal', sef rhywbeth a anwybyddir yn eang mewn llawer o raglenni Busnes a Rheoli, yn ddimensiwn unigryw a gwerthfawr o'r cwrs hwn. Mae ei natur wedi'i fewblannu â gwybodaeth a ddblygiad sgiliau 'cadarn' ac mae hyn yn hanfodol i'w llwyddiant. Mae IDI yn anodd i'w werthuso ac mae'r effaith ar ddatblygu unigol yn anodd i'w fesur, gyda manteision nad ydynt yn diriaethol sy'n debygol o fod yn esblygiadol ac yn anodd i sylwi arnynt. Yr elfen fwyaf hanfodol i lwyddiant IDI yw ymgysylltiad myfyrwyr, a pharodrwydd i groesawu'r fenter.

Tystysgrif Cyflogadwyedd yn yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd

(astudiaeth achos C4)

Enw Cyswllt: Dr David Wyatt

Ebost: WyattDI@Cardiff.ac.uk

Ffôn: 02920 870404

Sefydliad: Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd (SHARE), Prifysgol Caerdydd

Cyfeiriad: Prifysgol Caerdydd, Adeilad y Dyniaethau, Colum Drive,
Caerdydd CF10 3EU

Geiriau allweddol: sgiliau cyflogadwyedd, ymgysylltiad y cyhoedd, ehangu mynediad, partneriaeth a chydweithrediad.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Mae hyn yn Fenter Ysgolion, ond mae cynlluniau tebyg yn cael eu gweithredu mewn ysgolion eraill (SOSCSI a JOMEC). Nid yw'n weithredol eto ac mae'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae cynnig drafft yn cael ei egluro yma a fydd yn cydfynd ag ymgysylltiad presennol a mentrau ehangu mynediad yn y prosiectau SHARE.

SHARE gydag Ysgolion (SwS)

Mae'r prosiect SwS yn ymwneud â chreu cysylltiadau ehangu mynediad ag ysgolion uwchradd/dosbarthiadau chwech lleol. Mae'r prosiect yn cynnwys creadigaeth 'pecynnau cymorth' i hwyluso ymweliadau allgymorth hanner diwrnod/un diwrnod gan israddedigion a graddedigion SHARE mewn ysgolion lleol ble y gallent gynnal gweithdai rhyngweithiol yn seiliedig ar eu hymchwil, eu profiadau o addysg uwch a'u meysydd pwnc. Mae'r pecynnau cymorth wedi cael eu dylunio i'w cyflenwi gan israddedigion gwirfoddol o Flwyddyn 2 a 3 mewn partneriaeth â thîm o gydlynwyr graddedig. Bydd y prosiect SwS felly yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd ein myfyrwyr ar adeg pan fydd profiad all-gyrsiol fel hyn yn hanfodol.

Nod:

Nod y Dystysgrif Cyflogadwyedd yw:

- darparu myfyrwyr israddedig â sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy a pherthnasol iawn gyda pherthnasedd i yrfaedd addysgu, y diwydiant treftadaeth, y cyfryngau, y sector twristiaeth a busnes;
- darparu cyfleoedd lleoliad ac allgymorth i ddatblygu cydweithrediadau a synergeddau, gyda'r sectorau addysg rhanbarthol, treftadaeth a'r cyfryngau yn ôl cyfarwyddiadau'r llywodraeth a'r cyngor cyllido;
- datblygu'r SHARE sy'n bodoli eisoes gyda Phrosiect Ysgolion, sydd wedi creu cysylltiadau gydag ysgolion uwchradd/dosbarthiadau chwech mewn lleoliadau 'ehangu mynediad', i chwalu rhwystrau i AU a chreu partneriaethau a phrosiectau dyfodol gyda darparwyr addysg;
- darparu pwll o raddedigion cymwys ar gyfer y sector addysg, treftadaeth a thwristiaeth yng Nghymru.

Disgrifiad/Dull:

Bydd Tystysgrif Cyflogadwyedd nad yw'n achrededig yn cael ei mewnbllannu i gynlluniau gradd SHARE, a fydd yn golygu datblygu portffolio cyflogaeth o weithgareddau cysylltiedig â mentrau ymgysylltu a lleoliadau yng nghyd-destun addysg, treftadaeth a'r cyfryngau. Bydd y rhain yn datblygu ac yn symud myfyrwyr ymlaen o hyfforddiant sylfaenol seiliedig ar sgiliau ym Mlwyddyn 1 i rinweddau menter ac arweinyddiaeth ym Mlwyddyn 3:

Blwyddyn 1: Bydd myfyrwyr yn rhoi tystiolaeth o'r sgiliau craidd trosglwyddadwy y maent yn eu datblygu o'u hastudiaethau yn rhan 1 – mae hyn wedi'i fewnbllannu'n effeithiol i'r modiwl sgiliau craidd.

Blwyddyn 2: Mae myfyrwyr yn darparu tystiolaeth o'u gwaith gwirfoddol, lleoliadau neu waith mewn partneriaeth gydag asiantaethau allanol – byddent yn fentrus o ran sefydlu'r cyfleoedd hyn gyda chydlynid gan Swyddog Prosiect SHARE mewn rôl hwyluso. Bydd hyn yn cynnwys cyfranogiad mewn digwyddiadau a mentrau SHARE i ymgysylltu/ehangu mynediad yn y gymuned (gweler uchod).

Blwyddyn 3: Bydd myfyrwyr yn enghreifftiotystiolaeth o drefnu digwyddiadau allgymorth/seiliedig ar ehangu mynediad, prosiectau, arddangosfeydd, tudalennau gwefan a/neu fentrau eraill, ac ymgymryd â rolau arweinyddiaeth sy'n adeiladu partneriaethau. Eto, bydd hyn yn cydfynd yn dda gyda phartneriaethau treftadaeth a rhaglen ehangu mynediad yr Ysgol gan ddabtygu sgiliau cyfathrebu ac arweinyddiaeth trosglwyddadwy iawn.

Deilliannau a Ragwelir:

darparu cyfleoedd lleoliad ymarferol i SHARE;

- israddedigion yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy iawn sydd wedi eu hargymell yn barod drwy gynlluniau gradd SHARE wrth greu cysylltiadau rhwydweithio a chyflogaeth ar gyfer y myfyrwyr hynny;
- i greu partneriaethau agos â'r sectorau treftadaeth, addysg a chyfryngau lleol i hwyluso cyfleoedd ymgysylltiad a chyflogaeth a chysylltiadau ar gyfer israddedigion SHARE;
- i annog israddedigion SHARE i ddatblygu portffolios cyflogadwyedd ystyrion a datganiadau CV gyda pherthnasedd i gyflogwyr o amrywiaeth o sectorau;
- i fewnbllannu diwylliant o ymgysylltiad cyhoeddus yn y cwricwlwm SHARE.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r prosiect yn dal i fod yn y camau dabtlygu.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r prosiect yn dal i fod yn y camau dabtlygu.

Clybiau cyfrifadur i ysgolion

(astudiaeth achos N6)

Enw Cyswllt: Eric Llewellyn

Ebost: eric.llewellyn@newport.ac.uk

Ffôn: 01633 432386

Sefydliad: Prifysgol Cymru, Casnewydd

Cyfeiriad: Campws y Ddinas, Usk Way, Casnewydd NP20 2BP

Geiriau allweddol: TAR ac addysgu, gweithio gyda phlant, dysgu rhaglennu i blant, cynyddu ymwybyddiaeth o'r brifysgol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Tryw gydol un gyfadran.

Nod:

Nod y rhaglen yw datblygu sgiliau rhaglennu mewn plant ifance rhwng 10 ac 11 cyn iddynt ddechrau'r ysgol uwchradd. Mae'r cynllun yn cynnig myfyrwyr ym mlwyddyn olaf eu cwrs gradd y cyfle i wneud profiad gwaith mewn ysgolion lleol.

Disgrifiad/Dull:

Bydd grŵp o fyfyrwyr yn eu blwyddyn derfynol sydd wedi/yn ymgeisio ar gyfer astudio TAR ar ôl gorffen eu dyfarniad BSc yn cynnal clwb cyfrifiaduron ar gyfer plant 10-11 oed mewn ysgol leol. Bydd y peilot yn gweithredu am un awr bob pythefnos. Bydd y myfyrwyr yn cael eu cylchdroi drwy'r clwb gan sicrhau bod cymaint â phosib o'n graddedigion yn cael cyfle i gymryd rhan, wrth sicrhau cysondeb i'r plant hefyd. Mae gwersi blasu bach wedi cael eu hysgrifennu, i ail-ffocysu egwyddorion sylfaenol rhaglennu ar gyfer plant ifanc. Bydd y sesiynau yn rhedeg bob pythefnos hyd at y Pasg pan fydd pawb sy'n cymryd rhan yn mynychu seremoni graddio bach.

Deilliannau a Ragwelir:

Ar gyfer myfyrwyr Casnewydd:

- profiad gwaith gwerthfawr ar gyfer myfyrwyr Cyfrifiadura presennol yn eu blwyddyn olaf;
- blas o'r realiti o addysgu rhaglennu i blant ifanc;
- Profiad o ddabtlygu cynlluniau gwersi a deunyddiau ar gyfer addysgu, a'u haddasu a'u newid, yn seiliedig ar allu.

Ar gyfer y Brifysgol:

- cyswllt uniongyrchol rhwng y Brifysgol ac ysgolion lleol;
- cyfleoedd isel iawn ar gyfer hysbysebu adnoddau a hyrwyddo;
- cyfle i ychwanegu gwerth i'r gymuned leol.

I'r plant (a'u teuluoedd):

- datblygu sgiliau rhaglennu allweddol i danseilio eu hastudiaethau ysgol uwchradd ;
- ymwybyddiaeth o Brifysgol Cymru, Casnewydd;
- drwy gael cyswllt fel hyn â myfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol tebyg, bydd gan y plant ddisgwyliadau mwy am eu gallu i astudio ar lefel Brifysgol yn y dyfodol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

I'w casglu unwaith i'r prosiect ddechrau.

Myfyrddod/effaith:

Bydd effaith ar fyfyrwyr Casnewydd yn syth gyda gwerth y sgiliau a'r profiad a ddatblygir i'w hymgais a'u hastudiaethau TAR. Yr effaith byr-dymor fydd cynyddu ymwybyddiaeth o Brifysgol Cymru, Casnewydd yn y gymuned leol, i athrawon, rhieni a brodyr a chwiorydd. Yr effaith hir-dymor fydd dealltwriaeth fwy o gyfrifiadura y tu hwnt i TG syfaenol ymysg plant ysgol uwchradd. Y gobaith yw y bydd hyn yn annog mwy o ddisgyblion i astudio Lefel-A TG ac ymgymryd â rhaglenni israddedig mewn pynciau technegol sy'n gysylltiedig â chyfrifiadura. Rhagwelir y bydd y prosiect hwn yn plannu'r syniad o fynd i'r brifysgol mewn plant ysgol ifanc, nad oedd wedi ystyried hyn fel opsiwn yn flaenorol.



Adran 4: Datblygu arweinyddiaeth a menter

Diffinir menter, mewn cyd-destun addysg brifysgol, fel:

Myfyrwyr yn dysgu i ddefnyddio'r sgiliau, gwybodaeth a phriodoleddau personol sydd angen i weithredu syniadau a mentrau creadigol i ddatrysiadau ymarferol. Mae'r rhain yn cynnwys arloesedd, annibyniaeth, creadigrwydd, datrys problemau, nodi a gweithio ar gyfleoedd, arweinyddiaeth, ac ymddwyn yn ddyfeisgar i achosi newid. (Rae et al., 2010)

Mae'r angen cynyddol i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth a menter tra'n astudio mewn addysg uwch yn deillio o'r angen ar gyfer creadigrwydd fel hyn mewn economi ansefydlog sy'n newid yn gyflym ac yn gyson. Mae datblygu arweinyddiaeth a menter hefyd yn gallu awgrymu opsiwn gyrfaol gwahanol fel dechrau busnes neu hunan-gyflogaeth.

Ond sut mae addysgu entrepreneuriaeth?

Mae'r astudiaethau achos yn yr adran hon yn enghreifftio'r amrywiaeth o ffyrdd y mae prifysgolion yng Nghymru yn ceisio efelychu diddordeb myfyrwyr mewn menter a meithrin arweinyddiaeth a chasiti entrepreneuriaid.

Mae efelychu prosiectau 'byd go iawn' a cheisio am ariannu yn ffocws y ddwy astudiaeth gyntaf (A2 ac A3), sydd â'r nod o ddaparu myfyrwyr â'r sgiliau i chwilio am gyllid ar gyfer syniad busnes neu brosiect cymunedol. Defnyddir un ffurf o efelychiad sy'n ymwneud â myfyrwyr yn cael rôl ymgynghorwyr rheoli iau ar gyfer un o'r astudiaethau achos gyda'r myfyrwyr yn wynebu amrywiaeth o broblemau a materion busnes (astudiaeth CM2). Pwysleisir datblygu syniad busnes ac ymchwilio ac ysgrifennu cynllun busnes proffesiynol hefyd yn astudiaeth SM3, sy'n canolbwyntio ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd angen i redeg busnes bach.

Caiff y mater o fynd i'r afael yn benodol â datblygiad sgiliau arweinyddiaeth a menter mewn graddedigion ei enghreifftio ymhellach mewn nifer o astudiaethau. Er enghraifft, mae Tystysgrif Datblygiad Proffesiynol Prifysgol Caerdydd (astudiaeth C9) yn cynnwys arweinyddiaeth mewn cwricwlwm o sgiliau hanfodol ac mae Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol Prifysgol Morgannwg (astudiaeth G9) yn ceisio codi deheadau myfyrwyr a rhoi'r sgiliau iddynt ddatblygu eu gallu fel arweinwyr potensial.

Mae cyfres o adnoddau e-ddysgu y gellir eu haddasu i annog datblygiad sgiliau menter wedi cael eu defnyddio ar draws rhaglenni ym Mhrifysgol Glyndŵr (astudiaeth GU1), tra bod her tîm dysgu trwy brofiad yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddatblygu eu galluoedd entrepreneuriaid/intrapreneuraidd yn astudiaeth SM1. Mae'r her 'Gweud Effaith' (astudiaeth G4) hefyd yn defnyddio her busnes i ddatblygu sgiliau penodol. Mae astudiaeth 'Syniadau Disglair' Casnewydd (astudiaeth NI) yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau i hwyluso'r broses o fyfyrwyr yn nodi a symud ymlaen â chyfleoedd hunan-gyflogaeth, tra bod astudiaeth B2 yn ymgysylltu â grwpiau diddordeb lleol ac asiantaethau cymorth i ddatblygu sgiliau ac ymwybyddiaeth myfyrwyr o fenter gymdeithasol.

Asesiad cyflwyno neges sylw prosiect

(astudiaeth achos A2)

Enw Cyswllt: Mark Smith
Ebost: mxs@aber.ac.uk
Ffôn: 01970 622646
Sefydliad: Prifysgol Aberystwyth
Cyfeiriad: Campws Penglais, Aberystwyth SY23 3DB

Geiriau allweddol: cyflwyno neges sylw busnes, grant, rheoli amgylcheddol, cyflogadwyedd, cysylltiadau cyflogwyr.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy fodiwl ar raglen israddedig.

Nod:

Cafodd yr asesiad ei weithredu mewn modiwl israddedig ail flwyddyn cyfredol ('Rheoli Amgylcheddol') a'r nod yw arddangos y gwirionedd o ymgymryd ag amrywiaeth o brosiectau rheoli amgylcheddol tra'n eu hannog i ymgysylltu â chyflogadwyedd.

Disgrifiad/Dull:

Roedd myfyrwyr yn ffurfio timau ac wedi cyflwyno cais am un o bum grant ar brosiect rheoli amgylcheddol mewn cynhadledd 'broffesiynol' ar ddiwedd y modiwl. Roedd y prosiectau hyn yn seiliedig ar brosiectau 'go iawn' mewn ymgynghoriad ag ymarferwyr lleol i adlewyrchu gweithgareddau dyddiol y rhai sy'n gweithio yn y sector amgylcheddol.

Er mwyn cyflwyno eu pitsh, cafodd y timau o fyfyrwyr slot pum munud ar gyfer cyflwyniad fideo a chyflwyniad llafar. Roedd lle ar gyfer poster A0 yn y gynhadledd a chafodd pob grŵp bump ochr o bapur cynhadledd i gyflwyno manylion penodol am eu prosiectau. Roedd myfyrwyr nad oeddent yn cystadlu am yr un grant yn cael rolau penodol (e.e. ymgyrchydd amgylcheddol, cynrychiolydd Llywodraeth Leol) i holi'r grwpiau eraill. Er nad oedd angen cais o'r fformat hwn ar gyfer grantiau o'r fath, teimlwyd y byddai'r addasiad hwn yn caniatáu i fyfyrwyr arddangos yr amrywiaeth ehangaf o sgiliau fyddai eu hangen yn y gweithle. Er mwyn datblygu agwedd gystadleuol, gwnaed 'pleidlais boblogaidd' cyn cyflwyno'r grant nesaf, er na ddefnyddiwyd hyn ar gyfer asesiad.

Deilliannau a Ragwelir:

O gymryd rhan yn y modiwl hwn, rhagwelir y bydd myfyrwyr yn:

- fwy ymwybodol o'r sialensiau o weithio mewn tîm ar brosiect 'byd go iawn';
- cydnabod gofynion cyflogwyr yn y sector rheoli amgylcheddol;
- ymgysylltu â'r dull asesu nofel;
- myfyrto ar y cymwyseddau maen nhw wedi'u harddangos yn ystod y modiwl.

Rhoddir pwyslais ar ddefnyddio'r prosiect fel astudiaeth achos yn ystod y broses recriwtio graddedigion.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Roedd holiadur diwedd modiwl yn dangos bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr (87% o ymatebwyr) yn mwynhau'r asesiad newydd ac yn croesawu'r amrywiaeth yn y dull asesu. Roedd y gynhadledd ei hun yn llwyddiant mawr; roedd myfyrwyr yn ymddwyn yn broffesiynol ac wedi dangos iddynt ymgysylltu â'r broses o ddiifri. Roedd y cyflwyniadau wedi creu cryn argraff ar yr ymarferwyr rheoli amgylcheddol lleol trwy'r modd roedd myfyrwyr yn ymateb i'r cwestiynau. Dywedodd un aelod o'r cyngor: "Mae pob prosiect yn cael ei gyflwyno gydag ysbryd arloesol a dychymyg. Gyda chymaint o frwdfrydedd, mae'r dyfodol yn argoeli'n dda, mae'r dyfodol yn wyrdd!"

Ar y cyfan, yr her fwyaf o ran llwyddiant y modiwl oedd y pwyslais ar waith grŵp, ac roedd rhai myfyrwyr yn meddwl bod hyn yn broblem. Ond, gwaith tîm oedd y gymhwysedd a ddatblygwyd fwyaf gan y myfyrwyr trwy gydol y modiwl.

Myfyrdod/effaith:

Roedd yr agwedd broffesiynol a anogwyd trwy'r modiwl yn hynod o bwysig. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn holl ddeunyddiau'r modiwl; ysgrifennwyd amlinelliadau asesu fel petai'r myfyrwyr yn gweithio i gwmni penodol, elusen neu sefydliad y llywodraeth. Er enghraifft, roedd pob prosiect yn gofyn i dimau fynd i'r afael â'r prif faterion i'w cyflawni ac esbonio pwy oedd y corff dyfarnu. Cafodd gwisg ffurfiol ei annog yn y gynhadledd, a gynhaliwyd mewn lleoliad cynadledda go iawn ar y campws. Roedd hyn yn gwneud yr asesiad yn realistig ac yn annog myfyrwyr i gymryd y broses o ddiifri.

Presenoldeb ymarferwyr amgylcheddol lleol yn y gynhadledd oedd y ffactor mwyaf yn ysgogi'r myfyrwyr. Roedd y prosiectau'n 'byw'. Cyflwynwyd syniadau gan fyfyrwyr fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus gan y cyngor lleol ar gyfer cynnig grant arfaethedig go iawn, a dyna oedd yr elfen fwyaf poblogaidd. Yn fwyaf sylweddol, roedd 60% o ymatebwyr i'r holiadur yn honni eu bod yn fwy tebygol o ddilyn gyrfa mewn rheoli amgylcheddol ar ôl gwneud y modiwl hwn.

Mae un dyfyniad gan fyfyrwr yn dweud y cyfan:

Diolch am fodiwl diddorol oedd wedi fy ysgogi'n fawr! Teimlaf i ddoe fod yn gymorth mawr i mi (a phawb arall yn yr ystafell mae'n siŵr) yn datblygu sgiliau 'byd go iawn'. Teimlaf synnwyr o gyflawniad, ac yn broffesiynol iawn! Byddai'n wych pe bai mwy o fodiwlau fel hyn!

Cyflwyno neges sylw ar gyfer cyllid: asesiadau grŵp mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

(astudiaeth achos A3)

Enw Cyswllt: Chris Morris-Thomton
Ebost: chl@aber.ac.uk (Link Careers Adviser)
Ffôn: 01970 628670
Sefydliad: Prifysgol Aberystwyth
Cyfeiriad: Penglais, Aberystwyth SY23 3DB

Ysgrifennwyd gan: Emily Oliver (ejo@aber.ac.uk), Darlithydd a Chydlynnydd Cyflogadwyedd yr Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Prifysgol Aberystwyth

Geiriau allweddol: cyflwyniadau, gwaith grŵp, cynllun busnes, cyllido, cyflwyno neges sylw busnes, cyflogaeth.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Ar fodiwl (modiwl craidd ar gyfer rhaglen C600).

Ar gyfer:

Myfyrwyr ail flwyddyn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff.

Disgrifiad/Dull:

Yn y modiwl 'Sgiliau ar gyfer Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff II', mae myfyrwyr yn dysgu bod ymgeisio am gyllid yn nodwedd gyffredin ar swyddi mewn datblygiad rhanbarthol, ymgynghoriaeth, asiantaethau'r llywodraeth, y sector cyhoeddus, darpariaeth a datblygiad chwaraeon a'r byd academiaidd. Felly, er mwyn efelychu'r math o weithgaredd y gallai fod angen ei wneud ar ôl graddio, mae asesiadau ar ffurf cyflwyno neges sylw grŵp, i geisio am gyllid ar gyfer syniad busnes neu brosiect cymunedol. Mewn grwpiau o hyd at wyth myfyriwr a ddewiswyd gan y myfyrwyr eu hunain, mae pob grŵp yn cyflwyno i banel sy'n cwmpasu staff y Brifysgol a'r adran, yn ogystal â chyllidwyr allanol a wahoddir neu gynrychiolwyr busnes. Roedd y cyflwyniad yn 20 munud a deg munud o gwestiynau yn cael eu rhagflaenu gan raglen o weithdai a siaradwyr gwadd i helpu myfyrwyr i fireinio eu syniadau.

Deilliannau a Ragwelir:

Bydd myfyrwyr yn gwybod sut i integreiddio ymchwil Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff mewn ffyrdd ymarferol a datblygu ymwybyddiaeth am sut i ddatblygu cynllun busnes, cais am grant neu gynllun datblygu cynnyrch mewn grŵp. Gobeithir y bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth myfyrwyr o gyfleoedd posibl ar ôl graddio, yn ogystal ag ysgogi creadigrwydd a ffyrdd o feddwl mentrus.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae canlyniadau DLHE da yn gyson o'r adran hon. Mae'r asesiad hwn ar waith am yr ail flwyddyn; y llynedd cafodd adborth positif o'r garfan gyntaf, ac mae cyrhaeddiad yn y modiwl yn uwch na chyrhaeddiad cyfartalog yr adran. Mae adborth a gafwyd hyd yma yn arddangos ymatebion myfyrwyr i siaradwyr a chysylltiadau â chynlluniau model Rôl Dynamo a Graduate Start Up.

Myfyrdod/effaith:

Fel tiwtor, mae wedi bod yn hynod o foddhaol gweld ymgysylltiad myfyrwyr yn y dasg hon, yn enwedig gan rai myfyrwyr sydd wedi ymgysylltu'n llai â modiwlau â gogwydd mwy academiaidd. Mae'r siaradwyr allanol a'r aseswyr i gyd wedi canmol ansawdd y gwaith a gynhyrchwyd.

Cysyniadau trothwy a dull astudiaeth achos mewn Busnes a Rheoli

(astudiaeth achos CM2)

Enw Cyswllt: Mark Sutcliffe
Ebost: msutcliffe@uwic.ac.uk
Ffôn: 02920 417173
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyfeiriad: Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB

Geiriau allweddol: cysyniadau trothwy, astudiaeth achos, chwarae rôl, datblygu sgiliau meddal.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy fodiwl

Nod:

Ffocysu a dyfnhau dysgu'r myfyrwyr o safbwynt cysyniadau allweddol yn y ddisgyblaeth, trwy ofyn i fyfyrwyr gymhwyso cysyniadau o'r fath i gwmni go iawn mewn cyfres o sefyllfaoedd damcaniaethol.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r dull astudiaeth achos mewn addysgu Busnes a Rheoli yn hen sefydledig a chaiff ei ddefnyddio'n eang fel modd i roi cyfle i fyfyrwyr roi theori, arfau a thechnegau ar waith. Drwy ddefnyddio enghreifftiau byd go iawn, mae myfyrwyr yn gallu archwilio sut mae eu datrysiad nhw i broblem neu sefyllfa yn cymharu â sefyllfa'r busnes yn ei gyd-destun real ac amherffaith. Arf addysg a dysgu anhepgor ydyw. Mewn ymgais i adeiladu ar ben y dull hwn, a ffocysu'n fwy uniongyrchol ar gysyniadau trothwy allweddol yn y maes llafur Busnes a Rheoli, mae'r tîm addysgu wedi plethu elfennau o fusnes go iawn gyda phroblemau busnes damcaniaethol. Pam rydym wedi gwneud hynny? Y rheswm pennaf yw cyfyngu a ffocysu'r dysgu, a'i

gyfeirio at un cysyniad trothwy. Mae ein myfyrwyr, sef israddedigion blwyddyn olaf, wedi cael profiad busnes cyfyngedig, a dim ond gwybodaeth ganolraddol o arfer busnes. Drwy ffocysu'r dysgu ar bwyntiau cysyniadol allweddol, mae'n ein galluogi i adeiladu a datblygu sylfaen wybodaeth y myfyrwyr mewn ffordd mwy strwythuredig, a ffordd y gellir ei hasesu, gan sicrhau bod pwyntiau allweddol yn cael eu deall ac nad ydynt yn cael eu colli yn y manylder a soffistigeiddrwydd llethol sy'n rhan o enghreifftiau go iawn.

Ar ddechrau'r flwyddyn, rydym yn hysbysu'r myfyrwyr am eu rôl fel is-ymgynghorwyr rheoli, a'u bod yn gweithio i fusnes ymgynghoriaeth reoli o'r enw '5P'. Maen nhw'n cael eu dyrannu'n dimau random o dri neu bedwar myfyriwr, ac mae gofyn iddyn nhw roi enw ar y tîm. Mae myfyrwyr yn aros yn y timau hyn drwy gydol y flwyddyn. Wedyn, caiff myfyrwyr eu briffio am y busnes y byddant yn ei gynghori, a'r dasg i'w datrys. Ar batrwm gweithdai dwy awr bob pythefnos, yn eu sesiwn nesaf mae gofyn iddynt gyflwyno eu datrysiad i'r dasg i fi a chydweithiwr sy'n cael rôl uwch bartner 5P. Mae gwaith i gyd yn cael ei asesu'n ffurfiannol o ran cwblhau'r dasg yn llwyddiannus a pherfformiad y cyflwyniad. Gyda rhaglen o weithdai bob pythefnos rydym yn gweithio'n effeithiol gyda chyfres o ddeg cyfarfod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn mae gennym bedair sesiwn astudiaeth achos a phedwar pwynt cyflwyno. Felly, mae'r astudiaeth achos wedi'i integreiddio'n llawn yn ein rhaglen astudio. Mae sesiynau a deunyddiau ategol i gyd yn cael eu defnyddio i ddyfnhau gwybodaeth myfyrwyr a chanolbwyntio ar ddatblygiad cysyniadau trothwy allweddol. Drwy ddefnyddio'r un enghraifft astudiaeth achos yn wynebu amrywiaeth o broblemau a materion busnes, mae myfyrwyr yn dod yn fwy cyfarwydd â'r achos. Lle bo'n bosibl, rydym yn galluogi grwpiau i ddatblygu syniadau a chysyniadau o'u gwaith cynharach. Felly, gallai pob grŵp gynnig datrysiadau unigryw a gwahanol i broblemau a materion sy'n codi. Er enghraifft, y dasg gyntaf a osodwyd i fyfyrwyr oedd datblygu model busnes newydd ar gyfer cleient 5P sefydledig. Roedd gofyn iddynt roi dimensiynau model a chyfiawnhau ei gynhyrchiad. Mae'r ail dasg yn gofyn i fyfyrwyr drafod y cynnyrch neu'r gwasanaeth newydd hwn o ran ei farchnad a'i gystadleuaeth. Mae ymyriadau pellach yn canolbwyntio ar gynghori'r cleient ar fenter ar y cyd a datblygu rhaglen cyfrifoldeb corfforaethol cymdeithasol.

Deilliannau a Ragwelir:

- gwybodaeth myfyrwyr ddyfnach;
- sgiliau caled a meddal gwell, fel cyflwyno a chyfathrebu, yn ogystal â gwaith tîm effeithiol;
- atgyfnerthu cydnabyddiaeth am y cysylltiad rhwng busnes a rheoli damcaniaethol a'i ddefnydd ymarferol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r adborth a gafwyd ar y dull hwn wedi bod yn bositif ar y cyfan. Roedd yr arddull cyflwyno ac adborth Dragons Den/Apprentice wedi codi ofn ar y myfyrwyr i ddechrau, ond roedd wedi annog llawer ohonynt i wella eu perfformiad a gweithredu ar ein arsylwadau. Roedd yr adborth ffurfiannol parhaus hwn a gafwyd drwy fframwaith gweithdai yn anhepgor wrth hyrwyddo'r broses hon. Roedd myfyrwyr yn teimlo perchnogaeth dros eu grwpiau a'u syniadau, a gwir frwdfrydedd i weld eu cynnyrch a'u syniadau yn datblygu. Er y'i cynlluniwyd yn wreiddiol i wella datblygiad gwybodaeth, un o'r effeithiau mwyaf o'r dull dysgu seiliedig ar broblemau oedd datblygu a hyrwyddo sgiliau. Mae sgiliau cyflwyno, sgiliau gwaith tîm a myfyrio a gwerthuso wedi'u cydnabod gan y myfyrwyr fel deilliannau positif o'r dull hwn o weithio.

Myfyrddod/effaith:

Fel rhan o gynllun asesu portffolio blwyddyn gyfan, nid yw ymgysylltiad myfyrwyr â'r dull astudiaeth achos hwn i ddyysgu yn ddewisol. Ond, rydym yn hyderus ein bod yn cynhyrchu myfyrwyr sydd â gwybodaeth graidd ddyfnach, mwy o hyder, ac yn gallu datrys problemau yn well. O safbwynt addysgu, mae'r patrwm cyflwyno yn heriol ac yn ddwys o ran amser; ond mae'r dull cyflwyno yn hwyl ac yn amrywiol. Ar gyfer y flwyddyn sy'n dod, rydym am ddefnyddio'r dull hwn o weithio yn yr arholiad diwedd blwyddyn.

Astudiaethau Proffesiynol (Cyfadran Celf a Dylunio, SMU)

(astudiaeth achos SM3)

Enw Cyswllt: Ian Simmons

Ebost: ian.simmons@smu.ac.uk

Ffôn: 07817 203463

Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Cyfeiriad: Canolfan Dinefor ar gyfer Celf, Dylunio a'r Cyfryngau,
Abertawe SA1 3EU

Geiriau allweddol: cydweithrediad diwydiannol, arfer creadigol, hunan gyflogaeth, cynllunio busnes, gwaith prisio, IP, briffio, cyflwyno a dyfynnu pris

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy bob rhaglen yn y Gyfadran Celf a Dylunio.

Nod:

Rhoi profiad i'r myfyrwyr o gynllunio busnes neu fod yn hunan gyflogedig a fforio gyrfa yn y diwydiannau creadigol.

Disgrifiad/Dull:

Mae Astudiaethau Proffesiynol yn darparu profiad dysgu lle mae gofyn i fyfyrwyr gynllunio syniad busnes mewn grwpiau bach, ac ymchwilio a llunio cynllun busnes proffesiynol. Mae pwyslais ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i redeg busnes bach, pa un a yw'n fusnes creadigol llawrydd neu fod yn berchennog sefydliad mawr. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod mwy na 70% o bobl yn y diwydiannau creadigol yn gweithio'n llawrydd, felly mae'n bwysig bod myfyrwyr yn dysgu'r sgiliau angenrheidiol i gystadlu am y gwaith hwn. Mae'r modiwl yn cynnwys darlithoedd ar hawliau eiddo deallusol ac agweddau ar ysgrifennu cynllun busnes effeithiol, cyflwyno neges sylw busnes i fuddsoddwyr neu ddarpar gydweithwyr, rhedeg SME a'r oblygiadau cyfreithiol ac ariannol, trafod ffioedd, prisio gwaith, pwysigrwydd rheoli amser ac ati.

Cyflwynir y modiwl trwy ddarlithoedd a thiworialau, lle y gellir ateb cwestiynau'r myfyrwyr ynglŷn â'u cynigion busnes. Ar ddiwedd y modiwl mae gofyn i fyfyrwyr gyflwyno eu syniadau i banel o broffesiynol o'r diwydiant a'u cyfoedion.

Mae'r gofyniad am gynigion cytûn myfyrwyr a monitro datblygiad prosiect trwy gymorth tiwtoriaid yn sicrhau bod y dysgu'n berthnasol ar gyfer cyflogaeth a hunan gyflogaeth. Mae sialensiau yn cynnwys gofyn i'r myfyrwyr sefydlu cysylltiadau rhwydweithio positif gyda chyfoedion o gyrsgiau cysylltiedig; ond y sialens hon sy'n gwneud y prosiect yn brofiad dysgu hynod o ddefnyddiol – ac mae cysylltiadau a ffurfiwyd yn ystod y modiwl wedi arwain at gyfleoedd gwaith cydweithredol i'r ddau barti. Mae cysylltiad â phroffesiynolion y diwydiant yn cynnig cysylltiadau posibl ar gyfer datblygiad gyrfa yn y dyfodol. Mae codi ymwybyddiaeth am drosi o waith creadigol personol yn gyfleoedd posibl yn y dyfodol yn brofiad dysgu gwerthfawr ar gyfer cyflogaeth a hunan gyflogaeth.

Mae pwysigrwydd rhwydweithio er mwyn sefydlu cysylltiadau busnes cryf ac adnabod cyfleoedd llawrydd posibl yn glir. Mae myfyrwyr yn cael eu hannog i weithio gyda myfyrwyr o ddisgyblaethau gwahanol ac mae hyn wedi arwain yn aml at gydweithrediad ar friffiau creadigol ar ôl graddio.

Deilliannau a Ragwelir:

- myfyrwyr yn adnabod ac yn ymchwilio i gyfleoedd busnes/llawrydd posibl;
- myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r diwydiant maen nhw eisiau gweithio ynddo, a datblygu dull proffesiynol ar gyfer cyflwyno neges sylw a phrisio comisiynau neu gyfleoedd posibl;
- myfyrwyr yn datblygu sgiliau entrepreneuriaidd ac ennill hyder wrth siarad â chleientiaid a cheisio ennill contractau masnachol;
- myfyrwyr yn ymchwilio i'w marchnad/diwydiant a datblygu'r sgiliau eu hangen arnynt i oroesi mewn amgylchedd cystadleuol;
- myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth am werth eu gwaith; hynny yw, hawliau eiddo deallusol, beth yw trosedd IP a sut i ecsbloetio eu gwaith trwy drwyddedu a diogelu IP.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r modiwl wedi arwain at lawer o fusnesau llwyddiannus yn cael eu sefydlu gan raddedigion. Mae syniadau a ffurfiwyd yn ystod y modiwl wedi troi'n fusnesau go iawn ac mae cymorth yn parhau ar ôl i'r myfyrwyr raddio.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r cyfle i ymgysylltu â chyfoedion o wahanol ddisgyblaethau cysylltiedig a phroffesiynolion o'r diwydiant yn rhoi profiad dysgu gwerthfawr i'r myfyrwyr, ac yn gwella eu rhagolygon gyrfa ar gyfer y dyfodol ar ôl graddio. Maen nhw'n dysgu sut i werthfawrogi eu gwaith mewn amgylchedd proffesiynol, bod yn fwy hyderus wrth gyflwyno eu briffiau masnachol a dysgu sut i drefnu eu hamser ac uchafu eu potensial i lwyddo.

Rhaglen Datblygu Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

(astudiaeth achos C9)

Enw Cyswllt: John Steele
Ebost: Steelej@cardiff.ac.uk
Ffôn: 02920 781489
Sefydliad: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
Cyfeiriad: Plas y Parc, Caerdydd CF10 3QN

Geiriau allweddol: sgiliau allweddol, datblygiad personol, cyflogadwyedd.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Mae'r Rhaglen Datblygu Myfyrwyr yn gwricwlwm o sgiliau a gwybodaeth 'meddal' hanfodol, sydd nid yn unig yn fuddiol i fyfyrwyr, ond hefyd i gyflogwyr yn y byd cyfnewidiol a chystadleuol sydd ohoni. Cyflwynwyd y rhaglen yn wreiddiol ym 1996 i roi tystysgrif i fyfyrwyr am y dysgu maen nhw wedi ennill er mwyn cynrychioli eu cyfoedion mewn materion academaidd. Mae'r rhaglen wedi tyfu'n raddol ac mae bellach yn darparu pecyn cynhwysfawr o ddigwyddiadau hyfforddi mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau.

Nodau:

Prif amcanion y rhaglen yw gwella sgiliau myfyrwyr mewn amrywiaeth o feysydd cyflogadwyedd, fel gwaith tîm, datrys problemau ac arweinyddiaeth, a magu eu hyder tra eu bod yn astudio.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r rhaglen yn cael ei rhannu'n dri phrif faes – Tystysgrifau Datblygiad Proffesiynol; lechyd, Diogelwch a Lles; a Chyrsiau Arbenigol.

Tystysgrif Datblygiad Proffesiynol (CPD)

Mae tri grŵp o 'sgiliau uwch' yn y cynllun hwn – sef cyfathrebu, effeithiolrwydd personol ac arweinyddiaeth. Mae pob un o'r rhain yn arwain at dystysgrif a arwyddir ar y cyd gan Is-Ganghellor y Brifysgol a Llywydd yr Undeb Myfyrwyr. Er mwyn cyflawni Tystysgrif Datblygiad Proffesiynol rhaid i fyfyrwyr fynychu a chymryd rhan weithredol yn y pum segment craidd dwyawr o dan bob sgil uwch, a chyflwyno darn myfyriol byr ar ôl mynychu'r pumed segment.

lechyd, Diogelwch a Lles

Mae hyn yn cynnwys:

- Gwobr CIEH Lefel 2 mewn lechyd a Diogelwch (chwe awr; tystysgrif allanol);
- Cymorth Cyntaf Argyfwng ar gyfer Person a Benodir (chwe awr; tystysgrif allanol);

- Sut i Beidio â Cholli Ffrindiau a Dieithrio Pobl – delio'n fwy effeithiol â theimladau dig ynoch chi'ch hun ac eraill (dwy awr; tystysgrif ddewisol ar gyfer mynychu);
- Ymdrechu am Berffeithrwydd (dwy awr; tystysgrif ddewisol ar gyfer mynychu);
- Hunllef ar Stryd y Brifysgol – ymdopi ag ofnau arholiad (dwy awr; tystysgrif ddewisol ar gyfer mynychu);
- Technegau hunan amddiffyn (dwy awr; tystysgrif ddewisol ar gyfer mynychu);
- Llai o Straen (dwy awr; tystysgrif ddewisol ar gyfer mynychu).

Cyrsiau Arbenigol

Mae'r maes hwn yn cynnwys:

- Iaith Arwyddo Brydeinig (tystysgrif i BSI Lefel 1 ar ôl cwblhau'r cwrs);
- Camau at Ardderchowgrwydd ar gyfer Llwyddiant Personol (pum sesiwn pedair awr; tystysgrif gan y The Pacific Institute).

Deilliannau a Ragwelir:

Yn mhob blwyddyn academiaidd gobeithir y bydd nifer y bobl sy'n mynychu ac yn ennill tystysgrifau datblygiad proffesiynol yn cynyddu o'r flwyddyn flaenorol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Yn y flwyddyn academiaidd 2010-11, roedd 1,271 o fyfyrwyr unigol wedi mynychu o leiaf unwaith ac roedd 4,304 o fynychiadau at ei gilydd. Nifer y Tystysgrifau Datblygiad Proffesiynol a enillwyd oedd 337. Roedd y tystysgrifau a enillwyd o ddiddordeb mawr i gyflogwyr; a gwyddys y cafodd y myfyrwyr eu holi'n fwy ar y gweithgareddau allgyrsiol hyn na'u pynciau gradd yn ystod cyfweiliadau am swyddi. Mae'r Rhaglen Datblygu Myfyrwyr wedi cael cefnogaeth barhaus gan PricewaterhouseCoopers LLP fel cyfle ardderchog i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau trosglwyddadwy allweddol. Roedd sgiliau cyfathrebu datblygedig, arweinyddiaeth a thechnegau datrys problemau yn cael eu hystyried yn allweddol i helpu i sicrhau cyflogaeth. Mae adborth gan fyfyrwyr wedi nodi mantais cwblhau hyfforddiant o'r fath ac mae llawer yn ei ystyried yn hanfodol yn eu helpu i gael swyddi fel graddedigion mewn cwmnïau mawr. Mae'r Rhaglen Datblygu Myfyrwyr wedi parhau i ddefnyddio tîm bach o hyfforddwyr sy'n gyfoedion i gyflwyno rhai o'r sesiynau bob tymor. Mae hyn wedi helpu pob unigolyn yn fawr i ddatblygu eu sgiliau cyflwyno, hywlyso, arwain a rhyngpersonol ymhellach.

Gwerthusiad/effaith:

Mae myfyrwyr wedi canmol y rhaglen yn barhaol am helpu i fagu hyder a rhagolygon cyflogadwyedd a llawer yn dweud sut mae'r sgiliau a'r wybodaeth a enillwyd wedi eu galluogi i fagu hunan hyder a sylweddoli bod dyfodol yn bosibl yn eu dewis faes galwedigaethol er gwaethaf yr hinsawdd economaidd gyfredol. Yn wir, mae arolwg o gyn-fyfyrwyr ar y rhaglen yn dangos bod 98% o ymatebwyr mewn cyflogaeth neu'n parhau mewn addysg uwch. Mae rhai enghreifftiau o'r adborth a gafwyd yn ymddangos isod:

Defnyddiol iawn a heb angen gormod o amser; gall ei ffitio i mewn gyda'm hastudiaethau; mae pawb yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar iawn; doeddwn i ddim yn ofni cyfrannu o gwbl; gwerth ei wneud er mwyn ennill sgiliau hanfodol a chwrrd â phobl newydd.

Roedd cynnwys y cwrs (Camau at Ardderchowgrwydd) wedi fy helpu i gael gwybod amdanaf i fy hun a sut i ddefnyddio fy mhotensial yn fwy effeithiol i gyflawni fy ngoliau yn y brifysgol ac yn bersonol.

Mae fy CPDs yn cael eu huchel brisio gan fy nghyflogwr presennol, ac roedd y sesiynau wedi fy helpu i fod yn fwy hyderus tra'n mynychu cyfweiliadau, gwybod beth i bwysleisio am fy nghymwysterau a'm galluoedd a sut i rwydweithio orau.

Enillais gymwysterau y gallwn eu rhoi ar fy CV a ffurflenni cais. Yn aml, roedd y cymwysterau hyn yn ofnion hanfodol a bellach gallaf fodlonio'r fanyleb bersonol mewn hysbysebion am swyddi.

Rhaglen arweinyddiaeth y dyfodol

(astudiaeth achos G9)

Enw Cyswllt: Dr Andy Thompson
Ebost: athompso@glam.ac.uk
Ffôn: 01443 482853
Sefydliad: Prifysgol Morgannwg
Cyfeiriad: Pontypridd CF37 1DL

Geiriau allweddol: arweinyddiaeth, cyfathrebu, hyfforddi, datblygiad tîm.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy un gyfadran (Busnes a'r Gymdeithas).

Nod:

Mae dau nod i'r rhaglen, sef codi gobeithion ein myfyrwyr (yn enwedig i'w hannog i feddwl amdanyn nhw eu hunain fel arweinydd y dyfodol yn eu dewis feisydd) a'u harfogi gyda sgiliau fydd yn eu helpu i ddatblygu eu cymhwysedd fel darpar arweinydd.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r rhaglen ar gyfer myfyrwyr y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol i roi cyflwyniad iddynt am y cysyniad o arweinyddiaeth.

Mae tair ffrwd:

1. Myfyrion ar Arweinyddiaeth – Bydd hon yn rhaglen o bum neu chwe chyflwyniad ar arweinyddiaeth. Mae'r digwyddiadau hyn yn arfogi myfyrwyr â dealltwriaeth o 'arweinyddiaeth' o brofiad personol gan siaradwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd proffesiynol.

2. Sgiliau ar gyfer Arweinyddiaeth – Mae'r rhaglen hon o chwe sesiwn wedi'i

chynllunio i roi sgiliau allweddol sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth. Caiff y rhaglen ei chyflwyno trwy weithdai ymarferol a bydd y sesiynau hyn yn ymwneud â materion fel cyfathrebu, hyfforddi, a datblygiad tîm ar gyfer arweinwyr y dyfodol.

3. Paratoi Arweinwyr sy'n Raddedigion – Mae'r rhaglen hon yn cael ei chynnal ar y cyd â Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol a phroffesiynolion o amrywiaeth o sefydliadau allanol. Mae'r rhaglen hon ar gyfer codi ymwybyddiaeth myfyrwyr am gyfleoedd cyflogaeth i raddedigion, a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i lwyddo yn y prosesau dethol cysylltiedig. Ar ben sesiynau ar raglenni mynediad i raddedigion penodol, fel llwybr cyflym y Gwasanaeth Sifil, bydd gweithdai eraill yn cynnwys cyngor ar hyfforddi ar gyfer cyfweiliadau a 'brandio personol'.

Bydd y sesiynau hyn ar agor i holl fyfyrwyr y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol, ond dim ond 20-25 lle sydd yn y gweithdai. Ar ben y cynllun 'mynediad agored' hwn, ein nod yw recriwtio 20 myfyriwr drwy gystadleuaeth o ledled y Gyfadran Busnes a Chymdeithas o gefndiroedd disgyblaeth amrywiol, a cheir cyfleoedd ychwanegol fel cymryd rhan mewn Ysgol Haf i Arweinwyr y Dyfodol.

Deilliannau a Ragwelir:

Datblygu sgiliau arweinyddiaeth y myfyrwyr, codi hyder ac ymwybyddiaeth am y cyfleoedd arwain sydd ar gael yn eu dewis feysydd.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Heb fod yn berthnasol eto gan mai rhaglen newydd yw hon.

Myfyrdod/effaith:

Heb fod yn berthnasol eto gan mai rhaglen newydd yw hon.

Byddwch yn fentrus

(astudiaeth achos GUI)

Enw Cyswllt: Mary Bradley

Ebost: m.bradley@glyndwr.ac.uk

Ffôn: 01978 293418

Sefydliad: Prifysgol Glyndŵr

Cyfeiriad: Campws Plas Coch, Heol yr Wyddgrug, Wrecsam LL1 2AW

Geiriau allweddol: entrepreneuriaeth a menter, cyflogadwyedd, offeryn cwricwlwm.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Cafodd ei chyflwyno trwy'r Brifysgol i gyd, ar gael trwy'r amgylchedd dysgu rhithwir Moodle fel rhan o amrywiaeth o ddeunyddiau addysgu a dysgu (fideos a dogfennau) sydd ar gael i fyfyrwyr i gyd.

Nod:

Cafodd ei ariannu'n wreiddiol i gefnogi myfyrwyr rhan-amser, ac mae wedi ei ehangu i gefnogi myfyrwyr yn eu datblygiad proffesiynol a phersonol, ac mae sgiliau menter yn elfen ategol hanfodol. Mae'n defnyddio mynediad i'r we i alluogi ymgysylltiad a datblygiad myfyrwyr i wella eu cyflogadwyedd. Nod y prosiect yw:

- darparu offeryn i academyddion ei ddefnyddio yn y cwricwlwm;
- codi proffil dysgu entrepreneuraidd, sgiliau menter a chyflogadwyedd ym Mhrifysgol Glyndŵr a'i budd-ddeiliaid.

Disgrifiad/Dull:

Cytunwyd bod ddifyg cytundeb rhanbarthol ar yr hyn yw entrepreneuriaeth a menter gan y Ganolfan er Dysgu Entreproneuraidd, gan fabwysiadu ac addasu model o Entreproneuriaeth sy'n Canolbwyntio ar Gyfle sy'n cysylltu theori, cysyniad ac arfer yn hytrach na dangos cynydd llinellol syml, sy'n opsiwn mwy hyblyg. Yn gyntaf, cydnabuwyd defnydd semantig ac ymarferol model Yr Athro David Rae gan ei fod yn osgoi dadleuon damcaniaethol hir ynglŷn â diffiniadau, ac wedi galluogi gweithredu gydag academyddion. Felly, dyw entrepreneuriaeth, menter a chyflogadwyedd ddim yn cael eu diffinio'n dra chywir, ond yn hytrach ffafrir dulliau addysgu 'ar gyfer' hynny sy'n defnyddio pedagogeg weithredol sy'n cael ei hwyluso, yn hytrach na chael ei arwain gan academyddion. Mae myfyrwyr yn cael eu hannog i gymryd perchnogaeth dros eu taith i hunan effeithiolrwydd a hunan wybodaeth er budd eu bywydau personol, cymdeithasol a chorfforaethol. Ystyrir cyflogadwyedd yn agwedd bwysig ar fenter/entreproneuriaeth lle mae sgiliau menter a ddatblygwyd yn galluogi intrapreneuriaeth, sy'n codi gwerth y myfyrwyr fel gweithiwr; dim ond un canlyniad datblygedig posibl yw bod entrepreneuriaeth yn arwain at sefydlu mentrau.

Datblygwyd cyfres o saith adnodd e-ddysgu (pump i wyth munud) yn canolbwyntio ar gyfeirio gweithredu i'w rhoi yn VLE Moodle y Brifysgol sydd ar gael i fyfyrwyr a staff. Mae'r adnoddau yn annog datblygiad sgiliau menter sy'n gysylltiedig â chanlyniadau dysgu a amlinellir ym model Glyndŵr ar gyfer addysg Entreproneuriaeth sy'n Canolbwyntio ar Gyfle yn ogystal â:

- bod yn atyniadol ac annog cyfranogiad myfyrwyr;
- cymell myfyrwyr i gwblhau'r modiwlau trwy ryngwyneb hyblyg wedi'i symleiddio sy'n rhoi modd i'r myfyrwr ddewis eu llwybr;
- gwneud dysgu'n hwyl.

Mae'r platfform yn datblygu cyflogadwyedd trwy osod cyfres o dasgau a sialensiau rhyngweithiol i fyfyrwyr sy'n ceisio esbonio, datblygu a phrofi sgiliau menter allweddol fel creadigrwydd ymarferol, y gallu i ddatrys problemau mewn modd gwreiddiol, gwaith tîm, gosod goliau a meddwl strategol, cynllunio tasgau a rheoli adnoddau.

Mae pob modiwl yn dilyn fformat syml gyda nodau clir, cyfarwyddiadau, cynnwys a gweithgareddau er mwyn datblygu a phrofi'r myfyrwyr wrth fynd ymlaen. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno trwy ddefnyddio cymysgedd o gynnwys sy'n addas i amrywiaeth eang o alluoedd, ac mae rhai wedi'u cynllunio i gael eu hargraffu a'u defnyddio yn ôl yr angen.

Yn yr un modd, gellir defnyddio'r adnoddau fel rhan o weithgaredd ystafell ddosbarth neu gyfres o sesiynau trwy gydol y flwyddyn, ac er mwyn helpu hynny darperir meddalwedd gyda thafleenni cyngor i staff a thystysgrif i'w rhoi i fyfyrwyr i gofnodi bod y modiwlau wedi'u cwblhau. Unwaith i ni ddechrau datblygu'r deunyddiau, roeddem wedi sylweddoli bod ganddynt potensial i fod yn ddefnyddiol i bobl ifanc mewn prifysgolion, colegau ac ysgolion eraill hefyd. Gobeithio y bydd yn rhoi modd i rai sefydliadau ddatblygu ymgysylltiad pellach â'u gwasanaethau menter, a bod yn ddefnyddiol i raglenni presennol fel Bagloriaeth Cymru, sy'n annog pobl ifanc i feddwl am greu cyfleoedd. Dewiswyd y brand 'Byddwch yn fentrus' ('Enterprising You') i roi perchnogaeth i'r myfyrwyr ar y dechrau.

Deilliannau a Ragwelir:

Roedd y deilliannau dysgu canlynol wedi'u hadnabod:

- hunan ymwybyddiaeth: mae ymarferwyr yn gallu deall eu gwerthoedd, profiadau, cymhellion ac ymddygiadau emosiynol a defnyddio'r wybodaeth hon i wneud newidiadau ynddyn nhw eu hunain;
- gwaith cydweithredol: gweithio fel rhan o dîm yn rhannu gwybodaeth a syniadau a rhwydweithio gydag eraill;
- creadigrwydd ymarferol: cymhwyso technegau creadigol i ddatrys problemau a chynhyrchu gwerth newydd (mewn cyd-destun sefyllfaol);
- ymwybyddiaeth am gyfleoedd: gallu archwilio cyfleoedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac ymateb iddynt;
- meddwl statogol: cynllunio prosiectau/adnoddau a gwerthuso'r rhain yn unol â deilliannau;
- cyfeirio gweithredu: yr awydd i wneud; ymgysylltu â phobl ac amgylcheddau i greu gwerth newydd.

Rydym yn disgwyl i ddysgwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hun a gweithredu ar gyfleoedd i wella eu cyflogadwyedd, gan arwain at ymgysylltiad gwell â myfyrwyr gydag entrepreneuriaeth/menter a chyflogadwyedd well.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Dim ond ym Medi 2011 y lansiodd y modiwl ar Moodle, felly mae'n rhy gynnar i werthuso deilliannau go iawn. Mae cyllido dulliau gwerthuso yn gyfyngedig yn ariannol, felly oni bai bod y modiwl yn cael ei hwyluso gan academyddion mewn cwricwlwm integredig, rhagwelwn y bydd deilliannau mesuradwy yn cael eu cyfyngu i nifer yr adegau y mewngofnododd y myfyrwyr i'r meddalwedd.

Myfyrddod/effaith:

Dyma un o'r arfau cyntaf o'i fath i gynnig cyflwyniad hunan gyfeiriol i sgiliau menter a chyflogadwyedd, sy'n hanfodol i danategu eu hyder i fynd allan i'r byd a dod o hyd i'w cyfleoedd eu hunain mewn amrywiaeth o yrfaoedd, neu ddechrau eu busnes eu hun hyd yn oed. Yn fewnol, roedd nifer o diwtoriaid ar draws amrywiaeth o bynciau yn ymgorffori'r modiwl hwn yn eu cyrsiau fel rhan o ymgyrch i wella sgiliau menter myfyrwyr. Mewn Nyrsio ac Adeiladu caiff ei ddefnyddio fel rhan o fodiwlau sgiliau proffesiynol myfyrwyr; ac yn y modiwlau Menter caiff ei ddefnyddio fel arf cyflwyno craidd trwy gydol y tair blynedd. Yn allanol, gallai gael ei ychwanegu at raglenni cyfredol fel Bagloriaeth Cymru, sy'n annog pobl ifanc i feddwl am greu cyfleoedd.

Menter SMUDGE sialens BBC Plant Mewn Angen

(astudiaeth achos SM1)

Enw Cyswllt: Lucy Griffiths
Ebost: lucy.griffiths@smu.ac.uk
Ffôn: 01792 481151
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Cyfeiriad: Ysgol Fusnes Abertawe, Mount Pleasant, Abertawe SA1 6ED

Geiriau allweddol: entrepreneuriaeth, menter gymdeithasol, dysgu trwy brofiad, modelau rôl Dynamo, Syniadau Mawr Cymru.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Ar draws dwy gyfadran (Cyfadran Busnes a Rheoli a Chyfadran Dylunio Cymhwysol a Pheirianeg) a chynlluniau gwaith lluosog.

Nod:

Amcan y prosiect hwn yw rhoi cyfle i fyfyrwyr ymarfer a datblygu ymhellach eu galluoedd entrepreneuriad/intrapreneuraidd trwy her tîm ar gyfer achos da.

Disgrifiad/Dull:

Gofynnwyd i fyfyrwyr fynychu digwyddiad Wythnos Fenter, ond nid oeddent yn gwybod beth byddent yn ei wneud. Roedd yr elfen o syndod yn ceisio efelychu'r pwysau amser sydd ar ddysgwyr wrth sefydlu busnes. Cafodd timau o bum myfyrwr eu herio i godi cymaint o arian â phosibl i apêl BBC Plant Mewn Angen a chyflwyno eu gwaith i'r grŵp yr wythnos ar ôl hynny. Crëwyd arian Plant Mewn

Arian ('Puds') a rhoddwyd cronfa fach i bob grŵp a chyfleoedd i ofyn i 'Fanc Pudsey' am fenthyciad. Roedd benthyciadau o hyd at £100 ar gael yn ôl disgrisiwn y rheolwr banc, a gosodwyd cyfraddau llog yn seiliedig ar hygredd y cais am fenthyciad. Roedd myfyrwyr i gyd a gymerodd benthyciad wedi llofnodi cytundeb i'w ad-dalu gyda llog yr wythnos nesaf. Roedd cyfanwerthwr 'Teds' ar gael i'r myfyrwyr hefyd. Roedd gan y cyflenwr hwn stoc o ddeunydd Plant Mewn Angen swyddogol ac roedd timau o fyfyrwyr yn cael prynu hyn i gefnogi eu gweithgareddau. Roedd amrywiaeth o eitemau ar gael am brisiau gwahanol, ac roedd angen i'r myfyrwyr lunio strategaeth brynu. Roedd eitemau yn cynnwys pethau i'w gwerthu ac eitemau 'buddsoddi' fel pecyn pobi, a fyddai'n galluogi'r myfyrwyr i greu eu nwyddau eu hunain i'w gwerthu.

Cafodd y myfyrwyr eu briffio ar ddiogelwch a materion cyfreithiol, a llofnodi ymwrthodiadau yn datgan y byddent yn cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch ac ystyriaethau cyfreithiol eu gweithgareddau codi arian. Roedd y BBC wedi ffilmio'r digwyddiad ac roedd rhai myfyrwyr yn cael mynychu sioe fyw BBC Plant mewn Angen. Yr wythnos ar ôl, aeth myfyrwyr i sesiwn grynhoi lle roeddent wedi ad-dalu eu benthyciadau a chyflwyno eu strategau i'r grŵp cyfan. Cawsant eu hannog i holi eu gilydd a myfyrio uwchben y strategau a gynlluniwyd. Defnyddiwyd sesiynau tiwtorial i danategu'r dysgu trwy ystyried eu strategau yng nghyd-destun gwahanol fodelau cynllunio busnes.

Cafodd y gweithgaredd ei gefnogi gan Brosiect Syniadau Mawr Cymru Llywodraeth Cymru, a'r model ACRO (Attitude, Creativity, Relationships and Organisation) y seiliwyd y cynllun hwn arno i gynllunio a gwerthuso'r rhaglen.

Deilliannau a Ragwelir:

- cydweithrediad rhwng cyfadrannau ar y cam cyntaf o'r gynllun Menter SMUDGE ar gyfer 2011-12. Nod yw prosiect yw dwyn myfyrwyr o wahanol bynciau ynghyd i rannu sgiliau busnes a syniadau arloesol;
- efelychiad o gyflyrau cychwyn busnes (strategaeth, cynllunio cynnyrch neu wasanaeth, rheoli ariannol, marchnata, gwaith tîm) yn galluogi myfyrwyr i ymarfer mewn amgylchedd cyfyngedig;
- nod y dasg oedd datblygu pob un o alluoedd allweddol a amlinellir ym model ACRO Llywodraeth Cymru;
- roedd yr elfen gystadleuol yn galluogi myfyrwyr i brofi'r agwedd hon ar yr amgylchedd busnes;
- pwysleisiwyd materion iechyd a diogelwch, a'r angen i 'lofnodi' ymwrthodiadau a threfniadau benthyciad yn helpu myfyrwyr i gael dealltwriaeth ar ystyriaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol/iechyd a diogelwch sydd ar sefydliadau;
- sesiynau crynhoi a myfyrio wedi galluogi myfyrwyr i feddwl am eu perfformiad eu hunain a pherfformiad pobl eraill, ac ystyried eu dulliau gwaith yng nghyd-destun theori ac ymarfer busnes;
- roedd y sialens wedi rhoi cyfle i'r myfyrwyr weld rheoli digwyddiad a gwaith cysylltiadau cyhoeddus/ly cyfryngau ar waith;
- cafodd arian ei godi ar gyfer elusen.
-

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Roedd myfyrwyr i gyd wedi ad-dalu eu 'benthyciadau' ar amser ac wedi codi arian ychwanegol. Roedd y grwpiau i gyd wedi codi cyfansawm o £1,500. Roedd adborth myfyrwyr ar eu perfformiad yn dangos eu bod wedi dysgu o rannau o'r dasg lle gallent fod wedi gwella eu strategaeth ac o weld beth oedd y grwpiau eraill wedi'i wneud.

Roedd myfyrwyr yn gallu dadansoddi a gwerthuso eu perfformiad yn defnyddio modelau cynllunio busnes. Roedd myfyrwyr wedi myfyrio ar bwysigrwydd buddsoddi a chael cynllun wrth gefn ac wedi ymgysylltu'n llwyr â'r dasg ac wedi mwynhau'r profiad o ddysgu. Roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn dymuno gwneud gweithgareddau menter SMUDGE eraill yn y dyfodol.

Myfyrdod/effaith:

Roedd mwy na 50 o fyfyrwyr wedi'u gosod mewn sefyllfa led real lle roeddent yn wynebu llawer o'r materion sy'n wynebu busnesau newydd. Roedd cwestiynau am strategaeth, pwysau amser, cystadleuaeth, diffyg adnoddau a diogelu eu heiddo deallusol i gyd yn rhan o'r dasg dan sylw. Roedd pob grŵp wedi ymateb i'r dasg yn wahanol, ac wrth i'r grwpiau gyflwyno eu myfyrdodau ar y dasg, roedd y garfan gyfan yn gallu gwerthuso pa strategau oedd yn llwyddiannus a pham. Cafodd myfyrwyr eu hannog i ddadansoddi eu perfformiad eu hun yn feiriadol a rhoi beirniadaeth adeiladol a chanmoliaeth i eraill, felly roedd y grŵp cyfan yn elwa ar y sesiynau myfyrio.

Roedd y dasg hon wedi galluogi'r myfyrwyr i ddysgu'n annibynnol mewn cyd-destun byd go iawn.

Gwneud effaith

(astudiaeth achos G4)

Enw Cyswllt: Amanda Jones
Ebost: ajones14@glam.ac.uk
Ffôn: 01443 484129
Sefydliad: Prifysgol Morgannwg
Cyfeiriad: Pontypridd CF37 1DL

Geiriau allweddol: menter a chreadigrwydd, cyflogadwyedd, datblygu sgiliau.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy un ysgol ac ar gael i fyfyrwyr Busnes ail flwyddyn.

Nod:

Trefnwyd y sialens 'Gwneud effaith', sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn i fyfyrwyr Busnes ail flwyddyn, er mwyn annog dysgu gwybyddol lle caiff myfyrwyr ddatblygu eu cymhwysedd i gysylltu meddwl a gweithredu a theori i ymarfer, ac i geisio rhoi sgiliau perthnasol iddynt tu hwnt i wybodaeth am eu dewis faes.

Disgrifiad/Dull:

Cyn dechrau'r sialens mae'r myfyrwyr yn cael briff ar yr hyn a ddisgwyllir ganddynt a rheolau'r gystadleuaeth. Ar ddiwrnod cyntaf y sialens, mae'r myfyrwyr yn ffurfio eu grwpiau ac yn cynghori staff y sialens fusnes am eu syniad busnes. Rhaid i staff fod yn fodlon bod y busnes yn syniad dilys, ac mae myfyrwyr yn cael £10 ar gyfer pob aelod o'r tîm i helpu gyda chostau sefydlu'r busnes. Mae disgwyl i'r busnes fasnachu am o leiaf un wythnos ac yn ystod y cyfnod hwn does dim ymrwymiadau eraill gan y myfyrwyr yn eu hamserlen. Mae myfyrwyr yn dewis gweithredu eu busnes am ail wythnos, ond rhaid i hyn ddigwydd yn ogystal â'u hymrwymiadau amserlen eraill. Yn y pen draw, rhaid i fyfyrwyr gyflwyno eu syniad i feirniaid sy'n cwmpasu staff, entrepreneuriaid a myfyrwyr eraill. Yn ystod y cyflwyniad 25 munud, mae aelodau'r tîm yn trafod eu syniad, strategaeth elw ac yn bwysicaf oll yn myfyrio uwchben eu profiad a'u dysgu. Ar ôl gorffen y cyflwyniad rhaid i'r tîm ei amddiffyn am bum munud wrth i'r beirniaid archwilio ei ddilysrwydd.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae'r myfyrwyr yn elwa'n fawr ar y cyfle i feirniadu ymdrechion eu cyfoedion, sy'n eu gallu i fyfyrwyr ar eu gwaith eu hun. Mae myfyrwyr i gyd yn cael adborth llafar ac ysgrifenedig ffurfiol gan y beirniaid a gwerthusiad gan eu cyfoedion.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Roedd myfyrwyr yn cydnabod gwerth y sialens fusnes i ennill profiad bywyd go iawn o sgiliau busnes penodol fel marchnata, gwerthu a chynllunio strategol. Ar ben hynny, roeddent yn cydnabod datblygiad eu sgiliau gwaith mewn agweddau fel gwaith tîm gwell a datblygu syniadau.

Myfyrddod/effaith:

Roedd y sialens fusnes yn chwarae rôl bwysig wrth wella sgiliau busnes a sgiliau trosglwyddadwy myfyrwyr; a bydd y manteision hyn yn berthnasol i ddatblygu galluoedd myfyrwyr unigol. Mae'r myfyrwyr wedi cael profiad cofiadwy a chadarnhaol a byddant yn cysylltu hynny'n bositif â'u rhaglen israddedig.

Syniadau Disglair

(astudiaeth achos NI)

Enw Cyswllt: Emma Forouzan

Ebost: emma.forouzan@newport.ac.uk

Ffôn: 01633 432335

Sefydliad: Prifysgol Cymru, Casnewydd

Cyfeiriad: Campws Caerleon, Lodge Road, Casnewydd NP18 3QT

Geiriau allweddol: cysylltu theori academiaidd ag arfer proffesiynol, datblygiad proffesiynol parhaus, hunan gyflogaeth ac entrepreneuriaeth.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Ar draws y Sefydliad.

Nod:

Galluogi myfyrwyr i droi theori'n arfer; gwella arfer proffesiynol a chydnabod a datblygu cyfleoedd hunan gyflogaeth.

Disgrifiad/Dull:

Mae 'Syniadau Disglair' yng Nghasnewydd yn hwyluso myfyrwyr i ddatblygu a mireinio meddwl entrepreneuaidd, ymddygiad a sgiliau trwy ganolbwyntio ar dri maes, fel yr awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru isod:

- **Ymwybyddiaeth** – datblygu diwylliant entrepreneuraidd lle mae dechrau busnes a hunan gyflogaeth yn cael eu cyflwyno'n opsiwn realistig a rhoi'r hyder i bobl ifanc fod yn fentrus trwy godi proffil Syniadau Disglair trwy'r Brifysgol a dod ag amrywiaeth o entrepreneuriaid proffil uchel, lleol a graddedigion i'r ystafell ddosbarth, ymgorffori dysgu entrepreneuraidd yn y cwricwlwm ac arddangos gweithgarwch mewnol ac allanol.
- **Dysgu** – rhoi sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau perthnasol i bobl ifanc i ddatblygu eu gallu i ymddwyn mewn modd entrepreneuraidd. Mae dysgu yn digwydd trwy gwricwlwm a ymgorffori; gweithdai, seminarau, digwyddiadau rhwydweithio, y farchnad myfyrwyr, clwb menter myfyrwyr, cystadlaethau mewnol ac allanol a sialensiau. Mae'r Gwobrau Addysgwyr Menter newydd ei lansio i wobrwyo staff sy'n ymgorffori deilliannau dysgu entrepreneuraidd yn y cwricwlwm.
- **Cymorth** – lle bo'n briodol, darparu cymorth busnes perthnasol i alluogi pobl ifanc i fynd â'u syniad yn eu blaen a sefydlu busnes. Cynigir cymorth trwy sesiynau cymorth busnes (er mwyn datblygu eu syniadau a'u cynlluniau busnes) y Ganolfan Syniadau Disglair (cyfle i geisio am hyd at £1,000 i ddatblygu eu syniad busnes tra eu bod yn astudio neu ar ôl graddio) ac ysgoloriaeth yr Ymddiriedolaeth Fairwood (£5,000 i ddatblygu'r busnes a mentora i raddedigion am chwe mis), a thrwy arwyddbostio i gymorth allanol, cyllido, a chyfleoedd meithrin busnes a rhwydweithio.

Mae'r gweithgarwch i gyd uchod wedi chwarae rôl bwysig yn cefnogi, annog ac ysgogi defnydd o wybodaeth academiaidd i arfer proffesiynol y byd hunan gyflogaeth a chafwyd nifer o lwydiannau mawr gan gyn-fyfyrwyr Casnewydd. Mae cysylltiadau parhaol rhwng cyn-fyfyrwyr a staff academiaidd cyfredol wedi cael effaith uniongyrchol ar gyfoethogi profiad dysgu myfyrwyr.

Deilliannau a Ragwelir:

- datblygiad proffesiynol parhaus myfyrwyr wrth ddefnyddio dysgu academaidd i ddatrys problemau byd go iawn i baratoi ar gyfer hunan gyflogaeth;
- darpariaeth y Brifysgol o enghreifftiau llwyddiannus o roi theori ar waith mewn sefyllfaoedd ymarferol i ddatblygu hunan gyflogaeth gan fyfyrwyr;

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

I fyfyrwyr:

- mwy o fyfyrwyr yn ceisio cefnogaeth mewn sesiynau cyngor busnes Syniadau Disglair i ddatblygu eu syniadau;
- mwy o fyfyrwyr yn cyflwyno eu syniadau busnes yn llwyddiannus am gyllid y Ganolfan Syniadau Disglair;
- mwy o fyfyrwyr hunan gyflogedig;
- mwy o broffiliau entrepreneuriaid sy'n raddedigion a mynychu digwyddiadau a darlithoedd fel siaradwyr gwadd.

I'r Brifysgol:

- hyrwyddiad parhaus o Syniadau Disglair i fyfyrwyr a staff;
- gweithgarwch Syniadau Disglair yn cael ei ymgorffori mewn dogfennau strategol.

Myfyrdod/effaith:

O safbwynt myfyrwyr, mae Syniadau Disglair yn hwyluso gweithgareddau dysgu i raddedigion sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer hunan gyflogaeth a bod yn intrapreneuriaid yn eu sefydliadau presennol. Mae Syniadau Disglair yn defnyddio model ACRO Llywodraeth Cymru ar gyfer sgiliau entrepreneuraidd i gynllunio gweithgareddau sy'n eu galluogi i ddysgu o'u profiadau eu hunain. Mae myfyrwyr yn cael ystyried eu gallu i fod yn fentrus trwy ddefnyddio'r model hwn sy'n canolbwyntio ar agwedd, creadigrwydd, cysylltiadau a threfniadaeth. Bydd y defnydd o'r model yn cael effaith ar brofiad dysgu myfyrwyr a gwella priodoleddau graddedigion, yn enwedig o safbwynt hunan gyflogaeth.

Sbardun Menter Gymdeithasol

(astudiaeth achos B2)

Enw Cyswllt: Chris Hillier/Dr James Intriligator
Ebost: c.hillier@bangor.ac.uk/jamesi@post.harvard.edu
Ffôn: 01248 382357
Sefydliad: Prifysgol Bangor
Cyfeiriad: Heol y Coleg, Bangor LL572DG

Geiriau allweddol: menter gymdeithasol, cymuned, entrepreneuriaeth, cynllunio busnes, sgiliau cyflwyno, trydedd genhadaeth, arloesedd ac ymgysylltiad.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Rhagwelwyd y byddai'r Sbardun Menter Gymdeithasol yn rhaglen aml ddisgyblaeth ar draws pob ysgol. At ddiben y cynllun peilot hwn, cyflwynwyd y rhaglen yn bennaf trwy'r Ysgol Seicoleg gyda chyfraniad gan fyfyrwyr yr Ysgol Fusnes. Yn dilyn llwyddiant y peilot, caiff ei ehangu trwy'r Brifysgol a bydd ar gael i fyfyrwyr israddedig a Meistr ym mhob disgyblaeth.

Nod:

Bydd myfyrwyr o Brifysgol Bangor yn dod at ei gilydd gydag academyddion, entrepreneuriaid cymdeithasol a chynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus a phreifat i naill ai greu cysyniadau menter gymdeithasol newydd neu helpu i adeiladu neu gryfhau rhai sy'n bodoli eisoes trwy ddatblygu cynnyrch, gwasanaeth neu arallgyfeirio. Daw'r cysyniadau craidd o sawl ffynhonnell. Yn gyntaf, mae asiantaethau cyfredol sydd wedi cytuno i gefnogi twf mentrau cymdeithasol. Drwy weithio gydag asiantaethau o'r fath, byddwn yn cydnabod oddeutu pum entrepreneur cymdeithasol lleol a fydd â diddordeb yn y Sbardun Menter Gymdeithasol. Ar ben hynny, mae gan awdurdodau lleol a grwpiau tebyg drosolwg clir am y meysydd a allai gael eu cefnogi gan fentrau cymdeithasol newydd. Felly, byddwn yn apelio at grwpiau o'r fath i ddod a chynnig arsylwadau, a gobeithir y gellir creu mentrau cymdeithasol o ganlyniad. Byddwn yn recriwtio myfyrwyr o amrywiaeth o ysgolion i gymryd rhan yn y gweithgaredd hollol wirfoddol hwn. Byddant yn gweithio gydag amrywiaeth eang o 'arbenigwyr' fydd yn cynnal sesiynau. Gallai'r rhain gynnwys academyddion, ond byddai hefyd yn cynnwys pobl o amrywiaeth o grwpiau neu asiantaethau eraill – mae gan rai gytundeb i helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol.

Disgrifiad/Dull:

Bydd y myfyrwyr yn cael cyflwyniadau cychwynnol, gwybodaeth gefndir, astudiaeth achos a gweithgareddau adeiladu tîm. Wedyn, byddant yn cael cwrrdd â rhai entrepreneuriaid cymdeithasol fydd yn cynnig astudiaethau achos o'u mentrau. Hefyd, byddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fydd yn eu hannog i ddechrau meddwl am themâu, problemau a chysyniadau i seilio menter gymdeithasol newydd arnynt. Yn ddiweddarach, bydd y cysyniadau amrywiol yn cael eu cyflwyno i'r myfyrwyr; a bydd ganddynt amser i'w harchwilio, gofyn cwestiynau a gwneud rhywfaint o drafod syniadau rhydd. Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i bleidleisio (balot rancio cyfrinachol) ar gyfer y cysyniadau maen nhw eisiau gweithio arnynt fwyaf. Bydd y myfyrwyr yn cael eu dyrannu'n dimau a dechrau

gweithio ar y cysyniad a ddewisir ganddynt neu a aseirir iddynt. Yn gyntaf, byddant yn casglu tystiolaeth am yr angen/awydd a pha mor unigryw yw'r cysyniad (sgiliau a addysgir: cynllunio ariannol). Yn ddiweddarach, byddant yn gweithio ynghyd i gryfhau eu cysyniadau am achosion yn gyflwyniad (sgiliau a addysgir: synthesis, cyflwyno, marchnata). Wrth gwrs, gan mai un o brif amcanion y rhaglen yw symud pethau yn eu blaen, dylent ddechrau sicrhau bod rhyw fath o gynllun busnes. Yn olaf, byddant yn cyflwyno eu cysyniadau i banel o feirniaid i geisio cymorth posibl i ddatblygu eu cysyniadau ymhellach.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae nifer o ddeilliannau a ragwelir o'r rhaglen hon yn cynnwys:

- cyflwyno'r cysyniad o entrepreneuriaeth gymdeithasol fel llwybr gyrfa posibl;
- darparu plattform cyfnewid gwybodaeth rhwng y Brifysgol a'r gymuned menter gymdeithasol leol;
- gwneud defnydd gorau o adnoddau myfyrwyr wrth gefnogi mentrau cymdeithasol;
- darparu sgiliau menter a busnes ac ymwybyddiaeth i fyfyrwyr;
- dwyn ynghyd arbenigedd y Brifysgol, adnoddau myfyrwyr, grwpiau diddordeb lleol ac asiantaethau cymorth i bellhau'r agenda menter gymdeithasol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Roedd pedwar grŵp wedi cwblhau'r rhaglen beilot ac wedi cyflwyno eu cysyniadau i banel o feirniaid sy'n cwmpasu entrepreneuriaid. Roedd tri o'r cysyniadau wedi'u cynhyrchu gan y myfyrwyr eu hun ac roedd y trydydd mewn cydweithrediad â menter gymdeithasol gyfredol. Roedd y cysyniadau menter gymdeithasol eu hunain yn denu llawer o ddiddordeb a chefnogaeth allanol, a chafodd un ohonyn nhw gynnig cydweithrediad gan Brif Weithredwr menter gymdeithasol leol fawr ac un arall gan sylfaenydd yr ŵyl fwyd fwyaf yng Ngogledd Cymru.

Er mai rhaglen beilot yw hon, mae wedi cael llawer o ddiddordeb gan fentrau cymdeithasol a busnesau, ac mae llawer ohonynt wedi rhoi cymorth o ran amser a chynngor yrwy gydol y peilot.

Myfyrdod/effaith:

Mae agwedd y myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn ystod y rhaglen wedi bod yn ddiddorol iawn. Mae eu cymhelliant, ymrwymiad a brwdfrydedd am yr hyn sy'n weithgaredd allgyrsiol gwirfoddol wedi bod yn fwy o lawer na'r disgwyl. Yn lle ei ystyried yn weithgaredd academaidd pur, mae o leiaf ddau grŵp yn bwriadu sefydlu busnesau o'u cysyniadau menter gymdeithasol. Ym mis Ionawr 2012, byddwn yn casglu data gan fyfyrwyr a gymerodd ran a mentrau cymdeithasol i ddeall yn well y rhesymau dros eu lefel uchel o ymgysylltiad a'u cymhelliant yn ystod y rhaglen er mwyn gwneud y gorau o raglenni Sbardun Menter Gymdeithasol yn y dyfodol.



Adran 5: Ehangu rhwydweithiau proffesiynol

Mae llawer iawn o ddysgu proffesiynol yn digwydd mewn trafodaeth â chydweithwyr a chyfoedion, ac mae rhwydweithiau proffesiynol yn darparu adnodd gwerthfawr ar gyfer cysylltiadau gyrfa, cymorth a gwybodaeth. Does dim syndod felly bod nifer o'r achosion yn ymwneud, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, â strategau i adeiladu, cynnal a dysgu o rwydweithiau proffesiynol. Mae rhwydweithio proffesiynol yn cael ei ystyried fel cynnwys "gallu i adnabod a deall gwaith pobl eraill mewn cysylltiad â'ch gwaith eich hun, ac i asesu gwerth y cysylltiad gyda'r rhain ar gyfer gwaith posibl yn y dyfodol" (Rajagopal, 2012).

Mae astudiaeth CMI3 yn dangos sut mae datblygu perthynas broffesiynol yn rhan allweddol o amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cael eu cynnwys yng 'Ngŵyl Ddylunio Caerdydd'. Mae darparu cyfleoedd o'r fath i fyfyrwyr arddangos eu gwaith a datblygu cysylltiadau proffesiynol yn ganolog hefyd i'r rhaglenni Maetheg sy'n cael eu disgrifio yn astudiaeth CM4.

Mae prosiectau myfyrwyr sy'n cysylltu ag ymarferwyr mewn ffyrdd gwahanol yn helpu i ddatblygu cysylltiadau proffesiynol hefyd. Mae enghreifftiau o brosiectau o'r fath i'w cael mewn dull seiliedig ar ymgynghoriaeth (astudiaeth SM8), prosiect Celf a Dylunio lle mae myfyrwyr yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i ddarpar gleientiaid (astudiaeth SM6) a myfyrwyr yn ymgymryd â briff hysbysebu 'byw' a osodir gan ymarferydd (astudiaeth N2). Mae cydweithrediad rhwng cyflogwyr a staff academaidd i feithrin cysylltiadau gwaith agos a darparu gwybodaeth amserol ar gyfleoedd cyflogaeth posibl yn cael ei arddangos yn astudiaeth C2 hefyd.

Yn olaf, bydd rhaglenni sy'n cynnwys elfen o ddysgu seiliedig ar waith bob amser yn cynnig cyfle i ehangu rhwydwaith proffesiynol myfyrwyr. Mae rhaglenni o'r fath yn cynnwys graddau sylfaen, fel a ddangosir yn astudiaeth G3, a'r cyllun lleoliad gwaith arloesol a ddisgrifir yn astudiaeth G2.

Gŵyl Ddylunio Caerdydd

(astudiaeth achos CMI3)

Enw Cyswllt: Olwen Moseley
Ebost: oloseley@cardiffmet.ac.uk
Ffôn: 029 20417204
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyfeiriad: Campws Llandaf, Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB

Geiriau allweddol: Gŵyl Ddylunio Caerdydd, dylunio yng Nghymru, diwydiannau creadigol, cydweithrediad, arloesedd a chyflogaeth.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol un gyfadran.

Nod:

Lansiwyd Gŵyl Ddylunio Caerdydd mewn ymateb i flwch a adnabuwyd yn y cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd yn y diwydiant dylunio yng Nghymru i ddarparu fforwm ar gyfer dathlu cyflawniadau, hyrwyddo gwerth dylunio da i'r cyhoedd, gwleidyddion a gwneuthurwyr polisi, gan annog trafodaeth am rôl ddylunio yn y gymdeithas ac chreu cysylltiadau rhwng academia a sector dylunio Cymru.

Disgrifiad/Dull:

Trafodir a chydlynir Gŵyl Ddylunio Caerdydd gan Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd (CSAD) ac mae'n cael ei chynnal am bythefnos ym mis Hydref bob blwyddyn. Mae CSAD yn trefnu digwyddiadau allweddol yr Ŵŵyl yn cynnwys Gwobrau Dylunio Gorau Cymru sydd ar agor i unrhyw ddylunwyr sy'n gweithio yng Nghymru neu'n gweithio gyda chwmnïau yng Nghymru, Gwobr Dylunio Graddedigion Cymru, sydd ar agor i'r rhai sy'n graddio o brifysgolion yng Nghymru neu fyfyrwyr o Gymru sy'n graddio o rywle arall, a'r arddangosfa Gwobr Dylunio Gorau Cymru deithiol ac arddangosfa ar-lein. Mae gwefan yr Ŵŵyl yn cael ei diweddarau gan CSAD ar y cyd â chwmni dylunio sy'n ei hadeiladu ac yn ei chynnal yn dechnegol. Hefyd, mae CSAD yn cydlynu lansiad Gŵyl yn y Senedd, y clinig portffolio myfyrwyr mewn cydweithrediad â D&AD a gwahoddir myfyrwyr o brifysgolion eraill sy'n aelodau ac ysgolion celf, i barti cau'r Ŵŵyl a nifer o ddigwyddiadau eraill. Yn 2011, roedd yr Ŵŵyl yn cwmpasu tua 70 digwyddiad yn amrywio o gyflwyniadau ac arddangosfeydd, gweithdai a digwyddiadau cymdeithasol a drefnwyd gan amrywiaeth eang iawn o ddylunwyr a sefydliadau dylunio.

Mae'r Ŵyl yn ceisio hyrwyddo holl rychwant y sector dylunio, ac felly mae digwyddiadau yn amrywio o Ryfeloedd Dylunio a drefnir mewn warws cefn stryd gan asiantaeth ddylunio, sy'n denu llawer o fyfyrwyr, i ddigwyddiad a drefnir eleni gan yr Eco Design Centre ar y cyd â Llamau, yr elusen dai, yn dysgu pobl ifanc am sut mae dylunio a materion amgylcheddol yn cael eu cynnwys mewn cynllunio busnes, i ddiwrnod gemau yng Nghanolfan y Celfyddydau Chapter a drefnwyd gan grŵp o ddylunwyr (a ddaeth ynghyd drwy'r Ŵŵyl), i ddigwyddiadau stiwdio agored a gynhelir gan ddylunwyr ffasiwn, cyflwyniadau gan ddarlunwyr o Gymru a Llundain, parti a drefnwyd gan fanwerthwr dodrefn a chwmni dylunio mewnol, i sioeau pypedau, noson ymchwilwyr PhD, cyflwyniadau ar ddylunio gwasanaeth a chydweithrediad a drefnwyd gan Design Wales ac amrywiaeth o arddangosiadau darlunio, gemwaith a dylunio eraill.

Deilliannau a Ragwelir:

- datblygu cysylltiadau rhwng aelodau o'r gymuned ddylunio a rhwng y gymuned ddylunio, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, CSAD a Sefydliadau addysg eraill;
- annog y gymuned ddylunio i ddarparu cymaint o gyfleoedd i'n myfyrwyr i gael profiad o friffiau byw, a datblygu cysylltiadau gyda phroffesiynolion dylunio;
- arddangos gwerth a phwysigrwydd rhaglenni addysg dylunio Prifysgol.
- codi ymwybyddiaeth ar ran gwleidyddion a gwneuthurwyr polisi am werth gwaith dylunio;
- codi ymwybyddiaeth y diwydiant/busnes/y cyhoedd am werth ac effaith dylunio.

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae effaith yr Ŵŵyl Ddylunio ar adeiladu proffil cyffredinol y ddinas wedi'i chydabod hefyd.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae llawer o ganlyniadau positif wedi'u cyflawni ers lansiad yr Ŵŵyl yn 2005 ac yn cynnwys y canlynol:

- Roedd Cardiff and Co wedi gweithio gyda thîm yr Ŵŵyl a sefydliadau eraill yn llwyfannu digwyddiadau yn Hydref 2011 i lansiad yr ymgyrch @CreativeCardiff fel canolfan ar gyfer diwylliant creadigol;
- Mae'r Clinig Portffolio Myfyrwyr bellach yn denu cymorth tua 25 dylunydd unigol sy'n hapus i roi prynhawn i fyfyrwyr CSAD a myfyrwyr o Brifysgol Cymru Casnewydd, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Gorllewin Lloegr a rhai myfyrwyr o Ysgol Celf a Dylunio Swydd Henffordd yn mynychu am ran o'r diwrnod hefyd;
- Mae ceisiadau i Wobrau Dylunio Graddedigion Gorau Cymru wedi cynyddu ers y lansiad yn 2009;
- Mae llawer o brosiectau byr byw bellach yn cael eu cynnal ar gyfer myfyrwyr Cyfathrebu Graffeg CSAD oherwydd y cysylltiadau agosach â'r sector dylunio lleol, a gwerthfawrogi bod ganddynt y sgiliau a'r addysg gyd-destunol mae'r Brifysgol yn ei darparu i'r rhai fydd yn ymuno â'r diwydiant yn fuan. Felly, er enghraifft, mae prosiectau byw wedi cael eu trefnu yn y ddwy flynedd ddiwethaf gyda Maes Awyr Caerdydd, Cyngor Caerdydd, ac amrywiaeth o sefydliadau diddorol eraill, gyda chymorth gan tua 15 asiantaeth ddylunio wahanol sydd i gyd yn rhoi eu hamser a'u hegni am ddim;
- Mae gweithgaredd dilynol i'r Clinigau Portffolio Myfyrwyr yn dangos bod bron pob asiantaeth ddylunio sy'n cymryd rhan yn cynnal cysylltiadau â'r myfyrwyr maen nhw wedi cwrdd â nhw drwyddynt, naill ai drwy gynnig lleoliadau gwaith, eu mentora ar brosiectau byw neu waith prosiect arall, cynnig interniaethau iddynt a chyflogaeth am dâl ar ôl gadael y Brifysgol neu gynnig cyfleoedd llawrydd iddynt ar ôl graddio;
- sefydlwyd y grŵp thinkARK yn 2010 o ganlyniad i ŵyl Ddylunio 2009. Bellach mae'n trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n herio materion dylunio

cymdeithasol drwy ei fformat gwreiddiol ei hun a thrwy brosiectau cysylltiedig fel playARK. Mae'n cynnwys llawer o fyfyrwyr yn ei mentrau. Mae wedi darparu fforwm trwy'r diwrnod cyflwyniadau Gemau 2011 ar gyfer staff CSAD i rannu eu harbenigedd ag eraill – mae prosiectau ymgynghoriaeth am dâl wedi'u gwneud dros Gyngor Caerdydd. Mae hyn wedi helpu'r Cyngor i edrych ar ddulliau creadigol newydd i ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion fel datblygu strategaeth seiclo'r ddinas. Mae thinkARK wedi helpu i hyrwyddo defnydd o siopau gwag yng nghanol y ddinas hefyd;

- mwy o ddi-ddordeb gan y gymuned fusnes, yn cynnwys cynnig nawdd. Mae'r gymuned ddylunio a chyflenwyr i'r diwydiant hwnnw fel argraffwyr a chwmnïau arddangos yn hael yn cynnig cymorth;
- mae dangosyddion parch yn cynnwys: gwahoddiadau gan wyliau dylunio rhyngwladol eraill i gymryd rhan mewn fforwm – Wythnos Ddylunio yr Iseldiroedd 2006, Istanbul 2007, Milan 2008; arddangosfa Wythnos Ddylunio Awstria yng Nghaerdydd yn 2008; ymrwymiad parhaol gan ddylunwyr rhyngwladol uchel eu parch i gefnogi'r Wyl trwy gynnig eu gwasanaethau fel beirniaid diduedd; canmoliaeth gan gyhoeddiadau dylunio fel Design Week – roedd yr wyl a'r Cyfarwyddwr wedi'u rhestru yn un o'r 100 o bobl a digwyddiadau mwyaf dylanwadol yn sector dylunio'r DU yn 2009 gan Design Week.
- Bellach, mae Cyfarwyddwr yr Wyl yn cael ei ofyn i siarad mewn digwyddiadau dylunio nid yn unig yng Nghymru ond draws y DU, sy'n gyfle ardderchog i hysbysebu'r Brifysgol, CSAD, y ddinas a sector dylunio Cymru. Mae Gweinyddyd yr Wyl yn cael ei ofyn i gyfrannu at flogiau a chyhoeddiadau ar-lein hefyd.

Myfyrdod/effaith:

Cyfathrebu a dathlu gwerth dylunio: Eleni (2011) bu ymgais mawr i hysbysebu'r Wyl. Am y tro cyntaf, mae wedi dibynnu'n llwyr ar sialeni PR ei hun a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd (yn cynnwys ei chwmni PR) ac mae hyn wedi gweithio'n dda. Mae llawer iawn mwy o straeon newyddion wedi'u cynnwys ar y wefan eleni i hysbysebu'r rhai sy'n cymryd rhan yng Ngwobrau Dylunio Gorau Cymru a Gwobrau Dylunio Graddedigion Gorau Cymru a'r digwyddiadau a drefnwyd fel rhan o'r Wyl.

Hysbysebu digwyddiadau: Y llynedd ac eleni, mae'r Wyl wedi cyhoeddi rhaglen brintiedig gynhwysfawr sy'n cynnwys bron pob digwyddiad o'r Wyl. Eleni, oherwydd bod mwy o amser gweinyddol ar gael, cafodd y rhaglen ei dosbarthu'n ehangach nag yn y gorffennol a bron i 5,000 copi yn cael eu cymryd gan y cyhoedd, sy'n gynydd ar y 3,000 a brintwyd y llynedd.

Meithrin cysylltiadau gyda gwneuthurwyr polisi a gwleidyddion: Eto, oherwydd bod ychydig mwy o amser ar gael, mae cysylltiadau cryfach wedi'u sefydlu rhwng yr Wyl, Cyngor Caerdydd, Cardiff and Co a Llywodraeth Cymru, ac felly mae'r Wyl i'w gweld yn ddigwyddiad sylweddol a dylanwadol sy'n helpu i hyrwyddo'r ddinas fel canolfan creadigrwydd ac arbenigedd dylunio.

Y Gwobrau: Teimlir bod y Gwobrau wedi cael pwrpas defnyddiol wrth hysbysebu rhychwant a dyfnder talent dylunio Cymru, ond mae hi bellach yn amser i feddwl eto am sut y gellir ymdrin â hynny i sicrhau bod gwerth ac effaith i'r Gwobrau.

Arddangosiad ymarfer ac arloesedd ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd (UWIC)

(astudiaeth achos CM4)

Enw Cyswllt: Denise Parish a Hilary Wickett

Ebost: dparish@uwic.ac.uk

Ffôn: 02920 416878

Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Cyfeiriad: Campws Llandaf, Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB

Geiriau allweddol: cymdeithasoli proffesiynol, hunaniaeth broffesiynol, gymuned arfer, sgiliau cyflwyno.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy ddau lwybr gradd: BSc (Anrh) Maetheg a Dieteteg Ddylunio a BSc (Anrh) Maetheg Iechyd Cyhoeddus.

Nod:

Rhoi cyfle i fyfyrwyr arddangos a chyfiawnhau eu gwaith mewn amgylchedd proffesiynol a sefydlu synnwyr o hunaniaeth broffesiynol.

Disgrifiad/Dull:

Ym Mehefin 2011, cafodd myfyrwyr blwyddyn olaf eu gwahodd i fynychu a chyflwyno posteri o'u gwaith traethawd hir mewn digwyddiad i arddangos ymchwil ac ymarfer arloesol dietegwyr o hyd a lled Cymru. Roedd y digwyddiad ar agor i bob dietegydd a chynorthwyyr dieteteg yn gweithio yng Nghymru ynghyd â gwesteion gwahoddedig, fel Cyngorydd Therapi Cymru. Cafodd myfyrwyr gyfle i wrando ar siaradwyr allweddol a roddodd fewnwelediad ar strategaeth a pholisïau allweddol y llywodraeth, rôl a chanlyniadau ymchwil cyfredol sy'n tanatgu ymarfer; a chyfleoedd cyllido a ffactorau sy'n gyrru cyfleoedd ymchwil pellach. Yn ystod y sesiwn amser cinio, cafodd anfonogion gyfle i arsylwi ar gyflwyniadau posteri traethawd hir y myfyrwyr a siarad â myfyrwyr am eu gwaith. Rhoddodd hynny gyfle i fyfyrwyr gyfiawnhau eu meddwl i geidwaid eu galwedigaeth, ac wrth wneud hynny, dechrau cael eu cydnabod fel ymchwilwyr ym maes dieteteg a maetheg a dechrau'r broses o gymdeithasoli proffesiynol. Roedd darpar raddedigion eleni wedi cael cyfle i wrando ar sut bydd ymuno â'u corff proffesiynol yn rhoi cyfle i fod yn rhan o gymuned ymarfer a manteision i'w hymarfer eu hunain trwy weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd bod yn rhan o gymuned ehangach wedi rhoi synnwyr hunaniaeth gwell i'r myfyrwyr fel dietegwyr a datblygu sgiliau cyflwyno sydd mor bwysig yn y gweithle.

Deilliannau a Ragwelir:

- myfyrwyr yn teimlo'n rhan o'u dewis alwedigaeth;
- ymchwil myfyrwyr yn cael ei uchel brisio gan geidwaid eu galwedigaeth;
- rhannu arfer arloesol;
- platfform i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a chyflwyno;
- cyfleoedd rhwydweithio gyda darpar gyflogwyr y dyfodol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Roedd arsylwi ar waith y myfyrwyr gan yr anfonogion proffesiynol wedi rhoi hwb mawr i hyder y myfyrwyr, ac yn teimlo bod ceidwaid eu galwedigaeth yn eu gwerthfawrogi. Roedd adborth gan un o'r anfonogion yn dweud: "Roedd safon y poster gan y myfyrwyr wedi creu argraff fawr arnaf... Roedd amrywiaeth y pynciau ymchwil yn hynod. Hefyd, roedd y myfyrwyr y bues yn trafod â nhw yn cyflwyno ac yn ateb cwestiynau'n ardderchog." Roedd sylwadau myfyrwyr yn cynnwys: "Roeddwn yn meddwl ei bod yn llwyddiant mawr ac yn fuddiol i ni i gyd, roedd y siaradwyr yn ardderchog, roedd y cyfle rhwydweithio yn wych, ac roedd pawb yn hapus dros ben... wnes fwynhau'r diwrnod yn fawr iawn."

Myfyrddod/effaith:

Gan feddwl am y diwrnod, mae llawer o syniadau am sut y gellir datblygu'r digwyddiad yn y dyfodol. Roedd hi'n ddiwrnod positif iawn mewn byd lle mae toriadau a newid yn rhy gyffredin. Roedd hi'n teimlo fel ffordd wych i hyrwyddo'r alwedigaeth ac ysbrydoli dietegwyr a dietegwyr y dyfodol i ymdrechu i fod yn arloesol yn eu gwaith ac ymgymryd ag ymchwil. Gobeithio bydd hyder uwch y myfyrwyr yn eu cymell i gyflwyno'u gwaith ar gyfer cynadleddau'r dyfodol.

Ymgynghoriaeth Sefydliadol

(astudiaeth achos SM8)

Enw Cyswllt: Jacqui Jones

Ebost: jacqui.jones@smu.ac.uk

Ffôn: 01792 481129

Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Cyfeiriad: Campws Mount Pleasant, Abertawe SA1 6ED

Geiriau allweddol: cydweithrediad a phartneriaethau diwydiannol rhyngwladol, prosiectau sefydliadol ac ymgynghoriaeth, entrepreneuriaeth, dysgu seiliedig ar waith.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Fe'i cyflwynwyd mewn rhaglenni israddedig newydd yn y Gyfadran Busnes a Rheoli ac fe'i defnyddir yn arbennig mewn rhaglenni israddedig Hamdden, Digwyddiadau, Twristiaeth a Chwaraeon.

Nod:

Galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am y diwydiant a'u gallu i ddadansoddi'n feiniadol a gwerthuso materion yn y gweithle er mwyn cyflwyno eu hargymhellion strategol i'w gweithredu fel ymgynghorwyr.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r astudiaeth achos hon yn gysylltiedig â datblygiad y modiwl 'Ymgynghoriaeth Sefydliadol' blwyddyn olaf, sy'n galluogi myfyrwyr i weithio mewn sefydliad fel ymgynghorydd er mwyn ymgymryd â phrosiect manwl. Mae myfyrwyr yn mynychu darlithoedd a thiworialau rheolaidd yn y meysydd pwnc, ac wedyn mae gofyn iddynt weithio gyda sefydliad fel ymgynghorydd er mwyn gwneud prosiect manwl. Gall myfyrwyr weithio ar eu liwt eu hun neu mewn timau bach, a gall y sefydliad fod yn un lleol, cyflogwr rhan-amser, elusen, corff gwirfoddol neu gwmni sydd angen cymorth. Mewn rhai achosion, bydd y myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol, yr Undeb Myfyrwyr neu glybiau a chymdeithasau er mwyn ymgymryd â'r prosiect hwn. Rhoddir cymorth a chyfarwyddyd i fyfyrwyr, ond byddant yn gyfrifol am eu gwaith ymgynghoriaeth eu hunain, gan ymgymryd â'r gwaith ymchwil a datblygu sydd ei angen, ac adrodd yn uniongyrchol i'r sefydliad. Bydd y broses yn cynnwys cyfarfodydd sefydliadol, bidio ar gyfer y prosiect, datblygu dogfen cychwyn prosiect, ymgymryd â'r gwaith prosiect ac ymchwil, trafod canfyddiadau ac argymhellion gyda'r sefydliad, a chyflwyno'r adroddiad terfynol fel dogfen swyddogol. Mae prosiectau wedi cynnwys cynllun busnes, astudiaethau dichonolrwydd, strategau marchnata, adroddiad ymchwil marchnad, bidiau cyllido a chynlluniau ariannol ar gyfer amrywiaeth o gleientiaid yn lleol, ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r broses yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau seiliedig ar waith a dealltwriaeth mewn partneriaeth â'r sefydliad a'u tiwtor.

Deilliannau a Ragwelir:

Dylai'r modiwl arwain at ddealltwriaeth well ar faterion sefydliadaol a'r gallu i ganfod datrysiadau rheoli ystyrlon sy'n cael eu gyrru gan ystyriaethau ariannol.

Dylai ddarparu cyfle hefyd i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau allweddol, dadansoddi a chyflwyno ar ôl cael profiad ar faterion seiliedig ar waith. Bydd hyn yn cynnwys sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm yn y gweithle. Bydd y fenter yn hyrwyddo datblygiad partneriaethau gweithio agosach y myfyrwyr gyda'r diwydiant rhyngwladol er mwyn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i'r myfyrwyr am faterion sefydliadol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Cyflwynwyd y fenter yn 2010-11, felly mae tystiolaeth am ddeilliannau gwirioneddol yn gyfyngedig. Mae'r rhaglen wedi helpu dau fyfyrwr eisoes i sefydlu eu busnesau eu hunain. Mae nifer o fyfyrwyr wedi datblygu cysylltiadau mwy gyda sefydliadau sydd wedi arwain at gyflogaeth barhaus a swyddi hyfforddi fel graddedigion. Mae'r adroddiad terfynol yn ddogfen ardderchog i'r myfyrwyr i gefnogi datblygiad eu gyrfa yn y dyfodol.

Myfyrddod/effaith:

Mae'r fenter hon yn rhoi modd i'r myfyrwyr ystyried materion ynglŷn â'r diwydiant a'r gwaith, ac mae'r adroddiad terfynol yn galluogi'r myfyrwyr i gael dylanwad ar ddatblygiad strategol sefydliad.

Prosiect Allanol (Cyfadran Celf a Dylunio, SMU)

(astudiaeth achos SM6)

Enw Cyswllt: Andrea Liggins

Ebost: andrea.liggins@smu.ac.uk

Ffôn: 01792 481021

Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Cyfeiriad: Canolfan Dinefor ar gyfer Celf, Dylunio a'r Cyfryngau,
Abertawe SA1 3EU

Geiriau allweddol: cydweithrediad diwydiannol, arfer creadigol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol holl raglenni'r Gyfadran Celf a Dylunio.

Nod:

Rhoi profiad i fyfyrwyr o ymgysylltu eu harfer creadigol personol â chyflogwyr allanol.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r Prosiect Allanol (sef elfen o Brif Brosiect y flwyddyn olaf) yn darparu profiad dysgu lle mae gofyn i fyfyrwyr archwilio eu gyrfaedd yn y dyfodol (o fewn fframwaith cymorth eu rhaglen gradd) trwy fynd i ddarpar gleientiaid a chynnig cyfleoedd cyflogaeth. Er enghraifft, yn y gorffennol mae myfyrwyr wedi gweithio gyda cyhoeddwr ar ddylunio cloriau llyfrau, wedi cynhyrchu delweddau ar gyfer elusennau rhyngwladol sy'n cael eu defnydio ar gyfer marchnata a/neu'n cael eu harddangos i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, wedi ennill profiad gwaith perthnasol ac wedi arddangos gwaith mewn orielau. Pwyslais y prosiect hwn yw gofyn i'r myfyrwyr ymchwilio, ystyried a thrafod gyda chyflogwyr proffesiynol sy'n cydweddu i'w harfer celf a ddatblygwyd yn unigol.

Mae'r angen am gynigion cytûn y myfyrwyr a monitro datblygiad y prosiect trwy gymorth tiwtorialau yn sicrhau bod dysgu ar gyfer cyflogaeth yn berthnasol. Mae sialensiau yn cynnwys gofyn i'r myfyrwyr sefydlu cysylltiadau positif â phartneriaid allanol; ond mae'r sialens hon yn gwneud y prosiect yn brofiad dysgu defnyddiol tu hwnt. Mae cyswllt â graddedigion llwyddiannus o bob rhaglen yn cynnwys cysylltiadau posibl ar gyfer cydweithrediad prosiect allanol yn y dyfodol. Mae codi ymwybyddiaeth am drosglwyddo gwaith creadigol personol yn gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol yn cyflwyno profiad dysgu gwerthfawr ar gyfer cyflogaeth.

Deilliannau a Ragwelir:

- myfyrwyr yn adnabod meysydd posibl ar gyfer ymchwil a datblygiad creadigol yng nghyd-destun eu pwnc arbenigol;
- myfyrwyr yn datblygu a chynhyrchu corff o waith o natur arloesol ac unigol mewn ymateb i friff gan gleient;
- myfyrwyr yn datblygu sgiliau cyfathrebu a thrafod dulliau, syniadau a chanlyniad prosiect, gan arddangos myfyrion ar ddylanwadau personol ac allanol;
- myfyrwyr yn profi ac yn dewis deunyddiau, prosesau ac amgylcheddau sy'n berthnasol i ofynion personol ac allanol;
- myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth am ddeunyddiau ac arferion busnes ategol cysylltiedig sy'n berthnasol i hyrwyddo a chynhyrchu gwaith creadigol i gleientiaid.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Canlyniad y prosiect yw bod myfyrwyr wedi ennill amrywiaeth o brofiadau proffesiynol yn cynnwys arddangosiadau, cyhoeddiadau, interniaethau, comisynau masnachol a sefydlu busnes.

Myfyrddod/effaith:

Mae'r gallu i ymgysylltu â chyd-destun allanol proffesiynol sy'n cael ei gytuno gan yr unigolyn ond sy'n cael ei gefnogi o fewn y fframwaith addysg yn brofiad dysgu gwerthfawr i fyfyrwyr; tra'n darganfod am eu gyrfa yn y dyfodol cyn graddio.

Briff Byw: Identica

(astudiaeth achos N2)

Enw Cyswllt: Don Parker
Ebost: don.parker@newport.ac.uk
Ffôn: 01633 432634
Sefydliad: Prifysgol Cymru Casnewydd
Cyfeiriad: Campws y Ddinas, Ffordd Wysg, Casnewydd NP20 2BP

Geiriau allweddol: briff byw, cyflogaeth, menter, arfer creadigol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Fel rhan o raglen hyfforddi cyflogaeth/menter parhaus ar gyfer myfyrwyr Dylunio Hysbysebu, mae modiwl 'Briff Byw' yn cael ei gyflwyno yn ystod ail flwyddyn y rhaglen israddedig, ar adeg yn eu datblygiad Lefel 5 lle mae synnwyr o gyd-destun diwydiannol yn bwysig fel cam pwysig i'w blwyddyn olaf. Dyma flwyddyn lle byddant yn paratoi ar gyfer diwydiant gyda phortffolio o waith sy'n arddangos sgiliau cysniadol a thechnegol ar lefel uchel o ymgysylltiad.

Nod:

Nod y modiwl yw:

- rhoi cyfle i fyfyrwyr weithio ar friff hysbysebu 'byw';
- datblygu'r gallu i gymhwyso gwybodaeth a theori i broblemau 'go iawn' mewn arfer proffesiynol yn llwyddiannus;
- meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r problemau a'r paramedrau hysbysebu a rhwystredigaethau briff 'byw' e.e. ystyriaethau cyllid, amserlenni tynn, cysylltiadau â chleientiaid, materion sensitif, ystyriaethau'r cyfryngau, synergedd y brand, hanfodion ac ati.;
- annog myfyrdod personol a chanolbwyntio ar brofiadau dysgu i hyrwyddo datblygiad personol a phroffesiynol.

Disgrifiad/Dull:

Mae gofyn i'r myfyrwyr ymgymryd â phrosiect 'byw' a osodir gan ymarferydd asiantaeth, gan ymdrin â phroblem hysbysebu go iawn, a lle bydd angen ymchwil a chreu syniad creadigol. Mae rhychwant a gofynion y briff yn cael eu trafod gyda'r asiantaeth a'r tiwtor perthnasol. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr gael blas ar baramedrau a rhwystredigaethau briff byw, lle mae problemau cleientiaid, amserlenni tynn a chyfyngiadau cyllideb angen syniadau sy'n ymarferol ac yn realistig, ac hefyd yn greadigol ac yn wreiddiol.

Lle bo'n briodol ac yn bosibl, bu gofyn am gyfraniad ymarferwyr proffesiynol a'u hasiantaethau. Mae cynrychiolydd asiantaeth ar gael yn y briffio a chamau cyflwyno ac mae opsiwn i fentora myfyrwyr ar adegau allweddol yn y prosiect.

Deilliannau a Ragwelir:

- profiad gwaith gwerthfawr i fyfyrwyr Dylunio Hysbysebu blwyddyn olaf sy'n arddangos y gallu i ddeall ac ymdrin â briff creadigol 'byw';
- gallu arsylwi ar paramedrau a rhwystredigaethau briff creadigol a chynhyrchu datrysiadau sy'n diwallu meini prawf y briff, arddangos dealltwriaeth ddyfnach ar broblemau hysbysebu a gwerthfawrogiad o baramedrau a rhwystredigaethau briff creadigol;
- gallu i arddangos ansawdd ac effaith greadigol a gaiff syniadau pan gânt eu chynhyrchu mewn ymateb i friff penodol;
- gallu arddangos ansawdd ymchwil trwy fyfyrion ar eu profiadau dysgu mewn cyd-destun;
- cymhwyso gwybodaeth a sgiliau;
- gallu cyflwyno syniadau, arsylwadau a chasgliadau i gynulleidfa;
- darparu tystiolaeth am fyfyrdod personol ar brofiadau dysgu;
- darparu tystiolaeth am ddatblygiad personol a phroffesiynol trwy adnabod targedau, trefnu adnoddau, rheoli llwyth gwaith a bodloni amserlenni er mwyn cyflawni goliau a fwriedir.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Cafodd y myfyrwr gyfle i wneud prosiect 'byw' a osodwyd gan ymarferydd hysbysebu. Cawsant friff gan yr asiantaeth dan sylw ('Identica' yn yr achos hon) a rhoddwyd meini prawf a chyfyngiadau realistig iddynt, a bydd disgwyl iddynt ddilyn y rhain drwy gydol y prosiect. Anogwyd yr opsiwn i weithio gyda phartner ar y prosiect hwn (fel tîm creadigol) gyda chaniatâd y tiwtor perthnasol a chymeradwyaeth gan yr asiantaeth dan sylw.

Roedd sesiynau cynhyrchu syniadau yn dilyn y cyfarfod cychwynnol ac roedd angen i'r myfyrwyr arddangos hyblygrwydd a rhuglder yn eu dull creadigol a chynhyrchu cysyniadau.

Cafwyd tri cham o'r broses er mwyn sicrhau cysondeb a rheolaeth ofalus, er mwyn i'r prosiect beidio â llethu'r myfyrwyr. Cafodd gwaith paratoi ei reoli'n ofalus, a dechreuodd hynny flwyddyn o flaen llaw ym mhob achos, er mwyn sicrhau mynediad i'r asiantaeth a chadarnhau amseroedd a dyddiadau ar gyfer ymweliadau.

Cam 1

Mae'r myfyrwyr yn mynd i Lundain i'r asiantaeth i gael eu briffio gan y Prif Weithredwr.

Cam 2

Mae'r Prif Weithredwr yn ymweld â'r Brifysgol a threfnir diwrnod cyflwyno lle mae myfyrwyr yn cael blas ar y broses ddiwydiannol ac adborth. Mae staff yn bresennol bob amser ac yn cael rôl gynorthwyol gyda'r Prif Weithredwr. Mae pob asiantaeth a ddewisir yn seiliedig ar bolisi'r cwmni a dealltwriaeth ar y math o ymgysylltiad priodol gyda myfyrwyr yn y flwyddyn cyn y digwyddiad hwn. Yn achos Identica, rydym wedi bod yn ffodus iawn i weithio gyda Phrif Weithredwr sydd â

dealltwriaeth gynhwysfawr am hyn o beth, ac sydd wedi bod yn gydymdeimladol iawn i'n staff a'n myfyrwyr.

Cam 3

Mae myfyrwyr yn dychwelyd i Lundain ac yn cyflwyno pitsh i staff Identica (a'r cleient weithiau hefyd). Mae 'enillwyr' yn cael eu dewis ac yn cael eu gwobrwyo gydag anrhegion bach. Wedyn, mae'r myfyrwyr yn mynd trwy'r briff go iawn, a chanlyniad go iawn yr asiantaeth fel enghraifft a modd i gadarnhau realiti'r broses.

Myfyrdod/effaith:

I ddechrau, bydd effaith fawr ar fyfyrwyr Casnewydd am werth y sgiliau a'r profiad a ddatblygwyd yn eu hastudiaethau Dylunio. Yr effaith tymor byr fydd codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd y broses ddylunio yn y diwydiannau creadigol. Yr effaith tymor hir ar y myfyriwr fydd defnyddio sgiliau trosglwyddadwy mewn cyflwyniadau a datblygiad grŵp o gysyniadau mewn diwydiant. Mae'r arfer da i'w weld yn y Brifysgol fel model ar gyfer datblygu sgiliau creadigol yn y dyfodol gyda chysylltiadau diwydiant yng nghanol y broses.

Grŵp prosiect Recriwtio, Cadw a Chyflogi

(astudiaeth achos C2)

Enw Cyswllt: Mandy Brimble, Darlithydd, Dirprwy Uwch Diwtor Derbyn a Rheolwr Prosiect, Recriwtio, Cadw a Chyflogi

E-bost: brimblemj@cf.ac.uk

Ffôn: 02920 687543

Sefydliad: Ysgol Nyrsio ac Astudiaethau Bydwreigiaeth Caerdydd (SoNMS), Prifysgol Caerdydd

Cyfeiriad: Ystafell 2.19b Tŷ Dewi Sant, Ysbyty Prifysgol Cymru Parc y Waun, Caerdydd CF14 4XN

Geiriau allweddol: recriwtio israddedigion i raglenni Nyrsio, monitro ac atal athreuliad o'r rhaglenni hyn, monitro cyflogaeth ein graddedigion ar ôl cwblhau eu rhaglen astudio.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol un ysgol.

Nod:

Prif nod y rhan 'Cyflogi' o waith y grŵp prosiect hwn yw cydweithio'n agos â dau brif gyflogwr o'n graddedigion, hynny yw UHB Caerdydd a'r Fro a LHB Aneurin Bevan, i sicrhau bod ein myfyrwyr wedi'u paratoi ar gyfer ceisio am gyflogaeth a chadw'r gyflogaeth honno. Y gynulleidfa darged yw myfyrwyr BN (Anrh) a B Mid (Anrh) sydd ar fin cwblhau neu newydd gwblhau eu rhaglen astudio.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r grŵp prosiect yn cynnwys y Rheolwr Prosiect, staff academiaidd, cynrychiolwyr myfyrwyr, staff o Uned Cymorth Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, a chydweithwyr uwch o UHB Caerdydd a'r Fro a LHB Aneurin Bevan. Mae cydweithwyr o fyrddau iechyd lleol yn gweithio'n agos gyda staff academiaidd yn SoNMS i sicrhau bod ein myfyrwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y dasg o chwilio am swydd. Maen nhw'n cyfrannu at ffug-gyfweliadau ym Mlwyddyn 3 o'r rhaglen BN a'r digwyddiad Ffair Swyddi ym modiwl olaf y cwrs. Maen nhw hefyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r grŵp prosiect ar argaeledd cyfleoedd nyrsys staff addas a llwyddiant ein myfyrwyr wrth gael y swyddi hynny. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhoi i'n myfyrwyr a'n graddedigion mewn modd amserol gan staff academiaidd a chynrychiolwyr myfyrwyr. Ar ben trefniadau lleol, mae'r grŵp prosiect yn weithredol wrth hyrwyddo digwyddiadau recriwtio cenedlaethol, fel y digwyddiad Ffair Swyddi ym Mhencadlys y Coleg Nyrsio Brenhinol yn Lundain. Mae bwletinau e-bost gan y wasg nyrsio e.e. nursingtimesjobs.com, yn cael eu dosbarthu i arweinwyr academiaidd ar gyfer modiwlau olaf y rhaglen ac maen nhw'n cael eu harddangos ar dudalennau gwe myfyrwyr SoNMS.

Yn gyntaf, mae gwybodaeth cyrchfannau yn cael ei chyflwyno ym mhob cyfarfod y grŵp prosiect. Mae'r data hwn yn cael ei gasglu o ffurflen a gwblheir yn wirfoddol gan y myfyrwyr ar ddiwrnod olaf y rhaglen. Os nad yw'r myfyrwyr yn gallu cwblhau ar yr adeg hon, oherwydd eu bod heb sicrhau swydd eto, mae cyfleoedd pellach yn cael eu e-bostio atynt. Ond ar brydiau, nid yw'r ffigurau hyn yn gyflawn oherwydd bod rhai graddedigion yn dewis peidio, neu'n anghofio, dychwelyd y ffurflen.

Deilliannau a Ragwelir:

- hyrwyddo lefelau cyflogaeth optimwm i'n graddedigion yn lleol ac yn genedlaethol, trwy weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, cydweithwyr GIG a phartion perthnasol eraill;
- sicrhau bod ein myfyrwyr yn cael eu paratoi'n dda, yn meddu ar y wybodaeth angenrheidiol ac mewn safle delfrydol i sicrhau cyflogaeth yn y farchnad gystadleuol iawn sydd ohoni.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol: Mae archwilio data cyrchfannau cyntaf yn dangos lefelau cyflogaeth da ein graddedigion. Mae'r rhan fwyaf o'r gyflogaeth gyda'n partneriaid GIG lleol, hynny yw UHB Caerdydd a'r Fro, ac wedyn LHB Aneurin Bevan.

Myfyrdod/effaith:

Cryfder mwyaf y prosiect hwn yw'r berthnas waith agos iawn sydd gan SoNMS gyda'n cydweithwyr yn y byrddau iechyd lleol. Mae eu hymglymiad gweithredol mewn ffug-gyfweliadau yn rhoi mewnwelediad i fyfyrwyr i ddisgwyliadau cyflogwyr allweddol lleol, a phrofiad realistig o'r broses. Yn ogystal â'r dull amserol y cyflwynir gwybodaeth swyddi gwag i'r grŵp prosiect a'i dosbarthu i'n myfyrwyr; trwy gynrychiolwyr myfyrwyr a strategau cyfathrebu ar-lein, mae ein myfyrwyr yn gallu cynllunio eu ceisiadau am swyddi mewn da bryd erbyn y dyddiadau cau. Os yw graddedigion yn aflwyddiannus yn ceisio cael cyflogaeth gydag un o'r ymddiriedolaethau lleol, mae'r adborth a gafwyd ar eu cyfweiliad yn helpu'r ymgeisydd i wella ei berfformiad ar gyfer y cyfle nesaf, ond mae hefyd yn help i staff academiaidd i ystyried sut i baratoi graddedigion y dyfodol yn well ar gyfer y farchnad swyddi. Hefyd, rydym yn annog ein graddedigion i ymuno â 'banciau nyrsio' byrddau iechyd lleol (sef grŵp o staff sy'n gweithio yn ôl y gofyn lle bydd diffyg staff oherwydd salwch, gwyliau ac ati) gan bod hyn yn rhoi profiad iddynt fel nyrs gymwys, ac mae hyn yn fanteisiol pan fydd cyfleoedd ymgeisydd mewnol yn unig yn codi.

BA/BSc Diwydiannau Creadigol

(astudiaeth achos G3)

Enw Cyswllt: Paul Carr
Ebost: pcarr@glam.ac.uk
Ffôn: est 8617
Sefydliad: Prifysgol Morgannwg
Cyfeiriad: ATRiuM, Caerdydd CF24 2FN

Geiriau allweddol: dysgu seiliedig ar waith, achrediad, gradd sylfaen, diwydiant cerddoriaeth.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Ar un dyfarniad.

Nod:

Mae'r modiwl yn tynnu ar gysylltiadau blaenorol mae myfyrwyr wedi gweithio gyda nhw ar eu modiwlau dysgu seiliedig ar waith ar Lefel 4 a 5. Mae'r modiwl yn canolbwyntio hefyd ar uchelgeisiau gyrfa y myfyrwyr ac yn dilyn llwybr i'w helpu i sylweddoli'r llwybrau unigryw a heriol.

Disgrifiad/Dull:

Oherwydd natur alwedigaethol graddau sylfaen a nifer cynyddol y myfyrwyr sy'n mynd i Lefel 6 (mae pob gradd sylfaen yn cynnig y dilyniant hwn), felly es i ati i greu modiwl Lefel 6 ar wahân a gynlluniwyd yn benodol i adeiladu ar y modiwlau dysgu seiliedig ar waith sy'n rhan hanfodol o'r graddau sylfaen.

Gan weithio gyda'r North West Media Consortium, Sectorau Sgiliau Creadigol a diwydiannau lleol, gwnaed ymchwil i ddarganfod prinder sgiliau cyfredol. Mae llawer o feysydd sy'n cael eu diffinio'n 'sgiliau meddal' wedi'u tanlinellu. Mae'r 'sgiliau meddal' hyn, fel cyflwyno pitsh, cyflwyno a chyfathrebu cyffredinol, yn sgiliau hollbwysig ac nid yw llawer o raddedigion yn meddu amynt.

Mae astudiaethau achos a phrosiectau diwydiannol yn cael eu defnyddio, ac mae cyfleoedd rhwydweithio, sy'n hanfodol mewn unrhyw sector busnes, yn cael eu cyflwyno a'u defnyddio trwy gydol y flwyddyn. Mae'r myfyrwyr yn cael eu cymell i ddatblygu rhwydwaith o bartneriaid busnes posibl a meithin partneriaethau gwaith real gyda chysylltiadau diwydiant a chysylltiadau blaenorol. Mae digwyddiadau yn cael eu trefnu yn ogystal â ffeiriau masnach ac arddangosiadau; mae'r myfyrwyr yn cael eu cymell i ddefnyddio'r rhain fel cyfleoedd rhwydweithio ac yn adrodd yn ôl gyda chysylltiadau a chanfyddiadau newydd.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae meysydd fel gwaith creadigol llawrydd, sefydliad busnes a sgiliau entrepreneuriaidd yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a rhagolygon cyflogaeth.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r cwrs wedi cael ei redeg am y tro cyntaf yn 2011. Bellach, mae gan y myfyrwyr i gyd lwybr gyrfa clir ar ôl graddio.

Academi Proffesiynol Network75: galluogi cyflogadwyedd

(astudiaeth achos G2)

Enw Cyswllt: Louise Hawker
Ebost: lhawker@glam.ac.uk
Ffôn: 01443 482203
Sefydliad: Prifysgol Morgannwg
Cyfeiriad: Swyddfa Dysgu Seiliedig ar Waith G244, Prifysgol Morgannwg, Trefforest, Pontypridd CF37 1DL

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, sgiliau allweddol, ehangu mynediad, Network75, dysgu seiliedig ar waith.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Cyflwynwyd y cynllun Network75 ddeng mlynedd yn ôl ac yn wreiddiol roedd yn cwmpasu cyrsiau Mecanyddol, Trydanol a Pheirianeg Sifil. Ar ôl datblygu'r cyrsiau a gynigir yn sylweddol, mae Network75 ar gael bellach mewn amrywiaeth eang o opsiynau mewn sawl cyfadrn/adran. Ar hyn o bryd, mae gennym ni fyfyrwyr Network75 mewn Peirianeg, yr Amgylchedd Adeiledig, a disgyblaethau Busnes a Chyfrifeg.

Nod:

Mae Network75, a gyflwynwyd ym Mhrifysgol Morgannwg yn 2000, yn gynllun lleoliadau gwaith arloesol a grëodd rwydwaith o 75 cwmni i geisio cefnogi a denu pobl ifanc alluog i'r maes peirianeg/technoleg. Er mwyn ennill hyfforddiant academaidd ac ymarferol mewn peirianeg fecanyddol, sifil neu drydanol, mae myfyrwyr yn astudio ar gyfer graddau yn rhan-amser tra'n gweithio i gwmni. Mae myfyrwyr yn cael bwrsariaeth ac yn astudio am ddim, sy'n helpu i ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch a lleihau'r cyfyngiadau ariannol cysylltiedig. Mae Network75 wedi datblygu'r cyrsiau a gynigir mewn ymateb i alw gan gwmnïau a darpar fyfyrwyr o gyrsiau ar draws y Gyfadrn Technoleg Uwch a Phrifysgol Morgannwg.

Disgrifiad/Dull:

Mae Network75 yn llwybr gwaith ac astudio cyfun i ennill gradd; mae israddedigion yn cymhwyso eu gwybodaeth academaidd i waith go iawn mewn cwmni. Yn ystod y tymor, mae myfyrwyr yn gweithio i fusnes lleol am dri diwrnod yr wythnos ac yn mynychu'r Brifysgol am ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae myfyrwyr yn gweithio'n amser llawn mewn busnes lleol yn eu cwmni trwy gydol y gwyliau. Mae myfyrwyr ar Network75 yn derbyn bwrsariaeth ddi-dreth - o leiaf £5,000 y flwyddyn - sy'n codi £500 bob blwyddyn academaidd. Ar ben taliadau bwrsariaeth, mae ffioedd dysgu myfyrwyr Network75 i gyd yn cael eu talu'n llawn. Felly, mae modd i fyfyrwyr Network75 raddio heb unrhyw ddyled o gwbl.

Mae gennym ni rwydwaith o fwy na 400 cwmni yn Ne Cymru a'r Gorllewin. Mae cyfleoedd ar gael mewn amrywiaeth o ddiwydiannau mewn cwmnïau o bob maint, o gwmnïau rhyngwladol mawr i fentrau bach. Mae'n rhaid i gwmnïau sy'n cymryd rhan yn Network75 brofi eu bod yn arloesol, a'u bod yn gallu cynnig lleoliad ansawdd uchel i fyfyrwyr. O ganlyniad, gall myfyrwyr fod yn sicr o gael swydd ansawdd uchel fydd yn cynnig yr hyfforddiant a'r profiad gorau. Mae cwmnïau a rheolaeth Network75 yn gweithio'n agos i ddatblygu cynlluniau hyfforddi myfyrwyr unigol. Mae cyfuno gwaith ac astudio yn helpu i wella cyflogadwyedd myfyrwyr ar gyfer y dyfodol. Mae hyfforddeion Network75 yn graddio gyda hyfforddiant academaidd ac ymarferol, sy'n eu gwneud yn barod i'r diwydiant a'r gweithle. Mae myfyrwyr i gyd sydd wedi graddio o Network75 hyd yma wedi cael swyddi gan eu cwmnïau ac yn aml yn derbyn swyddi uwch ar ôl graddio.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r dystiolaeth isod, a gasglwyd dros y deng mlynedd diwethaf, yn dangos llwyddiant Network75:

- cyfradd cyflogadwyedd 100%, mae pob myfyriwr sydd wedi graddio o Network75 hyd yma wedi cael cynnig swyddi gyda'u cwmnïau;
- ar restr fer y Times Higher Award 2009, yn y categori 'Menter Ymgysylltiad Cyflogwyr Rhagorol';
- datblygu sgiliau cyffredinol a sgiliau technegol seiliedig ar waith trwy hyfforddiant penodol a chefnogi sgiliau trosglwyddadwy;
- sefydlu rhwydwaith o addysgwyr, arbenigwyr, myfyrwyr, cwmnïau, ysgolion a cholegau;
- rhannu arfer da a hyrwyddo trosglwyddiad technoleg/gwybodaeth;
- annog cyflogaeth a chadw graddedigion yn Ne Cymru;
- sicrhau achrediad ISO9001:2008;
- bod yn brosiect cynaliadwy. Prawf bod cwmnïau mor fodlon â Network75 yw bod cwmnïau wedi cynyddu eu cyfraniadau cyllid yn 2006 er mwyn i'r cynllun barhau;
- cynyddu cynnig Network75 trwy'r Gyfadran Technoleg Uwch a Phrifysgol Morgannwg;
- llawer o ddi-ddordeb gan y cyfryngau.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r cynllun Network75 wedi bod yn llwyddianus i'r myfyrwyr, y cwmnïau a Phrifysgol Morgannwg. Mae Network75 wedi bod yn llwyddiannus yn denu myfyrwyr a chwmnïau i Forgannwg, ac wrth i enw da'r cwmni dyfu, rhagwelir y bydd y galw hwnnw'n tyfu ymhellach.



Adran 6: Adnoddau i gefnogi cyflogadwyedd

Er bod yr astudiaethau i gyd yn yr adrannau blaenorol yn ganllaw ddefnyddiol ar barhad datblygu dysgu ar gyfer cyflogaeth, mae'r astudiaethau yn yr adran hon yn dangos amrywiaeth yr adnoddau y gellir eu defnyddio i gefnogi cyflogadwyedd. Defnyddir diffiniad cyffredinol o 'adnodd' er mwyn rhoi blas ar y ffyrdd gwahanol y mae dulliau, gweithgareddau ac arteffactau gwahanol wedi gwella mentrau cyflogadwyedd yn y sector addysg uwch yng Nghymru.

Mae rhai o'r 'adnoddau' hyn eisoes wedi'u gweld mewn agweddau ar astudiaethau yn yr adrannau blaenorol, ond maen nhw wedi'u hamlygu yma i arddangos sut mae adnoddau gwahanol yn cael eu defnyddio, a thrwy rannu ein profiadau, gallwn i gyd ddysgu ffyrdd newydd i wella ein dysgu a'n haddysgu.

Does dim syndod bod nifer cynyddol o adnoddau ategol yn defnyddio technoleg i wella profiad dysgu'r myfyrwyr. Mae'r modiwlau addysg gyrfaoedd ar-lein ym Mhrifysgol Aberystwyth (astudiaeth A7) a'r e-fodiwl 'Eich Gyrfa' ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd (astudiaeth CM10) yn dangos sut mae ymwybyddiaeth am gyflogadwyedd a dysgu gyrfaoedd yn gallu cael eu cyflwyno mewn ffordd hygrych ac effeithiol. Yn yr un modd, mae Bwrdd Cyflogadwyedd Prifysgol Caerdydd wedi cefnogi cais i greu adnodd cyflogadwyedd ar-lein (astudiaeth C3).

Mae menter y wefan 'GradSpace' (astudiaeth CM7) yn darparu amrywiaeth o adnoddau dysgu ar-lein a deunyddiau i gefnogi pontio graddedigion o'r brifysgol i'r gweithlu ac mae gwefan Cyflogaeth Ffisiotherapi SOHCS (astudiaeth C5) yn hysbysebu cyfleoedd ac yn cefnogi ceisiadau am swyddi. Adnodd cymuned ar-lein a ddefnyddir i gefnogi dysgwyr i baratoi ar gyfer ac yn ystod lleoliad gwaith yw testun astudiaeth CM8.

Mae technolegau fideogynadledda ar y we yn dod i'r amlwg fel modd i gyflwyno dysgu sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth yn effeithiol fel y dengys astudiaeth CM9.

Yn ogystal â defnyddio technolegau newydd, mae adnoddau fel ffeiriau cyflogaeth (astudiaeth G1) a theithiau astudiaeth maes (astudiaeth SM4) yn parhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygu cyflogadwyedd myfyrwyr.

Yn olaf, mae astudiaeth RLPI yn dangos sut mae Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol wedi meithrin cydweithrediad trwy ardal gyfan, ac yn rhoi modd i ddatblygu nifer o adnoddau sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth yn cynnwys Arsyllfa Dysgu a Sgiliau ac e-borth darpariaeth ddysgu.

Modiwlau addysg gyrfaoedd rhyngweithiol e-ddysgu

(astudiaeth achos A7)

Enw Cyswllt: Siân Furlong-Davies

Ebost: ssd@aber.ac.uk

Ffôn: 01970 622378

Sefydliad: Prifysgol Aberystwyth

Cyfeiriad: Gwasanaeth Gyrfaoedd, Penglais, Aberystwyth SY23 3DB

Geiriau allweddol: gyrfaoedd, addysg gyrfaoedd, cyflogadwyedd, cymwyseddau, CV, ceisiadau.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol y Sefydliad.

Nod:

Cynnig mynediad i fyfyrwyr (a graddedigion) i agweddau ar addysg gyrfaoedd unrhyw bryd ddydd a nos yn ôl yr angen, i ategu darpariaeth addysg gyrfaoedd uniongyrchol sy'n digwydd ym mhob adran, ac yn y ganolog trwy'r Sefydliad. Bod yn adnodd ychwanegol i gefnogi adrannau a thiworiaid yn eu gwaith gyda myfyrwyr ar wella cyflogadwyedd.

Disgrifiad/Dull:

Roedd cyfres o destunau wedi'i chydabod sy'n adlewyrchu hanfodion addysg gyrfaoedd a gyflwynir mewn adrannau academaidd. Wedyn, cynlluniwyd modiwl e-ddysgu ar gyfer pob testun, lle gallai'r myfyrwyr 'ddysgu wrth wneud' yn ôl eu hamserlen eu hunain sy'n gweddu i'w hanghenion unigol. Gan bod hyn ar gael 24 awr y dydd a thrwy gydol y flwyddyn, mae'r dull hwn yn galluogi myfyrwyr i ryngweithio â'r modiwlau hyn ar adegau sy'n gweddu i'w hanghenion, yn hytrach na chael sesiwn bwrpasol yn eu hamserlen academaidd. Mae modiwlau yn cymryd rhwng 30 a 40 munud yr un ac yn caniatâu hyblygrwydd yn y drefn a'r dull mae'r myfyrwyr yn ei ddewis.

Deilliannau a Ragwelir:

Bydd y modiwl yn cynnig dull amgen i gyrchu cyngor a gwybodaeth am yrfaoedd. Drwy ddefnyddio adnoddau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd mewn ffordd sy'n fwy effeithiol i gynhyrchu cyfres ryngweithiol ar-lein, gall myfyrwyr ymgysylltu â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ar adeg sy'n gweddu iddynt a phan fydd gwir angen y cyngor a'r wybodaeth arnynt. Cydnabuwyd bod annog myfyrwyr i weithio trwy fodiwl ar-lein yn hytrach nag eistedd mewn darlith yn gwrandao ar wybodaeth yn offeryn dysgu mwy effeithiol ac yn un y mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn awyddus i'w ddatblygu ymhellach er mwyn gwella ymgysylltiad ac effeithiolrwydd. Mae datblygu cyfres o fodiwlau o'r fath yn rhoi amrywiaeth ehangach o adnoddau amgen i diwtoriaid eu defnyddio gyda'u myfyrwyr i ategu eu gweithgareddau a chynnig cymorth ychwanegol gyda'r portffolio PDP.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae argaeledd adnoddau o'r fath unrhyw adeg ddydd neu nos wedi bod yn werthfawr ac yn fuddiol i fyfyrwyr. Mae gwerthusiad ffurfiol o'u defnydd a'u heffeithiolrwydd yn dal i'w wneud. Mae mantais ychwanegol wedi'i gydnabod yn y gwaith diagnostig sy'n digwydd gyda phob un sy'n defnyddio ein gwasanaeth, wrth i ni wneud defnydd gwell o amser Cyngorwyr Gyrfa a chyfleusterau galw heibio, trwy annog myfyrwyr, trwy'r modiwlau hyn, i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd ar eu pen eu hunain cyn ymgysylltu â gwasanaethau wyneb yn wyneb.

Myfyrdod/effaith:

Agwedd hollbwysig ar waith Cyngorwyr Gyrfa yw annog a chefnogi myfyrwyr a'u galluogi i gael perchnogaeth dros eu datblygiad a'u cynnydd eu hunain. Mae modiwlau e-ddysgu yn ddulliau cadarn i ddatblygu cymwyseddau o'r fath a chefnogi eu dysgu a'u dealltwriaeth.

Eich e-fodiwl Gyrfu – cyflwyno ymwybyddiaeth cyflogadwyedd a dysgu sgiliau datblygiad gyrfu ar-lein ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd

(astudiaeth achos CMI10)

Enw Cyswllt: Anita Norcott
Ebost: anorcott@cardiffmet.ac.uk
Ffôn: 02920 416333
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyfeiriad: Gwasanaethau Datblygiad Gyrfu, Bloc A, Campws Cyncoed, Heol
Cyncoed, Caerdydd CF23 6XD

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, dysgu sgiliau datblygu gyrfu, dysgu cymysg,
e-ddysgu a VLE Blackboard, PDP ac arfer proffesiynol.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol y Sefydliad.

Nod:

Darparu adnodd dysgu ar-lein i fyfyrwyr a staff CMU i gyd sy'n cyflwyno
ymwybyddiaeth cyflogadwyedd a dysgu sgiliau datblygiad gyrfu ar amser a lle maen
nhw'n ei ddewis (a'u hanghenion dysgu) ar sail annibynnol a/neu ddysgu cymysg fel
rhan o'r cwricwlwm.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r e-fodiwl yn cwmpasu cyfres o 13 e-wers ryngweithiol sy'n cyflwyno mwy nag
20 awr o gymorth dysgu. Mae'r Cynghorydd Datblygu Cyflogadwyedd yn darparu
cymorth ymgynghorol i arweinydd rhaglenni/modiwlau i ymgorffori'r e-fodiwl yn y
cwricwlwm. Mae pob e-wers yn cynnwys enghreifftiau a deunyddiau sy'n benodol i'r
ysgol a'r pwnc unigol ac yn unol ag anghenion myfyrwyr a meysydd galwedigaethol
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Maen nhw'n ymdrin â chynllunio eich gyrfu, chwilio
am swydd, profiad gwaith, sgiliau a hunan asesiad, llunio CV, ffurflenni cais, sgiliau
cyfweiliad, canolfannau asesu a hunan gyflogaeth. Mae e-wersi o'r e-fodiwl wedi
cael eu hymgorffori mewn modiwlau PDP craidd ar Lefel 1 a 2 ar draws yr Ysgol
Chwaraeon ers tair blynedd fel rhan o ddull dysgu cymysg. Maen nhw wedi'u
haddasu'n benodol i fyfyrwyr Chwaraeon ac aseswyd y canlyniadau. Yn dilyn y
rhaglen beilot hon, yn 2011-12 mae'r dull dysgu cymysg hwn wedi'i ymgorffori yn
y modiwl Arfer Proffesiynol craidd, a rhaglen mewn lechyd yr Amgylchedd gyda
modiwl craidd Cyflogadwyedd Proffesiynol. Bydd y dull hwn yn cael ei ehangu
ymhellach trwy Brifysgol Fetropolitan Caerdydd yn 2012-13.

Deilliannau a Ragwelir:

- cefnogi dull dysgu cymysg i gyflwyno sgiliau datblygiad gyrfu yn fwy effeithiol na
rhaglen o weithdai traddodiadol o ymyriadau unigol gydag ymgysylltiad amrywiol
y myfyrwyr a chyrraedd dim ond 13% o fyfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
yn 2007;
- sefydlu sianel gyfathrebu fwy effeithiol trwy Brifysgol Fetropolitan Caerdydd
trwy'r plattform VLE, Blackboard;
- darparu cymorth ymgynghorol i staff academiaidd ymgorffori'r e-wersi.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae rhaglen dysgu sgiliau datblygu gyrfu Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
(cyflwynwyd gan Wasanaethau Datblygiad Gyrfu) yn 2010 yn dangos twf iach o
ran presenoldeb myfyrwyr mewn ymyriadau grŵp (cynnydd 27% o'r flwyddyn
ddiwethaf) yng ngholeuni gostyngiad mewn oriau addysg gan staff CDS. Fel rhan
o'r strategaeth ddysgu gymysg, mae mwy o sesiynau addysgu byr wedi'u trefnu i
arddangos yr e-fodiwl i fyfyrwyr a all reoli eu dysgu eu hunain a cheisio cymorth
tiwtoriaid CDS fel bo'n briodol. Er enghraifft, yn yr Ysgol Chwaraeon, mae myfyrwyr
blwyddyn gyntaf yn gwneud o leiaf chwe awr o e-ddysgu ar ddatblygiad gyrfu a
chyflogadwyedd; ac mae myfyrwyr Blwyddyn 2 yn gwneud 12 awr. Mae ystadegau
defnydd o'r e-fodiwl Eich Gyrfu cyffredinol yn dangos bod yr e-wersi wedi'u cyrchu
bron i 30,000 o weithiau gan fyfyrwyr a staff. Yn yr Ysgol Chwaraeon, lle mae'n
orfodol cwblhau 11 e-wers mewn dwy flynedd (rhai o'r e-fodiwl ac wedi addasu i'r
Ysgol, ac eraill wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer y modiwlau PDP), roedd 146,000
o drawiadau ym Mlwyddyn 1 (yn cynnwys pum e-wers sgiliau academiaidd) a mwy
na 100,000 ym Mlwyddyn 2. Er nad oes gan yr ystadegau fawr o ystyr ynddyn nhw
eu hunain, maen nhw'n rhoi tystiolaeth gyffredinol am y defnydd. Mae patrymau
defnydd y gwahanol e-wersi yn cael eu monitro bob mis.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r e-fodiwl wedi cefnogi nod allweddol strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu
(2007-11) Prifysgol Fetropolitan Caerdydd trwy gefnogi dysgwyr i ddatblygu'n
'ddysgwyr gweithredol, annibynnol' ac i gynyddu'r defnydd o dechnolegau newydd.
Mae gwerthusiad ansoddol ar ymgysylltiad â'r cynnwys a chyflawni deilliannau dysgu
wedi'i wneud, er enghraifft trwy ddadansoddi e-bortffolia PDP myfyrwyr Blwyddyn
1 a 2 yr Ysgol Chwaraeon, lle mae allbwn yr e-wersi yn cael eu llwytho. Mae hyn
yn dangos lefel uchel iawn o ymgysylltiad â'r e-wersi a chyflawni'r amcanion dysgu.
Mae gwerthuso arall yn yr Ysgol Chwaraeon wedi rhoi adborth positif gan staff
academaidd ar ddysgu'r myfyrwyr o'r e-wersi a sut mae hyn wedi'i arddangos yng
nghynnwys portffolia myfyrwyr ac yn ystod eu cyflwyniadau a asesir ar 'Fy hunan
a'm gyrfu broffesiynol yn y dyfodol'. Hefyd, mae adborth sylweddol positif (a
gwirfoddol) gan fyfyrwyr ar yr e-wersi wedi'i gydnabod yn eu cofnodion myfyriol
yn yr e-bortffoliau. Bydd y prosesau gwerthuso a'r methodolegau a ddefnyddiwyd
yn rhaglen beilot yr Ysgol Chwaraeon yn cael eu defnyddio ar gyfer y Dyniaethau,
Astudiaethau Addysg ac Iechyd yr Amgylchedd yn 2011-12.

Adnodd cyflogadwyedd ar-lein

(astudiaeth achos C3)

Enw Cyswilt: Megan Jenkins

Ebost: jenkinsm@cf.ac.uk

Ffôn: 02920 874828

Sefydliad: Prifysgol Caerdydd

Cyfeiriad: Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, 5 Heol Corbett,
Caerdydd CF10 3EB

Geiriau allweddol: cyflogadwyedd, sgiliau, gwefan, adnodd ar-lein.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Mae Strategaeth Sgiliau Cyflogadwyedd a Menter Prifysgol Caerdydd wedi'i chymeradwyo gan Bwyllgor Strategaeth Academaidd y Brifysgol, y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, a'r Pwyllgor Arloesedd ac Ymgysylltiad. Mae Bwrdd Cyflogadwyedd wedi'i sefydlu, a gadeirir gan PVC ar gyfer Ymgysylltiad i sicrhau gweithrediad y Strategaeth Sgiliau Cyflogadwyedd a Menter. Yn ei gyfarfod cyntaf, cymeradwywyd y cynnig i sefydlu adnodd cyflogadwyedd ar-lein. Mae cynlluniau yn mynd rhagddynt bellach i greu hyn yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Nod:

Mae'r adnodd ar-lein ar gyfer pum cynulleidfa ac wedi'i gynllunio i gynnwys cymaint o elfennau ar y Strategaeth â phosibl. Bydd modd ei gyrchu o sawl man ar wefan y Brifysgol – hafan y Brifysgol, gwefannau ysgolion a Dysgu Canolog Caerdydd ac eraill.

Amcanion yr adnodd yw:

- hyrwyddo cyflogadwyedd i fyfyrwyr, graddedigion ac ôl-raddedigion Prifysgol Caerdydd;
- darparu gwybodaeth a gweithgareddau rhyngweithiol i fyfyrwyr, graddedigion ac ôl-raddedigion i helpu i ddewis gyrfa a chyflwyno cyflogadwyedd;
- rhoi gwybodaeth ac adnoddau i staff Prifysgol Caerdydd i'w galluogi i ennill dealltwriaeth am gyflogadwyedd a rhannu'r wybodaeth hon gyda'u myfyrwyr;
- darparu gwybodaeth ac adnoddau rhyngweithiol i gyflogwyr, darpar fyfyrwyr a budd-ddeiliaid allanol am weithgareddau cyflogadwyedd ym Mhrifysgol Caerdydd;
- hyrwyddo ac arddangos ystadegau DLHE i raddedigion Prifysgol Caerdydd mewn modd cynhwysfawr er mwyn hysbysu myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr, staff a chyflogwyr.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r strategaeth yn amlinellu diffiniad Prifysgol Caerdydd o gyflogadwyedd, sef: "Set o briodoleddau, sgiliau a gwybodaeth y dylai pob cyfranogwr y farchnad lafur feddu arnynt i sicrhau eu bod yn effeithiol yn y gweithle – er budd eu hunain, eu cyflogwr a'r economi ehangach" (Future Fit: Preparing Graduates for the World of Work). Mae priodoleddau cytûn graddedigion Strategaeth Sgiliau Cyflogadwyedd a Menter Prifysgol Caerdydd yn cynnwys:

- hunan reolaeth;
- gwaith tîm;
- ymwybyddiaeth am fusnes a chwsmeriaid;
- datrys problemau;
- cyfathrebu a llythrennedd;
- cymhwyso rhifedd;
- cymhwyso technoleg gwybodaeth.

Deilliannau a Ragwelir:

Bydd cyflogadwyedd yn cael ei hyrwyddo i'n pum cynulleidfa a ddymunir. Caiff staff academaidd adnodd ar-lein hollol hyblyg i'w gyflwyno i'w myfyrwyr a'i ddefnyddio mewn sesiynau tiwtora personol. Bydd darpar fyfyrwyr yn cael gwybodaeth hanfodol i benderfynu pa un a ydynt am ymgeisio i Brifysgol Caerdydd ai peidio.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r adnodd hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a'r nod yw ceisio adborth gan fyfyrwyr trwy gynnal grwpiau ffocws a monitro defnydd o'r we.

Myfyrdod/effaith:

Caiff ei drafod pan fydd y prosiect wedi'i sefydlu.

GradSpace: cefnogi pontio a dysgu gydol oes graddedigion Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

(astudiaeth achos CM7)

Enw Cyswllt: Loretta Newman-Ford
Ebost: lnewman-ford@cardiffmet.ac.uk
Ffôn: 02920 205745
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyfeiriad: Datblygu Dysgu ac Addysgu, T008, Campws Llandaf, Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB

Geiriau allweddol: ymgysylltiad â chyn-fyfyrwyr, dysgu gydol oes, pontio, cyflogadwyedd.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol y Sefydliad.

Nod:

Drwy gyllido gan y Pwyllgor Systemau Gwybodaeth ar y Cyd (JISC), mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi datblygu amgylchedd dysgu ar-lein i'w alwmni yn defnyddio Moodle. Caiff defnyddwyr cofrestredig gyrchu adnoddau a deunyddiau sydd wedi'u cynllunio i helpu graddedigion i symud i'r gweithlu a datblygiad dysgu gydol oes trwy ddysgu annibynnol a dysgu trwy brofiad. Hefyd, caiff pob defnyddiwr le dysgu personol lle maen nhw'n cael eu hannog i gofnodi eu hymatebion i dasgau neu weithgareddau dysgu, cynnal cofnodion myfyriol am eu datblygiad personol a phroffesiynol, cydweithio a rhydwethio â'u cyd-alwmni, datblygu CV a chreu cynlluniau gweithredu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

Disgrifiad/Dull:

Mae symud o addysg uwch i gyflogaeth fel graddedigion yn cael ei ystyried yn anodd iawn (e.e. Arnold, 1984; Arnold and Mackenzie Davey, 1992; Heinz, 1999) gan bod graddedigion newydd yn wynebu llawer iawn i ddysgu wrth geisio sefydlu eu hunain yn y gweithle. Mae twf addysg uwch yn y ddau ddegawd diwethaf wedi creu mwy o raddedigion, ac felly mae mwy o gystadlu ar gyfer swyddi lefel graddedig. Yn y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i'r dirywiad economaidd, mae anawsterau wrth geisio cael swydd wedi gwaethgu. Er mwyn sefyll uwchben y gystadleuaeth, rhaid i raddedigion heddiw ddangos eu bod yn barod ar gyfer y gweithle, o ran sgiliau cyflogadwyedd cryfach, cymwysterau ychwanegol, mentergarwch a diwydrwydd. Ond mae dal anghysondeb ar draws rhaglenni academiaidd yn y cymorth, hyfforddiant a chyfleoedd a gynigir i ddysgwyr i wella'r sgiliau a'r rhinweddau hyn. Gyda dyledion i'w had-dalu, bydd cyllido astudio pellach neu waith gwirfoddol heb dâl yn codi ofn ar raddedigion.

Mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi dod yn fwyfwy gweithredol yn datblygu gweithlu, ac mae cyfleoedd newydd er budd y Brifysgol a'i alwmni wedi'u cydnabod. Ym mis Rhagfyr 2010, cyflwynodd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd gais i JISC i ddatblygu amgylchedd dysgu proffesiynol ar-lein o'r enw 'GradSpace', sy'n ceisio cefnogi alwmni i bontio'r bwlch o'r brifysgol i'r byd gwaith, a'u datblygiad proffesiynol gydol oes trwy ddysgu annibynnol a thrwy brofiad, ailymgysylltiad ffurfiol â darpariaeth Prifysgol neu gyfuniad o'r ddau.

Mae GradSpace yn blatfform o le y caiff alwmni Prifysgol Fetropolitan Caerdydd gyrchu:

- e-bortffolio ar gyfer cynllunio gweithredu, cofnodi cyflawniadau, cynnal cofnodion myfyriol a gwaith sydd ar y gweill;
- gwrthrychau dysgu hwylus sy'n ymwneud â'r materion, sialensiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â phontio'r bwlch i'r byd gwaith;
- deunyddiau ac adnoddau sy'n gysylltiedig â'r ddisgyblaeth;
- offer sy'n helpu dysgwyr a chyflogwyr i ddeall fframwaith y Brifysgol ar gyfer achredu arfer proffesiynol uwch;
- offer rhwydweithio cymdeithasol sy'n hwyluso cymorth cyfoedion a mentoriaid ar gyfer dysgu annibynnol, cydweithrediad, a dysgu trwy brofiad a helpu i adeiladu cymunedau arfer proffesiynol.

Dewiswyd Moodle fel platfform i adeiladu'r man ar-lein gan mai meddalwedd ffynhonnell agored yw hi, sy'n golygu ei bod am ddim a chaiff defnyddwyr gofrestru â'r adnodd eu hunain. Mae hyn yn cwtdogi ar ofynion gweinyddol a'r angen i gofrestru nifer mawr o ddefnyddwyr â llaw. I ddechrau, defnyddiwyd Adnoddau Addysgiadol Agored ar y wefan. Ond, mae'r Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu (LTDU) yn gweithio gyda staff academiaidd trwy Brifysgol Fetropolitan Caerdydd i ddatblygu gwrthrychau dysgu sy'n gysylltiedig â disgyblaethau gwahanol sy'n annibynnol ac sy'n ffurfio llinell sylfaen ar gyfer cyfleoedd CPD parhaol. Mae hyn yn golygu aildefnyddio cynnwys lefel ôl-raddedig yn wrthrychau dysgu byr am ddim, a chaiff y rhain eu llwytho i GradSpace a'u rhannu gyda'r alwmni. Drwy ddefnyddio'r e-bortffolio i gofnodi eu dysgu a'u dilyniant yn unol â deilliannau a safonau penodol, caiff defnyddwyr gyfle i dalu ffi un tro i gyflwyno'r dystiolaeth hon ar gyfer achrediad.

Deilliannau a Ragwelir:

Rhagwelir y bydd GradSpace yn:

- helpu graddedigion Prifysgol Fetropolitan Caerdydd i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd cryfach a'u paratoi ar gyfer gofynion y gweithle;
- gwella perfformiad proffesiynol a hyder alwmni yn y gweithle;
- hyrwyddo dysgu gydol oes defnyddwyr GradSpace;
- arwain at e-ymgysylltiad gwell gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd trwy astudiaethau pellach wrth i alwmni fagu hyder yn gweithio ar Lefel 7 ac uwch a gwneud arbedion ariannol trwy ddefnyddio offer ac adnoddau am ddim.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae adborth cychwynnol gan ddefnyddwyr yn dangos bod alwmi yn meddwl bod GradSpace yn fan astudio ar-lein defnyddiol lle caiff defnyddwyr:

- ddatblygu sgiliau proffesiynol a chyflogadwyedd i baratoi ar gyfer y gweithle;
- cyrchu help i ganfod a sicrhau cyflogaeth ar ôl graddio trwy wella eu dealltwriaeth ar gyfweiliadau, creu argraff a chontractau cyflogaeth;
- defnyddio adnoddau a gynlluniwyd i gefnogi pontio'r bwch i'r gwaith a'u helpu i addasu i'w rolau newydd fel graddedigion yn fwy effeithiol;
- ymgysylltu â datblygiad proffesiynol trwy hunan fyfyrio a dysgu trwy brofiad a gweithredoedd;
- cydweithio â ffrindiau a myfyrwyr eraill;
- cofnodi cyflawniadau unigol, dysgu a datblygiad proffesiynol trwy ddefnyddio'r manau dysgu personol, a gellir dangos y rhain i ddarpar gyflogwyr fel tystiolaeth.

Myfyrdod/effaith:

Heb fod ar gael eto gan mai menter ddiweddar yw GradSpace.

SOHCS Gwefan Cyflogaeth Ffisiotherapi

(astudiaeth achos C5)

Enw Cyswllt: Elizabeth Evans

Ebost: evansem1@cf.ac.uk

Ffôn: 02920 687693

Sefydliad: Prifysgol Caerdydd

Cyfeiriad: Adran Ffisiotherapi, SOHCS, Campws Parc y Waun, Caerdydd
CF14 4XN

Geiriau allweddol: hysbysiadau swyddi gwag, cymorth ymgeisio am gyflogaeth, cyflogaeth GIG Cymru, platform CPD.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy un adran academiaidd.

Nod:

Nod y wefan yw rhoi gwybodaeth i raddedigion newydd am gyfleoedd gwaith perthnasol a hysbysu defnyddwyr am gyrsiau ôlraddedig a chyfleoedd dysgu.

Disgrifiad/Dull:

Roedd yr Adran Ffisiotherapi, yr Ysgol Astudiaethau Gofal Iechyd ym Mhrifysgol Caerdydd wedi cael cyllid cychwynnol gan NLIAH i gynllunio a sefydlu system rhybudd gynnar am gyflogaeth i ffisiotherapyddion graddedig sy'n chwilio am eu swydd Band 5 gyntaf yn y GIG. Mae'r system ar ffurf gwefan sy'n rhoi rhybudd gynnar am unrhyw gyfleoedd gwaith sydd ar ddod yng Nghymru ac mae hefyd yn cyflwyno amrywiaeth o adnoddau i gefnogi graddedigion wrth baratoi eu ceisiadau am swyddi. Lanswyd y wefan yn swyddogol ym mis Tachwedd 2009 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd gwefan PhysioJobsWales wedi'i chreu i gefnogi graddedigion Ffisiotherapi Cymru sydd eisieu gweithio yng Nghymru. Yn ogystal â darparu system rhybudd gynnar am swyddi gwag, mae cofrestru ar y wefan yn rhoi mynediad i gyngor ar geisio am swyddi a'r newyddion diweddaraf ar y GIG yng Nghymru, a gwybodaeth ddefnyddiol arall ar gyfer paratoi datganiad ar gyfer cais a chyfweiliad. Defnyddir negeseuon testun i sicrhau bod y rhybudd gynharaf posibl ar gael ar y swyddi gwag diweddaraf yng Nghymru. Wirth i swyddi newydd ddod i'r amlwg trwy wybodaeth a ddarperir gan reolwyr byrddau iechyd lleol, neu gan wefan swyddi'r GIG, mae neges destun yn cael ei hanfon at ffonau symudol pob defnyddiwr. Mae'r neges yn dangos teitl y swydd a disgrifiad swydd cryno, ac yn galluogi defnyddwyr i gael cymaint o amser â phosibl i baratoi a chyflwyno eu cais. Mae'r dudalen 'Newsflash' yn amlygu swyddi gwag newydd ac mae hefyd yn hysbysu defnyddwyr am gyrsiau a chyfleoedd dysgu perthnasol. Fel ffynhonnell gwybodaeth, mae'r tudalennau amrywiol yn ymwneud â phynciau fel llunio CV a pharatoi ar gyfer cyfweiliad. Mae adran ar strwythur GIG Cymru ac adran ar wahân ar bob bwrdd iechyd lleol. Mae graddedigion wedi cyfrannu ac gynllunio y wefan er mwyn iddi fodloni eu hanghenion. Hefyd, mae defnyddwyr yn cyflwyno adborth i'r wefan ar eu profiadau o ymgeisio am swyddi a chyfweiliadau. Mae hyn yn rhoi cyfarwyddyd parod ar reoli'r broses orau.

Deilliannau a Ragwelir:

Mae'r wefan eisoes yn cefnogi graddedigion wrth iddynt geisio am gyflogaeth. Mae'n datblygu'n ddull effeithiol i gynnal cyfathrebiadau gydag alwmni. Mae'n darparu plattform lle bydd cyfleoedd CPD cynyddol yn parhau i ddatblygu; gallai hyn gynnwys labordai sgiliau gwe pwrpasol. Rhagwelir y bydd cynllun y wefan yn cael ei fabwysiadu gan raglenni gradd gofal iechyd eraill, yn enwedig yn yr Ysgol Astudiaethau Gofal Iechyd.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae ystadegau gwefan yn dangos bod y wefan wedi cael 5,515 o ymweliadau gan 1,117 o ymwelwyr unigryw a 26,662 o ymweliadau tudalen. Mae'r gyfradd bownsio yn isel - dim ond 24.93% - ac mae defnyddwyr yn treulio 6:51 munud ar y wefan ar gyfartaledd. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o ymwelwyr tro cyntaf yn defnyddio'r wefan a bod ein buddsoddiad mewn diweddariadau parhaus yn werth ei wneud ac yn diwallu anghenion defnyddwyr. Ar ben hynny, mae'r Brifysgol a'r Adran yn elwa ar farchnata byd-eang am ddim gan bod tystiolaeth yn dangos bod 54% o ddefnyddwyr yn dod o hyd i'r wefan trwy beiriannau chwilio a gwefannau cyfeirio eraill. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys Facebook, sy'n nodi bod marchnata yn lledu'n organig trwy'r gymuned ac yn cael ei rannu gyda chymuned arbenigol. Felly, mae gan y wefan beiriant optimeiddio chwiliad pwrpasol. Mae adborth gan ddefnyddwyr yn dangos bod 100% o ymatebwyr yn meddwl bod pob agwedd ar y wefan yn dda neu'n dda iawn. Er iddo gael ei ddisgrifio fel gwasanaeth ardderchog, maen nhw'n awgrymu gwelliannau i'r cyfleuster tecstio. Mae sylwadau defnyddwyr yn cynnwys: "Adnodd ardderchog; gwerthfawr iawn" a "Mae'r gwasanaeth tecstio yn ardderchog... mae wedi fy helpu i ysgrifennu fy natganiad personol mewn da bryd i wneud cais. Hefyd, mae'n ddefnyddiol derbyn y neges destun yn gynnar yn y bore felly dydych chi ddim yn mynd allan cyn i'r swydd gael ei hysbysebu."

Myfyrdod/effaith:

Bellach, mae'r prosiect yn cael ei reoli heb gyllid. Mae nifer o raddedigion wedi cyfrannu at reoli'r wefan, sydd wedi galluogi parhad y gwasanaeth. Hefyd, mae wedi sicrhau bod datblygiad parhaus y wefan yn cael ei yrru gan y bobl sy'n elwa arni. Mae cyllid pellach wedi'i geisio i sicrhau bod y buddsoddiad a wnaed wrth sefydlu'r wefan yn cael ei ddiogelu, a bod y gwasanaeth mae graddedigion yn dibynnu arno bellach yn parhau, i sicrhau bod Cymru yn cadw'r clinigwyr gorau er budd ei phoblogaeth. Gallai'r model hwn o gefnogi cyflogaeth yng Nghymru gael ei gynnig i grwpiau proffesiynol eraill.

Rhwydwaith Brwd am Fwyd Ar-lein Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

(astudiaeth achos CM8)

Enw Cyswllt: Loretta Newman-Ford

Ebost: lnewman-ford@cardiffmet.ac.uk

Ffôn: 02920 205745

Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Cyfeiriad: Datblygu Dysgu ac Addysgu, T008, Campws Llandaf, Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YB

Geiriau allweddol: cymuned ar-lein, dysgu seiliedig ar waith, cyflogadwyedd, ymgysylltiad â chyflogwyr; rheoli disgwyliadau dysgwyr.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy un dyfarniad.

Nod:

Amcan Rhwydwaith Brwd am Fwyd Ar-lein Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yw paratoi myfyrwyr ar gyfer gofynion y gweithle, o ran eu disgwyliadau am y sector bwyd, a'u sgiliau proffesiynol/cyflogadwyedd trwy wella mynediad dysgwyr i gymorth cyfoedion, tiwtoriaid a phroffesiynolion/cyflogwyr. Nod arall y Rhwydwaith yw:

- llonyddu ofnau myfyrwyr am leoliadau diwydiant sy'n agosáu;
- darparu mynediad i'r myfyrwyr i unigolion profiadol iawn ym maes technoleg fwyd, sy'n gallu cynnig cyngor a chyfarwyddyd proffesiynol, hyrwyddo disgwyliadau positif a realistig am gyflogaeth yn y diwydiant bwyd, a chodi ymwybyddiaeth am sgiliau allweddol a galluoedd sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn y gweithle;
- hwyluso mentora gan gyfoedion;
- ymgysylltu â chyflogwyr a chryfhau cysylltiadau gydag arbenigwyr yn y diwydiant;
- helpu myfyrwyr i adnabod cyfleoedd lleoliad gwaith addas a swyddi i raddedigion;
- rhoi mynediad i ddysgwyr i ddeunyddiau ar-lein sy'n cefnogi datblygiad sgiliau academiaidd a phroffesiynol a helpu unigolion i symud i'r byd gwaith yn ddidrafferth.

Disgrifiad/Dull:

Mae Canolfan Diwydiant Bwyd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn cynnig rhaglenni galwedigaethol yn bennaf sy'n gysylltiedig â thechnolegau bwyd. Felly, bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y Ganolfan yn gwneud cyfnod o ddysgu seiliedig ar waith yn

y sector bwyd rhywbryd yn ystod eu rhaglen academaidd. Hefyd, mae'r Ganolfan wedi datblygu Gradd Sylfaen mewn Gwyddor Bwyd yn ddiweddar. Mae cyfleoedd cynyddol i fyfyrwyr ddysgu trwy waith a datblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n gysylltiedig â gwaith yn brif amcan Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu y Sefydliad. Ond roedd yr arolwg Student Withdrawal a gynhaliwyd yn 2009 yn dangos bod llawer iawn o'r myfyrwyr a adawodd wedi bod yn astudio rhaglenni galwedigaethol. Roedd angen mwy o baratoi ar y myfyrwyr hyn ar gyfer yr elfen seiliedig ar waith o'u cyrsiau; yn gyntaf, o safbwynt eu disgwyliadau a'u canfyddiadau am y diwydiant, ac yn ail oherwydd diffyg galluoedd angenrheidiol ar gyfer y gweithle, ac roedd hynny'n creu anhawster wrth geisio gwneud tasgau yn y gwaith. Er mwyn newid cyflwyno addysg o'r cyd-destun addysg uwch traddodiadol i'r gweithle, a'r cyfrifoldeb dros ddysgu i'r unigolyn, roedd rhaid i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd ddatblygu ffurfiau eraill ar gymorth myfyrwyr: Felly, crëwyd rhwydwaith ar-lein i alluogi myfyrwyr i gyrchu cymorth cyn y lleoliad ac yn ystod eu dysgu seiliedig ar waith.

Gofynnwyd i fyfyrwyr yn y Ganolfan Diwydiant Bwyd gwblhau arolwg i gydnabod pa adnoddau a nodweddion fydd eu hangen. Roedd adborth yn dangos bod consensws ymhlith ymatebwyr y dylai'r Rhwydwaith gynnwys y canlynol: fforwm trafod, hysbyswrdd, blog lle byddai cyflogwyr yn y diwydiant bwyd yn rhoi diweddariadau a chynghor am y sector), cyfleoedd lleoliadau gwaith, cyfleoedd i raddedigion, sgiliau astudio ac adnoddau cyflogadwyedd, dolenni i wefannau defnyddiol a chalendr digwyddiadau. Dewiswyd yr offer yn wiki addysgiadol, Wetpaint, fel y platfform i greu Rhwydwaith Brwd am Fwyd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd oherwydd:

- iddo gael ei ddefnyddio'n llwyddiannus ar gyfer Cymdeithas Myfyrwyr Hŷn ar-lein;
- doedd dim angen i'r defnyddwyr gael cyfrifon Prifysgol Fetropolitan Caerdydd byw, ac felly gallai graddedigion a chyflogwyr gofrestru a chymryd rhan;
- roedd yn hawdd ei sefydlu a'i ddefnyddio.

Cafodd holl fyfyrwyr cyfredol Canolfan y Diwydiant Bwyd e-bost a gwahoddiad i gofrestru gyda'r Rhwydwaith. Wedyn, roedd gofyn iddynt rannu gwybodaeth amdany'n nhw eu hunain, eu profiadau dysgu a chyflogaeth, gofyn cwestiynau i'w gilydd ac ymgysylltu mewn trafodaeth am faterion personol, academaidd a chyflogadwyedd. Roedd pryderon y gallai myfyrwyr ddatgelu gwybodaeth negyddol neu gyfrinachol am ddarparwyr lleoliadau gwaith trwy'r Rhwydwaith (fel ryseitiai, cyfrinachau'r grefft ac ati). Ond er mwyn atal hynny, cafodd y myfyrwyr yr un rheolau sylfaenol yn gosod ffiniau clir ar destunau a allai gael eu hystyried yn amhriodol i'w trafod yn gyhoeddus. Roedd cyflogwyr lleol a darparwyr dysgu seiliedig ar waith wedi cael eu cymell i ymuno â'r Rhwydwaith i ddatblygu blogiau diwydiant yn amlinellu materion cyfredol y sector a diweddariadau, i gymryd rhan mewn trafodaethau gyda myfyrwyr, hysbysebu lleoliadau gwaith a chyfleoedd i raddedigion, a chynghori myfyrwyr ar y sgiliau a'r rhinweddau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn graddedigion. Roedd Adnoddau Addysgiadol Agored, fel y rhai a ddatblygwyd gan y prosiect TELSTAR a ariannwyd gan JISC, wedi'u llwytho i'r wiki dan tab o'r enw 'adnoddau cyflogadwyedd a sgiliau astudio'. Roedd y rhain yn cynnwys testunau fel: dulliau dysgu, cydbwysedd bywyd a gwaith, straen, cymhelliant yn y gwaith a hunan fyfyrwyr. Roedd myfyrwyr yn gallu defnyddio'r adnoddau i'w helpu i ddatblygu sgiliau a galluoedd proffesiynol a throsglwyddadwy i'w paratoi am eu lleoliad gwaith, neu yn ystod eu lleoliad gwaith, yn ogystal â'u cefnogi yn symud i mewn i'r byd gwaith.

Deilliannau a Ragwelir:

Rhagwelir y bydd y rhwydwaith ar-lein yn cyfrannu at:

- welliannau o ran cyflogadwyedd myfyrwyr;
- cyfraddau cadw gwell;
- hyrwyddo disgwyliadau mwy positif a phrofiadau sy'n gysylltiedig â lleoliadau gwaith.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Roedd y Rhwydwaith Ar-lein wedi tyfu'n araf o ran cofrestru a chyfranogiad. Gallai hynny fod oherwydd amseriad ei ddatblygiad. Cafodd myfyrwyr eu gwahodd i ymuno â'r wiki ym mis Tachwedd 2010, yn agos i ddiwedd y tymor ac yn dilyn cyfnod prysur pan oedd dyddiadau cyflwyno ar gyfer sawl asesiad. Anfonwyd e-byst dilynol ar ddechrau'r tymor dilynol, ond nid oedd hyn yn ddelfrydol chwaith oherwydd bod dysgwyr yn gwneud arholiadau ar y pryd. Mae cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i roi cyflwyniad ffurfiol ar y wiki ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf er mwyn annog cyfranogiad gwell ac ymgorffori'r adnodd mewn prosesau yn y cwricwlwm ac yn allgyrsiol. Mae adborth eisoes yn dangos bod myfyrwyr yn meddwl bod y Rhwydwaith yn gyfle ardderchog i egluro materion o bwys neu bryderon sydd ganddynt am leoliadau gwaith sydd ar ddod, ac maen nhw'n ei weld fel adnodd cynhwysfawr lle maen nhw'n cael cyrchu cyngor cyflogadwyedd, deunyddiau dysgu, gweld hysbysebion lleoliadau gwaith addas a'i ddefnyddio fel platfform i gyfathrebu â dysgwyr eraill tra eu bod yn dysgu yn gweithle.

Mae'r Rhwydwaith wedi codi proffil Canolfan y Diwydiant Bwyd gyda chyflogwyr lleol. Bydd datblygu a chryfhau cysylltiadau gyda chyflogwyr yn arwain at recriwtio cynyddol o fyfyrwyr a graddedigion Prifysgol Fetropolitan Caerdydd trwy ysgogi galw gan gyflogwyr ar gyfer dysgu lefel uchel. Bydd deilliannau gwirioneddol, yn cynnwys dadansoddi cyfradd gadw, bodlonrwydd myfyrwyr, ymgysylltiad a hyder, yn cael eu darganfod ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2011-12, unwaith mae'r adnodd wedi bod yn weithredol am flwyddyn academaidd gyfan.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r Rhwydwaith Dysgu Seiliedig ar Waith Ar-lein yn gerbyd ar gyfer mentora a chydweithrediad cyfoedion, ac wrth i ddysgu ddod yn fwyfwy hyblyg ac yn cael ei gyflwyno o bell yn rhannol neu'n gyfan gwbl, daw'n bwysicach fyth i atal arwahanrwydd, a wneud i fyfyrwyr adael cyn gorffen. Hyd yn oed pan roddir gwybodaeth hyfforddi mewn fformat lle bydd yr unigol yn gweithio arno ar ei liwt ei hun, mae dal angen pobl i gymell ac annog dysgwyr seiliedig ar waith. Gall cymorth academaidd a chymdeithasol fod yn fwy defnyddiol o lawer pan ddaw gan rywun arall sy'n deall y materion dan sylw a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â dysgu seiliedig ar waith a dysgu o bell. Bellach, caiff myfyrwyr yng Nghanolfan y Diwydiant Bwyd ymgysylltu mewn trafodaethau â chyflogwyr a chael cyngor sy'n benodol i'w diwydiant ar destunau fel sgiliau, dod o hyd i leoliadau gwaith a chyfleoedd gyrfa. Mae hefyd yn bwysig iawn paratoi myfyrwyr ar gyfer y gweithle. Mae ymchwil sefydliadol yn dangos bod gan rai myfyrwyr ddisgwyliadau afrealistig am y diwydiant neu eu dewis yrfa, ac mae hynny'n gwneud i rai myfyrwyr golli cymhelliant ac felly'n gadael eu rhaglenni cyn gorffen. Bydd rheoli disgwyliadau yn fwy gofalus yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau seiliedig ar waith positif, yn seiliedig ar ddisgwyliadau realistig.

Mae adeiladu cymunedau dysgu fel hyn yn gallu helpu i annog dysgu proffesiynol a dysgu gydol oes, ac felly'n cyfrannu at flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu sgiliau lefel uwch.

Fideogynadledda ar y we i hyrwyddo cyfleoedd dysgu hyblyg mewn Technoleg Ddeintyddol

(astudiaeth achos CM9)

Enw Cyswllt: Jeff Lewis
Ebost: JLewis@cardiffmet.ac.uk
Ffôn: 02920 416899
Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Cyfeiriad: Technoleg Ddeintyddol, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Campws
Llandaf, Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF52YB

Geiriau allweddol: gradd sylfaen, dysgu seiliedig ar waith, dysgu trwy dechnoleg.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Yn gyntaf trwy Gymrodoriaeth Addysgu Prifysgol Fetropolitan Caerdydd ac wedyn yn cael ei ddatblygu fel ffrwd mewn prosiect JISC TEL.

Nod:

Drwy dechnolegau fideogynadledda ar y we, y nod oedd darparu Gradd Sylfaen ran-amser mewn Technoleg Ddeintyddol i alluogi pobl sy'n gweithio mewn labordai deintyddol i ennill cymhwyster a gydnabyddir.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r Radd Sylfaen ran-amser mewn Technoleg Ddeintyddol ar gael fel gradd ar y campws neu radd dysgu cymysg i fyfyrwyr o bell. Er mwyn lleihau nifer sy'n mynychu Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a chynnal safon, lefel ac ansawdd y profiad dysgu a gynigir, mae darlithoedd, seminarau ac arddangosiadau yn cael eu cynnal yn defnyddio technolegau fideogynadledda ar y we. Mae hyn yn golygu bod myfyrwyr yn cael dysgu tra eu bod yn eu gweithle, yn cwblhau'n union yr un asesiad a gwaith ymarferol â myfyrwyr ar y patrwm mynychu llawn traddodiadol. Mae'r cyfleuster fideogynadledda yn rhoi cyfle i gyfathrebu wyneb yn wyneb â'r darlithydd a myfyrwyr eraill, sy'n galluogi cydweithrediad unigol a grŵp. Mae'r sesiynau i gyd yn cael eu cofnodi a'u gosod ar VLE y Brifysgol, sy'n rhoi modd i'r myfyrwyr edrych ar sgiliau, trafodaethau ac adnoddau ar gyfer adolygu.

Deilliannau a Ragwelir:

Ni fyddai myfyrwyr sy'n derbyn yr addysgu yn y dull hwn yn cael unrhyw anfantais yn eu profiad dysgu. Mae sgoriau mewn arholiadau ysgrifenedig, aseiniadau ysgrifenedig a gweithgareddau ymarferol yn dangos bod y grŵp hwn wedi perfformio'n well yn gyffredinol na charfannau blaenorol a addysgwyd yn y dull traddodiadol. Rydym yn gwybod wrth gwrs y gallai hyn fod wedi digwydd y tro hwn, waeth beth fo'r dull cyflwyno, ond mae'n gyd-ddigwyddiad diddorol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Yn ogystal â gwerthusiadau modiwl a gynhelir ynglŷn â chynnwys ac ardull gyflwyno, trefnwyd fforwm diwedd blwyddyn lle gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â thri prif beth, sef:

1. agwedd y myfyrwyr i'r system;
2. eu sail gwybodaeth flaenorol;
3. y dechnoleg a ddefnyddiwyd.

Agwedd y myfyrwyr i'r system: Roedden nhw'n teimlo'n hapusach bellach ac yn hyderus yn y system bod sesiynau rheolaidd wedi'u sefydlu. Roeddent wedi lleisio pryderon am orymylu yn y modiwlau; ond byddai modiwlau bob amser yn cael eu haddysgu ar y cyd, a rhaid i fyfyrwyr ymdopi â'r sefyllfa honno.

Eu sail gwybodaeth: Roedden nhw i gyd yn teimlo eu bod yn gwybod mwy am y modiwlau a astudiwyd (e.e. Deunyddiau Deintyddol, Technegau Cychwynnol ac Anatomeg Ddeintyddol). Nodant fod darlithoedd a gyflwynwyd wedi ategu nodiadau gydag anecdotau, delweddau pellach a PowerPoint. Ond roedd teimlad bod y darlithoedd Deunyddiau Deintyddol traddodiadol yn 'mynd trwy'r nodiadau' a dyna ni. Roedd rhai yn teimlo nad oedd Deunyddiau Deintyddol yn dechrau ar lefel digon isel, a byddent eisiau geirfa neu esboniad mewn termau 'cyffredin' ar gyfer geiriau neu ymadroddion newydd. Roeddent yn hoffi'r cwestiynau hunan asesu yn y nodiadau Dannedd Gosod Cyflawn a byddent yn hoffi cael mwy o hyn os yn bosib: "Fe wnaeth i mi feddwl am beth roeddent wedi'i ddarllen, yn lle jyst ei ddarllen e."

Y dechnoleg: Ni chafodd unrhyw fyfyrwr broblemau yn defnyddio'r dechnoleg, ac roeddent yn gyfforddus yn yr amgylchedd 'rithwir'. Roedd un yn hoffi bod wrth y cyfrifiadur yn hytrach na bod mewn theatr ddarlith draddodiadol o fwy na 40 o fyfyrwyr. Roeddent yn dweud eu bod yn dysgu mwy o'r dull hwn o ddarlith yn hytrach na'r system draddodiadol. Roeddent wedi bod yn defnyddio hen ystafell gyfarfod i gwrdd heb i'r staff wybod ar gyfer sesiynau adolygu, er mai dim ond y cyfleuster sgwrsio oedd ar gael iddynt. Roedd angen ystafell arnynt i gwrdd i drafod materion o bwys, darlithoedd ac ati ar amserau a dyddiadau penodol. Byddai hynny'n gwneud y cyflogwr yn fwy tebygol o'u rhyddhau am y cyfnod hwnnw. Roeddent yn dweud hefyd fod angen i'r lluniau Anatomeg a Ffisioleg fod yn fwy.

Myfyrddod/effaith:

Roedd manteision i'r myfyrwyr yn cynnwys gostyngiad mawr mewn amser a chostau teithio, ynghyd â chostau llety. Roedd myfyrwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n llai blinedig y diwrnod wedyn yn y gwaith oherwydd nad oedd angen teithio. Roedd rhai myfyrwyr yn dweud bod gwell ganddynt gael eu haddysgu ar-lein nag eistedd mewn ystafell o 20 i 40 o fyfyrwyr. Mae hyder wrth ddefnyddio platfform VLE y Sefydliad wedi dod yn gynyddol bwysig i gynhyrchu deunydd dysgu (yn cynnwys arddangosiadau fideo y bu defnydd prin arnynt hyd yma). Wrth i arholiadau agosáu neu pan nad oedd myfyrwyr yn gallu mynychu am unrhyw reswm (er enghraifft oherwydd ymrwymadau gwaith), cawsant gyfle i weld y sesiynau a recordiwyd. Mae'r defnydd cynyddol o'r VLE wedi rhoi cyfle i ddatblygu gweithgareddau cyn darlithoedd, gan osod pwyslais ar ddarllen cefndirol, sef rhywbeth na ddefnyddiwyd yn aml o'r blaen. Gall myfyrwyr ryddhau myfyrwyr ar gyfer eu gwaith, asesiadau ac aseiniadau Prifysgol ar amser sy'n gweddu iddynt, yn hytrach nag ar ddiwrnod penodol. Ni fu unrhyw amharu ar ddsygu'r myfyrwyr, er bod y pryder hwn wedi'i leisio i ddechrau o ran y dull hwn o addysgu.

Tripiau maes Olympaidd

(astudiaeth achos SM4)

Enw Cyswllt: Jacqui Jones

Ebost: jacqui.jones@smu.ac.uk

Ffôn: 01792481129

Sefydliad: Prifysgol Fetropolitan Abertawe

Cyfeiriad: Campws Mount Pleasant, Abertawe SA1 6ED

Geiriau allweddol: gwybodaeth am y diwydiant, sgiliau allweddol seiliedig ar waith, astudiaethau achos a gwaith astudiaeth maes.

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Trwy gydol y Gyfadran Busnes a Rheoli a defnydd penodol ar raglenni israddedig mewn Hamdden, Digwyddiadau, Twristiaeth a Chwaraeon.

Nod:

Dod â dysgu'n fyw y tu allan i ddarlithoedd a rhoi dealltwriaeth well i fyfyrwyr am ddiwydiant, cyflogadwyedd a'r gweithle trwy dripiâu astudiaeth maes a ffocws thematig craidd ar Gemau Olympaidd Llundain 2012.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r astudiaeth achos yn gysylltiedig â datblygiad tripiâu astudiaeth maes yn y Gyfadran Busnes a Rheoli, ac yn enwedig ar raglenni israddedig Digwyddiadau Hamdden, Twristiaeth a Chwaraeon. Mae tripiâu astudiaeth maes i sefydliadau a lleoliadau rhyngwladol yn dod yn fwyfwy poblogaidd i ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o'r diwydiant a'r gweithle er mwyn eu paratoi ar gyfer y gwaith. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â sefydliadau lleol yn rheolaidd yn ogystal ag ymchwil rhyngwladol. Mae'r rhaglen yn cynnwys trip maes cychwynnol ar Lefel 4 i geisio datblygu dealltwriaeth y myfyrwyr o'r diwydiant, y gwaith a chyfleoedd. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy drip gweithrediadau teithio rhyngwladol ar Lefel 5 i ddatblygu gwybodaeth y myfyrwyr o'r diwydiant a gwerthfawrogi sgiliau seiliedig ar waith trwy ofyn i'r myfyrwyr gynllunio a rheoli tripiâu i leoliadau rhyngwladol fel Llundain a'r Swisdir, a sefydliadau gwaith perthnasol. Yn olaf, mae 'Themâu Cyfoes' wedi dod yn fodiwl craidd ar Lefel 6 ar gyfer pob rhaglen Hamdden, Digwyddiadau, Twristiaeth a Chwaraeon ac mae'n cynnwys prosiect astudiaeth maes integredig gyda chyfle i ymweld â sefydliadau yn y DU neu dramor er mwyn datblygu eu profiad o'r diwydiant ymhellach. Mae'r fenter wedi'i chynllunio i ddatblygu'r myfyrwr o'r dechrau i adeg graddio, yn canolbwyntio ar y diwydiant a'r gweithle. Mae atgyfnerthu sgiliau yn cael ei gefnogi gan raglen integredig o ddysgu seiliedig ar waith ac yn galluogi myfyrwyr i werthfawrogi'n fanwl sgiliau allweddol, gwasanaeth gwsteion a chyflogadwyedd trwy ymweliadau seiliedig ar waith a darlithoedd gan westeion yn y diwydiant.

Yn 2011, a Gemau Olympaidd Llundain 2012 yn prysur agosáu, penderfynwyd creu ffocws thematig trwy'r Gyfadran ar y digwyddiad a defnyddio hyn fel cyfle i ddatblygu cyflogadwyedd y myfyrwyr i'w paratoi ar gyfer gwaith. O ganlyniad, cynlluniwyd trip cychwynnol i Lundain i fyfyrwyr trwy'r Gyfadran. Roedd hyn wedi galluogi'r myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a deall y gweithle trwy'r Gemau Olympaidd.

Oherwydd llwyddiant y fenter hon, rhagwelir y bydd y modiwl Themâu Cyfoes yn cael ei ddatblygu yn 2012 ar draws rhaglenni Busnes, gan roi modd i fyfyrwyr ennill profiad pellach o'r diwydiant trwy waith astudiaeth maes.

Deilliannau a Ragwelir:

Bydd y gwaith astudiaeth maes yn arwain at ddealltwriaeth well o faterion sy'n wynebu'r diwydiant mewn amrywiaeth o sefydliadau yn y DU ac yn rhyngwladol, a gwella mewn dealltwriaeth ar sgiliau seiliedig ar waith a chyflogadwyedd trwy werthfawrogi pwysigrwydd y sectorau i gyd yn y Gemau Olympaidd 2012. Hefyd, rhagwelir y bydd y fenter yn cynyddu ffocws ar sgiliau cyflogadwyedd graddedigion. Bydd y fenter yn hyrwyddo datblygu cysylltiadau gwaith agosach gyda'r diwydiant rhyngwladol er mwyn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach i fyfyrwyr ar faterion sefydliadol.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Mae'r fenter hon yn un newydd a deinamig, ac felly mae tystiolaeth hyd yma yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r tripiâu maes ac ymchwil o'r diwydiant eisoes wedi arddangos ymwybyddiaeth well gan fyfyrwyr am gyfleoedd yn y diwydiant a sgiliau seiliedig ar waith, ac maent yn fwy galluog wrth drafod a dadansoddi materion o bwys.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r fenter hon wedi dod â dysgu myfyrwyr yn fyw, ac yn eu galluogi i ddadansoddi materion yn y diwydiant a gwaith i fyfyrwyr uwchben eu profiadau.

Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol i Dde Orllewin Cymru

(astudiaeth achos RLPI)

Enw Cyswllt: RLP Manager Elid Morris

Ebost: e.morris@camarthenshire.gov.uk

Ffôn: 01554 742431

Sefydliad: Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol De Orllewin Cymru

Cyfeiriad: SParc Y Scarlets, Parc Pemberton, Llanelli SA14 9UZ

Geiriau allweddol: datblygu partneriaeth a brocera, Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol (RLSO), peilot e-borth, gwaith cydweithredol (dwyn ynghyd sefydliadau allweddol mewn addysg ac adfywio i wella cyfleoedd dysgu i ddysgwyr a darparwyr trwy Dde Orllewin Cymru).

Sut y cyflwynwyd y fenter:

Roedd cysyniad Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol i Dde Orllewin Cymru (RLP) wedi'i archwilio gyntaf ym Medi 2007. Roedd gweithdy a gynhaliwyd gan Goleg Sir Gâr a arweiniwyd gan Gyfarwyddwr Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi dwyn ynghyd amrywiaeth o bartneriaid o lywodraeth leol, addysg bellach, addysg uwch, y Trydydd Sector a darparwyr dysgu seiledig ar waith. Roedd y syniad o greu partneriaeth eang ei seiliau sy'n torri ar draws ffiniau daearyddol a sectorau ym maes addysg, dysgu gydol oes a sgiliau wedi cael croeso mawr. Roedd y partneriaid wedi cytuno ar weledigaeth, datganiad cenhadaeth ac amcanion allweddol ar gyfer cydweithrediad yn Ne Orllewin Cymru, a ffocws ar y dysgwyr, sgiliau a chyflogaeth. Mae'r RLP yn ategu 'swamwac' sef consortiwm addysg ranbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru o gyfarwyddiaethau awdurdod addysg lleol ar draws yr ardal, sydd wedi ymwneud â gwaith rhanbarthol ers sawl blwyddyn. Mae partneriaid RLP yn ymgysylltu â gweithgareddau swamwac ar ddarpariaeth 14-19 yn y rhanbarth. Mae'r RLP yn adeiladu ar y sylfaen hon trwy fynd i'r afael ag adfywio a ffocws ar sgiliau a chyflogaeth, a chreu partneriaeth ehangach o fudd-ddeiliaid cyhoeddus, preifat a sector gwirfoddol sydd â diddordeb mewn addysg ac adfywio. Mae cyfranogiad gweithredol budd-ddeiliaid â diddordeb cenedlaethol fel Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru Gorllewin wedi bod yn un o gynhwysion hanfodol er llwyddiant yr RLP hyd yma.

Mae cyllido trwy'r partneriaid, Llywodraeth Cymru a rhaglen Gydgyfeiriant Cronfa Strwythurol Ewropeaidd wedi galluogi cynnal prosiect trawsffurfio yn Ne Orllewin Cymru, a golwg ar brofi modelau llywodraethu priodol a datblygu cydweithrediad gwasanaethau cyhoeddus.

Nod:

Ers eu sefydlu yng nghyd-destun y Strategaeth 'Creu'r Cysylltiadau' mae'r prif ystyriaethau sy'n gyrru RLP yn cynnwys: cyfeiriadaeth at ddyblygiad darpariaeth a ffiniau dianghenraid sy'n cael eu profi gan y dysgwyr; ac fe'u cydnabuwyd ym misoedd cyntaf y bartneriaeth. Mae ffocws ar y dysgwyr yng nghanol darpariaeth strategol yn cael ei gydnabod yn allweddol. Cydnabuwyd y gellir gwneud y gorau o gyfleoedd cyllido trwy ddull cydweithredol (e.e. rhaglen Gydgyfeiriant Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd). Mae hyn wedi'i wireddu trwy brosiectau rhanbarthol allweddol. Mae'r RLP wedi brocera tendrau cyfrannol mewn ymateb i alw am gyflenwad

mewn modd cydlynus. Wrth i'r RLP ddatblygu, mae ei botensial i ddarparu modd ar gyfer cynllunio strategol cydweithredol yn seiliedig ar angen lleol a phwyslais ar ddarpariaeth leol yn cael ei wireddu. Mae cyflwyno strategaeth Addysg Uwch ranbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru yn enghraifft o weithgaredd o'r fath. Yng nghyd-destun Agenda Gweddnewid Llywodraeth Cymru, roedd y partneriaid wedi croesawu amcanion mwy uchelgeisiol ar gyfer yr RLP. Mae effaith dwyn ynghyd bartneriaid datblygiad economaidd ac adfywio gyda phartneriaid addysg a sgiliau yn un fforwm wedi cael manteision sylweddol i'r economi rhanbarthol. Y sialens sy'n wynebu'r Bartneriaeth yw mesur canlyniadau cysylltiedig ac effaith, ac ystyried cynladwyedd y Bartneriaeth pan ddaw cyllido Ewropeaidd i ben.

Disgrifiad/Dull:

Mae'r RLPSWW yn trawsnewid y modd mae partneriaid addysg ac adfywio yn gweithio ynghyd i helpu i roi dyfodol gwell i ddysgwyr yn Ne Orllewin Cymru. Mae gwaith gyda sefydliadau adfywio ac addysgol allweddol trwy Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe wedi'i ganmol gan Lywodraeth Cymru am ei ymdrechion i wella effeithiolrwydd, trwy ddwyn darparwyr hyfforddiant a sgiliau ynghyd, i uchafu cyfleoedd i ddysgwyr. Gyda chefnogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) trwy Lywodraeth Cymru a ffynonellau domestig eraill, mae'r RLP yn gweithio gydag awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, y Trydydd Sector a darparwyr dysgu seiledig ar waith. Mae cysylltiadau gyda'r sector preifat trwy Siambr Masnach De Cymru, gyda phartneriaid allweddol fel Gyrfa Cymru Gorllewin, Canolfan Byd Gwaith a NIACE Dysgu Cymru, i gyd yn gweithio ynghyd i ddatblygu amcanion y Bartneriaeth. Mae'r RLP yn gweithio i dri phrif biler; sef: datblygu a brocera partneriaeth, yr Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol (RLSO) a'r peilot e-borth.

Datblygu a brocera partneriaeth: Mae'r piler Datblygu a Brocera Partneriaeth yn ategu holl ethos yr RLP, o uchafu cyfleoedd cyllido allanol i ymateb ar y cyd i gyfleoedd tendr; o rannu arfer da am addysg oedolion a chymunedol, i gyflwyno strategaeth ar y cyd ar gyfer addysg uwch yn y rhanbarth.

Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol (RLSO): Mae'r Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol yn dwyn ynghyd ddata dealltwriaeth o'r farchnad leol (LMI) mewn fformat rhyngweithiol sengl. Mae arddangos data o addysg ac adfywio, a data cyd-destunol ar y rhanbarth fel y boblogaeth, trafniadaeth, amddifadiad, twristiaeth, ac iechyd yn rhoi darlun llawn i'r defnyddiwr ar y rhanbarth i helpu gyda chynllunio cwricwlwm, polisi ac adnabod cyfleoedd buddsoddi, a'r rhain i gyd yn cael eu cefnogi gan ddata ar anghenion sgiliau cyfredol a rhai a ragwelir.

Peilot e-borth: Nod sylfaenol e-borth yw bod yn fan cyrchu cynhwysfawr 'rithwir' i nifer o gynulleidfaoedd allweddol er mwyn ceisio gwella cyfraddau cyfranogiad, annog dychwelyd i ddysgu a hyrwyddo cyfleoedd sydd ar gael ynglŷn â dysgu a sgiliau.

Caiff y prosiect ei dreialu am 12 mis yn Abertawe fel cyd-fenter gan bartneriaid yn Ardal Adfywio Abertawe (SRA). Yn fwyaf diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu tua £130,000 o gyllid ar gyfer y cynllun, sy'n golygu datblygu e-borth electronig hawdd ei ddefnyddio sy'n cynnwys gwybodaeth am ddarpariaethau dysgu yn Abertawe. Bydd yn helpu cynulleidfaoedd targed trwy adnabod cyfleoedd sgiliau i ddysgwyr; yn cynnwys darpar geiswyr swyddi nad ydynt mewn cyflogaeth ar hyn o bryd. Rhan arall o'r e-borth fydd hysbysu cyflogaeth am y darparwyr addysg a all helpu i gyflenwi'r sgiliau sydd eu hangen, a lle y gellir eu cyflwyno i helpu i wella sgiliau'r gweithlu presennol. Dechreuodd y cynllun peilot ym Medi 2011.

Deilliannau a Ragwelir:

Caiff y deilliannau hyn eu cyflawni trwy:

- sefydlu, neu gysylltu â grwpiau/rhwydweithiau cyfredol, grwpiau gorchwyl a gorffen, timau prosiect a grwpiau gweithredu tymor hwy;
- rhannu gwybodaeth ac arfer da trwy weithgareddau datblygiad staff cyffediniol;
- rhannu methodolegau gwerthuso a systemau sicrhau ansawdd;
- mentrau marchnata a chyhoeddusrwydd ar y cyd;
- datblygu a chyflwyno prosiectau rhanbarthol, strategol, a gyllidir gan yr UE, sy'n cael eu cyflwyno'n lleol ac yn gydweithredol gan dimauartneriaeth priodol mewn cytundeb gyda'r partner arweiniol;
- datblygiad pellach dros amser, bydd y Bartneriaeth yn hysbysu ailstrwythuro a chomisiynau darpariaeth hyfforddiant ac addysg a gyllidir gan arian cyhoeddus trwy Dde Orllewin Cymru.

Tystiolaeth o ddeilliannau gwirioneddol:

Bu gwir awydd am newid gan y partneriaid a chydnabod mai'r allwedd i gyflenwi'n llwyddianus ar y tir yw adeiladu ar ben rhwydweithiau dysgu sirol a phartneriaethau adfywio lleol hir sefydledig a llwyddiannus.

Myfyrdod/effaith:

Mae'r RLP yn fodel uchelgeisiol, sy'n cael ei brofi a'i gyflwyno gyda chymorth cyllid Ewropeaidd, sydd wedi'i fatisio gan bartneriaid ag awydd am weddnewid. Mae nifer o sialensiau yn wynebu'r RLP yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gan gynnwys: cyflwyno'r strategaeth addysg uwch ac addysg bellach gydag ymgysylltiad pob partner; dealltwriaeth well ar rôl a chyfraniad y Trydydd Sector i'r sectorau addysg ac adfywio; alinio'r rhanbarth a pholisi a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru tra'n cynnal ymreolaeth leol; cyflwyno Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol fydd yn hysbysu cynllunio strategol y dyfodol, ac ymgysylltiad parhaus pob partner ar draws y sectorau niferus a daearyddiaeth eang y Bartneriaeth.



Dunne, E., Bennet, N. and Carré, C. (2000) Skill development in higher education and cyflogaeth. In: Coffield, F. (ed.) Differing visions of a Learning Society: Research findings. Volume I. Bristol: The Policy Press & ESRC.

Evans, C. (2008) Developing career management skills within the HE curriculum: a review and evaluation of different approaches. *International Journal of Management Education*. 6 (3).

Harvey, L. (2000) New realities: the relationship between higher education and employment. *Tertiary Education and Management*. 6, 3-17.

Lowden, K., Hall, S., Elliot, D. and Lewin, J. (2011) Employers' perceptions of the employability skills of new graduates. Ymchwil a gomisiynwyd gan yr Edge Foundation. Ar gael yn: http://www.kent.ac.uk/careers/docs/Graduate_cyflodwyedd_skills%202011.pdf [Ionawr 2012].

QAA (2009) Developing personal planning: guidance for Institutional policy and practice in higher education. Gloucester: QAA.

Rae, D., Martin, L., Ancliff, V. and Hannon, P. (2010) The 2010 Survey of Enterprise and Entrepreneurship in Higher Education. National Council for Graduate Entrepreneurship & Institute for Small Business & Entrepreneuriaeth. Cyflwynwyd y papur yn 33ain Cynhadledd ISBE Conference, Llundain, 2-4 Tachwedd. Ar gael yn: http://www.ncee.org.uk/publication/ISBE_Report.pdf [Chwefror 2012].

Rajagopal, K., Joosten–ten Brinke, D., Van Bruggen, J. and Sloep, P.B. (2012) Understanding personal learning networks: Their structure, content and the networking skills needed to optimally use them. *First Monday*. 17 (1-2). Ar gael yn: <http://www.uic.edu/htbin/cgiwrap/bin/ojs/index.php/fm/rt/printerFriendly/3559/3131> [Ionawr 2012].

Reeves, T.C., Herrington, J. and Oliver, R. (2002) Authentic activities and online learning. In: *Quality Conversations. Proceedings of the 2002 Annual International Conference of the Higher Education Research and Development Society of Australasia (HERDSA)*, pp.562–567. Ar gael yn: <http://www.herdsa.org.au/wp-content/uploads/conference/2002/papers/Reeves.pdf> [Ionawr 2012].

Rule, A. (2006). Editorial: The components of authentic learning. *Journal of Authentic Learning*. 3(1), 1-10.

UKCES (2009) *Employee Demand for Skills: A Review of Evidence & Policy – Executive Summary*. London: UKCES.

Watts, A.G. (2006) *Career development learning and employability. Learning and Employability Series 2*. York: The Higher Education Academy.

York, M. (2006) *Employability in higher education: what it is – what it is not, Learning and Employability Series 1*. York: The Higher Education Academy

Cysylltwch â ni

Academi Addysg Uwch Cymru
d/o Addysg Uwch Cymru
2 Caspian Point
Ffordd Caspian
Bae Caerdydd
Caerdydd

+44 (0) 292 0471 520
wales@heacademy.ac.uk

Yr Academi Addysg Uwch, 2012

Ni chaniateir atgynhyrchu na throsglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, boed electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llun-gopiïo, recordio neu unrhyw system storio ac adferiad heb ganiatâd ysgrifenedig y Golygydd. Caiff caniatâd o'r fath ei roddi fel arfer at ddibenion addysgol cyn belled â bod cydnabyddiaeth deilwng yn cael ei rhoddi..